Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Number: 15/2012

www.cymru.gov.uk

# Gwerthusiad o dair blynedd gyntaf y rhaglen Rhagori: Adroddiad Terfynol

# Gwerthusiad o dair blynedd gyntaf y rhaglen Rhagori: Adroddiad Terfynol

Dr Duncan Holtom gyda Dr Sarah Lloyd-Jones a chyfraniadau gan Rhodri Bowen a Jodie Sims, Uned Pobl a Gwaith

Mae'r farn sydd wedi'i mynegi yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilydd ac nid barn Llywodraeth Cymru ydyw o anghenraid

Am fwy o wybodaeth cysylltwch:
Enw: Alison Rees
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: Alison.Rees@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2012
ISBN: 978 0 7504 7422 1

© Hawlfraint y Goron 2012

Dymuna'r awduron ddiolch i Arweinydd Rhaglen Rhagori, Paul Morgan, Rheolwr Gwerthuso Rhagori, Alison Rees, aelodau presennol a chyn-aelodau o dîm Rhaglen Rhagori, gan gynnwys Graham Davies, Hillary Hill, Gordon MacDonald, Richard Matthews ac Adam Moorhouse ac aelodau o Gonsortia Rhanbarthol Rhagori gan gynnwys Alan Boxford, David Brunton, Hilary Cameron, Sue Davies, Brian George, Judith Hiller, Gareth Davies-Jones, Nicola Lo Celso a Nerys Snowball am eu cymorth a'u cefnogaeth yn ystod y broses o werthuso Rhagori. Estynnir diolchiadau hefyd i'r 60 ysgol, eu staff a'u disgyblion am ein croesawu ni a thrafod Rhagori gyda ni, ac i'r deunaw a gafodd eu cyfweld am roi eu hamser i'r gwerthusiad. Yn olaf, dyma ddiolch i Bethan Wyn-Jones am ei rôl yn y gwaith maes.

**CYNNWYS**


| | | |
|---|---|---|
| | Diolchiadau | 2 |
| 1. | Cyflwyniad | 4 |
| 2. | Prif Ganfyddiadau ac Argymhellion | 7 |
| 3. | Cyd-destun Rhagori | 20 |
| 4. | Nodau ac Amcanion y Gwerthusiad | 29 |
| 5. | Methodoleg | 31 |
| 6. | A lwyddodd Rhagori i Dargedu Disgyblion Difreintiedig? | 40 |
| 7. | A yw Rhagori wedi gwella Llwyddiant a Chyrhaeddiad Disgyblion Difreintiedig? | 58 |
| 8. | Gwahaniaethau o ran Effaith mewn Gwahanol Ysgolion | 73 |
| 9. | Effaith Cyllid Rhagori ar Ysgolion | 83 |
| 10. | Gwaddol Cyllid Rhagori ar gyfer Ysgolion | 94 |
| 11. | Effaith Cyllid Rhagori ar Blant sy'n Derbyn Gofal gan Awdurdodau Lleol | 96 |
| 12. | Effaith Cyllid Rhagori ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal gan Awdurdodau Lleol ar yr Awdurdodau Lleol | 130 |
| 13. | Rôl Llywodraeth Cymru | 136 |
| 14. | Rôl y Consortia Rhanbarthol a'r Awdurdodau Lleol | 162 |
| 15. | Rôl Ysgolion | 172 |
| 16. | Gwerth am Arian Rhagori | 175 |
| 17. | Casgliadau | 182 |
| 18. | Llyfryddiaeth | 194 |


**Atodiad**


| | |
|---|---|
| A1. Cyfweleion | 203 |
| A2. Dadansoddiad o Gynigion Blwyddyn Gyntaf Ysgolion Rhagori | 204 |
| A3. Braslun o drefn cyfweliad | 209 |

## CYFLWYNIAD

1.1. Lansiwyd rhaglen Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion (Rhagori) yn 2006. Rhaglen dwy flynedd oedd Rhagori i ddechrau gyda'r nod o "dargedu disgyblion difreintiedig a cheisio codi eu lefelau perfformiad" (Llywodraeth Cymru, 2006a). Yn 2008, cafodd y cyllid ar gyfer ysgolion ei ymestyn am ddwy flynedd arall a chafodd cyllid i gefnogi Plant sy'n Derbyn Gofal gan Awdurdodau Lleol ei ymestyn am dair blynedd arall.

1.2. Dros y cyfnod o dair blynedd (2006-2009) a drafodir yn yr Adroddiad Terfynol hwn, roedd £16.25 miliwn ar gael bob blwyddyn ar gyfer rhaglen Rhagori. O'r swm hwn, dyrannwyd oddeutu £14.5 miliwn i ysgolion cymwys[1], £1 miliwn i Awdurdodau Lleol i gefnogi cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol ym mlynyddoedd 10 ac 11 a'r gweddill ar gyfer y gwaith o weinyddu'r grant, trefnu digwyddiadau a gweithgareddau yn ganolog a gwerthuso. Ariannwyd y gefnogaeth a gafodd y rhaglen gan Gonsortia Rhanbarthol a Chydgysylltwyr Rhanbarthol hefyd.

1.3. Derbyniodd pob ysgol gydag o leiaf 50 o ddisgyblion o oedran ysgol statudol, lle'r oedd 20% neu fwy ohonynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYaDd), sef dangosydd procsi o anfantais economaidd-gymdeithasol, gyllid Rhagori. Derbyniodd cyfanswm o 648 o ysgolion gyllid yn 2006-2007, a oedd yn cynnwys 535 o ysgolion cynradd, 69 o ysgolion uwchradd a 32 o ysgolion arbennig. Roedd hyn yn cynrychioli tua 30% o ysgolion cynradd, 28% o ysgolion uwchradd a 75% o ysgolion arbennig (Estyn, 2010). Ac eithrio'r achosion lle cafodd ysgol ei chau neu lle cafodd ysgolion eu huno, parhaodd yr ysgolion hyn i dderbyn cyllid Rhagori[2] am dair blynedd academaidd, hyd at haf 2009. Roedd lefel y cyllid yr oeddent yn ei chael yn dibynnu ar nifer y disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am

[1] Dyrannwyd 14.6 miliwn yn 2006/07 a 14.4 miliwn yn 2007/08.
[2] Roedd yr ysgolion hynny lle'r oedd canran y disgyblion a oedd yn cael prydau ysgol am ddim wedi gostwng yn is na 20% yn dal i gael eu hariannu.

ddim. O ran cyllid, derbyniodd ysgolion cynradd rhwng £11,000 a £30,000[3], derbyniodd ysgolion uwchradd rhwng £47,000 a £220,000 a derbyniodd ysgolion arbennig rhwng £16,000 a £22,000.

1.4. Roedd gofyn i ysgolion ddefnyddio'r cyllid i dargedu "disgyblion a oedd dan anfantais neu a oedd mewn mwy o berygl o gyrhaeddiad isel – neu o adael addysg llawn amser heb unrhyw gymwysterau". Roedd modd defnyddio'r arian i gyllido:

- Cymorth ychwanegol yn y dosbarth gan gynnwys defnyddio mentoriaid dysgu;
- Gwaith unigol neu waith grŵp yn canolbwyntio ar lythrennedd, rhifedd ac agweddau eraill ar ddysgu;
- Gweithgareddau tu allan i oriau;
- Datblygu cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol;
- Cymorth gan y gymuned neu drwy ddatblygu gweithgareddau o dan y rhaglen ysgolion bro;
- Gwaith gyda sefydliadau Addysg Bellach neu bartneriaid eraill;
- Cymorth ymddygiad;
- Gwella presenoldeb;
- Cymorth ar gyfer disgyblion difreintiedig wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;
- Meithrin cysylltiadau gydag Unedau Cyfeirio Disgyblion ac unedau ymddygiadol arbenigol er mwyn gwella cyfleoedd addysgol i ddisgyblion a helpu i'w hail-integreiddio â'r brif ffrwd;
- Gweithgareddau sy'n ymwneud â datblygu rhaglenni eraill megis y Cyfnod Sylfaen a, mewn ardaloedd perthnasol, y rhaglen Dechrau'n Deg;
- Prynu offer arbenigol neu gymhorthion cyfathrebu er mwyn i ddisgyblion allu cymryd rhan yn y cwricwlwm;
- Yn achos ysgolion arbennig, datblygu prosiectau gydag ysgolion prif ffrwd;

[3] Erbyn trydedd flwyddyn Rhagori, roedd y ffigur hwn wedi gostwng i 528 o ysgolion cynradd.

- Adolygu a pharatoi ar gyfer unrhyw gymhwyster allanol a gymeradwywyd ar gyfer disgyblion dan 16;
- Gweithgareddau eraill y gallai'r ysgol brofi eu bod wedi'u datblygu'n benodol i dargedu'r grwpiau targed (Llywodraeth Cymru, 2006a).

1.5. O ystyried ehangder y gweithgareddau cymwys, aeth tîm rhaglen Rhagori ati i annog ysgolion i ganolbwyntio i ddechrau ar ddiben y grant: targedu disgyblion o gefndiroedd difreintiedig a gwella eu cyrhaeddiad, ac i ddefnyddio'r rhestr i'w helpu i nodi'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni hyn, yn hytrach na dechrau gyda'r rhestr o weithgareddau i ddewis sut i ddefnyddio'r cyllid Rhagori.

1.6. Dyrannwyd y grant Rhagori blynyddol o £1 miliwn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal er mwyn cefnogi cyrhaeddiad y plant hynny a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol, a hynny drwy ganolbwyntio ar wella'u canlyniadau addysgiadol, yn arbennig wrth iddynt ddynesu at sefyll arholiadau cyhoeddus yn 16 oed. Fodd bynnag, yn 2008, ymestynnwyd cwmpas y grant er mwyn galluogi Awdurdodau Lleol i ymyrryd ynghynt. At hynny, rhoddwyd mwy o bwyslais ar blant a oedd yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol a oedd hefyd yn cael eu haddysgu y tu allan i'r sir, ond a oedd yn dal i fod yng Nghymru.

## 2. PRIF GANFYDDIADAU AC ARGYMHELLION

**Cyd-destun Rhagori**

2.1. Roedd y llenyddiaeth a adolygwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn yn dangos perthynas gref rhwng tlodi a chyrhaeddiad isel mewn addysg (3.1-3.3). Mae'r bwlch rhwng cyrhaeddiad plant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig a'r rheiny o gefndiroedd mwy cefnog yn gysylltiedig â gwahaniaethau yn eu nodweddion a'u galluoedd unigol, eu teuluoedd a'r ysgol y maent yn ei mynychu (paragraffau 3.6-3.13).

**Targedu disgyblion o gefndiroedd difreintiedig drwy gyfrwng Rhagori**

2.2. Y mesur procsi gorau i fesur anfantais economaidd-gymdeithasol disgyblion ar lefel yr ysgol yw edrych ar bwy sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYaDd) (paragraffau 6.2-6.8).

2.3. Er bod cyrhaeddiad cyfartalog disgyblion mewn ysgol yn gostwng wrth i ganran y disgyblion yn yr ysgol honno sy'n gymwys i gael PYaDd gynyddu, nid oes 'pwynt critigol' lle mae cynnydd yng nghanran y disgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd yn arwain at ostyngiad anghymesur yng nghyrhaeddiad cyfartalog disgyblion o fewn yr ysgol (paragraffau 6.9-6.13).

2.4. Yn gyntaf, er mwyn i ysgol allu bod yn rhan o raglen Rhagori, roedd yn rhaid i 20% o'i disgyblion fod yn gymwys i gael PYaDd. Nodwyd yn y gwerthusiad, gan nad oes 'pwynt critigol', bod hyn yn taro cydbwysedd priodol rhwng cyrraedd cymaint o ddisgyblion difreintiedig â phosibl, tra hefyd yn sicrhau nad oedd yr adnoddau a oedd ar gael yn cael eu rhannu'n rhy eang (paragraffau 6.14-6.15).

2.5. Yn ail, er mwyn i ysgol gael ei chynnwys yn rhaglen Rhagori, roedd yn rhaid iddi gael o leiaf 50 o ddisgyblion. Daeth y gwerthusiad i'r casgliad bod y cyfyngiad hwn yn llai priodol, ac yn golygu nad oedd disgyblion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig mewn oddeutu 75 o ysgolion bach yn elwa ar gyllid Rhagori (paragraff 6.16).

2.6. Roedd y rhan fwyaf o ysgolion Rhagori yn targedu disgyblion difreintiedig. Fodd bynnag, roedd ysgolion Rhagori hefyd yn targedu nifer bach o ddisgyblion a oedd yn tangyflawni, ond nad oeddent o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig. At hynny, roedd rhai disgyblion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig a oedd â lefelau uwch o gyrhaeddiad yn cael eu targedu (paragraffau 6.18-6.20).

**Effaith Rhagori ar gyrhaeddiad a llwyddiant disgyblion**

2.7. Ers lansio rhaglen Rhagori yn 2007, mae cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd wedi cynyddu ledled Cymru, a hynny ym mhob un o'r pedwar Cyfnod Allweddol (paragraffau 7.3-7.5). Un mater allweddol i'w asesu wrth werthuso oedd i ba raddau yr oedd y cynnydd hwn yn gysylltiedig â Rhagori.

2.8. Mae'r cynnydd yng nghyrhaeddiad disgyblion PYaDd yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2 wedi bod yn uwch na'r cynnydd yng nghyrhaeddiad disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael PYaDd. O'r herwydd, gwelwyd y bwlch rhyngddynt yn lleihau rhwng 2007-2009 (paragraffau 7.3-7.5).

2.9. Fodd bynnag, roedd y cynnydd yng nghyrhaeddiad disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4 nad oeddent yn gymwys i gael PYaDd yn uwch na chynnydd disgyblion a oedd yn gymwys i gael PYaDd. O'r herwydd, cynyddodd y bwlch rhyngddynt rhwng 2007-2009 (paragraffau 7.3-7.5).

2.10. Yn hanesyddol, mae perfformiad disgyblion PYaDd wedi tueddu i fod yn is mewn ysgolion gyda chyfradd uwch o ddisgyblion PYaDd. Roedd yr ysgolion hyn yn gymwys i gael cyllid Rhagori. Rhwng 2006-2008, perfformiodd disgyblion PYaDd mewn ysgolion Rhagori yn well na disgyblion PYaDd mewn ysgolion nad oeddent yn cael cyllid Rhagori yng Nghyfnod Allweddol 2, a gwelwyd y bwlch rhwng disgyblion PYaDd mewn ysgolion Rhagori ac ysgolion nad oeddent yn cael cyllid Rhagori yn gostwng o 10.2 pwynt canran yn 2006 i 4.4 pwynt canran yn 2008. Fodd bynnag, yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, cynyddodd y bwlch mewn

cyrhaeddiad rhwng disgyblion PYaDd mewn ysgolion Rhagori ac ysgolion nad oeddent yn rhan o Rhagori yng Nghyfnod Allweddol 1, a phrin iawn oedd y newid yn y bwlch (paragraffau 7.6-7.7). Felly, mae'n debygol nad oedd y rhan fwyaf o'r cynnydd ym mherfformiad disgyblion PYaDd yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4 yn gysylltiedig â Rhagori.

2.11. Nododd yr holl ysgolion, y Cydgysylltwyr Rhanbarthol ac Arolygwyr Estyn bod y rhan fwyaf o ddisgyblion a oedd yn cael cymorth Rhagori yn datblygu'n dda. Mae'n ymddangos fod yr asesiad hwn yn anghyson â'r data ar gyrhaeddiad disgyblion. Fodd bynnag, mae'r asesiad hwn yn adlewyrchu cynnydd yn sgiliau sylfaenol disgyblion, yn ogystal â'u sgiliau a'u tueddiadau cymdeithasol ac emosiynol, sy'n golygu ei fod yn fesur ehangach na chyrhaeddiad (paragraffau 7.8-7.13).

**Gwahaniaethau o ran effaith mewn gwahanol ysgolion**

2.12. Nid yw effaith Rhagori ar ddisgyblion wedi bod yr un peth ym mhob ysgol: mae disgyblion mewn rhai ysgolion wedi cyflawni fwy nag eraill. Mae'r gwerthusiad yn dod i'r casgliad bod llawer o'r gwahaniaethau hyn yn ymwneud ag effeithiolrwydd yr ysgolion a'r ffaith eu bod yn wynebu gwahanol heriau (paragraffau 8.2. 8.8).

2.13. Roedd yr ysgolion mwyaf effeithiol yn y sefyllfa orau i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddaeth yn sgil Rhagori i ddatblygu strategaethau i weithredu ar y cysylltiad rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a lefelau cyrhaeddiad isel. Roedd rhai ysgolion yn gallu defnyddio cyllid Rhagori i ehangu ar eu hymdrechion presennol i ddod yn fwy strategol, gan arbrofi â dulliau newydd a dod yn fwy effeithiol wrth dargedu a mynd i'r afael ag anghenion (paragraffau 8.7. 8.8).

2.14. Mae tystiolaeth yn awgrymu mai'r strategaethau mwyaf effeithiol yw'r rhai holistaidd sy'n defnyddio dulliau 'meddwl trwy systemau' i fynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a lefelau cyrhaeddiad isel. A pham hynny? Gan nad un ffactor yn unig sy'n achosi anfantais economaidd-

gymdeithasol, ac felly mae mynd i'r afael â mwy o ffactorau yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd anghenion penodol plentyn yn cael eu diwallu a'n bod yn gweithredu ar wendidau penodol sy'n cyfrannu at dangyflawni. At hynny, mae'n bosibl cael synergedd rhwng gwahanol ymyriadau ac mae strategaethau holistaidd yn lleihau'r perygl y bydd gwahanol ymyriadau yn gwrthdaro neu yn diddymu ei gilydd (paragraffau 8.9. 8.12).

**Effaith cyllid Rhagori ar ysgolion**

2.15. Cafodd Rhagori ystod o effeithiau cadarnhaol ar ysgolion. Roeddent yn cynnwys cynnydd mewn ymwybyddiaeth a, mewn rhai achosion, dealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a chyrhaeddiad isel mewn addysg (paragraffau 9.2-9.3); galluogi, cynnal ac mewn rhai achosion, sbarduno camau gweithredu i fynd i'r afael â'r cysylltiad (paragraffau 9.4-9.5); datblygu staff a chyflwyno dulliau gweithio newydd (paragraffau 9.6-9.8); datblygu ac ymestyn y cwricwlwm (paragraffau 9.9-9.10); cefnogaeth fwy effeithiol i ddisgyblion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig (paragraffau 9.9-9.10) a gwella prosesau monitro a gwerthuso (paragraffau 9.11-9.12).

**Etifeddiaeth rhaglen Rhagori**

2.16. Mae bron i bob ysgol a dderbyniodd gyllid Rhagori yn awyddus i sicrhau effeithiau hirdymor y rhaglen, ond bydd rhai newidiadau yn haws eu cynnal nag eraill. Bydd newidiadau yn niwylliant ac arferion gweithio sydd wedi'u 'gwreiddio' yn yr ysgol, megis newidiadau yn nealltwriaeth athrawon o'r cysylltiadau rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a lefelau cyrhaeddiad isel, yn haws i'w cynnal na'r rheiny a 'ymestynnodd' yr ysgol e.e. cyflogi staff cymorth ychwanegol (paragraffau 10.1-10.3).

**Effaith cyllid Rhagori ar blant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol**

2.17. Ar lefel genedlaethol, bu cynnydd yng nghyfradd y plant a oedd yn derbyn gofal gan eu Hawdurdod Lleol yng Nghymru a lwyddodd i ennill o leiaf un ac o leiaf pump TGAU A*-G dros y cyfnod 2002-2008 (paragraffau 11.3-11.9).

2.18. Roedd cyfradd y cynnydd mewn plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdod Lleol a lwyddodd i gael o leiaf un TGAU A*-G ychydig yn uwch yn ystod cyfnod Rhagori (2007-2009) o'i gymharu â'r pum mlynedd cyn hynny (2002-2006) (paragraffau 11.3-11.9).

2.19. Roedd cyfradd y cynnydd mewn plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol a lwyddodd i gael o leiaf pump TGAU A*-G yn debyg yn ystod cyfnod Rhagori (2007-2009) i gyfradd y pum mlynedd cyn hynny (2002-2006) (paragraffau 11.3-11.9).

2.20. Ar y cyfan, er mai ychydig iawn o dystiolaeth sy'n dangos effaith gadarnhaol rhaglen Rhagori ar gyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol, cafwyd tystiolaeth gryfach gan Gydgysylltwyr Plant sy'n Derbyn Gofal yn ogystal â phlant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol bod Rhagori wedi cael effaith gadarnhaol ar eu profiadau addysgol a'u sgiliau a'u tueddiadau cymdeithasol ac emosiynol. Mae'r canfyddiad hwn yn gyson â gwerthusiadau o fentrau tebyg yn Lloegr (paragraffau 11.22-11.23, 11.34-11.35).

2.21. Mae tystiolaeth o effaith cyllid Rhagori ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol ar ysgolion ac Awdurdodau Lleol yn gadarnhaol, ond yn anghyflawn (paragraffau 12.1-12.4).

**Rôl Llywodraeth Cymru**

2.22. Er bod Rhagori yn cael ei chyflwyno fel un rhaglen, mae wedi ei rhannu'n ddwy ran mewn gwirionedd. Mae'r ddwy ran, sef ysgolion ar y naill law a phlant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol ar y llall, wedi gweithredu fel dwy raglen ar wahân (paragraff 13.1).

2.23. Daeth cynigion am gyllid Rhagori ar gyfer ysgolion i law yn eithaf buan ac i ddechrau, prin iawn oedd y cyswllt ag Awdurdodau Lleol. Roedd hyn, ynghyd â phryderon bod y cynigion yn eithrio Awdurdodau Lleol, yn golygu nad oedd llawer

o ysgolion yn cael eu cefnogi a'u herio'n ddigonol gan Awdurdodau Lleol wrth fynd ati i ddatblygu cynigion ar gyfer defnyddio cyllid Rhagori.  Wrth i'r rhaglen ddatblygu, gwelwyd cyswllt yr Awdurdodau Lleol â rhaglen Rhagori yn gwella'n sylweddol, ond cyfrannodd y problemau cychwynnol at wendidau yng nghynigion llawer o ysgolion (paragraffau 13.2-13.15).

2.24. Mae pob un o'r themâu a nodwyd ar gyfer pedwaredd flwyddyn cyllid Rhagori yn briodol, er bod tystiolaeth yn nodi bod mwy o alw am rai themâu a bod rhai themâu yn fwy effeithiol na'i gilydd. Yn unigol, nid yw'r themâu yn cynnwys meysydd pwysig megis arweinyddiaeth ac addysgeg. Fodd bynnag, o edrych ar y themâu yng nghyd-destun polisïau eraill Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys y meysydd hyn ac sy'n pwysleisio'r angen am feddwl trwy systemau, maent yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer ysgolion sy'n dymuno nodi camau gweithredu i fynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a chyrhaeddiad isel mewn addysg (paragraffau 13.7.-13.25).

2.25. Roedd cynigion am gyllid Rhagori i gefnogi plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yn haws i'w gweinyddu, a hynny gan fod cyllid yn cael ei ddatganoli'n uniongyrchol i Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, roedd gwendidau hefyd yn yr amrywiaeth a'r mathau o gynigion a gyflwynwyd gan Awdurdodau Lleol (paragraff 13.26-13.27).

2.26. Roedd prif nod Rhagori, sef targedu disgyblion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig a gwella eu cyrhaeddiad, yn cyd-fynd â'r amcanion yn y ddogfen *Y Wlad Sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith*. Food bynnag, ar lefel weithredol, nid yw Rhagori wedi alinio cystal â rhaglenni a pholisïau eraill Llywodraeth y Cynulliad a ddyluniwyd i gefnogi'r amcanion strategol hyn (paragraffau 13.28-13.29).

### Rôl Consortia Rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol

2.27. Mae'r gefnogaeth a roddwyd i ysgolion gan Awdurdodau Lleol wedi bod yn anghyson (paragraffau 14.2-14.3).

2.28. Mewn dau Gonsortiwm, gwelwyd arweinyddiaeth gref gan uwch swyddogion, sydd wedi helpu i ddatblygu dull mwy strategol o weithredu ar y cysylltiad rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a chyrhaeddiad isel mewn addysg. Yn y ddau gonsortiwm arall, Cydgysylltwyr Rhanbarthol a oedd yn arwain. Yn un o'r consortia hyn, roedd y Cydgysylltydd yn gweithio'n agos ag Awdurdodau Lleol ac ysgolion i ddatblygu rhaglen Rhagori tra yn y llall, roedd y gwaith yn canolbwyntio fwy ar ysgolion unigol *(*paragraff 14.4).

2.29. Mae peth gwrthdaro yn yr asesiadau o effaith y Cydgysylltwyr Rhanbarthol: mae rhai ysgolion o'r farn bod eu gwaith wedi bod o werth tra bo ysgolion eraill, yn ogystal ag Estyn, yn fwy amheus o'u cyfraniad. Mae Cydgysylltwyr Rhanbarthol yn dadlau'n gryf yn erbyn yr asesiad hwn ac yn credu i bobl gamddeall eu rôl, sy'n cynnwys gweithio gydag ysgolion, ond sydd hefyd yn ehangach na hynny (paragraffau 14.6-14.11).

2.30. Yn aml, nid oedd gwaith a gyllidwyd dan raglen Rhagori wedi'i integreiddio'n effeithiol â strategaethau Awdurdodau Lleol i fynd i'r afael â thlodi plant (paragraffau 14.13-14.16).

**Rôl ysgolion**

2.31. I ddechrau, ychydig iawn o amser a oedd gan ysgolion i baratoi a dewisodd llawer ohonynt droedio llwybrau cyfarwydd gan ganolbwyntio'n aml ar lythrennedd. Mewn llawer o ysgolion, gwelwyd y cynigion yn datblygu dros amser, gan ddod yn fwy holistaidd (paragraff 15.1).

2.32. Mae ymdrechion ysgolion i fonitro gwaith a gyllidir gan Rhagori wedi bod yn fwy effeithiol na'u hymdrechion i'w werthuso (paragraffau 15.2-15.4).

**Rhagori – Gwerth am arian**

2.33. Nid yw'n bosibl mesur cost na budd ariannol rhaglen Rhagori fesul disgybl, ac o'r herwydd, mae hyn yn ei gwneud yn anodd asesu'r rhaglen yn y modd hwn (paragraffau 16.3.-16.6).

2.34. Mae asesiad ansoddol o'r rhaglen o ran gwerth am arian yn awgrymu ei bod wedi cynnig ffordd eithaf effeithiol o ddosbarthu cyllid ond bod effaith (neu werth) y cyllid hwn wedi'i gyfyngu gan wendidau yn y rhaglen (paragraff 16.5).

**Casgliadau**

2.35. Nod Rhagori oedd targedu disgyblion difreintiedig a gwella eu cyrhaeddiad. Nid oedd y broses dargedu yn berffaith ac, o'r herwydd, dewisodd llawer o ysgolion hyrwyddo canlyniadau cyfartal yn hytrach na chyfleoedd cyfartal drwy dargedu disgyblion a oedd yn tangyflawni yn hytrach na'r rheiny a oedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Serch hynny, llwyddodd y rhaglen i gyrraedd nifer fawr o ddisgyblion difreintiedig. Mae tystiolaeth o'r effaith ar eu cyrhaeddiad i'w gweld orau yn nisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2, er bod peth tystiolaeth yn dangos bod y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar sgiliau sylfaenol disgyblion, yn ogystal â'u sgiliau a'u tueddiadau cymdeithasol ac emosiynol ym mhob un o'r pedwar Cyfnod Allweddol (paragraffau 17.1, 17.27).

2.36. Mae tystiolaeth o raglen Rhagori a'r llenyddiaeth yn awgrymu bod ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig lle'r oedd disgyblion yn perfformio'n well na'r disgwyl o ystyried eu cefndir economaidd-gymdeithasol, yn gwneud hynny'n bennaf gan eu bod yn ymgorffori egwyddorion ysgol effeithiol. Maent yn effeithiol, yn rhannol, gan fod ymyriadau, megis rhaglenni i wella sgiliau sylfaenol, yn rhan o strategaeth holistaidd sydd wedi'i datblygu i leihau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad a phrofiadau addysgol disgyblion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol mwy breintiedig, a rhai o gefndiroedd llai breintiedig (paragraff 17.3).

2.37. Mae rhaglen Rhagori wedi dangos sut y gall cyllid ychwanegol helpu ysgolion i ddod yn fwy effeithiol o ran sicrhau bod pob disgybl yn llwyddo i gyrraedd ei

botensial, ond nid yw'n ddigon ar ei ben ei hun. Mae Rhagori yn dangos bod yr hyn y mae ysgol yn ei wneud yn bwysicach na'r swm y mae hi'n ei wario. At hynny, er bod llawer o dystiolaeth a chonsensws eang ar beth y gall ysgolion ei wneud i helpu plant i gyflawni mwy, mae llai o gonsensws ar sut y gall ysgol gymhwyso a defnyddio'r wybodaeth hon i fod yn fwy effeithiol. Tra bo Rhagori wedi cyfrannu at y ddealltwriaeth hon, gan ddangos gwerth a chyfyngiadau cyllid ychwanegol, mae'r dystiolaeth a ddarperir gan y rhaglen yn anghyflawn (gweler paragraffau 17.4-17.5).

2.38. Mae casgliadau tebyg yn berthnasol i gyllid Rhagori ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod yr Awdurdodau Lleol mwyaf effeithiol yn llwyddo i sicrhau canlyniadau da nid yn unig am eu bod yn darparu cymorth ychwanegol, ond gan fod y cymorth hwn hefyd yn rhan o ddull gweithredu ehangach (paragraff 17.8).

2.39. Roedd prif gryfderau rhaglen Rhagori yn cynnwys datganoli arian yn uniongyrchol i ysgolion (paragraffau 17.10-17.12); y modd yr oedd yn mynd i'r afael ag effaith anfantais economaidd-gymdeithasol ar lefel disgyblion a lefel yr ysgol fel ei gilydd (paragraff 17.16) a'r pwyslais a roddwyd ar gryfhau cydweithio mewn dau faes (paragraff 17.17).

2.40. Roedd prif wendidau rhaglen Rhagori yn cynnwys y modd yr oedd yr arian yn cael ei ddatganoli'n uniongyrchol i ysgolion (paragraff 17.19); y brys i ddatblygu'r rhaglen a'r methiant cychwynnol i lynu at ddull meddwl trwy systemau neu ddull diwygio ar dair lefel wrth gynllunio neu weithredu (paragraff 17.20); gwaith cynllunio ysgolion ar gyfer pontio disgyblion Rhagori o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 (paragraff 17.23); natur gyfyngedig y cyllid (paragraffau 17.24-17.25) ac effaith gyfyngedig y rhaglen ar ddisgyblion na chafodd eu targedu i dderbyn cymorth (paragraff 17.26).

**Argymhellion**

2.41. Roedd Rhagori yn cefnogi'r ymrwymiad a wnaed yn *Y Wlad Sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith* (Llywodraeth Cymru, 2006c), sef strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer dysgu, i "gau'r bwlch" rhwng cyrhaeddiad disgyblion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol mwy breintiedig a chefndiroedd llai breintiedig. Roedd yn cynrychioli un o ystod o fentrau a oedd yn cefnogi'r nod hwn[4], ac un o ganfyddiadau allweddol y gwerthusiad hwn yw y dylai'r holl weithgareddau hyn fod yn gysylltiedig â strategaeth gyffredinol ar gyfer gwella cyrhaeddiad dysgwyr difreintiedig a chau'r bwlch rhwng eu perfformiad hwy a pherfformiad dysgwyr eraill. Yn y cyd-destun hwnnw, mae'r gwerthusiad hwn wedi nodi'r angen am gamau gweithredu penodol ar ran ysgolion, Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru. Mae'n hanfodol bod y camau hyn yn cyfuno i lunio dull cydlynol ar draws pob un o dair lefel y system addysg.

**Dylai ysgolion:**

2.41.1. Sicrhau bod natur y cysylltiad rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a chyrhaeddiad isel mewn addysg yn cael ei gydnabod a'i ddeall yn eang gan arweinwyr ysgolion, athrawon a staff cymorth.

2.41.2. Sicrhau bod gan arweinwyr ysgolion, athrawon a staff cymorth ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion difreintiedig economaidd-gymdeithasol, er mwyn sicrhau nad yw'r cysylltiad rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a chyrhaeddiad isel mewn addysg yn esgus am dangyflawni.

2.41.3. Gwella eu gallu i nodi a diwallu anghenion disgyblion sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol a'r rheiny â lefelau cyrhaeddiad canolig neu uchel.

---

[4] Mae'r rhain yn cynnwys mentrau sy'n rhan o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, y Strategaeth a'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb, y canllawiau a'r rheoliadau statudol ar gynhwysiant a chymorth disgyblion ac ar iechyd, addysg a lles plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol a'r strategaeth tlodi plant sydd ar y gorwel. Mae pob un ohonynt yn cynnwys mesurau i gefnogi disgyblion dan anfantais economaidd-gymdeithasol a'u teuluoedd.

2.41.4. Integreiddio ymyriadau a anelir at wella cyrhaeddiad disgyblion dan anfantais economaidd-gymdeithasol, megis cymorth llythrennedd, yn strategaethau ysgol gyfan i wella cyrhaeddiad.

2.41.5. Gweithio gydag eraill er mwyn mynd i'r afael â symptomau anfantais economaidd-gymdeithasol a'r hyn sydd wrth wraidd y broblem mewn modd cydgysylltiedig. Mae hyn yn debygol o olygu ymgysylltu â rhieni, gofalwyr a'r gymuned ac amrywiaeth o bartneriaid o'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol.

2.41.6. Gwella'r dulliau o werthuso effaith eu gwaith i nodi a chefnogi disgyblion dan anfantais economaidd-gymdeithasol, a hynny drwy ddefnyddio prif ddangosyddion, megis llwyddo i gyrraedd lefelau disgwyliedig ym mhob Cyfnod Allweddol, a dangosyddion ategol, megis mesur cynnydd mewn sgiliau sylfaenol a sgiliau a thueddiadau cymdeithasol ac emosiynol.

2.41.7. Gweithio gydag ysgolion eraill yn eu clwstwr i sicrhau bod disgyblion dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn parhau i dderbyn cefnogaeth pan fyddant yn symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

**Mae Rhagori yn awgrymu y dylai Awdurdodau Lleol:**

2.41.8. Weithio gydag ysgolion i'w helpu i ymgorffori newidiadau sy'n llwyddo i gefnogi disgyblion dan anfantais economaidd-gymdeithasol fel y gellir eu cynnal yn haws.

2.41.9. Targedu cymorth ychwanegol at ddisgyblion dan anfantais economaidd-gymdeithasol mewn ysgolion gyda chyfran uchel o ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd, sy'n debygol o fod ddwywaith yn fwy difreintiedig.

2.41.10. Monitro a gwerthuso perfformiad disgyblion PYaDd mewn ysgolion a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio strategaethau i gefnogi a, lle bo'n briodol, herio ysgolion nad ydynt yn gwella cyrhaeddiad disgyblion dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

2.41.11. Mynd ati i fonitro a gwerthuso perfformiad disgyblion dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn drwyadl (gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau

Lleol) ar lefel yr Awdurdod Lleol, gan feincnodi eu perfformiad yn erbyn Awdurdodau Lleol eraill, gan gynnwys y rheiny yn eu consortia rhanbarthol, a grwpiau eraill o ddisgyblion.

2.41.12. Datblygu strategaethau integredig i wella cyrhaeddiad dysgwyr difreintiedig a fydd yn sicrhau cydlyniad ar draws strategaethau tlodi plant lleol, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc a'r holl wasanaethau cymdeithasol a pholisïau addysg.

**Mae Rhagori yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru:**

2.41.13. Fynd ati i ddadansoddi perfformiad disgyblion PYaDd yn fwy effeithiol, a hynny ar lefel Awdurdodau Lleol ac ar lefel genedlaethol, a gwella mynediad at y dadansoddiad hwn a chodi ymwybyddiaeth ohono.

2.41.14. Gweithio gydag arolygiaethau, megis Estyn, i gryfhau'r gwerthusiad o berfformiad disgyblion dan anfantais economaidd-gymdeithasol ar lefel yr ysgol, lefel yr Awdurdod Lleol ac ar lefel genedlaethol.

2.41.15. Sicrhau bod polisïau a rhaglenni yn y maes hwn yn y dyfodol yn defnyddio dulliau meddwl trwy systemau a diwygio ar dair lefel er mwyn sicrhau bod cyllid a mentrau'r dyfodol i gefnogi disgyblion dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael eu datblygu mewn partneriaeth ac yn cael eu hintegreiddio â pholisïau cyfiawnder cymdeithasol a gofal cymdeithasol ar lefel genedlaethol, ar lefel leol ac ar lefel yr ysgol.

2.41.16. Sicrhau bod cyllid i gefnogi disgyblion dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn y dyfodol yn defnyddio Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Cymru i ddarparu cefnogaeth, heriau ac amcanion clir a strwythurau a phrosesau atebolrwydd.

2.41.17. Cynyddu'r amrywiad yn y cyllid a roddir i ysgolion er mwyn cefnogi disgyblion dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn fwy effeithiol.

## 3. CYD-DESTUN RHAGORI*[5]

**Cyflwyniad: y bwlch mewn cyrhaeddiad**

3.1. Mae'r berthynas rhwng anfantais a chyrhaeddiad isel mewn addysg yn glir. Mae tystiolaeth o Astudiaeth Carfan y Mileniwm, sef astudiaeth hydredol bwysig o ddatblygiad y plentyn yn y DU, wedi nodi gwahaniaethau yn natblygiad plant o deuluoedd breintiedig a theuluoedd difreintiedig mor gynnar â naw mis oed. Erbyn iddynt gyrraedd tair blwydd oed, mae plant o gefndiroedd difreintiedig (a ddiffinnir yn nhermau tlodi teulu a lefelau addysg isel ymysg rhieni) hyd at flwyddyn y tu ôl i blant o deuluoedd mwy breintiedig (Feinstein et al, 2007).

3.2. Mae'r bwlch yn natblygiad cynnar plentyn yn cyfrannu at y bwlch yng nghyrhaeddiad addysgol wrth i blant symud o un flwyddyn ysgol i'r llall. Mae plant o gefndiroedd difreintiedig yn dueddol o ddechrau y tu ôl i'w cyfoedion mwy breintiedig ac yn dueddol o ddisgyn ymhellach y tu ôl wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Yn fwy trawiadol fyth, mae tystiolaeth o astudiaethau Cohort 1958 ac 1970 yn dangos hyd yn oed pan fo plant o gefndiroedd difreintiedig yn dechrau yn y chwarter uchaf o ddisgyblion o ran darllen a mathemateg, maent yn dueddol o ddisgyn y tu ôl i ddisgyblion eraill wrth iddynt symud drwy'r ysgol (Feinstein et al, 2008). Gwelwyd patrwm tebyg mewn astudiaeth ddiweddar o gynnydd plant rhwng 1998 a 2003 a noddwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree (Cassen a Kingdon, 2008).

3.3. Gellir defnyddio data meincnodi i archwilio'r bwlch mewn cyrhaeddiad. Mae'r dull hwn yn grwpio ysgolion gyda chyfrannau tebyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd yn wahanol fandiau, megis ysgolion lle mae llai na 10% o'u disgyblion yn gymwys i gael PYaDd. Mae'n golygu bod modd cymharu perfformiad ysgolion, sy'n cael ei fesur yn ôl canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ym mhob cyfnod allweddol, gyda pherfformiad disgyblion mewn ysgolion eraill sydd yn yr un band a chyda ysgolion mewn bandiau eraill.


[5] Addaswyd yr adran hon o Holtom a Sims, 2008

3.4. Mae graff 3.1 yn defnyddio data meincnodi ar gyfer 2007, sef blwyddyn gyntaf Rhagori, i archwilio ac arddangos y bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng perfformiad disgyblion mewn ysgolion yng Nghymru gyda chyfrannau uchel (>30%) a chyfrannau isel (<10%) o ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd, a hynny yng Nghyfnod Allweddol 3 lle mae'r bwlch ar ei fwyaf. Er mwyn cymharu perfformiad disgyblion mewn ysgolion yn y ddau gategori hyn (h.y. ysgolion gyda lefelau uchel neu isel o ddisgyblion PYaDd) defnyddir tri mesur:

- Y chwartel uchaf – y gwahaniaeth rhwng cyrhaeddiad cyfartalog disgyblion yn chwarter uchaf yr ysgol a chyrhaeddiad y tri chwarter sy'n weddill. Mae'r mesur hwn yn dangos perfformiad disgyblion mewn ysgol sy'n perfformio'n eithaf da ym mhob un o'r ddau gategori;
- Yr haen ganol – y gwahaniaeth rhwng cyrhaeddiad cyfartalog disgyblion yn hanner uchaf yr ysgol a chyrhaeddiad disgyblion yn yr hanner isaf. Mae'r mesur hwn yn dangos perfformiad disgyblion mewn ysgol sy'n perfformio'n gymedrol ym mhob un o'r ddau gategori;
- Y chwartel isaf – y gwahaniaeth rhwng cyrhaeddiad cyfartalog disgyblion yn chwarter isaf yr ysgol a chyrhaeddiad y tri chwarter sy'n weddill. Mae'r mesur hwn yn dangos perfformiad disgyblion mewn ysgol sy'n perfformio'n eithaf gwael ym mhob un o'r ddau gategori;

3.5. Mae graff 3.1 yn defnyddio'r tri mesur hyn i gymharu perfformiad disgyblion yn y ddau gategori. Yn fwyaf trawiadol, mae'n dangos y gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion yn chwartel uchaf ysgolion lle mae mwy na 30% o'u disgyblion yn gymwys i gael PYaDd (sy'n cynrychioli ysgolion sy'n perfformio'n eithaf da yn y categori hwn), a pherfformiad disgyblion yn chwartel isaf ysgolion lle mae llai na 10% o'u disgyblion yn gymwys i gael PYaDd (sy'n cynrychioli ysgolion sy'n perfformio'n eithaf gwael yn y categori hwn). Mae'r gymhariaeth yn dangos bod perfformiad disgyblion, hyd yn oed yn yr ysgolion hynny sy'n perfformio'n eithaf da yn y categorïau PYaDd uchel, yn llusgo y tu ôl i berfformiad disgyblion mewn ysgolion sy'n perfformio'n eithaf gwael yn y categori PYaDd isel.

**Ffig 3.1. Data meincnodi Cyfnod Allweddol 3, 2007**




| Tabl 3.1. Data meincnodi Cyfnod Allweddol 3, 2007 | | | |
|---|---|---|---|
| | Chwartel isaf | Haen ganol | Chwartel uchaf |
| Ysgolion lle mae hyd at 10% o'u disgyblion yn gymwys i gael PYaDd | 66% | 71% | 75% |
| Ysgolion lle mae dros 30% o'u disgyblion yn gymwys i gael PYaDd | 32% | 38% | 40% |

*Ffynhonnell: Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion*

**Ffactorau sy'n dylanwadu ar gyrhaeddiad addysgol**

3.6. Wrth fynd ati i archwilio pam mae cymaint o amrywiad yng nghyrhaeddiad plant o wahanol gefndiroedd, mae gwaith ymchwil wedi nodi amrywiaeth o ffactorau sy'n dylanwadu ar gyrhaeddiad. Gellir grwpio'r rhain yn dair thema, a drafodir yn fanylach isod:

- Nodweddion a gallu unigol
- Y teulu
- Ysgolion

3.7. Mae’r prif **nodweddion unigol** a gaiff eu cysylltu mewn modd cadarnhaol â chyrhaeddiad yn cynnwys: rhyw (merched fel arfer yn perfformio yn well na bechgyn)[6]; grwpiau ethnig penodol[7]; ymddygiad a phresenoldeb da; sgiliau gwybyddol ac anwybyddol; dim anghenion addysgol arbennig; cael eich geni yn gynharach yn y flwyddyn ysgol; cyrhaeddiad cryf yn flaenorol; dyheadau uchel a chymhelliad ac awydd cryf i ddysgu (Duckworth et al, 2009; Feinstein et al, 2004). Yr hyn sy’n allweddol yw bod llawer o’r ffactorau yn gysylltiedig, sy’n golygu y gallant gael effaith gronnus pan fo plentyn neu berson ifanc yn agored i fwy nag un ffactor risg o ganlyniad i, er enghraifft, rhyw, cefndir ethnig ac anghenion addysgol arbennig.

3.8. Mae’r prif nodweddion **teuluol** a gaiff eu cysylltu mewn modd cadarnhaol â chyrhaeddiad yn cynnwys: statws economaidd-gymdeithasol uchel (gan gynnwys ffactorau megis rhieni cyflogedig sy’n ennill incwm uchel); amgylchedd dysgu effeithiol yn y cartref (e.e. darllen i blant yn rheolaidd) ac ymgysylltiad rhieni mewn addysg; dyheadau a diddordeb rhieni yn addysg eu plentyn[8]; dim magwraeth mewn cartref gofal (h.y. ddim yn blentyn sy’n derbyn gofal); bod yn rhan o deulu sefydlog gyda pherthynas dda rhwng aelodau o’r teulu; bod yn rhan o deulu llai; rhieni, mamau yn arbennig, sydd wedi derbyn lefel uchel o addysg yn flaenorol ac yn olaf, osgoi bod yn fam yn ei harddegau (Duckworth et al, 2009; Feinstein et al, 2004). Fel gyda nodweddion a galluoedd unigolion, mae llawer o’r ffactorau teuluol hyn yn gysylltiedig neu’n perthyn i’w gilydd, er enghraifft:

---

[6] Er enghraifft, yng Nghyfnod Allweddol 3, lle mae’r bwlch ar ei fwyaf, mae canran y merched sydd wedi llwyddo i gyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd (CSI) wedi bod rhwng 9 a 10 pwynt canran yn uwch na chanran y bechgyn a lwyddodd i gyrraedd y CSI (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010).

[7] Er enghraifft, llwyddodd canran uwch o ddisgyblion o gefndir ethnig Tsieinïaidd neu Brydeinig Tsieinïaidd i gyrraedd y CSI nag unrhyw grŵp ethnig arall ym mhob un o’r Cyfnodau Allweddol; tra mai’r grŵp ethnig Du a oedd â’r ganran isaf o ddisgyblion a lwyddodd i gyrraedd y CSI ym mhob Cyfnod Allweddol (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010).

[8] O’i gyfieithu: “mae dyheadau rhieni yn ffactorau allweddol yng nghyrhaeddiad pobl ifanc, efallai yn bwysicach na nodweddion eraill y teulu a’r rhieni. Mae astudiaethau diweddar yn nodi y gallai dyheadau rhieni gael fwy o effaith ar sgoriau profion cenedlaethol nag unrhyw newidyn arall o ran rhieni megis iechyd, gwerthoedd a chymryd rhan mewn dysgu.” (t. v, Duckworth et al, 2009).

- Mae maint y teulu yn gysylltiedig â'r addysg a gafodd y rhieni;
- Mae mamau yn eu harddegau yn dueddol o fod â lefelau is o gyrhaeddiad addysgol na mamau hŷn;
- Mae llawer o blant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol wedi cael eu magu mewn teuluoedd ansefydlog, sy'n afreolus ar brydiau, sy'n cynnig amgylcheddau dysgu gwael yn y cartref.

3.9. Mae'r prif nodweddion **ysgol** a gaiff eu cysylltu'n gadarnhaol â chyrhaeddiad yn cynnwys: mynychu ysgolion "effeithiol" (h.y. ysgolion sy'n "ychwanegu gwerth", lle mae'r disgyblion yn perfformio'n well na'r norm pan gaiff ffactorau megis cyrhaeddiad blaenorol, cefndir ethnig a statws economaidd-gymdeithasol eu cymryd i ystyriaeth); mynychu ysgolion gyda chyfran isel o ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd[9] (dangosydd procsi o anfantais economaidd-gymdeithasol)*;* mynychu ysgolion gyda chyfran isel o ddisgyblion sy'n siarad Saesneg fel ail iaith; mynychu ysgolion gyda lefelau cyrhaeddiad uchel a mynychu ysgolion gyda chyfran uchel o ferched (Duckworth et al, 2009).

**Y cysylltiad rhwng anfantais a chyrhaeddiad isel mewn addysg**

3.10. Mae rhai o'r ffactorau hyn, megis ansawdd yr addysg mewn ysgol neu ansawdd y rhyngweithio rhwng rhieni a phlant, yn dylanwadu'n uniongyrchol ar gyrhaeddiad neu alluoedd plentyn. Mae eraill, megis yr addysg y mae rhieni wedi'i chael a chyd-destun economaidd-gymdeithasol ysgol, yn cael effaith fwy anuniongyrchol: maent yn "dylanwadu" ac yn "cyfyngu" ar ffactorau eraill (Feinstein et al, 2004). Er enghraifft, mae addysg rhieni yn un o ystod o ffactorau sy'n dylanwadu ar y ffordd y maent yn rhyngweithio a'u plant ac fel yr ydym ni'n ei archwilio ymhellach isod, mae cyd-destun economaidd-gymdeithasol ysgol yn un o ystod o ffactorau a allai ddylanwadu ar ansawdd yr addysg yn yr ysgol honno. Mae hyn yn helpu i egluro sut y gall ffactorau megis anfantais economaidd-gymdeithasol ddylanwadu ar gyrhaeddiad.

[9] Er bod perthynas groes rhwng cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd a chyrhaeddiad cyfartalog disgyblion, gan nad yw'r berthynas yn llinellol, nid oes pwynt critigol lle mae cyrhaeddiad cyfartalog yn gostwng yn sydyn ar ôl hyn.

3.11. Fel sy'n cael ei grynhoi isod, mae llawer o'r ffactorau hyn, ond nid pob un o bell ffordd, yn gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Serch hynny, nid oes cysylltiad cynhenid rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a chyrhaeddiad isel mewn addysg. Nid yw pob plentyn o gefndir difreintiedig yn agored i'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â chyrhaeddiad isel mewn addysg, megis lefelau addysg isel ymysg rhieni a mynychu ysgolion mewn ardaloedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, ac mae rhai plant o gefndiroedd difreintiedig yn llwyddo er gwaethaf y rhwystrau.

- **Nodweddion a galluoedd unigol** – mae Astudiaethau Carfan Prydain yn dangos bod datblygiad gwybyddol (y gallu i ddysgu) plant o gefndiroedd difreintiedig yn tueddu i fod yn is a bod y plant hyn yn dioddef mwy o broblemau â'u hymddygiad. Yn yr ysgol, gall hyn amlygu ei hun fel llythrennedd gwael a sgiliau cymdeithasol ac emosiynol gwan, gan arwain at broblemau o ran asesu'r cwricwlwm a ffurfio perthynas â chyfoedion ac athrawon ac, o'r herwydd, gall disgyblion ddieithrio oddi wrth yr ysgol. Gall y methiant hwn danseilio hyder plant a phobl ifanc yn eu gallu i ddysgu (eu hunan-effeithiolrwydd), ac yn eu cymhelliad i ddysgu. Mae plant a phobl ifanc nad ydynt yn gweld gwerth nac ystyr addysg hefyd yn debygol o fod â chymhelliad isel i ddysgu (Feinstein et al, 2007).

- **Cymorth gwael neu aneffeithiol** – mae ymchwil yn dangos bod plant o gefndiroedd mwy difreintiedig yn dueddol o gael cymorth ac anogaeth llai effeithiol gan oedolion, rhieni yn fwyaf nodedig, ond hefyd gan weithwyr proffesiynol megis athrawon, gweithwyr ieuenctid, gweithwyr lles addysg a gweithwyr cymdeithasol (Jones, 2005; Desforge ac Aboucher, 2003).

- **Yr heriau sy'n wynebu ysgolion sydd â chyfran uchel o ddisgyblion difreintiedig** – Yn ôl gwaith Ruth Lupton (2004, 2005), heb gyllid ychwanegol, mae ysgolion sydd â chyfran uchel o ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd yn aml yn ei chael hi'n anoddach sefydlu'r elfennau sydd eu hangen er mwyn creu

'ysgol effeithiol'. Er enghraifft, mae'n bosibl bod gofyn i athrawon ac arweinwyr ysgolion dreulio mwy o amser yn 'ymladd tanau' (h.y. ymdopi â phroblemau megis ymddygiad gwael) yn hytrach nag yn addysgu a chynllunio.

3.12. Mae'r ffactorau hyn i gyd yn gysylltiedig â'i gilydd, ac yn aml yn atgyfnerthu ei gilydd. Bydd disgybl sy'n cyrraedd ysgol gyda llythrennedd a rhifedd gwael a sgiliau cymdeithasol ac emosiynol gwan yn aml yn ei chael yn anodd i ymdopi yn yr ysgol, a gallant ddatblygu i fod yn anfodlon ac yn aflonyddgar. O ganlyniad, mae'n bosibl y byddant yn cael llai o gefnogaeth ac anogaeth gan eu rhieni, tra bo athrawon yn gorfod treulio mwy o'u hamser yn ceisio rheoli eu hymddygiad, a llai o amser yn eu haddysgu. Mae hyn yn ei dro yn arafu eu cynnydd ymhellach.

3.13. I gasglu, mae gwaith ymchwil yn awgrymu mai ysgolion sy'n gyfrifol am oddeutu 15% o'r gwahaniaethau yng nghyrhaeddiad disgyblion mewn ysgolion uwchradd (Cassen a Kingdon, 2007) a mwy, o bosibl, pan fo nodweddion teuluol a nodweddion unigol yn arbennig o wan (Duckworth et al, 2009). At hynny, mae astudiaethau *Cau'r Bwlch* (gweler y testun yn y blwch) yn dangos yn glir bod rhai ysgolion yn fwy llwyddiannus nag eraill wrth fynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng anfantais a chyrhaeddiad isel mewn addysg.[10] Yn yr un modd, o ystyried yr amrywiaeth o wahanol ffactorau sy'n dylanwadu ar gyrhaeddiad, mae terfyn ar yr hyn y gall ysgolion ei wneud ar eu pen eu hunain.

**Cau'r Bwlch**

Yn astudiaethau Cau'r Bwlch, sef adroddiadau grŵp gorchwyl a gorffen Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), aethpwyd ati i archwilio'r ffactorau sy'n cyfrannu at y bwlch mewn perfformiad rhwng ysgolion cynradd (cam 2) (Llywodraeth Cymru a CLlLC, 2004) ac ysgolion uwchradd (cam 1) (Llywodraeth Cynulliad a CLlLC, 2002) a oedd yn gwasanaethu ardaloedd difreintiedig ac

[10] O ystyried yr amrywiaeth o ffactorau, mae'n anochel mai prin iawn yw'r gwahaniaeth y gall ysgol ei gwneud i gyrhaeddiad disgyblion ar ei phen ei hun.

ardaloedd mwy breintiedig. Yn yr astudiaethau, nodwyd nifer o ffactorau sydd eu hangen er mwyn sbarduno effeithiolrwydd ysgol, a oedd yn eu tro yn cyfrannu at gyrhaeddiad uwch, gan gynnwys:

- Arwain a rheoli yn effeithiol[11]
- Canolbwyntio ar y gymuned a gweithio gydag eraill[12]
- Ffocws cryf ar Wella ac Atebolrwydd[13]
- Ymyrraeth a Chymorth Effeithiol[14]
- Monitro dysgu ac addysgu a hyrwyddo arferion effeithiol
- Defnyddio data cyrhaeddiad yn effeithiol
- Cwricwlwm ac addysgu effeithiol, wedi'u hategu gan Rwydweithiau Arfer Proffesiynol[15]

Mae'r rhain yn gyson â gwaith ymchwil ar effeithiolrwydd ysgolion, a adlewyrchir yn Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Cymru (Llywodraeth Cymru, 2008b).

---

[11] Mae astudiaeth cam 1 yn pwysleisio pwysigrwydd "Sicrhau bod staff allweddol mewn sefyllfa i sbarduno gwelliannau yn yr ysgol" ac mae astudiaeth cam 2 yn pwysleisio pwysigrwydd "Arweinyddiaeth: arweinyddiaeth y pennaeth, arweinyddiaeth drwy gydol yr ysgol ac arweinyddiaeth y corff llywodraethu"; a "Trefniadaeth a rheoli effeithlon ac effeithiol".

[12] Mae astudiaeth cam 1 yn pwysleisio pwysigrwydd "Datblygu ffocws yr ysgol ar y gymuned fel adnodd at ddefnydd pawb o bob oedran yn y gymuned. Sicrha bod yr ysgol yn gwella proffil addysg ac yn dod a nifer o fanteision yn ei sgil ar gyfer dysgwyr, ysgolion a'u cymunedau." Mae astudiaeth cam 1 yn pwysleisio pwysigrwydd "Ymglymiad ac ymroddiad y disgyblion a'u rhieni"; a "Cymorth, dilysiad a gwerthfawrogiad cyffredin o du pawb a oedd yn gysylltiedig â'r ysgol". "Roedd gan bob ysgol nodwedd ganolog: Diwylliant cynhyrchiol, cryf a chynhwysol iawn sy'n canolbwyntio ar sicrhau addysgu effeithiol a chyfoethog ar gyfer dysgu i bob disgybl a gwella a chyfoethogi addysgu ar gyfer dysgu ymhellach i bob disgybl".

[13] Mae astudiaeth cam 1 yn pwysleisio pwysigrwydd "Monitro dysgu ac addysgu"; a "Defnyddio data cyrhaeddiad yn effeithiol".

[14] Mae astudiaeth cam 1 yn pwysleisio pwysigrwydd "[cefnogi] pontio rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3"; "Rheoli Ymddygiad"; "Sicrhau bod disgyblion yn mynychu yn rheolaidd" a "datblygu sgiliau llythrennedd".

[15] Mae astudiaeth cam 1 yn pwysleisio pwysigrwydd "hyrwyddo arferion effeithiol" ac astudiaeth cam 2 yn pwysleisio pwysigrwydd "Y tîm addysgu: cydweithio i ddefnyddio a gwella eu harbenigedd yn llawn".

## 4. NODAU AC AMCANION Y GWERTHUSIAD

4.1. **Nod** y gwerthusiad hwn yw asesu effaith ac effeithiolrwydd rhaglen Rhagori ac mae **amcanion** y gwerthusiad fel a ganlyn:

- Asesu i ba raddau y cyflawnwyd nodau ac amcanion Rhagori;
- Asesu cyfraniad Rhagori o ran gwella safonau unigol y disgyblion a gafodd eu targedu i dderbyn cymorth[16];
- Nodi prif gryfderau rhaglen Rhagori ac unrhyw gyfyngiadau / broblemau a allai fod wedi amharu ar ei heffeithiolrwydd;
- Asesu gwerth am arian y rhaglen gan gynnwys ei chyfraniad at wella safonau addysg unigol mewn ysgolion yng Nghymru, at feithrin capasiti hirdymor o ran gwella ysgolion ac o ran gwella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yn ogystal â'u cyrhaeddiad mewn addysg bellach, addysg uwch a hyfforddiant;
- Cynnig argymhellion o ran y ffordd orau y gall Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol ac ysgolion adeiladu ar raglen Rhagori, gan fanteisio ar yr arferion gorau a'r gwersi a ddysgwyd yn dilyn y fenter a, lle bo'n briodol, cynlluniau eraill tebyg;
- Ystyried pa mor effeithiol oedd rôl Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol o ran cefnogi rhaglen Rhagori ac, yn arbennig, unrhyw swyddi newydd a gafodd eu creu yn sgil y gwaith o gefnogi a gweithredu menter Rhagori a'r gwaith a wnaed gan Weithwyr Proffesiynol Gwella Ysgolion mewn cysylltiad â chyllid Rhagori.

4.2. Roedd gofyn i'r gwerthusiad hefyd ystyried y cwestiynau a'r materion canlynol:

- Sut oedd rhaglen Rhagori yn cyd-fynd ag amcanion Llywodraeth Cymru a chyda pholisiau a strategaethau lleol;

[16] Mae'n bosibl bod yr amcan hwn yn amwys gan fod y term "safonau" yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio safon yr addysg a gyrhaeddwyd ac ansawdd yr addysg (Adolygiad Cambridge, 2009). Cytunwyd gydag Arweinydd Prosiect Rhagori bod amcan y gwerthusiad yn cyfeirio at safon yr addysg a gyrhaeddwyd ac felly eir i'r afael â'r amcan hwn drwy gyfrwng ein trafodaethau ar effaith Rhagori ar gyrhaeddiad a llwyddiant disgyblion.

- Tystiolaeth o effaith Rhagori o ran gwella safonau llwyddo unigol mewn ysgolion; cyflawni canlyniadau addysgol (neu'r potensial i wneud hynny) mewn perthynas â'r disgyblion sy'n cael cymorth, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal;
- Pa mor gost effeithiol oedd y rhaglen ar y cyfan, ei gwerth am arian ac unrhyw ofynion gwario parhaus;
- Effaith Rhagori o ran hyrwyddo ymatebion cydlynol ac integredig i anghenion disgyblion gan gynnwys y defnydd o arferion da ym maes gwella ysgolion a gweithio aml-asiantaeth;
- Effaith Rhagori ar rôl Awdurdodau Lleol fel rhiant corfforaethol ac awdurdod addysgu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Ac i nodi'r gwersi y gellir eu dysgu gan y rhaglen:

- Unrhyw effeithiau annisgwyl neu rai na fwriadwyd;
- Yr agweddau mwyaf effeithiol ar y rhaglen, y rhwystrau a wynebwyd a beth y gellir gwella arno;
- Pa mor effeithiol a gafodd gweledigaeth ac amcanion Llywodraeth Cymru eu cyfleu wrth gyflwyno cyllid Rhagori i ysgolion ac Awdurdodau Addysg Lleol. I ba raddau yr oedd ysgolion ac Awdurdodau Addysg Lleol yn eu rhannu?
- Y prosiectau cynaliadwy a gefnogwyd gan Rhagori.

# 5. METHODOLEG

**Gwerthuso cyllid Rhagori ar gyfer ysgolion**

5.1. Roedd pryder eang ar ddechrau'r broses o werthuso Rhagori y byddai'r rhaglen yn cael ei "gor-werthuso". Roedd cyfweledigion o ysgolion ac Awdurdodau Lleol yn aml yn tynnu sylw at y wahanol haenau o fonitro a gwerthuso, gan gynnwys, ar sail flynyddol:

- Hunan-werthusiadau ysgolion;
- Adolygiadau Awdurdodau Lleol o Rhagori;
- Adroddiadau gwerthuso Cydgysylltwyr Rhanbarthol Rhagori:
- Cylch gwaith Estyn i adolygu cyllid Rhagori.

5.2. Mewn ymateb, ymrwymodd yr Uned Pobl a Gwaith i weithio â'r wahanol haenau gwerthuso hyn a gwneud defnydd llawn ohonynt a dim ond ymgymryd â gwaith maes a gwaith dadansoddi pan nad oedd yr haenau hyn yn gallu darparu'r wybodaeth yr oedd ei hangen ar werthusiad allanol. Roedd hyn yn lleihau'r perygl o ddyblygu amser ac ymdrechion, gan leihau'r baich ar randdeiliaid Rhagori, gan driongli data, drwy ddefnyddio nifer o ffynonellau. O ganlyniad, mae'r gwerthusiad allanol o gyllid Rhagori ar gyfer ysgolion yn seiliedig ar chwe ffynhonnell. Trafodir y rhain yn fanwl isod:

- Adolygiad o gronfa ddata Rhagori;
- Adolygiad treigl o lenyddiaeth;
- Ymweliadau â 60 o ysgolion a ariennir gan Rhagori;
- Adolygiad o adroddiadau'r Cydgysylltwyr Rhanbarthol;
- Adolygiad o dri adroddiad Estyn ar Rhagori (Estyn, 2007, 2008, 2009);
- Cyfweliadau â 17 o randdeiliaid allweddol.

5.3. Rhagwelwyd hefyd y byddai modd defnyddio hunanwerthusiadau ysgolion. Fodd bynnag, ar ôl adolygu sampl o 80 o hunanwerthusiadau yn deillio o 5 Awdurdod

Lleol[17], i weld pa mor addas oeddent at ddibenion gwerthuso, gwelwyd bod gwahanol ysgolion wedi mesur gwahanol bethau mewn gwahanol ffyrdd, ac felly nid oedd hi'n bosibl defnyddio'r hunanwerthusiadau i lunio data yr oedd modd ei gymharu ar berfformiad disgyblion. Roedd yr adolygiad hefyd yn awgrymu bod gwendidau methodolegol yn y rhan fwyaf o hunanasesiadau, gan gynnwys data cyfres amser a data ar grwpiau cymharu, a oedd yn creu problemau o ran eu defnyddio (Holtom, 2008).

5.4. Gan nad oedd modd defnyddio hunanwerthusiadau ysgolion i asesu effaith gyfanredol Rhagori ar gyrhaeddiad disgyblion, aethpwyd ati i lunio dadansoddiad o gyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd, fel dangosydd procsi o'u cynhwysiant yn rhaglen Rhagori. Bu oedi yn y broses o gyhoeddi'r data a chafodd y tîm a oedd yn gweithio arno broblemau technegol, a oedd yn golygu bod yn rhaid i Estyn gymryd yr awenau. Aeth Estyn ati i gynnal a chyhoeddi dadansoddiad tebyg yn 2008 a 2009, ac rydym yn gwneud defnydd llawn o'r rhain.

5.5. At hynny, roedd cynlluniau hefyd i ddefnyddio data manwl ar gyrhaeddiad disgyblion dros y chwe blynedd ddiwethaf i lunio'r gwerthusiad hwn. Fodd bynnag, o ganlyniad i oedi yn y broses o ryddhau'r data hwn, nid oedd modd cwblhau'r dadansoddiad mewn pryd ar gyfer yr adroddiad hwn.

5.6. ***Dadansoddi Cronfa Ddata Rhagori:*** Gofynnwyd i ysgolion a oedd yn gymwys i dderbyn cyllid Rhagori baratoi ffurflen yn amlinellu sut oeddent yn bwriadu defnyddio'r grant, ac yna cytuno ar hyn gyda'u Hawdurdod Lleol. Ddechrau 2007, aethom ati i adolygu 626 allan o'r 648 o gynigion a ddaeth i law[18] (y ffurflenni) a chofnodi gwybodaeth am y canlyniadau disgwyliedig (e.e. gwelliannau mewn llythrennedd a rhifedd, gwelliannau mewn sgiliau cymdeithasol ac emosiynol plant a phobl ifanc) a sut yr oeddent yn bwriadu cyflawni'r rhain (e.e. cyflogi

[17] Sir y Fflint, Gwynedd, Caerdydd, RhCT a Sir Benfro. Dewiswyd y siroedd hyn er mwyn sicrhau bod cynrychiolaeth deg o ran ysgolion cynradd ac uwchradd, lleoliadau gwledig / dinesig, cyfrwng Cymraeg / Saesneg a'r pedwar rhanbarth. Aethom ati i edrych ar ffurflenni ysgolion cynradd ac uwchradd ym mhob un o'r siroedd hyn.
[18] Roedd ambell i gynnig un ai ddim yn y ffeiliau adeg yr adolygiad neu cawsant eu methu ar ddamwain.

Cynorthwyydd Cymorth Dysgu, sefydlu grŵp anogaeth). Defnyddiwyd y ffactorau hyn fel cronfa ddata a oedd yn cynnig trosolwg o waith a gyllidwyd gan Rhagori.

5.7. ***Adolygiad o lenyddiaeth:*** Fel rhan o'r gwaith cwmpasu ar gyfer y gwerthusiad hwn, cynhaliwyd adolygiad byr a oedd yn canolbwyntio ar lenyddiaeth. Er nad oedd digon o amser nac adnoddau i gynnal adolygiad systematig o'r llenyddiaeth, roedd yr adolygiad hwn yn seiliedig ar nifer o adolygiadau cynharach, gan gynnwys astudiaethau *Cau'r Bwlch* (Llywodraeth Cymru a CLILC 2002, 2004); asesiad tystiolaeth gyflym o ymyriadau sy'n mynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol (Arad, 2007) a gomisiynwyd ar gyfer Rhagori, a chyfres o adolygiadau addysg a thlodi a gomisiynwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree (Cassen a Kingdon, 2007; Egan, 2007; Raffo et al, 2007).

5.8. Cafodd yr adolygiad cwmpasu gwreiddiol ei 'ddiweddaru' drwy gydol y gwerthusiad, gan dynnu ar ystod o astudiaethau a gyhoeddwyd ar ôl yr adolygiad gwreiddiol Roedd hyn yn cynnwys adolygiad Bramley ar ariannu ysgolion (Bramley ac Watkins, 2007) a gwaith ymchwil dilynol ar gyllid yn seiliedig ar ganlyniadau (Matrix Evidence, 2009); asesiad tystiolaeth gyflym o'r ymyriadau i wella ymddygiad a phresenoldeb mewn ysgolion a lleoliadau dysgu eraill (Sims et al, 2008); adolygiadau gan y Grŵp Arbenigol ar Dlodi Plant (2008) a Phwyllgor Plant Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cysylltiadau rhwng tlodi a chyrhaeddiad isel mewn addysg (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2008); gwaith ymchwil ar yr effaith y mae staff cymorth yn ei chael ar ddisgyblion ac athrawon (Blatchford, 2009); ymchwil a gynhaliwyd yn Lloegr ar y cysylltiadau rhwng tlodi a chyrhaeddiad isel mewn addysg (e.e. DCSF, 2009); ac adolygiad systematig o'r llenyddiaeth sy'n ymdrin â phobl ifanc sydd wedi ymddieithrio oddi wrth addysg (Bowen et al, 2010).

5.9. ***Ymweld ag ysgolion Rhagori:*** Yn ôl gwaith dadansoddi a gynhaliwyd er mwyn llunio ein hadroddiad interim ar gyllid Rhagori ar gyfer ysgolion (Holtom, 2008a), nodwyd nifer o faterion yr oedd gofyn eu hymchwilio ymhellach drwy ymweld ag ysgolion, gan gynnwys:

- Y berthynas rhwng y gwaith a ariennir gan Rhagori a gwaith nas ariennir gan Rhagori yn yr ysgol a chyfraniad a ‘gwerth ychwanegol’ (os o gwbl) gwaith a ariennir gan Rhagori i waith nas ariennir gan Rhagori ac fel arall;
- Y berthynas rhwng gwaith a ariennir gan Rhagori mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd mewn gwahanol glystyrau;
- Effaith (os o gwbl) gwaith a ariennir gan Rhagori ar ddisgyblion, yr ysgol ei hun, y gymuned a’r Awdurdod Lleol;
- Effeithiolrwydd gwahanol ddulliau a ariennir gan Rhagori;
- Cysylltiadau rhwng strategaethau a ariennir gan Rhagori mewn ysgolion a pholisiau lleol, megis Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc, cynlluniau Partneriaethau Cymunedau’n Gyntaf a chyllid Rhagori ar gyfer plant sy’n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol;
- Sut yr ymatebodd ysgolion i’r cyfleoedd a grëwyd o ganlyniad i strwythur datganoledig Rhagori, a pha mor effeithiol oedd y gefnogaeth a ddarparwyd gan Awdurdodau Lleol (gan gynnwys y Cydgysylltwyr Rhanbarthol).

5.10. Aethpwyd i ymweld â 48 o ysgolion yn ystod ail flwyddyn y gwerthusiad. Er mwyn cynhyrchu’r sampl, datblygwyd methodoleg ar gyfer nodi ysgolion. Datblygwyd y fethodoleg er mwyn sicrhau bod y sampl o ysgolion yr ymwelwyd â hwy yn cynnwys amrywiad o ysgolion a oedd wedi mabwysiadu un o’r tri dull eang o ddefnyddio cyllid Rhagori a nodir yn yr adroddiad interim cyntaf h.y.:

- Canolbwyntio’n benodol ar wella llythrennedd a rhifedd drwy gyfrwng ymyriadau yn y dosbarth;
- Canolbwyntio’n benodol ar ddatblygu amgylchedd cefnogol i bobl ifanc, megis datblygu cysylltiadau rhwng y cartref a’r ysgol, datblygu eu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol a gwella cymorth bugeiliol;
- Canolbwyntio’n benodol ar newid systematig drwy, er enghraifft, ddefnyddio cyllid Rhagori i ddatblygu eu strategaethau i wella’r ysgol.

5.11. Roedd y fethodoleg hefyd yn ceisio sicrhau bod y sampl yn cynnwys amrywiaeth o:

- Ysgolion o'r bedair rhanbarth (Deheubarth Ganol, y Gogledd, y De-orllewin a'r Canolbarth;
- Ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig gyda gwahanol nodweddion (e.e. gwledig/dinesig).

5.12. Mae'r canlyniadau a gafwyd drwy ddefnyddio'r fethodoleg wedi'u nodi isod yn nhabl 5.1.

**Tabl 5.1. Ysgolion yn y sampl**

| Rhanbarth / Math o ysgol | Deheubarth Ganol | De-orllewin a'r Canolbarth | De-ddwyrain | Gogledd | Cymru Gyfan |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd | 9 | 10 | 9 | 6 | 34 |
| Uwchradd | 3 | 2 | 3 | 2 | 10 |
| Arbennig | 1 | 1 | 1 | 1 | 4 |
| **Cyfanswm yr ysgolion** | **13** | **13** | **13** | **9** | **48** |

5.13. Ar ôl nodi faint o ysgolion yr oeddem am ymweld â hwy ym mhob rhanbarth, dewiswyd ysgolion mewn ymgynghoriad â Chydgysylltwyr Rhanbarthol cyn i aelodau o dîm ymchwil yr Uned Pobl a Gwaith gysylltu â hwy (Sarah Lloyd-Jones, Rhodri Bowen, Bethan Wyn-Jones a Duncan Holtom). Nid oedd yn rhaid i ysgolion gymryd rhan yn y gwerthusiad a dewisodd nifer bach i beidio.

5.14. Ymwelwyd â'r ysgolion dros gyfnod a ddau fis ddiwedd 2008. Lle bo'n bosibl, siaradodd y tîm ymchwil ag aelod o uwch dîm rheoli'r ysgol, athrawon a staff cymorth a oedd yn rhan o Rhagori yn ogystal â'r plant neu'r bobl ifanc a oedd yn

cael eu targedu gan Rhagori. Defnyddiwyd cyfweliadau lled-strwythuredig i wneud hyn.

5.15. Yn ein hail Adroddiad Interim ar gyllid Rhagori ar gyfer ysgolion (Holtom, 2008), nodwyd bod angen gwella dealltwriaeth o'r themâu, y materion a'r heriau a ganlyn:

- Gweithio aml-asiantaeth;
- Dulliau ysgolion o fesur a gwerthuso effaith Rhagori ar gyrhaeddiad a llwyddiant;
- Rôl, potensial ac effaith staff cymorth, megis Cynorthwywyr Cymorth Dysgu o ystyried bod gwaith ymchwil yn awgrymu effaith gymysg (Blatchford et al, 2009);
- Posibilrwydd o ddefnyddio cyllid prosiect tymor byr, megis Rhagori, i fuddsoddi mewn newid cynaliadwy.

5.16. Aethpwyd i ymweld â 12 o ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru yn ystod y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2010. Unwaith eto, cafodd ysgolion eu nodi drwy ymgynghori â Chydgysylltwyr Rhanbarthol cyn i dîm ymchwil yr Uned Pobl a Gwaith gysylltu â'r ysgolion hynny a oedd yn fodlon cymryd rhan. Aeth y tîm ati i siarad ag arweinwyr ysgolion ac, mewn rhai achosion, athrawon, staff cymorth a disgyblion.

5.17. Ni fwriadwyd i'r dull hwn, a oedd yn dibynnu ar wybodaeth a barn Chydgysylltwyr Rhanbarthol o ran pa ysgolion i ymweld â hwy, gynhyrchu sampl cynrychiadol ac ni ellir ystyried bod y sampl o 60 ysgolion a ymwelwyd â hwy yn gynrychiadol o bob ysgol Rhagori. Fodd bynnag, gan fod y canfyddiadau wedi'u cyflwyno i Awdurdodau Lleol yn gyson, a'u trafod yn sgil hynny, a bod yr ymweliadau wedi'u rhoi yn nghyd-destun canfyddiadau Cydgysylltwyr Rhanbarthol ac Estyn (a drafodir isod), rydym yn hyderus bod y gwahanol ffynonellau data, at ei gilydd, yn ein galluogi i wneud gwerthusiadau ynghylch Rhagori gyda chryn dipyn o hyder.

5.18. ***Adroddiadau Cydgysylltwyr Rhanbarthol***: Mae gofyn i Gonsortia Rhanbarthol gynhyrchu adroddiad blynyddol yn seiliedig ar ymweliadau ag ysgolion a thrafodaethau ag Awdurdodau Lleol. Cytunodd y Cydgysylltwyr y dylai'r

adroddiadau hyn amlinellu ymatebion i bum cwestiwn allweddol a ddatblygwyd drwy gyfrwng trafodaethau rhwng Cydgysylltwyr Rhanbarthol Llywodraeth y Cynulliad a'r Uned Pobl a Gwaith:

- Pa mor dda y mae ysgolion yn deall nod cyffredinol Rhagori?
- Pa mor effeithiol y mae ysgolion yn monitro a gwerthuso eu gweithgareddau Rhagori?
- Sut gynnydd y mae ysgolion yn ei wneud o ran amcanion a nodweddion allweddol rhaglen Rhagori?
- I ba raddau y mae ysgolion yn bwriadu cynnal manteision rhaglen Rhagori?
- Sut ellir datblygu rhaglen Rhagori ymhellach?

5.19. ***Estyn*:** Roedd cylch gwaith Estyn yn cynnwys adolygiad o effaith Rhagori. Roedd yr adroddiad cyntaf (Estyn, 2007) yn gwerthuso "i ba raddau yr oedd ysgolion Rhagori yn cydweithio â'u Hawdurdodau Lleol i hyrwyddo agenda cyfiawnder cymdeithasol y Cynulliad a mynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a thangyflawni." (t. 1, ibid). Mae'r adroddiad yn seiliedig ar ymweliadau â sampl o ysgolion Rhagori ac wyth Awdurdod Lleol[19] ac yn archwilio sut yr aeth ysgolion ac Awdurdodau Lleol ati i ymgymryd â gwaith a gyllidwyd gan Rhagori, gan gynnwys cynllunio a rheoli'r gwaith a sefydlu systemau monitro a gwerthuso (ibid).

5.20. Mae ail adroddiad estyn yn "adolygu effaith cyllid Rhagori gyda ffocws penodol ar ba mor effeithiol ydoedd wrth helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i fynd i'r afael â thangyflawni ymhlith disgyblion sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol." (t. 5, Estyn, 2008). Mae'n seiliedig ar ymweliadau Arolygwyr Ei Mawrhydi â 19 o ysgolion cynradd, 10 o ysgolion uwchradd, chwe ysgol arbennig a phum Awdurdod Lleol. Mae'n ystyried "effaith Rhagori ar safonau", gan gynnwys y bwlch rhwng perfformiad dysgwyr sy'n gymwys i gael PYaDd a dysgwyr eraill; "Gweithredu

[19] 27 o ysgolion cynradd, 10 o ysgolion uwchradd a thair ysgol arbennig.

Rhagori mewn ysgolion"; a "Materion cenedlaethol, rhanbarthol ac awdurdod lleol" (tudalennau 6-7, ibid.).

5.21. Mae trydydd adroddiad Estyn (2009) yn gwerthuso trydedd flwyddyn rhaglen Rhagori. Mae'r adroddiad "yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd y rhaglen o ran helpu i wella perfformiad disgyblion sydd dan anfantais" (t. 1, Estyn, 2009). Mae'r adroddiad yn seiliedig ar ymweliadau â 25 o ysgolion cynradd, 13 o ysgolion uwchradd, tair ysgol arbennig ac wyth Awdurdod Lleol. Mae'r adroddiad yn ystyried effaith ac etifeddiaeth rhaglen Rhagori, y defnydd o gyllid Rhagori gan ysgolion Rhagori, a'r modd y caiff y rhaglen ei harwain a'i rheoli.

5.22. Mae pedwerydd adroddiad Estyn (2010), yn ystyried Rhagori, ond mae ganddo ffocws ehangach, ac mae'n "edrych ar y modd y mae ysgolion yn mynd i'r afael â thlodi plant ac anfantais yng Nghymru" (t. 1, ibid). Mae'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n deillio o'r tri adroddiad blaenorol ac o adroddiadau ar arolygiadau o ysgolion ac Awdurdodau Lleol.

5.23. ***Cyfweld â rhanddeiliaid allweddol*****:** yn ystod y cyfnod o dair blynedd, aethpwyd ati i gyfweld â 17 o randdeiliaid o Lywodraeth y Cynulliad, Awdurdodau Lleol a sectorau academaidd a gwirfoddol. Mae rhestr lawn i'w gweld yn Adran 18.

**Gwerthuso gwaith a gyllidir gan Rhagori ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol**

5.24. Yn yr un modd â chyllid Rhagori ar gyfer ysgolion, gan fod gofyn i Awdurdodau Lleol gynnal eu hunanwerthusiadau eu hunain a chynnal cronfa ddata manwl o bob plentyn a gefnogir gan raglen Rhagori, roedd cryn dipyn o ddata y gellid ei ddefnyddio fel rhan o'r gwerthusiad allanol, er, yn wahanol i gyllid Rhagori ar gyfer ysgolion, nid oedd hyn yn rhan o gylch gwaith Estyn. Ategwyd hyn, lle'r oedd angen, gan waith maes ychwanegol. Felly, mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar saith prif ffynhonnell:

- Adolygiad cwmpasu cychwynnol o'r llenyddiaeth ar brofiadau a llwyddiant addysgol plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol (Holtom, 2008), a ddiweddarwyd drwy gydol y gwerthusiad;
- Adolygiad o ffurflenni hunanwerthuso Awdurdodau Lleol;
- Dau rownd o gyfweliadau gyda chydgysylltwyr addysg plant sy'n derbyn gofal neu unrhyw un arall o blith staff yr Awdurdodau Lleol sy'n rhan o waith a gyllidir gan Rhagori ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol;
- Cyfweliadau gyda phlant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol mewn dau Awdurdod Lleol (Sir Benfro a Bro Morgannwg);
- Dadansoddiad ystadegol o'r data meintiol ar nodweddion, amgylchiadau a chyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol, gan fanteisio ar gronfa ddata plant sy'n derbyn gofal Rhagori a data a gyhoeddwyd gan Uned Ddata Cymru;
- Adolygiad systematig o Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc, gan nodi unrhyw gyfeiriadau at waith a gyllidir gan Rhagori i gefnogi plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol;
- Cyfweliadau gyda thri rhanddeiliad allweddol o Lywodraeth Cymru a'r Sector Gwirfoddol (mae rhestr lawn i'w gweld yn yr atodiad).

## 6. A LWYDDODD RHAGORI I DARGEDU DISGYBLION DIFREINTIEDIG?

6.1. Fel yr amlinellwyd yn y cyflwyniad, er mwyn bod yn gymwys i gael cyllid Rhagori, roedd yn rhaid i ysgolion fod â 50 neu fwy o ddisgyblion o oed ysgol statudol, lle'r oedd 20% neu fwy o'r disgyblion hynny yn gymwys i gael PYaDd[20]. Yna, roedd gofyn i ysgolion dargedu disgyblion difreintiedig. Er mwyn asesu p'un a lwyddodd rhaglen Rhagori i dargedu disgyblion difreintiedig, rydym wedi canolbwyntio ar dri chwestiwn yn ein gwerthusiad:

- A oedd edrych ar PYaDd yn ffordd effeithiol o adnabod disgyblion difreintiedig?
- A oedd y trothwy a bennwyd ar gyfer bod yn rhan o raglen Rhagori (h.y. bod o leiaf 20% o'r disgyblion yn gymwys i gael PYaDd) yn ffordd effeithiol o dargedu cymorth i ddisgyblion difreintiedig?
- A lwyddodd ysgolion a gyllidwyd gan Rhagori i dargedu disgyblion difreintiedig yn briodol ac yn effeithiol?

**A oedd edrych ar PYaDd yn ffordd effeithiol o adnabod disgyblion difreintiedig?**

6.2. Fel yr amlinellir yn adran 3, er bod y cysylltiad rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a chyrhaeddiad isel mewn addysg yn glir, nid oes unrhyw ddulliau uniongyrchol o fesur tlodi disgyblion ar lefel yr ysgol, gan ei gwneud hi'n anodd adnabod disgyblion difreintiedig. PYaDd yw'r dangosydd procsi a ddefnyddir amlaf, ond mae'n dal i fod yn fesur amherffaith. Er enghraifft, mae cyfraddau PYaDd:

- yn amrywio'n sylweddol rhwng ysgolion, yn rhannol oherwydd gwahaniaethau yn y nifer sy'n hawlio PYaDd;

[20] Mae'n bwysig nodi mai 'bod yn gymwys i gael PYaDd' oedd y maen prawf yn hytrach na 'hawlio PYaDd'. Mae hyn yn fwy cynhwysol gan nad yw pob disgybl sy'n gymwys i gael PYaDd, fel y trafodir ar dudalen 26, yn hawlio'r prydau hynny.

- yn ddangosydd procsi o anfantais yn unig, gan adlewyrchu, i rai graddau, y cysylltiad rhwng incwm isel a chyrhaeddiad isel mewn addysg ond heb ymgorffori'r ffactorau eraill, megis lefel addysg y fam. Mae'r ffactorau hyn yn gysylltiedig â lefelau incwm isel ond ddim yn gyfystyr â lefelau incwm isel, sy'n gallu cyfrannu at y cysylltiad hwn;
- yn fesur deuaidd, nad yw'n cymryd i ystyriaeth i ba raddau y mae disgybl dan anfantais. Er enghraifft, nid yw'n gwahaniaethu rhwng y plant a'r bobl ifanc hynny o deuluoedd sydd ychydig dros y trothwy o fod yn gymwys i gael PYaDd (ac o bosibl ychydig yn fwy difreintiedig na'r rheiny sydd ychydig o dan y trothwy) a'r rheiny sy'n llawer uwch na'r trothwy (ac o'r herwydd yn annhebygol o fod dan anfantais) (DCSF, 2009; Shepherd, 2009 gan ddyfynnu ymchwil a gynhaliwyd gan Caci).

**Er mwyn bod yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim:**

Mae'n rhaid i rieni'r disgyblion fod yn hawlio:

- Cymhorthdal Incwm a delir i'r rheiny ar incwm isel nad oes gofyn iddynt weithio na chwilio am waith (e.e. unig rieni, gofalwyr a'r rheiny sy'n sâl neu'n anabl);
- Lwfans Ceisio Gwaith a delir i'r rheiny ar incwm isel y mae gofyn iddynt chwilio am waith er mwyn cael hawlio budd-daliadau;
- Lwfans Mewnfudo Ceiswyr Lloches.

6.3. O ystyried y problemau gyda defnyddio PYaDd fel ffordd o fesur anfantais disgyblion mewn ysgol, rydym wedi ystyried dulliau eraill o adnabod disgyblion difreintiedig. Y prif ddewis amgen yw cynnig mesur sy'n seiliedig ar ardal megis Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (gweler y testun yn y blwch). Byddai hyn hefyd yn osgoi problemau megis yr amrywiadau yn nifer y disgyblion sy'n hawlio PYaDd. Mae hefyd yn fesur mwy holistaidd sy'n ymgorffori ffactorau pwysig sy'n cysylltu anfantais a chyrhaeddiad isel, megis lefelau addysg isel ymysg rhieni, nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu drwy ddefnyddio PYaDd. Fel mesur sy'n seiliedig ar ardal, gallai Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru hefyd helpu i dargedu

disgyblion sydd ddwywaith yn fwy difreintiedig o ganlyniad i dlodi eu teulu a thlodi'r ardal y maent yn byw ynddi.

**Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru**

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw'r mynegai swyddogol ar gyfer mesur amddifadedd mewn rhannau bychain o Gymru. Caiff yr ardaloedd bychain sy'n rhan o'r MALIC eu galw'n Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (*Lower-Layer Super Output Areas* neu LSOA). Gyda'i gilydd, mae 1,896 o'r ardaloedd hyn yng Nghymru a phob un yn cynnwys tua 1,500 o bobl. Mae'r mynegai yn mesur amddifadedd cymharol y gwahanol ardaloedd hyn. Caiff ardaloedd eu sgorio o un, sef yr ardal fwyaf amddifad, i 1,896, sef y lleiaf amddifad. Caiff un ardal ei sgorio ar lefel amddifadedd uwch nag un arall os oes cyfran uwch o bobl yn byw yno sy'n cael eu cyfri'n amddifad.

Mae asesiad o amddifadedd pobl ym mhob ardal yn seiliedig ar wyth ffactor a elwir yn feysydd (*domains*):

- incwm
- tai
- cyflogaeth
- mynediad at wasanaethau
- addysg
- iechyd
- diogelwch cymunedol
- yr amgylchedd ffisegol

Gan mai mesur cymharol yw MALIC, yr unig beth y mae'n ei nodi yw bod un ardal yn fwy neu'n llai amddifad nag ardal arall ar y mynegai. Ni ellir ei ddefnyddio, er enghraifft, i ddweud bod un ardal ddwywaith yn fwy amddifad nag ardal arall, dim ond fod un ardal yn fwy amddifad nag un arall.

Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, http://wales.gov.uk/topics/statistics/theme/wimd/?skip=1&lang=cy

6.4. Er hynny, mae problemau posibl wrth ddefnyddio MALlC. Mae'n debygol iawn bod cysylltiad rhwng byw mewn ardal amddifad (fel y diffinnir gan MALlC) a chyrhaeddiad disgyblion, ond ni allwn fod yn siŵr o hyn. Mae ymchwil a gynhaliwyd yn Lloegr sy'n cymharu ansawdd ysgolion gyda sgoriau amddifadedd ardal yn awgrymu bod cysylltiad, er ei fod yn wannach na'r cysylltiad gyda chanran y disgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd (Lupton, 2004). Mae gwaith dadansoddi a gynhaliwyd ar gyfer adroddiad Bramley ar gyllido ysgolion (Bramley a Watkins, 2007) yn awgrymu ei bod yn debygol bod cysylltiad cryf rhwng MALlC a chyrhaeddiad[21], ond mae hefyd yn nodi nifer o broblemau o ran ei ddefnyddio fel mesur amgen. Er enghraifft, gall fod cam-gymhariad rhwng nodweddion yr LSOA lle mae disgybl wedi'i leoli, a nodweddion y gymdogaeth gyfagos. Ni fwriedir i ardaloedd LSOA gynrychioli 'cymdogaeth' benodol. Bwriedir iddynt gynrychioli ardaloedd daearyddol a chanddynt, yn wahanol i wardiau etholiadol, boblogaethau weddol debyg (fel y nodir, 1,500 o bobl ar gyfartaledd) a ffiniau na fydd yn newid mor aml â wardiau etholiadol. O gymharu â'r wardiau, mae maint cyson ardaloedd LSOA yn golygu ei bod yn haws cymharu ardaloedd ac mae eu sefydlogrwydd yn golygu ei bod yn haws olrhain newidiadau dros amser. Fodd bynnag, gan nad yw ardaloedd LSOA yn cynrychioli cymdogaeth benodol, gall yr hyn y mae preswylwyr yn ei ystyried i fod yn gymuned neu'n gymdogaeth gynnwys nifer o wahanol ardaloedd LSOA a allai fod a nodweddion gwahanol iawn i'r un y maent yn byw ynddi.

[21] Drwy ddefnyddio dadansoddiad syml o anghenion sy'n seiliedig ar rai o'r dangosyddion a ddefnyddir yn MALlC mae'n awgrymu bod perthynas eithaf cryf rhwng y modd y caiff cyllid ei ddyrannu a dyraniad yn seiliedig ar PYaDd. Fodd bynnag, gwelir y byddai rhai Awdurdodau Lleol, megis Powys a Torfaen, ar eu colled tra byddai Awdurdodau Lleol eraill, megis Bro Morgannwg, ar eu hennill (Bramley a Watkins, 2007).

6.5. Ac mae rhagor o broblemau posibl yn gysylltiedig â defnyddio MALIC:

- I ddechrau, gan fod maes addysg, sgiliau a hyfforddi MALIC yn cynnwys sgoriau cyfartalog yng Nghyfnodau Allweddol 2 i 4, byddai mesur yn defnyddio MALIC yn nodi ysgolion sy'n gwasanaethu ardaloedd difreintiedig yn rhannol ar lefel perfformiad y disgyblion, sef ffactor y dylanwadir arno gan anfantais economaidd-gymdeithasol, ond nad yw'n cael ei bennu ganddo. Mae hyn yn golygu y byddai'n gwahaniaethu yn erbyn ysgolion effeithiol a oedd yn "ychwanegu gwerth", lle'r oedd disgyblion yn llwyddo er gwaethaf eu statws economaidd-gymdeithasol, o blaid ysgolion nad oedd yn perfformio cystal[22];
- Yn ail, er mwyn gallu defnyddio MALIC i adnabod ysgolion sy'n gymwys, byddai'n rhaid mapio un ai codau post y disgyblion neu ddalgylchoedd ysgolion yn erbyn ardaloedd LSOA MALIC. Fel hyn, byddai'n bosibl nodi cyfran y disgyblion mewn ardaloedd difreintiedig sy'n mynychu pob ysgol. Hefyd, byddai'n rhaid diffinio ffordd o fesur anfantais, megis byw mewn LSOA yn 25% isaf y MALIC.
- Yn drydedd, nid yw ffigurau MALIC yn cael eu diweddaru bob blwyddyn. Gallai hyn olygu, wrth i ardaloedd newid o ganlyniad i ffactorau megis mudo mewnol neu allanol, bod cyfran y disgyblion difreintiedig mewn ysgol yn newid hefyd. O'r herwydd, gallai arwain at dargedu cymorth at yr ysgolion anghywir, tra bo ysgolion eraill sydd mewn angen ar eu colled, tan fo MALIC yn cael ei ddiweddaru eto. O gymharu, mae data PYaDd yn cael ei ddiweddaru bob blwyddyn. Mae hyn yn ei gwneud hi'n bosibl i amrywio dyraniadau, er mewn gwirionedd, roedd pob ysgol a oedd yn gymwys ym mlwyddyn 1 yn dal i fod yn gymwys ar gyfer cyllid Rhagori, hyd yn oed os oedd cyfran y disgyblion a oedd yn gymwys i gael PYaDd yn gostwng o dan 20%;
- Ac yn olaf, byddai perygl bod nifer sylweddol o blant difreintiedig sy'n byw y tu allan i ardaloedd difreintiedig ar eu colled. Gallai hyn achosi problemau mewn ardaloedd gwledig, gan fod mesurau megis MALIC yn dueddol o fod yn fwy

[22] Er hynny, roedd yn ddull a oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau, megis y dull a ddefnyddiwyd yn yr adolygiad (Bramley a Watkins, 2007).

effeithiol o ran adnabod crynodiadau tlawd (h.y. lle mae llawer o bobl dlawd yn byw yn agos at ei gilydd, fel y gwelir mewn llawer o ardaloedd dinesig) nag ydyw o ran adnabod lefel y tlodi (h.y. nifer y bobl dlawd) (Holtom, 2008).

6.6. At hynny, tra bo peth tystiolaeth yn dangos effaith ardal (e.e. gweler Lupton, 2005), lle mae lefelau cyrhaeddiad mewn ysgolion sy'n gwasanaethu ardaloedd difreintiedig yn dueddol o fod yn is na lefelau cyrhaeddiad mewn ysgolion sy'n gwasanaethu ardaloedd mwy breintiedig, mae'r dystiolaeth o effaith hyn ar gyrhaeddiad disgyblion yn fwy gwan na'r dystiolaeth o'i effaith ar dlodi teulu. Mae hyn yn awgrymu bod targedu ysgolion gyda chyfran eithaf uchel o ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd, yn debygol o fod yn fwy effeithiol na thargedu ysgolion sy'n gwasanaethu mewn ardaloedd difreintiedig. At hynny, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cysylltiad cryfach fyth rhwng tlodi teuluol a chyrhaeddiad isel mewn addysg. Mae hyn yn awgrymu bod targedu disgyblion o gefndiroedd teuluol difreintiedig hefyd yn debygol o fod yn effeithiol.

6.7. Mae modd uno'r ddau ddull targedu, sef targedu ysgolion a thargedu nodweddion disgyblion, drwy gyfeirio cyllid at ysgolion sydd â chyfradd eithaf uchel o ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd i ddechrau, cyn mynd ati i dargedu disgyblion difreintiedig o fewn yr ysgolion hynny (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd). Mae hyn yn golygu bod modd targedu disgyblion sy'n debygol o fod yn dioddef "ergyd ddwbl" (h.y. dan anfantais o ganlyniad i dlodi teuluol yn ogystal â thlodi'r ardal a'u cyfoedion) (Estyn, 2009). Aeth Rhagori ati i wneud hyn drwy nodi ysgolion i ddechrau ac yna gofyn i'r ysgolion hynny dargedu disgyblion difreintiedig.


6.8. Felly, er gwaethaf ei gyfyngiadau, mae PYaDd yn dal i gael ei ddefnyddio'n fwy aml na'r un mesur arall ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth a adolygwyd gennym, dyma'r ffordd fwyaf priodol o dargedu (adnabod) ysgolion sydd â chyfran uchel o ddisgyblion difreintiedig. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na ddylai pob ysgol Rhagori ategu'r dull hwn gyda dulliau eraill o fesur anfantais, gan ddibynnu ar

wybodaeth leol am anfantais yn eu hardal er mwyn nodi disgyblion difreintiedig o fewn yr ysgol.

**A oedd y trothwy a bennwyd ar gyfer bod yn rhan o raglen Rhagori yn ffordd effeithiol o dargedu cymorth i ddisgyblion difreintiedig?**

6.9. Mae perthynas groes rhwng cyfran y disgyblion mewn ysgol sy’n gymwys i gael PYaDd a chyrhaeddiad cyfartalog y disgyblion hynny. Fel y mae graffiau 6.1-4 yn ei ddangos, wrth i ganran y disgyblion sy’n gymwys i gael PYaDd yng Nghymru gynyddu, mae cyrhaeddiad cyfartalog hefyd yn cynyddu. Yr hyn sy’n allweddol yw nad oes “pwynt critigol” na cham lle mae cynnydd yng nghyfran y disgyblion sy’n gymwys i gael PYaDd yn arwain at ostyngiad anghymesur mewn cyrhaeddiad cyfartalog.


**Graff 6.1. Cyfnod Allweddol 1, Median CSI, Gwybodaeth Feincnodi, 2007**




| **Tabl 6.1. Cyfnod Allweddol 1, Canolrif CSI, Gwybodaeth Feincnodi, 2007** | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % o ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd | <4% | > 4% i < 8% | > 8% i <12% | >12% i <16% | >16% i <20% | >20% i <24% | >24% i <28% | >28% i <32% | >32% i <40% | >40% i <48% | >48% |
| % o ddisgyblion sy'n cyrraedd y safon ddisgwyliedig | 91% | 90% | 88% | 84% | 84% | 78% | 80% | 78% | 73% | 69% | 60% |

*Ffynhonnell: Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion*


**Graff 6.2. Cyfnod Allweddol 2, Median CSI, , 2007**




| Tabl 6.2. Cyfnod Allweddol 2, Canolrif CSI, Gwybodaeth Feincnodi, 2007 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| % o ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd | >8% | 8 i >16% | 16 i >24% | 24 i >32% | >32% |
| % o ddisgyblion sy'n cyrraedd y safon ddisgwyliedig | 85% | 79% | 75% | 71% | 63% |

*Ffynhonnell: Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion*

**Graff 6.3. Cyfnod Allweddol 3, Canolrif CSI, Gwybodaeth Feincnodi, 2007**





*Ffynhonnell: Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion*

| **Graff 6.3. Cyfnod Allweddol 3, Canolrif CSI, Gwybodaeth Feincnodi, 2007** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| % o ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd | hyd at 10% | >10% i <15% | >15% i <20% | >20% i <30% | >30% |
| % o ddisgyblion sy'n cyrraedd y safon ddisgwyliedig | 71% | 62% | 54% | 47% | 36% |

*Ffynhonnell: Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion*

**Graff 6.4. Cyfnod Allweddol 4, Canolrif CSI, Gwybodaeth Feincnodi, 2006**




| Tabl 6.4. Cyfnod Allweddol 4, Canolrif CSI, Gwybodaeth Feincnodi, 2006 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| % o ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd | >10% | >10% i 15% | 15% i 20% | >20% i 30% | >30% |
| % o ddisgyblion sy'n cyrraedd y safon ddisgwyliedig | 51% | 43% | 36% | 26% | 18% |


*Ffynhonnell: Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion*

6.10. Mae graffiau 6.1. i 6.4. yn dangos y berthynas groes yn glir, lle mae cynnydd yng nghyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd yn gysylltiedig â gostyngiad mewn cyrhaeddiad. Maent hefyd yn dangos sut y mae cyfran y disgyblion nad ydynt yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig yn cynyddu ym mhob Cyfnod Allweddol a sut y mae cryfder y berthynas groes rhwng cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd a chyrhaeddiad disgyblion o fewn yr ysgolion yn cynyddu.

6.11. Mae graffiau 6.1. i 6.4. hefyd yn awgrymu nad yw cryfder y berthynas groes rhwng cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd a chyrhaeddiad disgyblion o fewn yr ysgolion yn cynyddu'n sylweddol ar ôl i gyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd gyrraedd canran benodol, megis 20%, fel y mae gwaith Ruth Lupton ac eraill yn ei awgrymu. Efallai y gellir disgwyl y byddai pwynt critigol yn cyrraedd, lle byddai cryfder y berthynas groes yn cynyddu, gan gynnig sail resymegol glir am osod trothwy cymhwyster Rhagori ar y pwynt hwnnw. Ond mae'n ymddangos nad dyma'r achos, ac mae'r data a ddefnyddiwyd yn y graffiau uchod yn awgrymu perthynas eithaf llinol.

6.12. Mae dadansoddiad manwl o'r berthynas rhwng llwyddiant academaidd y rheiny sy'n gymwys i gael PYaDd gan Ystadegau Cymru (Llywodraeth Cymru, 2010) yn cadarnhau'r berthynas groes gref rhwng bod yn gymwys i gael PYaDd a chyrhaeddiad academaidd, ond yn casglu nad yw'r berthynas yn llinol, hynny yw, pan fo lefel uchel o ddisgyblion yn gymwys i gael PYaDd, a bo gostyngiad yn y lefel honno, dim ond effaith fechan a gaiff hyn ar gyrhaeddiad. O gymharu, pan fo lefel isel o ddisgyblion yn gymwys i gael PYaDd, mae gostyngiad yn y gyfran hon yn cael effaith fawr ar gyrhaeddiad. Mae'r berthynas aflinol hon yn golygu nad oes pwynt critigol manwl gywir lle mae cyrhaeddiad yn gostwng yn sydyn ar ôl mynd heibio'r pwynt hwn. Fel y dangosir yn glir yn Graff 6.5., yng Nghyfnod Allweddol 4, lle mae'r berthynas ar ei chryfaf, mae cyrhaeddiad yn gostwng yn gyflym wrth i ganran y disgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd gynyddu o 0% i 10%. Ar ôl hyn, mae'r effaith yn cynyddu'n raddol, ond yn llai dramatig wrth i ganran y PYaDd gynyddu.

**Graff 6.5. Llwyddiant ar drothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg, yn ôl canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, 2009**




% sy’n gymwys i gael PYaDd

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*[23]

6.13. Er nad oes pwynt critigol, gall fod yn werth nodi bod yr astudiaeth *Cau’r Bwlch* gyntaf wedi canfod, wrth i ganran y disgyblion mewn ysgol sy’n gymwys i gael PYaDd gynyddu dros 15%, mae cynnydd y disgyblion hynny yn dechrau gostwng yn is na chyfartaledd yr holl ysgolion uwchradd. Hynny yw, mewn ysgolion uwchradd lle mae llai na 15% o’r disgyblion yn gymwys i gael PYaDd, mae’r gwerth a ychwanegir rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn dueddol o fod yn uwch na’r cyfartaledd ar gyfer pob ysgol yng Nghymru. O’i gymharu, mewn ysgolion lle mae mwy na 15% o’r disgyblion yn gymwys i gael PYaDd, mae’r gwerth a ychwanegir rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn dueddol

[23] Cyrhaeddiad Academaidd a'r Hawl i Brydau Ysgol am Ddim, 2009, ar gael ar-lein yn Saesneg yn unig drwy **http://wales.gov.uk/docs/statistics/2010/100318sb132010en.pdf**

o fod yn is na'r cyfartaledd ar gyfer yr holl ysgolion yng Nghymru (Llywodraeth Cymru a CLILC, 2002). Nid pwynt critigol mohono, gan nad yw cynnydd yng nghyfradd y disgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd yn arwain at ostyngiadau anghymesur mewn cyrhaeddiad cyfartalog ar ôl i'r canran gyrraedd 15%, ond mae'n cynrychioli pwynt croesi, lle mae cynnydd disgyblion yn dechrau disgyn y tu ôl i'r cyfartaledd ar gyfer yr holl ysgolion uwchradd.

6.14. Mewn rhai achosion, fe dynnodd rhai o'r ysgolion sylw at enghreifftiau o ysgolion eraill a oedd ychydig yn brin o'r trothwy o 20% ond a fyddai, yn eu barn nhw, wedi elwa ar gyllid Rhagori. At hynny, tynnodd y cyfweledigion ein sylw hefyd at nifer o achosion o ysgolion bach gyda chyfrannau uchel iawn o ddisgyblion a oedd yn gymwys i gael PYaDd. Roeddent o'r farn ei bod yn amhriodol i'w heithrio. Er hynny, roedd ysgolion yn derbyn bod yn rhaid tynnu'r llinell yn rhywle a bod y trothwy o 20% yn rhesymol.

6.15. Dyma gasglu felly bod y trothwy presennol o 20% yn taro cydbwysedd rhwng cyrraedd cymaint o ddisgyblion difreintiedig â phosibl tra hefyd yn sicrhau nad yw'r adnoddau sydd ar gael yn cael eu lledaenu'n rhy denau.

6.16. O gymharu, dyma gasglu nad oedd y penderfyniad i eithrio ysgolion bach yn un priodol. O ganlyniad, cafodd nifer bach o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig (a oedd yn mynychu oddeutu 75 o ysgolion cynradd lle'r oedd mwy na 20% o'u disgyblion yn gymwys i gael PYaDd) eu heithrio rhag cael cefnogaeth gan raglen Rhagori. Cafodd y penderfyniad ei gyfiawnhau ar y sail mai nod Rhagori oedd targedu'r ysgolion hynny a oedd â'r nifer fwyaf o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Fodd bynnag, er bod y niferoedd yn eithaf bach, nid oedd unrhyw reswm teilwng arall dros eithrio'r disgyblion hyn. Yn ôl ein hasesiad ni o'r dystiolaeth (e.e. Estyn 2006), tra bo rhai ffactorau, megis gwell cefnogaeth gan rieni, a allai gyfrannu at leddfu effaith anfantais ar ysgolion o'r fath, gall ffactorau eraill waethygu effaith anfantais ar ysgolion e.e. trafferthion o ran bodloni anghenion dysgu dosbarthiadau sy'n aml yn cynnwys disgyblion o wahanol

oedrannau ar wahanol gyfnodau datblygu. Rydym yn cydnabod y byddai angen cyfaddawd rhwng sicrhau bod ysgolion yn cael digon o gyllid i wneud gwahaniaeth drwy, er enghraifft, sefydlu 'taliad isaf', tra hefyd yn sicrhau nad ydynt yn elwa mewn modd anghyfartal[24]. Ond ar y cyfan, rydym yn casglu nad oedd rheswm teilwng dros eithrio'r ysgolion hyn.

**A lwyddodd ysgolion a gyllidir gan Rhagori i dargedu disgyblion difreintiedig yn effeithiol?**

6.17. Mae'r cwestiwn ynghylch targedu disgyblion dan anfantais economaidd-gymdeithasol wedi bod yn un sensitif. Cafodd telerau ac amodau gwreiddiol y grant eu drafftio'n wael[25] (yn yr iaith wreddiol) "Schools are required to target funding on supporting pupils who are disadvantaged or most at risk of low attainment – or leaving full time education with no qualifications"[26] ac nid oeddent yn nodi'n glir bod angen targedu disgyblion dan anfantais. Fodd bynnag, cafodd ei ddatgan yn gyhoeddus mai dyma oedd nod y rhaglen, a chafodd hyn ei adlewyrchu yn yr wybodaeth a ddarparwyd i ysgolion. Yn wir, mae Arweinydd Prosiect Rhagori a Chydgysylltwyr Rhanbarthol Rhagori oll wedi cyfathrebu'r neges hon i ysgolion yn gyson ac mae'r Cydgysylltwyr Rhanbarthol wedi adrodd bod bron i bob ysgol yn deall diben grant Rhagori.

6.18. Mae'r dystiolaeth sy'n deillio o'n hymweliadau ni ag ysgolion, ymweliadau Estyn ac adroddiadau Cydgysylltwyr Rhanbarthol oll yn awgrymu bod y rhan fwyaf o ysgolion wedi targedu disgyblion difreintiedig. Fodd bynnag:

- Mewn rhai achosion, aethpwyd ati'n fwriadol i dargedu disgyblion difreintiedig, ond mewn llawer o achosion eraill, digwyddodd hynny fel sgil ganlyniad, gan fod disgyblion yn cael eu targedu ar sail anghenion academaidd yn hytrach nag anfantais economaidd-gymdeithasol. Fodd bynnag, mae'r berthynas gref rhwng

[24] Byddai'r fformiwla cyllido ar gyfer nifer y disgyblion a'r taliad isaf yn cynyddu lefel y cyllid ar gyfer pob disgybl mewn ysgolion bach.
[25] Gan fod y gair "or" (neu) wedi'i ddefnyddio ar ôl y gofyniad i gefnogi "pupils who are disadvantaged."
[26] Llythyr hysbysu terfynol, 'Rhagori – Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion yng Nghymru', dyddiedig 11 Mai 2006, a anfonwyd at Gyfarwyddwr Addysg Awdurdodau Lleol.

anfantais economaidd-gymdeithasol a thangyflawni, ynghyd â'r ffaith bod cyllid Rhagori wedi'i dargedu at ysgolion gyda chyfran uchel o ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd, ac mewn rhai achosion, cyfran uwch fyth o ddisgyblion y gellir ystyried eu bod yn ddifreintiedig, hyd yn oed os nad oeddent yn gymwys i gael PYaDd, yn golygu bod ysgolion yn hyderus bod y dull hwn yn arwain at dargedu disgyblion difreintiedig, hyd yn oed os mai nad dyna'r prif nod.

- Hyd yn oed pan dargedwyd disgyblion difreintiedig, defnyddiwyd lefelau llythrennedd isel a/neu ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol fel meini prawf eilaidd ar gyfer targedu. O ganlyniad i hyn, ac o ganlyniad i dargedu ar sail tangyflawni yn bennaf, cyfyng iawn yw'r dystiolaeth sydd ar gael i ddangos bod disgyblion difreintiedig a oedd yn perfformio ar lefel gyfartalog neu lefel uwch, ond a fyddai wedi gallu cyflawni mwy gydag ymyriad a chefnogaeth ychwanegol, yn cael eu targedu (Holtom, 2009, Estyn, 2009).

- Mae peth tystiolaeth yn dangos bod effaith y cyllid, mewn rhai achosion, wedi ymestyn ymhellach na'r bwriad, h.y. drwy dargedu disgyblion o gefndiroedd difreintiedig, roedd disgyblion o gefndiroedd llawer mwy breintiedig hefyd yn elwa (er bod rhai ysgolion yn ystyried hyn yn un o gryfderau'r rhaglen);

- Nid yw pob ysgol yn defnyddio'r un diffiniad o 'difreintiedig': i rai roedd yn golygu hawlio PYaDd, i rai roedd yn golygu bod yn gymwys i gael PYaDd (p'un a oedd yn cael ei hawlio ai peidio), i eraill roedd yn golygu tlodi ariannol (ar wahân i fod yn gymwys i gael PYaDd), ac mewn nifer bach o achosion, roedd yn cynnwys anfantais gymdeithasol, megis magwraeth mewn gofal.[27]

6.19. Ar ôl ystyried y dystiolaeth, rydym yn casglu bod gweithgareddau a gyllidwyd gan Rhagori wedi targedu disgyblion difreintiedig, ond eu bod hefyd wedi targedu nifer bach o ddisgyblion sydd yn cael trafferth, ond nad ydynt yn ddifreintiedig. At

[27] Mae hyn yn adlewyrchu trafodaethau ehangach ynghylch y diffiniad o 'dlodi'. Gellir ei ddiffinio mewn termau absoliwt a chymharol a gellir ei ddiffinio drwy ddefnyddio meini prawf unigol, fel arfer drwy ddefnyddio incwm neu gymeriant neu drwy ddefnyddio meini prawf lluosog.

hynny, nid yw wedi targedu'r holl ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig sy'n mynychu ysgolion Rhagori. Mae methiant llawer o ysgolion i dargedu disgyblion difreintiedig sy'n cyflawni yn gymharol dda, ond a allai gyflawni mwy gyda chymorth ychwanegol, yn wendid difrifol o ran y ffordd y mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi gweithredu'r rhaglen. Mewn gwirionedd, roedd yr ysgolion hyn yn hyrwyddo canlyniadau cyfartal yn hytrach na chyfle cyfartal. At hynny, gallai methiant rhai ysgolion i fynd ati'n fwriadol i dargedu disgyblion difreintiedig olygu bod ysgolion, yn lle canolbwyntio ar wraidd y broblem, wedi canolbwyntio ar fynd i'r afael â symptomau anfantais, h.y. lefelau llwyddiant a chyrhaeddiad isel. O gymharu, mae'r manteision ehangach a allai ddeillio o weithio gyda'r disgyblion mwyaf difreintiedig, megis gwella ymddygiad aflonyddus yn y dosbarth, yn un o gryfderau Rhagori.

6.20. Mae'r gofyniad i ysgolion dargedu un grŵp o ddisgyblion, gan wahaniaethu yn gadarnhaol o'u plaid, er mwyn hyrwyddo cyfle cyfartal yn hytrach na chanlyniad cyfartal, wedi bod yn dasg anodd i rai swyddogion Awdurdod Lleol. O ystyried y gwrthwynebiad ymhlith ysgolion o'r fath i wahaniaethu cadarnhaol ar sail anfantais, mae'n bosibl y byddai wedi bod yn haws i ysgolion ganolbwyntio ar "anghenion addysgu ychwanegol" disgyblion (Llywodraeth Cymru, 2066b). Byddai hyn dal wedi arwain at wahaniaethu cadarnhaol o blaid rhai disgyblion, ond efallai y byddai wedi bod yn fwy derbyniol i ysgolion. Hefyd, efallai y byddai wedi helpu i ganolbwyntio sylw ar ffactorau sy'n achosi cyrhaeddiad isel mewn addysg. Fodd bynnag, ni fyddai canolbwyntio ar gynhwysiant ac anghenion addysgu arbennig wedi denu'r un sylw gwleidyddol ag anfantais, ac yn arbennig, tlodi plant, ac mae Rhagori wedi helpu i sefydlu hynny o fewn ysgolion. Byddai wedi gwanhau'r ffocws ar anfantais, gan fod llawer o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ond ddim pob un o bell ffordd, yn ddifreintiedig, ac mae rhai disgyblion difreintiedig nad oes ganddynt "anghenion dysgu ychwanegol". Mae'n bosibl bod y defnydd o'r term "anghenion dysgu ychwanegol" hefyd wedi achosi dryswch, gan ei fod yn

cael ei gysylltu ag anghenion dysgu arbennig[28] a'r ffaith nad oes diffiniad terfynol o'r hyn sy'n cyfrif fel anghenion dysgu ychwanegol.[29]

[28] Mae adroddiadau adolygu'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau gynt ar anghenion addysgol arbennig (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2004c, 2006, 2007) yn argymell y dylid defnyddio cysyniad ehangach 'anghenion dysgu ychwanegol' yn hytrach nag 'anghenion addysgu arbennig' a sefydlwyd pedwar prosiect peilot i archwilio sut y cafodd argymhellion y pwyllgor a chanlyniadau ymgynghoriad ar ddiwygio darpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgu arbennig eu sefydlu.

[29] Yng Nghanllawiau Cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, caiff disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol eu disgrifio fel "y dysgwyr hynny sydd â mwy o anghenion na mwyafrif eu cyfoedion" gan ymhelaethu drwy gynnig rhestr o ddisgyblion a allai fod ag anghenion ychwanegol. (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006).

# 7. A YW RHAGORI WEDI GWELLA LLWYDDIANT A CHYRHAEDDIAD DISGYBLION DIFREINTIEDIG?

**Cyflwyniad**

7.1. Mae’r dull safonol o asesu effaith rhaglen fel Rhagori ar lwyddiant a chyrhaeddiad yn cynnwys amcangyfrif o’r hyn a allai fod wedi digwydd h.y. beth fyddai wedi digwydd heb ymyrraeth. Mae Hap-dreialau wedi'u Rheoli yn cynrychioli’r safon aur ar gyfer yr hyn a allai fod wedi digwydd (Cook a Gorard 2007). Mewn sefyllfaoedd lle nad oes modd dewis ar hap[30], megis yr achos Rhagori, mae angen mabwysiadu dulliau eraill. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Dulliau cyfres amser gydag ymyrraeth, lle mae tueddiadau mewn cyfres safonol o arsylwadau, megis cyrhaeddiad pobl ifanc, yn cael eu dadansoddi dros amser er mwyn nodi’r pethau hynny sy’n “ymyrryd” yn y dilyniant o arsylwadau, megis newid mewn tueddiadau, yn dilyn ymyrraeth;
- Defnyddio grwpiau cymharu[31], megis disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael PYaDd mewn ysgolion Rhagori a disgyblion mewn ysgolion nad ydynt yn rhan o Rhagori (GSRU, 2007).

7.2. Gellir ategu’r dulliau meintiol hyn gyda gwerthusiadau mwy ansoddol. Gall y dyfarniadau hyn fod yn rhannol seiliedig ar asesiad o dystiolaeth feintiol (e.e. tystiolaeth o gynnydd disgybl mewn profion safonol), ond heb fod wedi’u cyfyngu iddynt. Gall dyfarniadau hefyd fod yn seiliedig ar fathau eraill o dystiolaeth, megis arsylwi ar ddisgyblion. Gall hyn olygu nad ydynt yr un mor drylwyr, ond gallai hefyd

---

[30] Byddai hyn yn cynnwys rhannu’r boblogaeth ar hap (disgyblion sy’n gymwys i gael PYaDd mewn ysgolion Rhagori yn yr achos hwn) yn (1) grŵp rhaglen (neu “driniaeth”), a fyddai’n elwa ar ymyriad a gyllidir gan Rhagori, neu (2) grŵp rheoli, na fyddai’n elwa ar gyllid Rhagori. Yna, byddai modd mesur y newidiadau (e.e.mewn cyrhaeddiad) yng nghanlyniadau’r ddau grŵp, a hynny cyn ac ar ol ymyrryd. (GSRU, 2008). Fodd bynnag, byddai rhwystrau moesegol ac ymarferol i’r math hwn o ymarferiad.

[31] Mae’r rhain yn debyg i “grŵp rheoli” gan eu bod yn cynnig rhywbeth a gyfeirir ato fel grŵp “policy off” i gymharu â’r grŵp triniaeth (y grŵp sy’n elwa ar yr ymyriad). Fodd bynnag, yn wahanol i grŵp rheoli, ni fyddai’r grwpiau’n cael eu dewis ar hap. Byddai canlyniadau’r grwpiau hyn yn cynrychioli amcangyfrif o’r hyn a allai fod wedi digwydd h.y. beth fyddai wedi digwydd heb yr ymyriad.

olygu eu bod yn werthusiadau mwy cytbwys. Yn yr adran hon, rydym yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer y tri dull.

**Data cyfres amser – tueddiadau cyffredinol mewn cyrhaeddiad disgyblion**

7.3. Fel yr amlinellir yn adrannau 2 a 5, mae bod yn gymwys i gael PYaDd yn ddangosydd procsi a ddefnyddir yn aml i fesur anfantais economaidd-gymdeithasol. Pe bai Rhagori yn cael effaith sylweddol ar gyrhaeddiad disgyblion PYaDd, gallai hyn fod yn ddigon i i gynyddu cyrhaeddiad cyfartalog yr holl ddisgyblion PYaDd. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i'r effaith fod yn sylweddol, gan nad yw un rhan o dair o ddisgyblion ysgol gynradd ac ychydig o dan hanner disgyblion ysgol uwchradd sy'n gymwys i gael PYaDd yn mynychu ysgolion Rhagori (Estyn, 2010). At hynny, anogwyd ysgolion i beidio â thargedu grwpiau blynyddoedd asesu yn unig, ac fel yr amlinellir yn adran 5, dewisodd llawer o ysgolion Rhagori i beidio â defnyddio disgyblion PYaDd fel ffordd o adnabod pa ddisgyblion y dylid eu cefnogi. At hynny, ni aethant ati i geisio cefnogi pob disgybl a oedd yn gymwys i gael PYaDd. O'r herwydd, dim ond cyfran o gohort PYaDd a gefnogwyd.


7.4. Yn seiliedig ar y cafeatau pwysig hyn, mae Graffiau 7.1 i 7.4 yn dangos y tueddiadau yng nghanran y disgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd, a chanran y rhai nad ydynt, sy'n llwyddo i gyrraedd y dangosydd pynciau craidd (CSI)[32], yng Nghyfnodau Allweddol 1-4. Dyma'r prif bwyntiau i'w nodi o ran tueddiadau yng nghyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd:

- Y cynnydd cymedrol mewn cyrhaeddiad ym mob un o'r 4 Cyfnod Allweddol o 2006-2007 ymlaen, sy'n cynrychioli'r cohort cyntaf i elwa ar gyllid Rhagori.
- Y cynnydd uwch mewn cyrhaeddiad yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2 o'i gymharu â Chyfnodau Allweddol 3 and 4. Gan fod y cynnydd yng nghanran y disgyblion a oedd yn gymwys i gael PYaDd a oedd yn llwyddo i gyflawni'r CSI yn uwch na'r cynnydd ymhlith disgyblion nad oeddent yn gymwys i gael PYaDd, gwelwyd y bwlch yn cau fymryn.

[32] Mae'r CSI yn ymwneud â pherfformiad o ran Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.

- Yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, roedd cynnydd yng nghanran y disgyblion nad oeddent yn gymwys i gael PYaDd a oedd yn cyflawni'r CSI yn uwch na'r cynnydd ymhlith disgyblion a oedd yn gymwys i gael PYaDd, ac felly cynyddodd y bwlch rhwng disgyblion a oedd yn gymwys i gael PYaDd a'r rhai nad oeddent yn ystod y cyfnod hwn.

**Graff 7.1. Tueddiadau yng nghanran y disgyblion a oedd yn gymwys i gael PYaDd a'r rhai nad oeddent a lwyddodd i gyflawni'r CSI, Cyfnod Allweddol 1, 2005-2009**





*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

**Tabl 7.1 Canran y disgyblion a oedd yn gymwys i gael PYaDd a'r rhai nad oeddent a lwyddodd i gyflawni'r CSI, Cyfnod Allweddol 1, 2005-2009**

| | **2005** | **2006** | **2007** | **2008** | **2009** |
|---|---|---|---|---|---|
| Disgyblion nad oedd yn gymwys i gael PYaDd | 85% | 81% | 85% | 85% | 85% |
| Disgyblion a oedd yn gymwys i gael PYaDd | 65% | 64% | 63% | 64% | 65% |

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

**Graff 7.2. Tueddiadau yng nghanran y disgyblion a oedd yn gymwys i gael PYaDd a'r rhai nad oeddent a lwyddodd i gyflawni'r CSI, Cyfnod Allweddol 2, 2005-2009**





*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

| **Tabl 7.2 Canran y disgyblion a oedd yn gymwys i gael PYaDd a'r rhai nad oeddent a lwyddodd i gyflawni'r CSI, Cyfnod Allweddol 2, 2005-2009** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 |
| Disgyblion nad oeddent yn gymwys i gael PYaDd | 80% | 76% | 79% | 80% | 81% |
| Disgyblion a oedd yn gymwys i gael PYaDd | 55% | 55% | 54% | 57% | 59% |

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

**Graff 7.3. Tueddiadau yng nghanran y disgyblion a oedd yn gymwys i gael PYaDd a'r rhai nad oeddent a lwyddodd i gyflawni'r CSI, Cyfnod Allweddol 3, 2005-2009**





*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

**Tabl 7.3 Canran y disgyblion a oedd yn gymwys i gael PYaDd a'r rhai nad oeddent a lwyddodd i gyflawni'r CSI, Cyfnod Allweddol 3, 2005-2009**

| | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 |
|---|---|---|---|---|---|
| Disgyblion nad oeddent yn gymwys i gael PYaDd | 64% | 64% | 62% | 65% | 67% |
| Disgyblion a oedd yn gymwys i gael PYaDd | 31% | 32% | 31% | 32% | 32% |

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

**Graff 7.4. Tueddiadau yng nghanran y disgyblion a oedd yn gymwys i gael PYaDd a'r rhai nad oeddent a lwyddodd i gyflawni'r CSI, Cyfnod Allweddol 4, 2005-2009**




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

| **Tabl 7.4. Canran y disgyblion a oedd yn gymwys i gael PYaDd a'r rhai nad oeddent a lwyddodd i gyflawni'r CSI, Cyfnod Allweddol 4, 2005-2009** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2005** | **2006** | **2007** | **2008** | **2009** |
| Disgyblion nad oeddent yn gymwys i gael PyaDd | 42% | 44% | 45% | 49% | 51% |
| Disgyblion a oedd yn gymwys i gael PyaDd | 29% | 29% | 29% | 30% | 31% |


*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

7.5. Mae Graff 7.5. yn dangos y bwlch yng nghanran y disgyblion a oedd yn gymwys i gael PYaDd a'r rhai nad oeddent yn gymwys i gael PYaDd, a lwyddodd i gyflawni'r CSI ym mhob Cyfnod Allweddol ar gyfer y cyfnod 2005-2009. Mae'n dangos:

- Yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2, ar ôl cyrraedd uchafbwynt yn 2006-2007, mae'r bwlch wedi cau ychydig;

- Yng Nghyfnod Allweddol 3, mae'r bwlch yn gyndyn o gau ac yn dal i fod yn llydan;
- Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae'r bwlch wedi lledu fymryn.

**Graff 7.5. Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd a'r rhai nad ydynt sy'n llwyddo i gyflawni'r CSI, Cyfnodau Allweddol 1- 4, 2005-2009**




| **Tabl 7.5 Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd a'r rhai nad ydynt sy'n llwyddo i gyflawni'r CSI, Cyfnodau Allweddol 1- 4, 2005-2009** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 |
| Bwlch CSI yn CA1 | 21% | 17% | 22% | 21% | 20% |
| Bwlch CSI yn CA2 | 25% | 21% | 24% | 23% | 22% |
| Bwlch CSI yn CA3 | 31% | 32% | 31% | 32% | 32% |
| Bwlch CSI yn CA4 | 29% | 29% | 29% | 30% | 31% |

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*


**Data cyfres amser: tueddiadau yng nghyrhaeddiad disgyblion mewn ysgolion Rhagori ac ysgolion nad ydynt yn rhan o Rhagori**

7.6. Mae dadansoddiad o berfformiad disgyblion sy’n gymwys i gael PYaDd mewn ysgolion Rhagori yn ddull fwy gwahaniaethol o fesur effaith debygol Rhagori o’i gymharu â dadansoddiad o berfformiad yr holl ddisgyblion sy’n gymwys i gael PYaDd. Mae hyn o ganlyniad i’r ffaith fod cyfran y disgyblion o fewn y grŵp hwn sydd wedi elwa ar ymyriadau a gyllidwyd gan Rhagori yn uwch na chyfran y disgyblion sy’n gymwys i gael PYaDd sy’n debygol o fod wedi elwa. Hefyd, gellir cymharu eu perfformiad â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion Rhagori nad ydynt yn gymwys i gael PYaDd (gweler paragraff 7.1).

7.7. Mae graff 7.6. yn dangos y bwlch rhwng canran y disgyblion sy’n gymwys i gael PYaDd mewn ysgolion Rhagori sy’n cyflawni’r CSI a chanran y disgyblion sy’n gymwys i gael PYaDd mewn ysgolion nad ydynt yn rhan o Rhagori sy’n cyflawni’r CSI. Mae’n dangos:

- Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae’r bwlch rhwng perfformiad disgyblion sy’n cael PYaDd mewn ysgolion Rhagori ac ysgolion nad ydynt yn rhan o Rhagori wedi gostwng o 10.2 pwynt canran i 4.4 pwynt canran dros y cyfnod.
- Fodd bynnag, yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 mae’r bwlch wedi cynyddu ychydig dros y cyfnod hwn (t. 14. Estyn, 2010).

**Graff 7.6. Y bwlch (mewn pwyntiau canran) rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd mewn ysgolion Rhagori sy'n cyflawni'r CSI a chanran y disgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd mewn ysgolion nad ydynt yn rhan o Rhagori sy'n cyflawni'r CSI, 2006-2007**




*Ffynhonnell: Estyn, 2010*

| Tabl 7.6. Y bwlch (mewn pwyntiau canran) rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd mewn ysgolion Rhagori sy'n cyflawni'r CSI a chanran y disgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd mewn ysgolion nad ydynt yn rhan o Rhagori sy'n cyflawni'r CSI, 2006-2007 | | | |
|---|---|---|---|
| | **2006** | **2007** | **2008** |
| Bwlch CSI yn CA1 | 7.1 | 7.7 | 6.5 |
| Bwlch CSI yn CA2 | 10.2 | 6.7 | 4.4 |
| Bwlch CSI yn CA3 | 8.6 | 9.4 | 9.8 |
| Bwlch CSI yn CA4 | 6.5 | 7.7 | 8.0 |

*Ffynhonnell: Estyn, 2010*

7.8. Gan fod cyrhaeddiad disgyblion mewn carfan benodol yn dueddol o amrywio o un flwyddyn i'r llall, o ganlyniad i amrywiadau ar hap yn eu galluoedd, mae'n debygol

bod ychydig o’r amrywiadau mewn cyrhaeddiad dros y tair blynedd yn digwydd ar hap yn hytrach nag o ganlyniad i effaith Rhagori. Mae cysondeb a graddfa’r gostyngiad yn y bwlch yng Nghyfnod Allweddol 2 yn awgrymu nad yw’r newid hwn wedi digwydd ar hap a bod rhaglen Rhagori wedi cael effaith. O’i gymharu, mae’r patrwm yng Nghyfnod Allweddol 1 yn llai cyson o lawer ac mae graddfa’r newid yn llawer llai, gan gynyddu’r tebygolrwydd bod ychydig o’r newidiadau blynyddol, neu bob un ohonynt, o ganlyniad i amrywiadau ar hap.

**Tystiolaeth o asesiadau ansoddol**

7.9. Mae ysgolion, Cydgysylltwyr Rhanbarthol ac arolygwyr Estyn oll wedi cyhoeddi gwerthusiadau ansoddol ar raglen Rhagori, a hynny yn seiliedig ar amrywiaeth o dystiolaeth. Maent yn nodi’n gyson bod Rhagori wedi cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad ac ar lwyddiant disgyblion difreintiedig. Er enghraifft:

- Yn ôl Cydgysylltwyr Rhanbarthol, mae ysgolion yn nodi bod Rhagori yn cael effaith gadarnhaol ar lythrennedd a sgiliau a thueddiadau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion, ac mewn rhai achosion, ar eu cyrhaeddiad (Davies Jones, 2009; George, 2009; Snowball, 2009);
- Yn ôl Estyn “Mae disgyblion sy’n cael budd o waith a ariennir gan Rhagori yn gwneud cynnydd da o leiaf mewn tua phedair o bob pump o’r ysgolion yr ymwelwyd â nhw.” (t. 3, Estyn, 2010);
- Dywedodd pob un o’r ysgolion y bu i ni ymweld â hwy bod disgyblion Rhagori yn gwneud cynnydd sylweddol. Adlewyrchwyd hyn mewn nifer o fesurau, gan gynnwys cynnydd mewn oedrannau darllen, cynnydd mewn marciau profion safonol (megis asesiadau NFER), cynnydd drwy lefelau cwricwlwm cenedlaethol, gwelliannau mewn agweddau ac ymddygiad, gostyngiad yn nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd a chynnydd mewn presenoldeb. At hynny, ym marn broffesiynol y rheiny a gyfwelwyd â hwy, mae’r cynnydd a wnaed gan ddisgyblion a dargedwyd gan Rhagori yn well na fyddai wedi digwydd pe na bai’r disgyblion hyn wedi cael eu targedu. Mewn nifer o achosion, caiff y dystiolaeth ei hystyried i

fod ddigon cryf fel y gall ysgolion gyfiawnhau parhau â'r gweithgaredd cyllido pan fo cyllid Rhagori Llywodraeth Cymru yn dod i ben.

7.10. At hynny, yn wahanol i'r dystiolaeth gwbl feintiol a drafodwyd yn flaenorol, mae'r enillion hyn yn gyson ar gyfer disgyblion ym mhob un o'r Cyfnodau Allweddol.

**Anghysondeb ymddangosiadol rhwng mesurau gwbl feintiol a gwerthusiadau mwy ansoddol o ran effaith**

7.11. Dyma'r ddau brif ffactor a allai egluro'r anghysondeb hwn rhwng dulliau meintiol o fesur effaith (e.e. data cyfres amser a dadansoddi grwpiau cymharu) sy'n awgrymu peth effaith yng Nghyfnod Allweddol 2, ond dim effaith o gwbl yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, a gwerthusiadau mwy ansoddol, sy'n awgrymu effaith llawer mwy ar draws pob un o'r Cyfnodau Allweddol:

- Y defnydd o wahanol ddulliau i fesur llwyddiant, a olygai bod pethau gwahanol yn cael eu mesur;
- Gwallau wrth fesur.

7.12. ***Tystiolaeth bod gwahanol ddulliau yn cael eu defnyddio i fesur llwyddiant:*** Yn ôl Estyn ac yn dilyn ein hymweliadau ag ysgolion, daeth yn amlwg bod ysgolion Rhagori yn fwy tebygol o adrodd ar gynnydd yn seiliedig ar lythrennedd, ac i raddau llai, datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a nodweddion lles, megis hunan-barch. Er ei bod yn debygol bod y ffactorau hyn yn cyfrannu at gynnydd mewn cyrhaeddiad, fel y mesurwyd mewn asesiadau athrawon, nid ydynt o reidrwydd yn amodau digonol ar gyfer gwella cyrhaeddiad: Efallai bod llythrennedd, sgiliau cymdeithasol ac emosiynol a/neu lles yn gwella, ond nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod eu cyrhaeddiad o ran Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn gwella. Yn wir, mae tystiolaeth yn dangos pan fo plentyn yn cael ei addysgu gan staff cymorth yn hytrach nag athro, fel oedd yn digwydd fel arfer

gyda Rhagori, mae'n bosibl bod eu cynnydd yn arafach o ganlyniad[33] (Blatchford et al, 2009). Yn wir, ychydig iawn o ysgolion sy'n defnyddio "prif ddangosyddion", megis canran y disgyblion sy'n cyflawni'r CSI wrth asesu effaith Rhagori (Estyn, 2010). At hynny, gan fod y dadansoddiad o berfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd yn seiliedig ar ganran y disgyblion sy'n cyflawni'r CSI, sef y lefel ddisgwyliedig ym mhob Cyfnod Allweddol, mae'n fesur deuaidd llawer mwy cul o berfformiad disgyblion. Er enghraifft, mae disgybl sydd â chyrhaeddiad ychydig yn is na'r lefel ddisgwyliedig yn cael ei drin yn yr un modd â disgybl sydd â chyrhaeddiad llawer is na'r lefel ddisgwyliedig. O'r herwydd, gallai perfformiad disgybl Rhagori fod wedi cynyddu'n sylweddol, ond gan nad oedd wedi cynyddu ddigon i gyrraedd y lefel ddisgwyliedig, nid yw'r cynnydd hwn yn cael ei gofnodi.

7.13. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r CSI hefyd yn fesur cul gan mai perfformiad y carfan a dargedwyd yn unig y mae'n ei fesur. Dim ond perfformiad disgyblion yn y blynyddoedd a gaiff eu hasesu (blwyddyn derfynol pob cyfnod allweddol) y mae'n ei fesur a chafodd ysgolion eu hannog i beidio â thargedu'r grwpiau hyn yn unig er mwyn gwella perfformiad eu hysgol. At hynny, fel y nodir (gweler paragraffau 6.17-6.20), ni chafodd pob disgybl a oedd yn gymwys i gael PYaDd ei dargedu a chafodd rhai disgyblion nad oeddent yn gymwys eu targedu.

7.14. ***Tystiolaeth o ran gwallau wrth fesur***: Mae asesiadau athrawon ar ddiwedd pob Cyfnod Allweddol, er nad ydynt yn berffaith, yn debygol o fod yn ddull mwy trylwyr o fesur perfformiad disgyblion. Caiff asesiadau athrawon eu safoni ac mae gofyn cyflwyno tystiolaeth fanwl ar eu cyfer (Grŵp Adolygu Asesiad Daugherty, 2004). Er, mae Estyn wedi cwestiynu cysondeb asesiadau Cyfnod Allweddol 2 yn ddiweddar (bernir bod asesiadau Cyfnod Allweddol 3 yn fwy dibynadwy) (Estyn, 2010b). O'i gymharu, er mwyn asesu effaith, mae ysgolion Rhagori wedi defnyddio ystod eang o wahanol ddulliau i fesur cynnydd disgyblion, ac mae'n anoddach

[33] Yn ôl yr astudiaeth, er bod staff cymorth wedi cael effaith gadarnhaol ar rai agweddau ar gyflawni, megis ymddygiad, roedd perthynas negyddol rhwng lefel y cymorth yr oedd disgybl yn ei chael a'r cynnydd yr oeddent yn ei wneud o ran Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth: "Po fwyaf y gefnogaeth yr oedd disgyblion yn ei chael, y lleiaf o gynnydd yr oeddent yn ei wneud" (yn y pynciau hyn) (Blatchford et al, 2009).

asesu eu dilysrwydd a'u dibynadwyedd. Mae'r dystiolaeth o du Estyn, y Cydgysylltwyr Rhanbarthol ac ein hymweliadau ni ag ysgolion yn awgrymu bod angen dehongli tystiolaeth yr ysgolion o ran cynnydd yn ofalus, o ganlyniad i wendidau o ran methodoleg. Mae'r gwendidau hyn yn bennaf o ganlyniad i: ysgolion â niferoedd bychain[34]; diffyg grwpiau wedi'u rheoli a grwpiau cymharu; diffyg cymariaethau cyn/ar ôl ymyrryd[35]; a'r methiant o ran mesur canlyniadau cymdeithasol ac emosiynol yn systematig.[36]

7.15. ***Casgliadau***: er nad yw'n bosibl dweud na chafwyd unrhyw wallau mesur, mae'n debygol bod yr anghysondeb ymddangosiadol rhwng y dystiolaeth a oedd yn deillio o ddata cyfres amser a grwpiau cymharu â gwerthusiadau ansoddol o effaith Rhagori, a wnaed gan ysgolion, Cydgysylltwyr Rhanbarthol ac arolygwyr Estyn o ganlyniad, i raddau helaeth, i wahaniaethau mawr o ran mesur. Yn benodol, mae'r mesurau a ddefnyddiwyd gan ysgolion ymhlith y prif fesurau a ddefnyddir i fesur llwyddiant[37], megis sgiliau sylfaenol a sgiliau a thueddiadau cymdeithasol ac emosiynol[38], yn hytrach na chyrhaeddiad.

7.16. Wrth fynd ati i ddehongli'r effaith ar gyrhaeddiad, mae hefyd yn bwysig cofio bod y berthynas rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a chyrhaeddiad isel mewn addysg yn dueddol o fod yn gryfach mewn ysgolion uwchradd ac mae'r bwlch rhwng disgyblion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol mwy difreintiedig a rhai o gefndiroedd llai difreintiedig yn ehangach (Llywodraeth Cymru a CLILC, 2002). At hynny, mae peth tystiolaeth yn dangos ei bod yn anoddach i ddisgyblion wrth-

[34] Mae niferoedd bychain yn cynyddu'r perygl bod amrywiadau ar hap yn nodweddion y grŵp, megis eu galluoedd, yn dylanwadu ar y canlyniadau.

[35] Mewn rhai ysgolion, nid oedd data cychwynnol ar gael, felly roedd hi'n anodd asesu i ba raddau yr oedd disgyblion wedi datblygu.

[36] Gall y rhain fod yn heriol i'w mesur mewn modd systematig ac mae rhai ysgolion wedi dibynnu ar dystiolaeth fwy argraffiadol ac anecdotaidd.

[37] Mae Estyn yn diffinio llwyddiant yn nhermau llwyddiant disgyblion o ran cyrraedd nodau dysgu cytunedig, eu cynnydd o ran dysgu, a datblygiad eu sgiliau personol, cymdeithasol a dysgu.

[38] Mae'r term "tueddiadau a sgiliau cymdeithasol ac emosiynol" wedi ei ddatblygu fel rhan o brosiect Dangos Llwyddiant, sy'n ceisio datblygu adnoddau ar gyfer mesur cynnydd pobl ifanc. Caiff ei ddefnyddio i ddisgrifio pedwar grŵp o sgiliau: "rhyngweithio", "parch at eraill", "cymhelliant a mynd ati i gymryd rhan" ac "annibyniaeth". Mae'n cynnwys amrywiaeth o sgiliau, agweddau ac ymddygiadau ac yn cynnwys y rhan fwyaf o'r canlyniadau "sylfaenol" a nodir gan ysgolion (e.e. cynyddu cymhelliant, hunan-effeithlonrwydd a gwella presenoldeb ac ymddygiad) sy'n cefnogi llwyddiant academaidd.

droi patrymau tangyflawni erbyn iddynt gyrraedd eu harddegau" (t. 7, Goodson a Greg, 2010). Felly, nid yw'n syndod ei bod wedi bod yn anoddach i ysgolion uwchradd wella ar gyrhaeddiad yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 o'i gymharu ag ysgolion cynradd. Yn ehangach, efallai ei bod hi dal yn rhy gynnar i fesur effaith lawn Rhagori ar gyrhaeddiad disgyblion yn unrhyw un o'r pedwar Cyfnod Allweddol. Er enghraifft, os caiff cynnydd yn sgiliau sylfaenol a sgiliau a thueddiadau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion eu cynnal, gallai arwain at gynnydd mewn cyrhaeddiad mewn blynyddoedd dilynol.

## 8. GWAHANIAETHAU O RAN EFFAITH MEWN GWAHANOL YSGOLION

**Cyflwyniad**

8.1. Dywed y dystiolaeth a ddaw o'r rhaglen yn ei chyfanrwydd, bod y rhaglen yn debygol o fod wedi gwella sgiliau sylfaenol disgyblion a'u sgiliau a'u tueddiadau cymdeithasol ac emosiynol ar draws pob un o'r 4 Cyfnod Allweddol. Dengys y dystiolaeth hyd yma bod unrhyw effaith ar gyrhaeddiad wedi'i gyfyngu i Gyfnod Allweddol 2. Ond nid yw hyn yn golygu bod yr effaith wedi bod yn gyfartal ar draws yr holl ysgolion cynradd, yr ysgolion uwchradd a'r ysgolion arbennig. Mae'r dystiolaeth gan Estyn, adroddiadau Cydgysylltwyr Rhanbarthol a'n hymweliadau ag ysgolion oll yn awgrymu amrywiad sylweddol o ran targedu, safon a chyrhaeddiad gwaith a ariennir gan Rhagori, ac felly, ei effaith debygol. Mae'n bosibl mai un o'r rhesymau dros hyn yw'r gwahaniaethau o ran effeithiolrwydd cyffredinol ysgolion (trowch at Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, Llywodraeth Cymru, 2008, i weld disgrifiad o nodweddion ysgolion effeithiol). Mae hyn yn ei dro yn debygol o fod wedi dylanwadu ar y math o strategaeth a ddatblygwyd gan ysgol ac, yn benodol, a oedd gan y strategaeth ffocws cul ynteu a oedd hi'n fwy holistaidd.

**Anfantais economaidd-gymdeithasol ac effeithiolrwydd ysgolion**

8.2. Mae ymchwil Ruth Lupton (2004, 2005) ym maes effeithiolrwydd ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig wedi llywio ein hystyriaethau wrth edrych ar Rhagori. Fel sydd wedi'i amlinellu yn adran 3, mae Lupton yn nodi ystod o gostau ychwanegol sy'n wynebu ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau dan anfantais yn economaidd-gymdeithasol. Mae hi'n dadlau bod ffactorau megis awyrgylch llawn emosiwn (gyda disgyblion yn byw dan straen sy'n aml yn anhapus, yn orbryderus, neu'n ddig ac wedi'u trawmateiddio) a phroblemau ymddygiad yn aml yn ychwanegu at y costau ychwanegol hyn. Mae hyn oll yn golygu bod yr ysgol yn cynnig amgylchedd lle mae'n gynyddol anodd rhagweld beth fydd yn digwydd nesaf. Mae hyn yn ei dro yn golygu bod aelodau o'r uwch dîm rheoli ac athrawon

yn aml yn gorfod ymateb i broblemau ac argyfyngau sef yr hyn y mae hi'n ei alw'n "ymladd tân", yn hytrach na mynd ati'n rhagweithiol i ganolbwyntio ar effeithiolrwydd. Mae Lupton yn dod i'r casgliad bod hyn felly'n golygu bod ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau difreintiedig yn cael trafferth darparu addysg o'r un safon ag ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau llai difreintiedig – hynny yw, heb roi arian ychwanegol iddynt.

8.3. Er mwyn profi theorïau Lupton, buom yn eu trafod gydag ysgolion yn ein hail rownd o ymweliadau ag ysgolion ac yn ystod cynadleddau Rhagori. Mewn gwirionedd, cyflwynwyd ei theorïau fel hypothesis. Mae ysgolion wedi ymateb yn gadarnhaol i hyn, gan gydnabod a disgrifio nifer o'r heriau a'r costau y mae hi'n eu disgrifio. Roedd y rhain yn adlewyrchu'r angen i fuddsoddi mwy mewn cymorth ychwanegol i ddiwallu anghenion y nifer uchel o ddisgyblion a oedd ag 'anghenion dysgu ychwanegol'[39] sydd i'w gweld yn aml ymysg eu disgyblion, er mwyn hyrwyddo cynhwysiant. Yn bennaf, roeddent yn cynnwys tri phrif fath o ymyriad:

- Cefnogaeth ar gyfer datblygu llythrennedd, rhifedd, lleferydd ac iaith;
- Gofal bugeiliol i fynd i'r afael ag anghenion emosiynol a chymdeithasol yn ogystal â phroblemau ymddygiad;
- Ymgysylltu â rhieni a gofalwyr.

8.4. At hynny, aeth ysgolion ati i nodi'r gost o ddarparu ar gyfer lles disgyblion. Roedd enghreifftiau o hyn yn cynnwys yr amser a gaiff ei dreulio yn trafod gydag asiantaethau eraill, megis yr heddlu a gwasanaethau cymdeithasol; darparu gofal ychwanegol i ddisgyblion y mae eu rhieni naill ai'n methu darparu gofal neu'n gwrthod gwneud hynny; ailstrwythuro'r dydd i wneud yn siŵr bod disgyblion yn gallu cael tri phryd yn ystod y diwrnod ysgol; a rhoi meddyginiaethau i ddisgyblion. Er ei bod hi'n anodd mesur yr amser a'r costau cysylltiedig, ystyrir eu bod yn

[39] Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i gynnig addysg gynhwysol. Er mwyn gwireddu hyn, defnyddir cysyniad "anghenion dysgu ychwanegol" i drafod anghenion dysgwyr y mae arnynt angen cymorth ychwanegol naill ai o ganlyniad i'w hamgylchiadau neu am fod ganddynt anhwylder neu gyflwr mwy hirdymor. Drwy ddiwallu'r anghenion hyn, gall ysgolion wneud yn siŵr y gall pob disgybl gael mynediad at y cyfleoedd y mae'n eu cynnig (t.2. Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006).

sylweddol, ac felly maent yn lleihau'r amser y gellir ei dreulio ar agweddau eraill ar effeithiolrwydd yr ysgol. Gwelwyd enghreifftiau hefyd o gostau ariannol uniongyrchol, megis rhoi cymorthdaliadau at deithiau, prynu gwisgoedd ysgol ac roedd un ysgol hyd yn oed a oedd wedi prynu peiriant golchi er mwyn mynd ati weithiau i olchi gwisgoedd ysgol disgyblion. Er bod disgwyl i welliannau i les disgyblion helpu disgyblion i gael mynediad at y cyfleoedd a gynigir gan yr ysgol (ac y gellir ei ystyried felly yn nhermau cynhwysiant), mewn cyferbyniad â'r mathau o gefnogaeth a nodwyd uchod, nid dyma oedd y prif gymhelliant.

8.5. Bu'r ysgolion yr aethom i ymweld â hwy hefyd yn nodi'r amrywiol ffyrdd yr oedd Rhagori yn eu helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau a oedd yn eu hwynebu. Roeddent yn cynnwys yr effaith gadarnhaol yr oedd ymyriadau Rhagori wedi'u cael ar:

- Ymddygiad disgyblion, er enghraifft drwy wella ymddygiad disgyblion penodol a thynnu disgyblion heriol o ddosbarthiadau'r brif ffrwd, a oedd yn ei dro yn helpu athrawon i ganolbwyntio ar addysgu a dysgu yn hytrach na rheoli ymddygiad;
- Disgwyliadau athrawon, er enghraifft drwy ddangos y gallai disgyblion o gefndiroedd difreintiedig lwyddo dim ond iddynt gael y gefnogaeth briodol;
- Cymhelliant ac ymgysylltiad disgyblion gydag addysg;
- Yr amser y gallai uwch reolwyr ei dreulio yn gweithio ar gynlluniau strategol, drwy gynyddu capasiti eu timau addysgu a chymorth er mwyn iddynt allu delio gyda mwy o broblemau o ddydd i ddydd.

8.6. Ar sail y dadansoddiad hwn a chan dynnu ar dystiolaeth o'n hymweliadau ag ysgolion, yn gyffredinol, canfuom fod tri grŵp o ysgolion Rhagori:

- Ysgolion y mae eu gwaith Rhagori wedi bod yn canolbwyntio'n benodol ar un pwnc cul, megis gwella llythrennedd disgyblion neu eu hymddygiad, ac sy'n parhau i fod yn gwneud hynny. Mae tystiolaeth o werthusiadau o ymyriadau mewn ysgolion eraill y gellir cymhrau'r gwerthusiad hwn â hwy yn awgrymu bod y rhain yn debygol

o effeithio ar sgiliau sylfaenol disgyblion, yn ogystal â'u sgiliau a'u tueddiadau cymdeithasol ac emosiynol a bod modd mesur hyn yn y tymor byr (gweler y testun yn y blwch);

- Ysglion yr oedd eu gwaith a ariannwyd gan Rhagori wedi bod â ffocws cul ar y dechrau ond sydd wedi esblygu yn ystod y tair blynedd i fynd i'r afael ag ystod o faterion eraill. Mae tystiolaeth o werthusiadau o ymyriadau mewn ysgolion eraill y gellir cymhrau'r gwerthusiad hwn â hwy yn awgrymu bod yr agweddau mwy holistaidd hyn yn debygol o gael mwy o effaith – rhywbeth yr ydym ni'n edrych arno ymhellach isod. Fodd bynnag, gan fod y gwaith hwn yn debygol o gael mwy o effaith gydag amser, mae'n bosibl y bydd oedi cyn y bydd modd mesur yr effaith lawn (cf. Estyn, 2010a);
- Ysgolion a oedd eisoes wedi datblygu strategaeth holistaidd i fynd i'r afael â'r cysylltiadau rhwng tlodi â chyrhaeddiad isel mewn addysg, a oedd eisoes yn llwyddo i leihau'r bwlch a oedd eisoes yn defnyddio cyllid Rhagori i gryfhau ac ymestyn hyn.

8.7. Mae ein dadansoddiad yn awgrymu bod y tri grŵp yn adlewyrchu, yn rhannol, y gwahaniaethau yn effeithiolrwydd ysgolion a'r heriau a fu'n eu hwynebu yn 2006-2007 wrth ddatblygu eu cynigion Rhagori. Er mwyn edrych yn fanylach ar hyn, byddai'n ddefnyddiol meddwl am ysgolion yn eistedd ar gontinwwm effeithiolrwydd. Bydd yr ysgolion mwyaf effeithiol ar un pen sef y rheiny sy'n gwasanaethu cymunedau difreintiedig. Ond, yn groes i'r disgwyl, mae ganddynt arweinyddiaeth gref a gwasgaredig, gyda gwerthoedd a disgwyliadau clir, cysylltiadau cryf gyda theuluoedd, y gymuned ehangach a sefydliadau partner, cymunedau dysgu proffesiynol, strategaethau effeithiol i ddarparu cymorth ac ymyriadau, targedau heriol a phrosesau hunan-werthuso effeithiol ac addysgeg ragorol (c.f. Llywodraeth Cymru, 2008b, Estyn, 2010a; Llywodraeth Cymru a CLlLC, 2002, 2004). Roedd gan yr ysgolion hyn ddealltwriaeth glir o anghenion disgyblion a'u cyrhaeddiad yn ogystal â'r heriau a oedd yn wynebu'r ysgol wrth ddiwallu'r aghenion hyn a gwella cyrhaeddiad ymhellach. Roedd Rhagori yn cynnig cyllid ychwanegol a oedd yn eu gallougi i ddiwallu anghenion disgyblion yn

well. Ar ben arall y sbectrwm, bydd yr ysgolion llai effeithiol, sy'n wynebu amrywiol heriau ac sydd felly â llai o ddealltwriaeth o lawer o angehnion eu disgyblion a'u cyrhaeddiad a'r heriau a'r hyn y gallai'r ysgol ei wneud ac yn wir yr oedd gofyn i'r ysgol ei wneud i wella cyrhaeddiad.

8.8. Mae nifer o ysgolion y grŵp cyntaf yn debygol o fod wedi bod yn "ymladd tân", yn cael trafferth meddwl yn strategol ac yn wir, yn llai effeithiol o'r herwydd. Mae'n bosibl bod ysgolion yr ail grŵp wedi gallu defnyddio cyllid Rhagori i helpu i ddiffodd rhai o'r tanau (i barhau â throsiad Ruth Lupton), gan roi lle iddynt anadlu, i feddwl ac i weithredu yn fwy strategol – rhywbeth y byddwn yn ei drafod ymhellach isod, gan eu helpu i ddod yn fwy effeithiol. Mewn gwrthgyferbyniad, roedd y ffaith i'r trydydd grŵp fod yn fwy effeithiol wrth fynd i'r afael â'r cyswllt rhwng tlodi a chyrhaeddiad isel mewn addysg cyn i raglen Rhagori ddechrau yn golygu eu bod yn llai tebygol o fod yn "ymladd tân" ac yn fwy tebygol o allu meddwl yn strategol o'r dechrau.

**Tystiolaeth o werthusiadau o ymyriadau y gellir cymharu â hwy mewn cyd-destunau eraill**

Mae gwerthusiadau o **ymyriadau llythrennedd** yn awgrymu bod modd cael effaith dda – digon i ddyblu cyfradd cynnydd arferol – a'i bod yn rhesymol disgwyl gweld hyn. Mae'n nodi 18 cynllun sydd oll yn darparu tystiolaeth o'r effaith ar y lefel hon mewn o leiaf un astudiaeth: Better Reading Partnerships, The Catch Up Project, Cued Spelling, Family Literacy, Inference Training, Interactive Assessment and Teaching, Multi-sensory Teaching System for Reading, Paired Reading, Parental Involvement, Phono-Graphix , Reading Intervention, Reading Recovery, Reciprocal Teaching (ar gyfer cywirdeb darllen), Somerset, THRASS (ar gyfer darllen, ond yn llai dibynadwy ar gyfer sillafu), AcceleRead, AcceleWrite, Reader's Intelligent Teaching Assistant, a Paired Writing. At hynny, maent yn nodi bod y rhan fwyaf o'r cynlluniau a oedd yn ymgorffori astudiaethau dilynol yn dangos bod plant yn parhau i gynnal eu datblygiad o ran llythrennedd neu rifedd (Brooks,  2002).

Mae gwerthusiadau o ymyriadau gyda **rhieni a gofalwyr** yn awgrymu y gall y rheiny sy'n cynyddu ymgysylltiad rhieni a gofalwyr mewn addysg (yn hytrach na'u hymwneud ag addysg eu plant) gyfrannu at y broses o wella cyrhaeddiad yn ogystal ag effeithiolrwydd ysgolion (Harris a Goodall, 2009).

Mae gwerthusiadau o **Grwpiau Anogaeth**[40] yn awgrymu y gallant gael effaith gadarnhaol o ran datblygiad emosiynol ac ymddygiadol, cynnydd addysgol; ailintegreiddio i addysg y brif ffrwd a lleihau anghenion o ran cymorth ac o ran yr ysgol, mewn meysydd megis ethos. Fodd bynnag, ac eithrio un astudiaeth ar raddfa fawr o grwpiau anogaeth yn Glasgow, ceir gwendidau methodolegol sylweddol yn y rhan fwyaf o astudiaethau. Roedd astudiaeth Glasgow yn dangos effeithiau ar gyrhaeddiad plant ac ar eu datblygiad cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (Reynolds, et al, 2008).

Mae gwerthusiadau o rai ymyriadau **ymddygiadol**, megis timau cymorth addysg ac ymddygiad, yn nodi canlyniadau cadarnhaol o ran gwelliannau i ymddygiad a chyrhaeddiad, lleihad mewn achosion o wahardd ac mewn rhai achosion, effaith gadarnhaol fechan ar ddysgu (Sims, et al, 2008).

**Yr effaith wahanol a gaiff strategaethau cul a holistaidd**

8.9. Fel sydd wedi'i nodi uchod, er bod tystiolaeth dda yn deillio o brosiect Rhagori ac o brosiectau eraill y gellir eu cymharu â hwy bod ymyriadau unigol, megis cymorth gyda llythrennedd, yn gwneud gwahaniaeth, mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos yn glir bod ysgolion llwyddiannus mewn ardaloedd difreintiedig yn llwyddiannus am eu bod yn ymgorffori nodweddion ysgol "effeithiol" yn hytrach na'r ffaith eu bod yn gweithredu mentrau penodol megis 'Catch Up'. Hynny yw, mae ganddynt safonau addysgu, cwricwlwm ac arweinyddiaeth effeithiol, maent yn gweithio gydag eraill,

[40] Mae grŵp anogaeth yn cynnwys niferoedd bach o blant (llai na 12 fel rheol) ac yn ceisio datblygu amgylchedd cefnogol a diogel a all gynyddu ymdeimlad plant o fod yn ddiogel yn ogystal â hunan-werth. Maent yn canolbwyntio ar ddatblygiad emosiynol a chymdeithasol yn ogystal â chynnydd academaidd (Estyn, 2009, Reynolds et al, 2009).

maent yn rhan o rwydweithiau arferion, mae ganddynt strategaethau effeithiol o ran ymyriadau, cefnogi, gwneud gwelliannau ac atebolrwydd (Llywodraeth Cymru[41], 2008b; Estyn, 2010a; Llywodraeth Cymru a CLILC, 2002) . Ni cheir un ateb a fydd yn arwain at wyrth, dim un peth a fydd yn torri'r cyswllt rhwng tlodi a chyrhaeddiad isel mewn addysg, a hynny am sawl rheswm:

- I ddechrau, fel sydd wedi'i nodi yn adran 3, ni cheir un ffactor sy'n gysylltiedig â thlodi sy'n arwain at gyrhaeddiad isel mewn addysg. Er y gall rhai ffactorau, megis amgylchedd llythrennedd gwael neu safon yr amgylchedd dysgu gartref fod yn fwy amlwg nag eraill (Cassen a Kingdon, 2007; Desforge ac Aboucher, 2003), nid yw hyn yn golygu bod gwella llythrennedd neu wella'r amgylchedd dysgu gartref yn amod digonol. Nid ydyw ychwaith yn golygu fod gan bob plentyn sy'n cael ei fagu mewn tlodi lefelau llythrennedd gwael nac ychwaith eu bod yn byw mewn amgylchedd dysgu gwael. Mae mynd i'r afael â mwy o ffactorau yn cynyddu'r tebygolrwydd yr eir i'r afael â phroblem benodol neu'r ystod o broblemau sydd gan bob plentyn sy'n byw mewn tlodi. Yn yr un modd, ceir perygl bod canolbwyntio ar un ateb neu ddatrysiad, megis darparu cymorth ychwanegol, yn tynnu sylw oddi wrth fynd i'r afael â phroblemau mwy systematig, megis gwendid o ran addysgu neu asesu (cf. OfSTED, 2010).

- Yn ail, ceir potensial i weld synergeddau rhwng gwahanol ymyriadau, fel bod y cyfanswm neu'r effaith gyfan yn dod yn fwy nag effaith y rhannau unigol. Er enghraifft, gallai gwella llythrennedd plentyn, gwella ei sgiliau cymdeithasol ac emosiynol a gweithio i gefnogi rhieni er mwyn iddynt fod mewn gwell sefyllfa i helpu ac annog eu plant ac ymgysylltu â'u haddysg, greu patrwm sy'n arwain at welliannau cynyddol. Er enghraifft, gallai olygu fod plentyn mewn gwell sefyllfa i gael mynediad at y cwricwlwm a rheoli ei ymddygiad fel ei fod yn hapusach yn yr ysgol ac fe gaiff hyn ei atgyfnerthu gan anogaeth gartref ac wrth i'w gyrhaeddiad

[41] Felly, yn gyffredinol, maent yn gwneud yr un peth â phob ysgol lwyddiannus (Estyn, 2010b). Fodd bynnag, gan fod natur yr heriau sy'n eu hwynebu yn wahanol a bod maint yr heriau hynny'n aml yn fwy, mae natur eu harweinyddiaeth, eu cwricwlwm a'u haddysgu, eu hymyriadau a'u strategaethau cymorth er enghraifft, yn wahanol i'r rheiny a welir mewn ysgolion eraill.

wella, felly hefyd ei gymhelliant, sydd yn ei dro yn gwella ei gyrhaeddiad ymhellach ac yn y blaen.

- Yn drydydd, mae strategaethau mwy holistaidd yn lleihau'r perygl y bydd ffactorau neu ymyriadau gwahanol yn gwrthdaro, gan danseilio neu weithio yn erbyn ei gilydd. Er enghraifft, mae'n ddigon posibl y bydd rhieni, llys-rieni a gofalwyr yn tanseilio ymdrechion i wella hunan-effeithlonrwydd, hunan-gred, a gallu plentyn i ddysgu a llwyddo. Mae'n bosibl bod profiad y bobl hyn o'r byd addysg wedi bod yn negyddol ac felly prin yw eu hunan-effeithlonrwydd eu hunain a'u bod yn ofni y bydd eu plentyn yn ceisio cyflawni gormod ac yn methu. Mae'n bosibl hyd yn oed eu bod yn teimlo bod llwyddiant eu plant yn fygythiad ac felly eu bod yn gwneud prin ddim i annog y plentyn neu eu bod hyn yn oed yn mynd ati'n fwriadol i beidio ag annog neu'n dirmygu hunan-effeithlonrwydd, hunan-gymhelliant a dyheadau y plentyn.

8.10. Mae'r berthynas rhwng gwahanol ffactorau yn dangos pwysigrwydd "meddwl trwy systemau", sef meddwl am y berthynas rhwng gwahanol rannau, neu gydrannau systemau (gweler y testun yn y blwch). Hefyd, mae'n pwysleisio ei bod hi'n debygol o fod yn arbennig o anodd i ysgolion dorri'r cyswllt rhwng tlodi a chyrhaeddiad isel mewn addysg wrth weithredu ar eu pen eu hunain. Er enghraifft, fel y dywed Estyn yn ei adroddiad blynyddol diwethaf:

> Mae gan waith partneriaeth o wahanol asiantaethau, fel yr un y mae'r strategaeth genedlaethol yn ei hyrwyddo ar gyfer datblygu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc yn ardal pob awdurdod lleol, y potensial i wneud llawer i geisio torri'r cylch o anfantais gymdeithasol ac addysgol. Mae gofyn cydlynu'r camau gweithredu yng ngwahanol feysydd y gwasanaethau cyhoeddus er mwyn effeithio'n barhaol ar y broblem gymhleth yma sydd wedi'i gwreiddio'n ddwfn. (t vi, Estyn, 2010b).

8.11. Cefnogir y casgliad hwn gan amrywiol astudiaethau eraill ar y bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol (gweler e.e., Egan, 2007; CPEG, 2008; Llywodraeth Cymru a CLILC, 2002).

**Meddwl trwy Systemau**

Ystyr 'Meddwl trwy Systemau', yw meddwl am y berthynas rhwng gwahanol rannau o system, yn hytrach na cheisio ynysu cydrannau unigol er mwyn eu deall. Er enghraifft, er mwyn deall ysgol, sut y mae'n gweithio a sut y gall ddatblygu, ni ddylid edrych ar yr ysgol ar ei phen ei hun yn unig; rhaid meddwl am sut y mae'n ymwneud â 'chydrannau' eraill yn y system, megis yr Awdurdod Lleol, y gymuned a'r teulu. Yn wir, mae'n golygu mynd ati'n holistaidd i feddwl am bethau gan edrych ar y cyd-destun ehangach.

Mae meddwl trwy systemau yn gyson ag amrywiol ddulliau o weithio e.e. atebolrwydd seiliedig ar ganlyniadau[42] sy'n pwysleisio nad oes modd i un sefydliad (neu un o gydrannau'r system) megis ysgolion fynd i'r afael ag amrywiol nodau polisi cyhoeddus, megis lleihau'r bylchau addysgol a'r bylchau mewn profiad, ac ni ddylent ychwaith gael eu dal yn atebol am hyn. Yn hytrach, mae holl gydrannau'r system yn rhannu cyfrifoldeb ar y cyd dros gyrraedd y nod hwn (Friedman, 2005).

*Addaswyd o Holtom, 2009*

8.12. Mae Rhagori felly yn debygol o gael yr effaith fwyaf lle caiff cyllid Rhagori ei gefnogi gan feddwl trwy systemau a'i ddefnyddio i gefnogi newid systematig ehangach yn yr ysgol a thu hwnt i'r ysgol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys gwaith gyda sefydliadau partner yn gweithio gyda rhieni disgyblion a chydag ysgolion eraill yn y clwstwr er mwyn gwarantu bod cefnogaeth yn parhau pan fydd disgyblion yn symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae'n debygol y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn ogystal â disgyblion o gefndiroedd mwy breintiedig. Gallai hyn olygu y caiff y gwir effaith ar gyrhaeddiad plant ei guddio rhywfaint wrth i'w datblygiad o ran cyrhaeddiad,

[42] Mae atebolrwydd seiliedig ar ganlyniadau yn ddull o weithio sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a geisir, ac yn gweithio'n ôl i nodi sut y gellir mesur cynnydd tuag at y nod hwn a pha bartneriaid sy'n cyfrannu at y llwyddiant hwn. I ddysgu rhagor am hyn, trowch at http://www.raguide.org/.

sgiliau sylfaenol, sgiliau a thueddiadau cymdeithasol ac emosiynol ddigwydd hefyd i ddisgyblion o gefndiroedd mwy breintiedig.

# 9. EFFAITH CYLLID RHAGORI AR YSGOLION

9.1. Mae tystiolaeth gan Gydgysylltwyr Rhanbarthol, Estyn a'n hymweliadau ein hunain ag ysgolion[43] wedi dangos ystod o effeithiau mewn ysgolion yn gyson. I grynhoi, mae'r rhain yn cynnwys (rydym yn trafod pob un yn fanwl isod):

- Ymwybyddiaeth gynyddol o'r cyswllt rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a chyrhaeddiad isel mewn addysg bron ym mhob ysgol;
- Mewn nifer o ysgolion, gwell dealltwriaeth o'r rheswm dros y cyswllt, gan arwain at ddisgwyliadau uwch o ran cyrhaeddiad plant o gefndiroedd difreintiedig;
- Galluogi, cynnal ac weithiau ysgogi camau gweithredu i fynd i'r afael â'r cyswllt rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a chyrhaeddiad isel mewn addysg;
- Datblygu rôl staff cymorth mewn ysgolion;
- Datblygu ac ymestyn y cwricwlwm;
- Gwella'r gefnogaeth a gynigir;
- Gwella prosesau monitro a gwerthuso.

9.2. ***Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r materion**:* Roedd y rhan fwyaf o'r ysgolion yr aethom i ymweld â hwy yn nodi bod staff yn ymwybodol o'r cyswllt rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a chyrhaeddiad isel mewn addysg cyn y rhaglen ond dywedasant fod ffocws Rhagori wedi "dyfnhau ac ehangu" y ddealltwriaeth hon, ys dywed un Cydgysylltydd Rhanbarthol (t.2, George, 2009). Mewn rhai ysgolion, mae Rhagori wedi herio disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion unigol ei gyflawni er bod effaith hyn ar draws yr ysgol wedi bod yn gymysg. Bu'r tîm ymchwil yn ymweld ag ysgolion a soniodd bod yr ymwybyddiaeth gynyddol hon wedi effeithio ar ddiwylliant ac ethos yr ysgol gyfan. Ond mewn ysgolion eraill, roedd

[43] Fel sydd wedi'i nodi yn adran 4, er mwyn nodi ysgolion i ymweld â hwy, gwahoddwyd Cydgysylltwyr Rhanbarthol Rhagori i awgrymu ysgolion a oedd yn eu barn hwy yn nodedig am eu defnydd o gyllid Rhagori. Felly, er ein bod yn yr adran hon yn defnyddio tystiolaeth ar gyfer yr holl ymweliadau ag ysgolion i ddangos sut y defnyddiodd ysgolion gyllid Rhagori, mae'r canfyddiadau yn tynnu ar set ehangach o ddata na'n hymweliadau ysgol ni.

hi'n amlwg bod yr effaith wedi'i gyfyngu'n bennaf i'r rheiny a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â Rhagori. Mewn ambell ysgol, mae'r ddealltwriaeth hon yn ymestyn i anghenion plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol.

> *Llwyddodd Rhagori i hoelio ein sylw, gan wneud i ni gamu'n ôl a meddwl am yr hyn yr oedd ei wir angen arnom gan ddod yn sail i'r addysgeg. Fe'n hysgogodd ni fel staff i drafod ac fe lwyddodd i'n newid. Mae'r effaith wedi bod yn anhygoel.* Pennaeth ysgol gynradd gyda dros ddwy ran o dair o'r disgyblion yn gymwys i gael PYaDd.

9.3. Lle datblygodd y ddealltwriaeth ehangach a dyfnach hon ar draws yr ysgol, gwelwyd tystiolaeth o sut yr aethant ati i ddatblygu eu strategaethau yn ystod oes Rhagori. Mae hyn wedi cynnwys:

- Ymestyn gwaith a ariennir gan Rhagori i gynnwys mwy o ddisgyblion ac i fynd i'r afael â meysydd eraill lle mae galw am wella, yn bennaf drwy gyflwyno strategaethau sy'n ceisio gwella sgiliau a thueddiadau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion ochr yn ochr ag ymyriadau sy'n ceisio gwella llythrennedd a rhifedd;
- Gwella cysylltiadau rhwng yr ysgol a rhieni a gofalwyr, er bod nifer o ysgolion hefyd yn sôn am y trafferthion a gawsant wrth geisio cryfhau cysylltiadau;
- Datblygu partneriaethau gydag asiantaethau eraill, megis y Gwasanaeth Ieuenctid

> *Mae hyn wedi ein helpu i gael gwared ar y rhwystrau gyda rhieni. Dydyn ni ddim wedi gweld rhiant yn ymddwyn yn ddig nac yn ymosodol ers 3 blynedd – gostyngiad enfawr.* Pennaeth ysgol gynradd gyda dros 70% o'r plant yn gymwys i gael PYaDd.

> *Rydym ni'n sgrinio lefelau mathemateg a darllen pawb beth bynnag, yna fe aethom ati i restru'r disgyblion PYaDd gan fynd ati i ddewis o'r rheiny – nid rhestr union yr un fath oedd hi ond roedd nifer o'r disgyblion a gafodd sgôr wael gyda'u mathemateg (ddim darllen bob amser) yn gysylltiedig â phroblemau*

*gyda hyder ac absenoliaeth. Aethom ati i ddefnyddio'r rhestr hon i ddangos i rieni eu bod i fod i ymwneud â dysgu'r plant gan weithio wedyn gyda theuluoedd.* Pennaeth ysgol gynradd wledig.

9.4. **Cynnal, galluogi ac ysgogi camau gweithredu:** Roedd y rhan fwyaf o'r ysgolion yr aethom i ymweld â hwy yn ymwybodol o'r cysylltiad rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a chyrhaeddiad isel mewn addysg. Yn wir, roedd y rhan fwyaf yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn, hyd yn oed os oedd y camau gweithredu yn aml yn canolbwyntio ar y symptomau, megis llythrennedd a rhifedd gwael, yn hytrach nag ar wreiddyn y broblem. Ar gyfer yr ysgolion hyn, llwyddodd rhaglen Rhagori i gynyddu proffil yr her gan eu hannog a'u galluogi i gyfuno, cynnal ac ymestyn gweithgareddau cyfredol mewn rhai achosion i fynd i'r afael â hyn. Mae hyn yn adlewyrchu un o wendidau gwaith a ariennir gan Rhagori, y bu rhai ysgolion yn defnyddio'r cyllid i barhau, heb feirniadaeth, gyda'r hyn yr oeddent eisoes yn ei wneud neu'r hyn y dylent fod wedi bod wrthi'n ei wneud yn barod, megis darparu cymorth darllen i ddisgyblion sydd â llythrennedd gwael. Weithiau, roedd rhai o'r ysgolion yr oeddem yn ymweld â hwy yn beirniadu cydweithwyr mewn ysgolion eraill am wneud hyn, a'r canllawiau a roddwyd wrth gyflwyno Rhagori, am beidio â bod yn fwy strategol wrth dargedu'r defnydd a wnaed o'r cyllid.

9.5. Mewn rhai ysgolion, roedd Rhagori yn gatalydd ar gyfer gweithredu mwy radical gyda mwy o effaith. Bu un Pennaeth yn disgrifio sut y mae cyllid tymor byr a dargedir fel hyn yn hanfodol fel arf i alluogi ysgol i roi cynnig ar rywbeth newydd, i roi cynnig ar gamau gweithredu newydd na fyddai modd eu cyfiawnhau heb eu profi pe byddent yn cael eu hariannu gan y gyllideb graidd. Ar ôl rhoi cynnig arnynt, gellid gwneud penderfyniadau am p'un a ellid defnyddio cyllid craidd i'w cynnal ai peidio. Yn yr un modd, bu un o'r Cydgysylltwyr Rhanbarthol yn sôn bod Penaethiaid yn dweud bod Rhagori wedi bod yn 'glamp o hwb', gan alluogi prosiectau i gael eu sefydlu na fyddant wedi gallu cael eu hariannu fel arall. Bu Pennaeth arall yn disgrifio'r hwb a gafwyd gan gyllid Rhagori fel math o 'dannwydd

hudol' sydd wedi galluogi'r ysgol i deithio ymhellach o lawer i lawr y ffordd yr oedd eisoes wedi'i hadnabod fel llwybr yr hoffai ei ddilyn (t. 8, George, 2009).

> *Fe wnaeth Rhagori roi hwb i ni wneud rhywbeth yr oeddem ni wir wedi bod eisiau ei wneud gan roi cyfle i ni ei roi ar waith yn gyflym. Byddai wedi cymryd 3 i 4 blynedd i ni wneud yr hyn a gymerodd flwyddyn yn unig i ni. Fe wnaeth i ni ganolbwyntio ar dargedau newydd, er enghraifft merch ddisglair iawn ym mlwyddyn 6 nad oedd angen unrhyw help i ddarllen na chyda mathemateg ond a oedd angen help gyda sgiliau cymdeithasol.* Pennaeth ysgol gynradd.

> *Daeth Rhagori yn rhan fawr o bob dim – cafodd effaith ar bopeth – darllen, mathemateg, sgiliau cymdeithasol a phresenoldeb, gan roi hwb ychwanegol i'r grŵp targed. Fe weithiodd gan mai rhaglen oedd hi yr oeddem yn gallu ei dyfeisio ar ôl meddwl yn ofalus iawn.* Pennaeth ysgol gynradd

9.6. ***Arferion a datblygiad staff*****:** Un o effeithiau amlycaf Rhagori oedd rôl staff cymorth megis cynorthwywyr cymorth dysgu (LSA), sydd wedi mabwysiadu rôl newydd a mwy heriol, gan fynd ati'n aml i gefnogi cynnydd disgyblion yn uniongyrchol a datblygu gwell dealltwriaeth o amgylchiadau, anghenion a photensial disgyblion – gellir rhannu'r wybodaeth hon gyda staff addysgu.

> *Mae Rhagori wedi tynnu staff ynghyd ac yn awr, maent yn croesawu cefnogaeth LSA*[44]. Pennaeth ysgol gynradd

9.7. Mae nifer o ysgolion yn nodi effaith hyfforddiant, yn arbennig mewn cysylltiad ag ymyriadau penodol, megis Catch Up, yn ogystal â datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, fel y nodir uchod. Yn nifer bach o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy, mae hyfforddiant o'r fath wedi gwella rôl arweinyddiaeth yn yr ysgol, gan ddatblygu rôl staff megis anogwyr dysgu, rheolwyr cynhwysiant a rheolwyr ymddygiad a chymorth, gan fynd ati i gryfhau arweinyddiaeth wasgaredig yn yr ysgolion hyn.

[44] Cynorthwywyr Cymorth Dysgu.

Rydym yn trafod y manteision ehangach posibl hyn isod. Mewn nifer bach o achosion, mae wedi helpu i amlygu gwendidau mewn addysgu gan arwain at hyfforddiant.

*Fe wnaeth Rhagori arwain at hyfforddiant ysgol gyfan er mwyn i athrawon allu cyflwyno'r gwaith o ddatblygu sgiliau llafar, llythrennedd a darllen fel rhan o'u holl wersi.* Pennaeth ysgol gynradd

*Rhoddodd Rhagori gyfle i ni hyfforddi pob aelod o staff o ran sut i addysgu darllen, gan gynnwys yr athro chwaraeon. Mae hyn wedi cael effaith enfawr – ond fe ddylai grantiau wneud gwahaniaeth bob amser.* Pennaeth ysgol arbennig

9.8. Nodwyd bod effaith hyn ar staff wedi cynnwys gwelliannau yn y modd yr eir ati i addysgu a dysgu. Er enghraifft, dywedodd un Cydgysylltydd Rhanbarthol fod athrawon yn cynllunio'n fwy effeithiol i ddylunio profiadau dysgu i ddiwallu anghenion grwpiau penodol o ddysgwyr. Yn aml, mae hyn wedi'i gysylltu â gwaith i ddatblygu sgiliau meddwl ar draws y cwricwlwm. (t. 9, George, 2009). Soniodd nifer o ysgolion fod Rhagori wedi datblygu dulliau o weithio sy'n cysylltu â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (SEF), gyda staff yn ymweld ag ysgolion eraill, gan adolygu eu gwaith a'i effaith ar ddatblygu prosesau hunan-werthuso.

*O ganlyniad i Rhagori, rydym wedi symud yn rhwydd i SEF. Rydym wedi dod i arfer â rhannu arferion da, gan adeiladu ar sut y mae Rhagori wedi gweithio <u>oddi mewn</u> i'r ysgol ac ar draws y dalgylch*. Pennaeth ysgol uwchradd

9.9. ***Datblygu'r cwricwlwm*:** Dangosodd dadansoddiad o gynigion Rhagori fod dros hanner yr ysgolion uwchradd wedi defnyddio cyllid Rhagori i ddatblygu'r hyn sydd gan eu cwricwlwm i'w gynnig i ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae hyn wedi cynnwys darparu dewis ehangach o gymwysterau wedi'u hachredu gan gynnwys Rhwydwaith y Coleg Agored (RhyCA), ASDAN a chymwysterau galwedigaethol eraill, ac i raddau llai, yng Nghyfnod Allweddol 3. Cafodd ysgolion

cynradd eu hannog i alinio eu gwaith gyda'r Cyfnod Sylfaen ac fe soniodd tua chwarter ohonynt yn benodol am hyn yn eu cynigion terfynol.

*Ym mlwyddyn 2, buom yn defnyddio Rhagori fel prosiect peilot ar gyfer y Cyfnod Sylfaen mewn gwirionedd. Fe wnaeth ein helpu i sicrhau bod siarad yn bwysicach nag ysgrifennu er enghraifft*. Pennaeth ysgol gynradd

9.10. ***Gwella'r gefnogaeth a gynigir:*** Mewn nifer o ysgolion Rhagori, mae'r cyllid ychwanegol wedi'i ddefnyddio i ymestyn a gwella ymyriadau a strategaethau cymorth ar gyfer disgyblion a oedd eisoes ar waith. Bu nifer o Benaethiaid yn egluro, wrth i Rhagori gael ei gyflwyno fel cylch cyllido dwy flynedd, fe'i hanogodd i edrych ar sut y gallant weithio oddi mewn i'r strwythurau a oedd ganddynt eisoes yn hytrach na sefydlu rhai newydd yr oeddent yn ofni a allai gymryd hanner y cyfnod ariannu i ymsefydlu. Y rhai mwyaf cyffredin fu ymyriadau llythrennedd a rhifedd ac yna gwaith i gefnogi ymddygiad a sgiliau cymdeithasol ac emosiynol. Mewn nifer bach ond cynyddol o ysgolion, mae'r gydnabyddiaeth na all ysgolion ddiwallu anghenion disgyblion ar eu pen eu hunain ac y byddai ymateb mwy holistaidd neu systematig yn cael mwy o effaith yn golygu bod ysgolion yn gweithio'n gynyddol gyda phartneriaid fel rhan o waith tîm o amgylch y plentyn[45].

*Roedd gofyn i ni gael yr ysgol gyfan yn rhan o'r gwaith. Fel ysgol, y peth cyntaf i ni ei benderfynu oedd nad bai plant fyddai'n cyrraedd yn hwyr i'r ysgol oedd y ffaith eu bod yn hwyr. Plant ydyn nhw ac felly nid nhw sy'n gyfrifol am p'un a yw eu mamau yn codi mewn pryd ai peidio. Daeth gweithiwr cymorth i'n helpu i ffonio am 9.30 y bore i holi ble mae'r plant. Mae hyn yn rhoi pwysau ar rieni, nid ar y plant. Roeddem ni eisiau i'r ysgol fod yn rhywle y bydd plant eisiau dod iddo yn hytrach nag yn rhywle lle byddant yn cael ffrae yn syth ar ôl dod drwy'r drws. O ganlyniad, mae lefelau absenoliaeth wedi gwella'n sylweddol. Allwn ni ddim mo'u dysgu os nad ydyn nhw yma.* Pennaeth ysgol gynradd

---

[45] Mae Tîm o Amgylch y Plentyn yn fodel darparu gwasanaethau lle bydd ystod o wahanol weithwyr proffesiynol yn cydweithio i helpu a chefnogi plentyn neu berson ifanc penodol.

*Pan fydd athro yn gadael ystafell ddosbarth yn ein hysgol, gall pethau fynd yn flêr gan mai'r athro yw'r swyddog diogelwch answyddogol sy'n helpu'r plant i deimlo'n ddiogel. Gwnaethom gais i osod toiledau a chawod yma yn ogystal â pheiriant golchi a sychwr dillad. Rydyn ni'n prynu cacennau pen-blwydd – rydyn ni'n mynd ati'n fwriadol i geisio gwneud iawn am bethau sydd ddim yn digwydd gartref – ond rydyn ni'n cael ein harchwilio gan ddefnyddio'r un meini prawf ag ysgolion yr ardaloedd mwyaf breintiedig.* Pennaeth ysgol gynradd

9.11. ***Monitro a gwerthuso:*** Fel sydd wedi'i nodi yn adran 5, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi casglu gwybodaeth fanwl am ddisgyblion sy'n cael eu targedu ar gyfer derbyn cymorth. Roedd yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy yn sôn am amrywiol brofion wedi'u safoni gan yr Awdurdod Lleol, profion wedi'u safoni megis asesiadau'r Sefydliad Cenedlaethol er ymchwil i Addysg (SCYA), yr asesiadau sy'n rhan o ymyriadau megis Catch Up ac weithiau, eu prosesau eu hunain. Mewn rhai achosion, gall ysgol fod yn defnyddio'r holl ddulliau hyn. Er bod y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy yn hyderus eu bod yn casglu data manwl a chywir a oedd yn eu galluogi i fesur effaith y gwaith yr oeddent yn ei wneud, prin oedd y cwmpas iddynt edrych ar effeithiau rhwng ysgolion, neu hyd yn oed pan oedd ysgolion yn defnyddio gwahanol raglenni gyda gwahanol grwpiau targed yn yr ysgol. Er enghraifft, mae'r athro isod yn disgrifio proses werthuso y mae'r ysgol yn fodlon â hi ond pe byddent yn ailbrofi'r rheiny sy'n rhan o'r rhaglen gan ddefnyddio sgoriau'r SCYA, byddai'n cynnig llun cliriach o sut y mae'r disgyblion hyn yn datblygu o'u cymharu â datblygiad eraill yn yr ysgol nad ydynt yn rhan o'r rhaglen.

*Rydym yn targedu drwy gyfrwng profion wedi'u safoni ac yna'n cymharu gyda sgoriau'r SCYA – yna'n eu rhoi ar y rhaglen. Mae gan y rhaglen ei strwythur profi ei hun felly rydym yn mesur cynnydd o hynny ymlaen gan ddefnyddio hwnnw.* Pennaeth ysgol gynradd

9.12. Roedd yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy yn nodi'n glir bod rhaglen Rhagori wedi effeithio'n gadarnhaol ar lefelau presenoldeb a chyrhaeddiad ond roeddent yn sôn hefyd pa mor anodd oedd nodi union gyswllt achosol (gweler yr atodiad ar Ddadansoddiad o'r Gwaith). Roedd Rhagori yn un o nifer o amrywiol ffynonellau cyllid a ddefnyddiwyd yn yr ysgolion ac er y nodwyd bod ei rôl yn gweithio fel catalydd yn aml neu fel y soniodd un Pennaeth, y ffactor a oedd yn cael trefn ac yn tynnu ynghyd yr holl ddarnau gwaith eraill, anaml iawn oedd hi'n amlwg pa gyllid yn union a oedd wedi arwain at ba ganlyniad. Po fwyaf clir ac wedi'i ddiffinio oedd y gwariant, er enghraifft darparu rhaglen X i ddisgyblion Y am Z o amser, po hawsaf oedd y dadansoddiad hwn. Ond roedd hi'n fwy anodd gyda strategaethau mwy holistaidd.

*Aethom ati i ddewis grŵp targed ym mlwyddyn 3. Nid oedd gan un ohonynt sgôr ddarllen o gwbl. Bellach, maent i gyd ym mlwyddyn 5 ac mae ganddynt sgôr ddarllen o fewn 3 mis i'w hoedran.* Pennaeth ysgol gynradd

*Aethom ati i recriwtio LSA a oedd yn cyfrif fel rhywun ychwanegol i edrych ar amseroedd cyrraedd a nawr mae gennym lai na 10 disgybl sy'n cyrraedd yn hwyr yn rheolaidd.* Pennaeth ysgol gynradd

*Mae canlyniadau ein harholiadau wedi gwella bob blwyddyn ers i ni dderbyn cyllid Rhagori ond alla' i ddim dweud bod hyn wedi digwydd oherwydd y cyllid hwn – nid oedd modd cael grŵp rheoli.* Pennaeth ysgol uwchradd

*Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 y llynedd, gyda disgyblion a oedd wedi bod yn rhan o Rhagori am 3 blynedd, cawsom ein lefelau cyrhaeddiad gorau erioed. Mae lefelau presenoldeb wedi gwella o 91% i 94%.* Pennaeth ysgol gynradd

**Deall y gwahaniaeth mewn effaith**

9.13. Mae tystiolaeth gan Gydgysylltwyr Rhanbarthol, Estyn a'n hymweliadau ein hunain ag ysgolion oll yn awgrymu bod nifer o ffactorau wedi dylanwadu ar y gwahanol effeithiau a welwyd ar draws yr ysgolion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mwy o gyllid ar gael i ysgolion uwchradd;
- Bod yn agored i syniadau newydd a'r cymorth, a lle'r oedd hi'n briodol, yr her gan Gydgysylltwyr Rhanbarthol Rhagori, Awdurdodau Lleol a Chydgysylltwyr Rhanbarthol;
- Arweinyddiaeth ac yn fwy cyffredinol, effeithiolrwydd ysgolion. Rydym yn trafod hyn ymhellach isod.

9.14. ***Gwahaniaethau mewn cyllid**:* Roedd pob ysgol yn nodi'n gyson bod y cyllid a gynigiwyd gan Rhagori yn ddigon uchel i wneud gwahaniaeth. Roedd y cyllid uwch a gynigiwyd i ysgolion uwchradd yn eu galluogi i ddatblygu ystod ehangach o fentrau yn eu hysgolion. Nododd ysgolion cynradd, er bod eu cyllid yn is, roedd yn swm sylweddol i'r rhan fwyaf o ysgolion ac roedd hyn yn eu helpu i ganolbwyntio ar beth allant ei wneud.

9.15. ***Bod ysgolion yn agored i gymorth, syniadau a heriau newydd**:* Roedd gweld syniadau newydd a ffyrdd newydd o weithio yn ffactor allweddol wrth ddatblygu strategaethau cyllido Rhagori nifer o ysgolion. Roedd cyfleoedd i rannu syniadau, profiadau ac arferion da yn cynnwys cynadleddau Rhagori rhanbarthol a chenedlaethol; cyfarfodydd rhwng pob ysgol Rhagori mewn Awdurdod Lleol ac ymweliadau monitro gan swyddogion Awdurdodau Lleol neu Gydgysylltwyr Rhanbarthol Rhagori. Nid oedd pob ysgol yr ymwelwyd â hwy wedi mynychu cynadleddau ond roedd y rheiny a oedd wedi mynychu yn eu gwerthfawrogi. Mewn llawer o Awdurdodau Lleol, ond nid ym mhob un, roedd swyddogion yr Awdurdodau Lleol a Chydgysylltwyr Rhanbarthol yn cael clod am helpu i gryfhau ffocws ar anfantais, yn hytrach na thangyflawni (Estyn, 2010). Rydym yn trafod rôl y Cydgysylltwyr Rhanbarthol yn fanwl yn adran 14.

9.16. ***Arweinyddiaeth ac effeithiolrwydd***: Mae archwiliadau Estyn yn awgrymu bod effeithiolrwydd ysgolion yn amrywio'n fawr (Estyn, 2010c). Fel sydd wedi'i amlinellu'n adran 3, mae'r dystiolaeth a gafwyd o'r ymchwil yn awgrymu bod y cyswllt rhwng tlodi a chyrhaeddiad isel mewn addysg yn deillio'n rhannol o nodweddion yr ysgolion a'r heriau sy'n wynebu'r ysgolion hynny o ganlyniad i'r ardal a phoblogaeth y disgyblion sy'n cael eu gwasanaethu (Lupton, 2005). Nid yw hyn yn golygu bod pob ysgol sy'n gwasanaethu ardaloedd difreintiedig yn llai effeithiol na'r rheiny sy'n gwasanaethu ardaloedd mwy breintiedig. Ceir ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig sy'n mynd yn groes i'r patrwm gan fod yn hynod effeithiol, a chan ychwanegu gwerth sylweddol. Ar y llaw arall, ceir ysgolion sy'n gwasanaethu ardaloedd mwy breintiedig sy'n llaesu dwylo i raddau, gan ychwanegu prin ddim gwerth, lle caiff ffactorau megis cefndir y teulu a chyrhaeddiad blaenorol disgyblion eu rheoli iddynt.[46] Serch hynny, fel sy'n cael ei amlinellu yn adran 8, mae hyn yn golygu bod nifer o ysgolion Rhagori yn debygol o fod wedi bod yn "ymladd tân" ar ddechrau'r rhaglen, gan ei gwneud yn anos iddynt fod yn effeithiol.

9.17. Mae'n hollbwysig nodi bod ein dadansoddiad yn awgrymu mai'r ysgolion mwyaf effeithiol oedd yn y sefyllfa orau i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigiwyd gan Rhagori. Roedd y cyllid ychwanegol a gynigiwyd yn ddigon i wneud gwahaniaeth gwirioneddol, ac yn cynnig rhyddid iddynt o ran sut yr oeddent am ei ddefnyddio. Roedd rhai o'r ysgolion hyn yn gallu defnyddio'r cyllid mewn modd llawn dychymyg, gan gyflwyno newid sylweddol. Mewn gwrthgyferbyniad, roedd yr ysgolion lleiaf effeithiol yn methu manteisio cystal ar y cyfleoedd a gynigiwyd gan Rhagori ac roedd nifer yn dewis defnyddio ymyriadau a oedd yn troedio hen lwybrau, yn aml gyda ffocws cul – ymyriadau llythrennedd oedd fwyaf cyffredin (Holtom, 2008; Estyn, 2010). Mewn rhai achosion, defnyddiwyd y cyllid i barhau â

[46] Mae "gwerth ychwanegol cyd-destunol" Ymddiriedolaeth Teulu Fischer yn golygu y gellir amcangyfrif perfformiad disgyblion o'r un rhyw, gydag oedrannau tebyg, eu cyrhaeddiad blaenorol, sy'n mynychu ysgolion gyda phroffiliau economaidd-gymdeithasol tebyg. Drwy gymharu perfformiad disgyblion mewn ysgol gyda'r hyn y rhagwelwyd fyddai eu perfformiad; gellir amcangyfrif beth oedd y 'gwerth a ychwanegwyd'.

gweithgaredd a oedd eisoes ar y gweill ac roedd yr effaith, ar y gorau, yn esblygiadol ac ar ei gwaethaf, yn parhau'n gyson yn unig heb roi cyfle i'r ysgol edrych ar faterion ehangach. Ar lefel fwy cadarnhaol, fel sydd wedi'i amlinellu yn adran 7, gydag amser, llwyddodd cyllid Rhagori i helpu rhai ysgolion i ddiffodd rhai o'r 'tanau' a oedd yn eu hwynebu, gan roi cyfle iddynt gael eu gwynt atynt er mwyn cael cynllunio'n fwy strategol.

# 10. GWADDOL CYLLID RHAGORI AR GYFER YSGOLION

10.1. Yn gyffredinol, mae cyllid Rhagori wedi cael dau fath o effaith. Yn gyntaf, ceir yr effeithiau hynny sydd wedi “gwreiddio” yn y ffordd y mae ysgol yn gweithio, megis dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o’r cysylltiadau rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a chyrhaeddiad isel mewn addysg; newidiadau i’r cwricwlwm ac i’r addysgeg. Yn ail, ceir ysgolion sydd wedi ymestyn y modd y mae’r ysgol yn gweithio, megis cyflogi staff cymorth ychwanegol (George, 2009; Estyn, 2010). Mae ysgolion yn nodi y bydd hi’n haws cynnal yr elfennau hynny sydd wedi’u gwreiddio yn niwylliant, ethos a ffordd yr ysgol o weithio gan nad oes gofyn gwario arnynt yn rheolaidd fel sydd ei angen ar yr ymyriadau hynny sy’n ymestyn gwaith yr ysgol. Serch hynny, ni ddylid cymryd cynaliadwyedd newidiadau i ddiwylliant, ethos ac arferion ysgol yn ganiataol. Er enghraifft, gydag amser, mae’n debygol y bydd staff yn gadael, y bydd blaenoriaethau newydd yn dod i’r fei ac yn y blaen ac fe all effaith y newidiadau leihau. Yn yr un modd, mae nifer o ysgolion wedi prynu adnoddau neu wedi buddsoddi mewn newidiadau ffisegol i’r ysgol a fydd yn colli eu gwerth gydag amser ac y bydd gofyn eu cyfnewid am rai newydd.

10.2. Mae’r gwerth a roddir ar ymyriadau a ariennir gan Rhagori, a drafodir yn adran 15, yn golygu bod y mwyafrif o ysgolion yn bwriadu cynnal rhai o’r gweithgareddau Rhagori hynny sy’n ymestyn gwaith yr ysgol, neu yn wir bob un ohonynt. Fodd bynnag, mae nifer o ysgolion yn pryderu am yr effaith a gaiff toriadau mewn cyllidebau ar eu gallu i wneud hyn. At hynny, yn y rhan fwyaf o achosion, roedd ysgolion yn bwriadu ariannu’r gwaith ychwanegol hwn drwy wneud toriadau mewn meysydd eraill megis cyllidebau ‘y pen’, ac mae’n siŵr y bydd cost ynghlwm wrth wneud hyn. Hynny yw, mae’n bosibl y caiff y toriadau mewn meysydd eraill effaith negyddol a allai wneud drwg i’r budd a fyddai i’w gael o barhau i gyllido gweithgareddau Rhagori[47].

[47] Er mwyn datblygu, mae’n hanfodol bod ysgolion yn rhoi’r gorau i wneud rhai pethau – cysyniad sydd wedi’i ddisgrifio fel mynd ati’n strategol i roi’r gorau i rywbeth (Harris, et al, 2008). Ceir ‘cost cyfle’ – mae’n

10.3. Gan mai cyfyng a chul fu effaith cyllid Rhagori ar nifer bach o ysgolion, nid yw wedi newid diwylliant, ethos nac arferion yr ysgol, sy'n golygu bod y gwaddol hwn yn debygol o fod yn fwy cyfyngedig. Er enghraifft, dywedodd un Cydgysylltydd Rhanbarthol fod nifer bach o ysgolion yn dangos "fawr ddim awydd" i gynnal y gwaith (t. 10, Davies Jones, 2009). Yn yr un modd, dywed Estyn "Prin iawn yw'r ysgolion sy'n bwriadu rhoi'r gorau i weithgareddau Rhagori yn gyfan gwbl lle maent yn dibynnu ar staffio ychwanegol a gyflogir diolch i Rhagori" (t.20, Estyn 2010). Ni soniodd un o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy am hyn, ond mae'n debyg na ddigwyddodd hyn gan fod ein sampl yn rhagfarnu tuag at yr ysgolion hynny a oedd â mwy o ddiddordeb ac wedi ymgysylltu'n well.

---

anochel bod gwneud pethau nad oes diben eu gwneud mwyach yn atal ysgolion rhag gwneud pethau eraill. Serch hynny, roedd rhai ysgolion y daethom ar eu traws yn barod i nodi neu'n gallu nodi pethau nad oedd fawr o werth iddynt os o gwbl ac felly y gellid rhoi'r gorau iddynt heb fawr o gost.

# 11. EFFAITH CYLLID RHAGORI AR BLANT SY'N DERBYN GOFAL GAN AWDURDODAU LLEOL

**Cyflwyniad**

11.1. Mae nifer o blant sy'n mynd yn rhan o'r system gofal yn wynebu amrywiol ffactorau risg sy'n gysylltiedig â chyrhaeddiad isel mewn addysg, gan gynnwys eu magu mewn tlodi a phrofiad o gam-drin. Mae'r farn wedi'i hollti o ran pa'n a yw'r system gofal yn cymhlethu problemau plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol – er enghraifft, fel y dywed Borland et al, mae nifer o blant yn sôn bod eu profiadau yn yr ysgol yn ychwanegu at y trawma o fod mewn gofal (t. 56, Borland et al, 1998, dyfynnir yn Fletcher et al, 2003) – neu p'un a yw'r system ofal yn helpu plant i oresgyn anfanteision cychwynnol ac yn eu galluogi i ddatblygu'n addysgol (C4EO, 2009; Forester et al, n.d.). Mae'n syndod gymaint y mae llawer o'r llenyddiaeth sydd ar gael ar y pwnc hwn wedi'i bolareiddio. Mae asesiadau sy'n rhoi mwy o arlliw yn arwain at wahaniaeth mewn canlyniadau ar gyfer plant gan ddibynnu ar eu profiadau cyn-ofal, amseriad a natur eu gofal ac yn awgrymu bod y system fel pe bai'n gweithio'n well i rai nag i eraill, hynny yw, nid yw'n gwbl ddrwg nac yn gwbl dda. Serch hynny, mae'r ddwy farn yn gytûn bod plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yn amlwg yn grŵp sydd dan anfantais a bod achos cryf dros roi cymorth i wella cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol.

**Effaith Rhagori ar lwyddiant a chyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol**

11.2. Er mwyn asesu effaith Rhagori ar gyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol, rydym yn ystyried nifer o wahanol ffynonellau gwybodaeth (gweler y testun yn y blwch i gael manylion ar y defnydd a wnaed ohonynt):

- Tueddiadau yng nghyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru cyn (2001-2002 – 2005-2006) ac ar ôl cyflwyno Rhagori (2006-2007-2008-2009);

- Tueddiadau yng nghyrhaeddiad pedwar grŵp y gellir eu cymharu – pob un ohonynt yn bobl ifanc, rhai gydag anghenion addysgol arbennig, rhai'n gymwys i gael PYaDd, a phlant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yn Lloegr;
- Tystiolaeth gan Gydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal (LACE) a phlant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdodau Lleol eu hunain;
- Tystiolaeth o ymyriadau y gellir cymharu â hwy.

**Brasamcan o effaith cyllid Rhagori ar blant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol**

Mae defnyddio dadansoddiad o dueddiadau mewn data cyn ac ar ôl ymyriad yn ddull cyffredin o asesu'r hyn a allai fod wedi digwydd (h.y. beth fyddai wedi digwydd heb yr ymyriad). Mae hyn felly yn darparu brasamcan o'r effaith.[48] Y cyfan a all y math hwn o ddadansoddiad ei wneud yw adnabod unrhyw gydberthynas rhwng cyflwyno ymyriad megis Rhagori a newid yn y data megis cynnydd mewn cyrhaeddiad ar ôl i'r ymyriad ddechrau; nid yw'n profi bod tystiolaeth ddiffiniol o gyswllt achosol. Felly, yn aml, caiff asesiadau effaith eu hategu drwy gymharu tueddiadau ar gyfer y grŵp sy'n destun yr ymyriad – yn yr achos hwn, plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru – disgrifir hwy fel grŵp sy'n cael eu trin (*treatment group*) a grwpiau eraill nad ydynt yn destun ymyriad, a ddisgrifir fel grŵp rheoli (*control group*).[49] Mae canlyniadau ar gyfer grwpiau rheoli yn cynnig brasamcan o beth allai fod wedi digwydd heb ymyriad.

Yn yr achos hwn, mae data y gellir ei gymharu ar gael ar bedwar grŵp: pob un ohonynt yn bobl ifanc yng Nghymru gydag anghenion addysgol arbennig, pobl ifanc yng

[48] Mae hyn yn cynrychioli Un Grŵp Cyn ac Ar Ôl Dylunio'r Prawf (*Single Group Pre and Post-test Design*) (GSRU, 2007). Er y bwriedir i gyllid Rhagori ar gyfer plant sy'n derbyn gofal barhau, at ddiben y gwerthusiad hwn, sy'n canolbwyntio dair blynedd cyntaf cyllid Rhagori, ymdrinnir ag ef fel pe bai wedi dirwyn i ben.

[49] Yr enghraifft glasurol ar gyfer y dull hwn o weithio yw treial rheoli ar hap, lle caiff pobl eu dyrannu ar hap i grŵp a gaiff ei "drin" a grŵp "rheoli". Lle, fel yn yr achos hwn, nad oes modd gwneud hyn ar hap, yn aml, defnyddir "grwpiau cymharu nad ydynt yn gyfwerth". Mae'r rhain yn debyg i "grŵp rheoli", o ran eu bod yn cynnig grŵp rheoli i'w gymharu gyda'r grŵp sy'n cael ei drin (y grŵp sy'n elwa ar yr ymyriad). Fodd bynnag, yn wahanol i grŵp rheoli, nid yw dyrannu i'r grwpiau rheoli a'r grwpiau sy'n cael eu trin yn digwydd ar hap.

Nghymru sy’n gymwys i gael PYaDd a phlant sy’n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yn Lloegr. Nid yw un o’r grwpiau hyn yn grŵp cymharu delfrydol. Er enghraifft:

- Bydd cyrhaeddiad pob person ifanc yn cynnwys cyrhaeddiad y plant sy’n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, gan fod nifer y plant sy’n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol mor fach, bydd eu heffaith ar gyrhaeddiad y grŵp yn ei gyfanrwydd yn fach;
- Bydd nifer o ddisgyblion sy’n gymwys i gael PYaDd wedi elwa ar gyllid Rhagori ar gyfer ysgolion;
- Mae dadansoddiad o gronfeydd data Rhagori ar gyfer 2007-2008 a 2008-2009 yn awgrymu bod gan rhwng 40%-50% o blant sy’n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol anghenion addysgol arbennig, felly byddant yn rhan o’r grwpiau sy’n cael eu “trin” yn ogystal â’r grwpiau “rheoli”[50];
- Mae plant sy’n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yn Lloegr wedi profi cyfres o ymyriadau polisi a gynlluniwyd i wella eu cyrhaeddiad.

Gellir ychwanegu at y mesurau hyn sy’n edrych ar yr hyn a allai fod wedi digwydd gydag ymchwil ansoddol i edrych ar y broses ac i asesu tystiolaeth o ymyriadau y gellir cymharu â hwy.

*Ffynonellau: GSRU, 2008; Pawson a Tilly, 1997; Cook a Gorard, 2007; Mayne, n.d.*

11.3. ***Tueddiadau o ran cyrhaeddiad:*** i ddechrau, aethom ati i ddadansoddi’r data ar dueddiadau yn eu cyrhaeddiad. Mae dwy brif ffynhonnell ddata ar gyrhaeddiad plant sy’n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol:

- Data a gasglwyd gan Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy’r datganiad ar gyfer y Cymwysterau Addysgol ar gyfer Pobl sy’n Gadael Gofal (OC1). Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y

[50] Yn 2006/07, cofnodwyd bod gan 40% o’r plant a oedd yn derbyn gofal ar y gronfa ddata anghenion addysgol arbennig. Roedd gan 17% o’r rhain ddatganiad. Yn 2007/08, nodwyd bod gan 49% o’r plant a oedd yn derbyn gofal ar y gronfa ddata anghenion addysgol arbennig. Roedd gan 24% o’r rhain ddatganiad.

cymwysterau TGAU a GNVQ[51] ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol nad oeddent yn derbyn gofal ar ôl troi'n 16 oed neu'n hŷn, yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, ar gyfer cyfnod 2001-2008;

- Data a gasglwyd gan bob Awdurdod Lleol ar nodweddion, profiadau a chyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol, drwy gyfrwng cronfa ddata Rhagori. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am yr holl gymwysterau (h.y. nid TGAU a GNVQ yn unig) y llwyddodd plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol a oedd ym mlwyddyn 11 ar gyfer 2007-2009 i'w hennill.

11.4. Mae'r gwahaniaeth yn y math o ddata a gasglwyd a'r amserlenni ar gyfer casglu'r data yn golygu nad oes modd mynd ati'n uniongyrchol i gymharu'r ddwy set o ddata. Mae tabl 11.1. yn crynhoi'r prif wahaniaethau.

**Tabl 11.1. Cymharu data sydd yng nghronfa ddata Rhagori a chronfa ddata Uned Ddata Cymru**

| | **Uned Ddata Cymru** | **Cronfa ddata Rhagori** |
|---|---|---|
| Grŵp oedran | Blwyddyn 11-13 | Blwyddyn 10 ac 11 |
| Talfyrru | I'r 5 agosaf | Dim talfyrru |
| Data ar gael ar gyfer | 2001-2008 | 2007-2009 |
| Cyfnod casglu data | Ebrill – Mawrth | Medi – Awst |
| Meini prawf ar gyfer eu cynnwys | Pob plentyn 16 oed neu hŷn nad oeddent yn derbyn gofal yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth | Pob plentyn sy'n derbyn gofal ym mlwyddyn 10 ac 11 |

11.5. Os mai'r nod yw defnyddio'r ddwy set o ddata i greu cyfres amser, y gwahaniaethau pwysicaf i'w hystyried yw'r cyfnod amser y mae pob set yn perthyn iddynt. Yn benodol, mae cyfnod casglu data Ebrill-Mawrth yr Uned Ddata

[51] Gellir astudio ar gyfer cymwysterau GNVQ mewn ystod eang o bynciau. Fodd bynnag, gwnaed llai a llai o ddefnydd ohonynt a daethant i ben yn llwyr erbyn mis Hydref 2007. Yn eu lle, gellir astudio ar gyfer TGAU galwedigaethol, tystysgrifau a diplomâu BTEC, OCR Nationals a gwobrau datblygu City and Guild.

yn golygu bod y data yn perthyn i ddwy flwyddyn academaidd. Er enghraifft, byddai plentyn a oedd yn derbyn gofal a ddathlodd ei ben-blwydd yn 16 oed fis Chwefror 2006, a adawodd y gofal hwnnw, wedi troi'n 15 oed yn ystod mis Chwefror 2005, wedi mynd i Flwyddyn 11 ym mis Medi 2005 ac wedi sefyll arholiadau yn ystod haf 2006. Felly, byddant yn rhan o ddata Uned Ddata Cymru ar gyfer 2006 a byddai eu canlyniadau yn cael eu cynnwys yng nghronfa ddata Rhagori ar gyfer blwyddyn academaidd 2006-2007. Fodd bynnag, byddai plentyn a oedd yn derbyn gofal a oedd yn 16 oed fis Ebrill 2006 wedi troi'n 15 oed ym mis Ebrill 2005 a hefyd wedi mynd i Flwyddyn 11 ym mis Medi 2005 ac wedi sefyll ei arholiadau yn ystod haf 2006. Ni fyddai yn rhan o ddata Uned Ddata Cymru ar gyfer 2007 ond fe fyddai'n dal i fod yn rhan o gronfa ddata Rhagori ar gyfer 2006-2007. At hynny, ceir gwahaniaethau yn yr ystod oedran, sy'n golygu bod data Uned Ddata Cymru yn cynnwys nifer bach o blant (ar gyfartaledd tua 4 neu 5 bob blwyddyn) sy'n 17 neu'n 18 oed, a roddodd y gorau i dderbyn gofal cyn 31 Mawrth ac a enillodd TGAU neu GNVQ, ond na fyddant wedi'u cynnwys yng nghronfa ddata Rhagori gan na fyddant wedi bod ym mlwyddyn 10 nac 11.

11.6. O ystyried y gwahaniaethau hyn rhwng setiau data Uned Ddata Cymru a Rhagori, gwnaed cais i'r Uned Ddata gyfrifo nifer y plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol a oedd, yn seiliedig ar eu dyddiad geni, yn debygol o fod ym mlwyddyn 11, ac a lwyddodd i ennill un neu fwy cymhwyster TGAU neu GNVQ. Mae'r data hwn ar gael ar hyn o bryd ar gyfer blynyddoedd academaidd 2001-2002 hyd 2006-2007. Ni chaiff y data hwn ei dalfyrru a dyma'r data gorau sydd gennym i'w gymharu gyda'r data sydd yn rhan o gronfa ddata Rhagori.

11.7. Mae cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol, ar gyfer blynyddoedd academaidd 2001-2002 hyd 2005-2006 yn seiliedig ar ddata Uned Ddata Cymru ar y rheiny sy'n gadael gofal ym mlwyddyn 11. Mae'r graffiau ar gyfer cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol ym mlynyddoedd academaidd 2006-2007 hyd 2008-2009 yn seiliedig ar gronfa ddata Rhagori. Dyma rai o'r pwyntiau allweddol i'w hystyried:

- Mae’r tueddiad hirdymor o ran cyrhaeddiad LAC yn gadarnhaol: mae cyfran y plant sy’n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol sy’n llwyddo i ennill o leiaf un a phump neu fwy o gymwysterau TGAU, gradd A*-G, yn cynyddu yn ystod y cyfnod 2001-2002 hyd 2007-2008;
- Er bod canran yr holl bobl ifanc sy’n llwyddo i ennill o leiaf un TGAU neu GNVQ gyda gradd A*-G wedi cynyddu yn ystod y cyfnod hwn (o 92% i 94%), roedd cyfradd y cynnydd yng nghanran y plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol a oedd yn llwyddo i ennill o leiaf un radd TGAU neu GNVQ, gradd A*-G, yn fwy na hyn (o 39% i 59%). Felly, lleihau wnaeth y bwlch yn ystod y cyfnod hwn. Yn yr un modd, mae’n anochel fod y cwmpas ar gyfer gwelliant parhaus yng nghanran yr holl bobl ifanc a oedd yn llwyddo i ennill o leiaf un TGAU neu GNVQ gradd A*-G yn fwy cyfyng gan ei fod wedi dechrau o sylfaen uwch o lawer[52].
- Yn yr un modd, roedd canran yr holl bobl ifanc a oedd yn ennill o leiaf pump TGAU neu GNVQ hefyd wedi cynyddu yn ystod y cyfnod hwn (o 85% i 86%). Fodd bynnag, roedd cyfradd y cynnydd yng nghanran y plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol a oedd yn llwyddo i ennill o leiaf pump TGAU neu GNVQ yn fwy na hyn (o 25% i 35%). Ond fel sydd wedi’i nodi, mae’n debyg bod y cwmpas ar gyfer gweld gwelliant ymysg yr holl bobl ifanc yn fwy cyfyng – mae’r tueddiadau yn golygu bod y bwlch wedi culhau yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae’r bwlch yn cau ar gyfradd arafach na’r bwlch ar gyfer plant sy’n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol a’r holl bobl ifanc sy’n llwyddo i ennill o leiaf un TGAU.
- Gellir defnyddio’r tueddiad hirdymor sy’n seiliedig ar y data ar dueddiadau mewn cyrhaeddiad cyn Rhagori (h.y. 2001-2002 hyd 2005-2006), i amcangyfrif beth sy’n debygol o fod wedi digwydd yn absenoldeb Rhagori a gellir cymharu’r amcangyfrif hwn, a gynrychiolir gan y llinellau du ar Graff 11.1, gyda’r cyrhaeddiad gwirioneddol yn ystod y cyfnod hwn, a gynrychiolir gan y llinellau coch a glas. Mae’r gymhariaeth hon yn awgrymu bod cyrhaeddiad gwirioneddol

---


[52] Yr uchafswm drwy ddiffiniad fyddai 100% ac mae’n bosibl bod cynnydd cychwynnol yn adlewyrchu cynnydd y bobl ifanc hynny sydd agosaf at gyrraedd y safon hon – y rhai sydd agosaf at y lan – sy’n golygu y byddai’n anos gwarantu cynnydd dilynol.

plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol ychydig bach yn uwch na'r tueddiad hirdymor ar y mesur 5 TGAU gradd A*-G ac yn yr un modd, yn debyg i'r tueddiad hirdymor ar y mesur 1 TGAU gradd A*-G. Mae'r amcangyfrif hwn yn tybio cynnydd ar gyfradd linellog. Hynny yw, mae'n seiliedig ar y rhagdybiaeth y byddai'r tueddiad mewn cyrhaeddiad yn ystod y cyfnod 2001-2002 hyd 2005-2006, cyn Rhagori, yn parhau yn ystod cyfnod Rhagori (h.y. 2006-2007 hyd 2008-2009).

11.8. Wrth ddehongli'r data ar gyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol, mae'n bwysig ystyried effaith niferoedd bach plant o'r fath. Ar gyfartaledd, ceir cyfanswm o ryw 400 o blant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol ym mlwyddyn 11 bob blwyddyn. Mae'r ffigur hwn, sy'n gymharol fach, yn chwyddo effaith amrywiadau ar hap, er enghraifft yn anghenion a galluoedd plant unigol, ar y canlyniadau cyffredinol.[53] Mae'n debyg mai hyn sy'n gyfrifol am yr amrywiad sylweddol o flwyddyn i flwyddyn, a gaiff ei ddangos yng Ngraff 11.1. Yno, fe welwch fod cyrhaeddiad uchel un flwyddyn yn aml yn cael ei ddilyn gan gyrhaeddiad is yn ystod y flwyddyn ganlynol.

[53] Mae'n annhebygol y bydd gallu a galw yn cael eu dosbarthu'n gyfartal ar draws pob cohort o blant sy'n derbyn gofal, ac mae'n debygol os bydd cohort arbennig o alluog un flwyddyn, bydd cohort y flwyddyn ganlynol yn llai galluog. Gelwir ffenomenau fel hyn yn llithro'n ôl i'r canol (*regression to the mean*) (cf. Blastland a Dilnott, 2007).

**Graff 11.1. Tueddiadau yng nghyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yn ogystal â holl ddisgyblion Cymru, 2001-2002-2008-2009**




*Ffynonellau: Cronfa ddata Rhagori ac Uned Ddata Cymru (gweler tabl 11.1.)*

| **Tabl 11.1. Mesurau penodol o gyrhaeddiad pob person ifanc yn ogystal â phlant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn 2001-2002 – 2008-2009** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |
| Mesur<br>Blwyddyn Academaidd | 2001-2002 | 2002-2003 | 2003-2004 | 2004-2005 | 2005-2006 | 2006-2007 | 2007-2008 | 2008-2009 |
| Canran y rheiny a oedd yn gadael gofal a oedd ym mlwyddyn 11 yn ystod y flwyddyn academaidd gydag 1 TGAU neu GNVQ neu fwy gradd A*-G | 39% | 42% | 39% | 46% | 46% | 53% | 49% | 59% |
| Canran y rheiny a oedd yn gadael gofal a oedd ym mlwyddyn 11 yn ystod y flwyddyn academaidd gyda 5 TGAU neu GNVQ neu fwy gradd A*-G | 25% | 27% | 26% | 29% | 30% | 30% | 35% | 35% |
| Canran yr holl bobl ifanc a oedd ym mlwyddyn 11, gydag o leiaf 1 TGAU/GNVQ gradd A*-G | 92% | 92% | 93% | 93% | 93% | 93% | 93% | 94% |
| Canran yr holl bobl ifanc a oedd ym mlwyddyn 11, gydag o leiaf 5 TGAU/GNVQ gradd A*-G | 85% | 85% | 85% | 85% | 86% | 86% | 86% | 86% |

*Ffynonellau: Cronfa ddata Rhagori ac Uned Ddata Cymru*

11.9. Gan mai dim ond ychydig yn uwch na'r tueddiad hirdymor yw'r cynnydd yng nghyrhaeddiad plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol, mae hyn yn awgrymu achos *prima facie* bod Rhagori wedi cael effaith gyfyngedig ar lefel genedlaethol (rydym yn ystyried tystiolaeth o effaith ar lefel Awdurdod Lleol ymhellach islaw). Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried bod y tueddiad hwn yn tybio cynnydd llinellog ac mae'n bosibl, heb Rhagori, y byddai'r cyfradd cynnydd wedi bod yn arafach.

11.10. Fel y dengys Graff 11.2, mae'r amrywiaeth mewn cyrhaeddiad cyfartalog ar draws pob un o 22 Awdurdod Lleol Cymru yn sylweddol. Hefyd, gellir gweld amrywiadau amlwg o flwyddyn i flwyddyn. Er mwyn gweld yr ystod lawn o ran

cyrhaeddiad, rydym yn defnyddio'r sgoriau pwyntiau ehangach yn hytrach na TGAU.[54] Er mai dyma'r mesur a ffefrir gan Lywodraeth Cymru, ceir rhywfaint o dystiolaeth bod peth o'r gwahaniaeth rhwng cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal ar lefel Awdurdodau Lleol yn adlewyrchu'r gwahanol ffyrdd o weithio sydd gan yr Awdurdodau Lleol o ran y cymwysterau a gynigir. Yn benodol, nid yw rhai Awdurdodau Lleol yn cynnig unrhyw gymwysterau ychwanegol ac mae eraill yn cynnig cymwysterau ychwanegol nad yw pwyntiau yn cael eu priodoli iddynt.

11.11. Wrth ddehongli'r data ar gyrhaeddiad yn y 22 Awdurdod Lleol, fel gyda'r data cenedlaethol, mae'n bwysig hefyd ystyried y niferoedd bach iawn o blant sy'n derbyn gofal gan rai Awdurdodau Lleol. Er enghraifft, yn ystod y tair blynedd ddiwethaf:

- Ar gyfartaledd, roedd pum Awdurdod Lleol yn cynnig gofal i lai na 10 o blant a oedd ym mlwyddyn 11, ym mhob blwyddyn;
- Ar gyfartaledd, roedd gan 11 Awdurdod Lleol rhwng 10 ac 20 o blant yr oeddent yn gofalu amdanynt ym mlwyddyn 11, ym mhob blwyddyn;
- Ar gyfartaledd, roedd gan chwe Awdurdod Lleol rhwng 21 a 35 o blant yn derbyn gofal ganddynt ym mlwyddyn 11, ym mhob blwyddyn;
- Ar gyfartaledd, roedd gan un Awdurdod Lleol 57 o blant yn derbyn gofal ganddynt ym mlwyddyn 11, ym mhob blwyddyn.


11.12. Mae'r niferoedd bach hyn, ac weithiau y niferoedd bach iawn hyn, yn chwyddo'r effaith ar amrywiadau ar hap mewn ffactorau megis anghenion a galluoedd plant penodol ar ganlyniadau cyffredinol ac maent yn debygol o gyfrannu at yr amrywiad blynyddol yng nghyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol ym mhob Awdurdod Lleol a ddangosir yng Ngraff 11.3.

11.13. Yn destun i'r amodau hyn, mae'n debygol na fydd effaith Rhagori wedi bod yn gyfartal ar draws pob un o'r 22 Awdurdod Lleol a bydd rhai wedi gwneud defnydd mwy effeithiol o'r cyllid nag eraill. A phopeth arall yn gyfartal, bydd hyn yn golygu

[54] Nid yw'n bosibl defnyddio sgoriau pwyntiau ehangach i gynnal dadansoddiad cyfres amser gan nad yw data hanesyddol ar sgôr bwyntiau ehangach ar gael.


y bydd yr effaith ar gyrhaeddiad wedi bod yn fwy yn yr Awdurdodau Lleol hyn. Wrth gwrs, nid yw popeth yn gyfartal, ac mae’n bwysig ystyried ffactorau eraill megis y gwahaniaethau yng ngalluoedd ac anghenion cohort pob Awdurdod Lleol sydd hefyd yn effeithio ar gyrhaeddiad.

**Graff 11.2 Sgôr bwyntiau cyfartalog plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol Cymru dros gyfnod o dair blynedd, 2006-2007 – 2008-2009** (Nid ydym yn nodi enwau'r Awdurdodau Lleol er mwyn osgoi creu tablau cynghrair).




*Ffynhonnell: Cronfa ddata LAC Rhagori*

**Graff 11.3 Sgôr bwyntiau cyfartalog plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol Cymru ar gyfer pob blwyddyn, 2006-2007 – 2008-2009**




*Ffynhonnell: Cronfa ddata LAC Rhagori*

11.14. Er mwyn archwilio'r rhesymau posibl dros yr amrywiad mewn cyrhaeddiad ar draws y 22 Awdurdod Lleol, mewn adroddiad thematig ar gyllid Rhagori ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol (Sims a Holtom, 2009), aethom ati i ddadansoddi a oedd modd esbonio'r amrywiad gyda ffactorau cyd-destunol, megis gwahaniaethau yn nodweddion plant unigol a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol. Canfuom mai dim ond perthynas wan iawn a oedd rhwng ffactorau megis nifer y plant a oedd ag anghenion addysgol arbennig a chyrhaeddiad. Awgryma hyn fod ffactorau eraill, megis safon y cymorth a roddwyd i blant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol, hefyd yn bwysig. Buom hefyd wrthi'n dadansoddi a oedd gwahaniaethau systematig rhwng:

- Y ffactorau a nodwyd gan Gydgysylltwyr LACE fel rhai a oedd yn cyfrannu at gyrhaeddiad cyffredinol wael mewn addysg plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol – mesur procsi o'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r materion;
- Y mathau o ymyriadau a ariannwyd gan Rhagori.

11.15. Canfuom nad oedd unrhyw wahaniaethau systematig yn y ffactorau a nodwyd gan Gydgysylltwyr LACE na math yr ymyriadau Rhagori sy'n cael eu gweithredu pan fuom yn cymharu Awdurdodau Lleol gyda lefelau cyrhaeddiad uchel a chyda lefelau cyrhaeddiad is. Fodd bynnag, daethom o hyd i rai gwahaniaethau yn natur y gefnogaeth a ddarparwyd. Yn yr Awdurdodau Lleol hynny lle'r oedd cyrhaeddiad plant a oedd yn derbyn gofal yn uwch neu'n uwch o lawer na'r canolrif: gwelsom fod ymyriadau yn dueddol o fod yn fwy ffurfiol a'u bod yn mabwysiadu cymorth a mesurau dysgu wedi'u personoli mwy ar gyfer plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol.

11.16. At ddiben yr adroddiad hwn, aethom ati hefyd i ddadansoddi canlyniadau arolygiadau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) o wasanaethau plant Awdurdodau Lleol yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf (2005-2009) (lle'r oeddent ar gael) ym mhob Awdurdod Lleol a chanlyniadau arolygiadau Estyn mewn ysgolion uwchradd ym mhob Awdurdod Lleol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf (2007-2009). Bwriadwyd i'r rhain fod yn fesurau procsi o

safon gwasanaethau'r Awdurdodau Lleol ac ansawdd yr ysgolion ym mhob Awdurdod Lleol.

11.17. Nid yw un o'r mesurau hyn yn berffaith. Er enghraifft, os yw safon ysgolion mewn Awdurdod Lleol yn ffactor sy'n cyfrannu at gyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol, bydd effaith hyn yn cael ei ganoli gan ddosbarthiad anghyfartal plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol ledled Cymru (gweler paragraff 11.11). Yn benodol, bydd safon ysgolion mewn Awdurdod Lleol sydd â nifer uchel o blant yn derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol yn gyson yn cael effaith mwy cyson ar safon ysgolion mewn Awdurdod Lleol sydd â nifer llai o lawer o blant yn derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol. At hynny, mae'r data yn anghyflawn: dim ond rhan o'r stori a gawn drwy ddadansoddi adroddiadau arolygiadau ysgolion gan mai dim ond tua hanner yr ysgolion ym mhob ardal fydd wedi'u harolygu yn ystod y tair blynedd ddiwethaf ac nid oedd adroddiadau arolygu ar gael ar gyfer yr holl wasanaethau cymdeithasol. Er gwaethaf eu gwendidau, maent yn rhoi rhyw arwydd o safon pob un.

11.18. Er mwyn darparu mesur rhifiadol o safon y gwasanaethau plant, rhoddwyd sgôr i bob un o raddau arolygu wyth pwynt barnu[55] AGGCC (Gwael / Anghyson / Da ar y cyfan / Rhagorol) a'u hadio at ei gilydd[56] a'u lluosi gyda 50, er mwyn eu rhoi yn eu trefn a'u cynrychioli ar yr un graff bar â sgôr bwyntiau ehangach plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdodau Lleol.

11.19. Yn yr un modd, er mwyn darparu mesur rhifiadol o safon ysgolion, rhoddwyd sgôr i bob un o raddau arolygu (Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol; Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig; Gradd 3: nodweddion da yn gorbwyso diffygion; Gradd 4: rhai nodweddion da ond diffygion mewn meysydd pwysig a Gradd 5: llawer o ddiffygion pwysig) pob ysgol uwchradd mewn Awdurdod Lleol

[55] Mynediad at wasanaethau, Asesu, Adolygu a rheoli gofal, Ystod y gwasanaethau a ddarperir, Safon y gwasanaethau a ddarperir, Trefniadau i ddiogelu pobl agored i niwed, Llwyddiant wrth hyrwyddo annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol.

[56] Dyma'r sgoriau: gwael = 1, anghyson = 2, da ar y cyfan = 3 a rhagorol = 4.

a'u hadio at ei gilydd[57] ac yna'u lluosi gyda 50 er mwyn eu rhoi yn eu trefn a'u cynrychioli ar yr un graff bar a sgôr bwyntiau ehangach pob Awdurdod Lleol.

11.20. Fel y dengys Graff 11.4, gwelwyd nad oes fawr ddim perthynas, os o gwbl, rhwng graddau arolygiadau ysgolion uwchradd pob Awdurdod Lleol gan Estyn, a sgoriau pwyntiau cyfartalog plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol ym mhob Awdurdod Lleol. Ond gwelwyd peth tystiolaeth bod perthynas rhwng arolygiadau AGGCC a sgoriau pwynt cyfartalog. Yn benodol, wrth i sgoriau AGGCC leihau, mae sgoriau pwyntiau cyfartalog yn dueddol o leihau hefyd. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod cyswllt achosol rhwng safon y gwasanaethau cymdeithasol (fel y mesurwyd gan arolygiadau AGGCC) a chyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol. Er enghraifft, mae'n bosibl ac yn wir yn debygol bod yr Awdurdodau Lleol hynny sydd â'r gwasanaethau plant mwyaf effeithiol yn y sefyllfa orau i wneud defnydd effeithiol o'r cyllid ychwanegol a gynigiwyd gan Rhagori.


[57] Dyma'r graddau: gradd 5 = 1, gradd 4 = 2, gradd 3 = 3, gradd 2 = 4 a gradd 1 = 5.

**Graff 11.4 Sgôr bwyntiau cyfartalog ehangach plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf ym mhob Awdurdod Lleol a'u sgoriau AGGCC (lle maent ar gael).**




*Ffynonellau: Cronfa ddata LAC Rhagori ac AGGCC*

**Graff 11.5. Sgoriau cyfartalog Estyn ar gyfer ysgolion a sgôr bwyntiau ehangach plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf ym mhob Awdurdod Lleol.**





*Ffynonellau: Cronfa ddata LAC Rhagori ac Estyn*

11.21. ***Tueddiadau yng nghyrhaeddiad grwpiau eraill o bobl ifanc***: Mae cymhariaeth gyda chyrhaeddiad dau grŵp arall o bobl ifanc, sef y rheiny sydd ag anghenion addysgol arbennig[58] (gweler Graff 11.6), a'r rheiny sy'n gymwys i gael PYaDd (gweler Graff 11.7), yn dangos bod y bylchau wedi parhau'n gymharol gyson. Er bod perfformiad plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yn ystod 2006-07 yn gryfach, mewn termau cymharol, na'r tri grŵp arall o ddisgyblion ac felly bod y bwlch rhyngddynt hwy â'r grwpiau hyn wedi cau rhywfaint, roedd perfformiad gwannach plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yn ystod y flwyddyn ddilynol, 2007-08, yn golygu bod y bylchau yn debyg i'r rheiny a welwyd yn ystod 2005-06.[59] Mae hyn yn golygu bod cynnydd plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yn ystod y cyfnod hwn wedi bod yn gymharol debyg i gynnydd y grwpiau eraill o ddisgyblion. Mae hyn yn ategu'r casgliad ei bod hi'n debygol y byddai cyrhaeddiad plant a oedd yn derbyn gofal gan yr Awdurdodau Lleol wedi parhau i gynyddu heb Rhagori.

[58] Mae hwn yn grŵp heterogenaidd iawn, gan gynnwys disgyblion gydag ystod o anghenion, ond dyma un o'r grwpiau agored i niwed prin lle ceir data cyfanredol ar ei gyfer.


[59] Mae'r amrywiadau blynyddol yn dangos effaith ffactorau megis gwahaniaethau yng ngalluoedd ac anghenion cohort pob blwyddyn (gweler paragraff 11.8) ar gyrhaeddiad. Felly, ffigurau cyfartalog tair blynedd dreigl, sy'n helpu i ddileu'r amrywiadau hyn, yw'r mesur a ffefrir. Yn anffodus, nid yw'r math hwn o ddata hanesyddol ar gael ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig.

**Graff 11.6. Perfformiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol a phlant sydd ag anghenion addysgol arbennig, 2005-2006, 2006-2007 a 2007-2008**




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, cronfa ddata LAC Rhagori*

**Graff 11.7. Perfformiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol a disgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd ac nad ydynt yn gymwys i gael PYaDd, 2005-2006, 2006-2007 a 2007-2008**




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, cronfa ddata LAC Rhagori*

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, cronfa ddata LAC Rhagori*

| **Data ar gyfer Tablau 11.6. ac 11.7. Perfformiad grwpiau cymharu dethol, 2005-2006, 2006-2007 a 2007-2008** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tablau | | **2005-2006** | **2006-2007** | **2007-2008** |
| 11.6 | % y plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol sy'n llwyddo i ennill o leiaf 5 TGAU gradd A*-G | 26% | 30% | 26% |
| 11.6 | % y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig sy'n llwyddo i ennill o leiaf 5 TGAU gradd A*-G | 16% | 17% | 16% |
| 11.7 | % y plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol sy'n llwyddo i ennill o leiaf 5 TGAU gradd A*-C | 8% | 11% | 11% |
| 11.7 | % y disgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd sy'n llwyddo i ennill o leiaf 5 TGAU gradd A*-C | 27% | 27% | 28% |
| 11.7 | % y disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael PYaDd sy'n llwyddo i ennill o leiaf 5 TGAU gradd A*-C | 60% | 60% | 62% |

**Tystiolaeth o Loegr**

11.22. Ceir tystiolaeth bod effaith gyfyngedig ar gyrhaeddiad yn gyson â thystiolaeth o werthusiadau o ymyriadau yn Lloegr, megis Quality Protects[60], prosiect Taking Care of Education[61;] mentrau yn yr ysgol megis cyflwyno athrawon dynodedig[62], cynlluniau peilot yr ysgolion rhithwir[63] a Chynlluniau Addysg Personol (PEP)[64]. Mae'r rhain oll wedi canfod, er eu bod wedi gwella *profiad* addysgol plant sy'n

[60] Roedd 'Quality protects' yn rhaglen pum mlynedd, a lansiwyd ym 1998 a oedd yn ceisio trawsnewid gwasanaethau a chanlyniadau y plant mwyaf agored i niwed yn Lloegr, gan gynnwys ehangu dewis o ran lleoliad, gwella'r cymorth a roddir i bobl ifanc sy'n gadael gofal a blaenoriaethu cyfleoedd addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (Berridge et al, 2008).

[61] Sefydlwyd y prosiect 'Taking Care of Education' yn y flwyddyn 2000, gyda'r nod o wella canlyniadau addysgol plant a oedd yn derbyn gofal drwy gyfrwng gwaith 'awdurdod cyfan' er mwyn gwella gweithio mewn partneriaeth a chymorth uniongyrchol ar gyfer plant a oedd yn derbyn gofal (Kent, et al, 2006).

[62] Sefydlwyd rôl 'Athrawon Dynodedig' yn y flwyddyn 2000. Maent yn gweithio gydag asiantaethau eraill i gydgysylltu cymorth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn mynd i'r afael â rhwystrau at ddysgu (Fletcher Campbell et al, 2003).

[63] Mae pennaeth yr ysgol rithwir yn gweithio fel pencampwr a chydgysylltydd yr Awdurdod Lleol i gyflwyno gwelliannau i'r addysg a gynigir i blant sy'n derbyn gofal (Berridge et al,2008).

[64]Mae Cynlluniau PEP yn rhan o'r broses gynllunio ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Gweithiwr cymdeithasol ddylai ysgogi PEP a'i gwblhau gyda'r athro dynodedig yn yr ysgol mewn cyfarfod lle mae'r plentyn yn bresennol (Hayden, 2005).


derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol, er enghraifft agweddau mwy cadarnhaol tuag at addysg a gwelliannau mewn presenoldeb, mae hi wedi bod yn anos o lawer gwella eu *cyrhaeddiad* addysgol (CFEO, 2009).

11.23. Mae'r effaith gyfyngedig, o ran cyrhaeddiad nifer o fentrau diweddar yn Lloegr, wedi'i dangos yng Ngraff 11.8. Mae'n amlinellu'r tueddiadau o ran cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yn Lloegr o'u cymharu â thueddiadau cenedlaethol ar gyfer pob person ifanc yn Lloegr.[65] Mae'n dangos:

- Cynnydd araf ond cyson yng nghyfran yr holl bobl ifanc sy'n llwyddo i ennill o leiaf un TGAU, er bod hyn o sylfaen uchel iawn, a'r cynnydd mawr yn y gyfran a oedd yn llwyddo i ennill o leiaf 5 TGAU neu fwy, gradd A*-C;
- Y cynnydd araf tebyg, ond cyson, yng nghyfran y plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol sy'n llwyddo i ennill o leiaf 5 TGAU, gradd A*C, er bod hynny o sylfaen isel iawn;
- Y cynnydd cyflym yng nghyfran y plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol sy'n llwyddo i ennill o leiaf un TGAU yn rhan gyntaf y ddegawd a'r cynnydd arafach o lawer wedi hynny;
- Y bwlch sy'n cynyddu fwyfwy rhwng cyfran y plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol sy'n llwyddo i ennill o leiaf 5 TGAU, gradd A*-C, o'i gymharu â'r holl bobl ifanc.

[65] Mae cymariaethau yn cael eu cymhlethu gan y gwahanol fesurau a ddefnyddir. Mae data cyrhaeddiad ar blant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yn seiliedig ar y canran sy'n llwyddo i ennill o leiaf un TGAU neu GNVQ ac o leiaf 5 TGAU (ond nid GNVQ). Ond, mae data ar yr holl ddisgyblion yn seiliedig ar y ganran sy'n llwyddo i ennill o leiaf un TGAU neu gyfwerth (A*-G) neu bump TGAU (A*-G) neu gyfwerth, sy'n golygu ei fod yn fesur ychydig yn ehangach (gan ei fod yn cynnwys cymwysterau cyfwerth).

**Graff 11.8. Tueddiadau yng nghyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yn Lloegr sy'n llwyddo i ennill o leiaf 1 a 5 TGAU gradd A*-C**




*Ffynhonnell: DCSF*[66]

[66] DCSF yw'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd. Y plant a oedd yn derbyn gofal yn Lloegr (gan gynnwys y rheiny a oedd yn gadael gofal ac a oedd wedi'u mabwysiadu) yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009 http://www.dcsf.gov.uk/rsgateway/DB/SFR/s000878/SFR25-2009Version2.pdf.

| **Tabl 11.8. Tueddiadau yng nghyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yn Lloegr sy'n llwyddo i ennill o leiaf 1 a 5 TGAU gradd A*-C** | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 |
| % yr holl bobl ifanc sy'n llwyddo i ennill o leiaf 1 TGAU A*-G | 94% | 94% | 95% | 95% | 96% | 96% | 96% | 97% | 97% | 98% |
| % yr holl bobl ifanc sy'n llwyddo i ennill 5+ gradd A*-C | 48% | 49% | 50% | 52% | 53% | 54% | 56% | 59% | 61% | 65% |
| % y LAC sy'n llwyddo i ennill o leiaf un TGAU | 31% | 37% | 41% | 43% | 43% | 42% | 43% | 44% | 46% | 44% |
| % y LAC sy'n llwyddo i ennill 5+ gradd A-C | 4% | 5% | 5% | 6% | 6% | 6% | 6% | 7% | 7% | 7% |
| Bwlch 1 TGAU | 63% | 57% | 54% | 52% | 53% | 54% | 53% | 53% | 51% | 54% |
| Bwlch 5 TGAU | 44% | 44% | 45% | 46% | 47% | 48% | 50% | 52% | 54% | 58% |

*Ffynhonnell: yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd*[67]

**Nodyn ar Graff 11.8**: Nid yw'n bosibl gwneud cymhariaeth uniongyrchol rhwng cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol â phob person ifanc mewn unrhyw flwyddyn gan fod y cyfnodau casglu data yn wahanol. Fel sydd wedi'i amlinellu ym mharagraff 11.5, mae data ar gyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yn seiliedig ar ganran y plant 16 oed neu hŷn nad ydynt yn derbyn gofal bellach sydd â chymhwyster TGAU neu GNVQ, yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth. Mae hyn yn golygu bod y data yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yn ystod dwy flynedd academaidd. Mewn cyferbyniad, mae'r data ar gyrhaeddiad pob plentyn yn seiliedig ar ganran y plant sydd ym mlwyddyn 11 sy'n llwyddo i ennill cymwysterau TGAU neu GNVQ. Felly, mae'n edrych ar ystod oedran culach, a hynny mewn un flwyddyn academaidd. At ddibenion y graff hwn, rydym wedi cymharu'r data ar blant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol a oedd yn 16 oed neu hŷn sydd â chymwysterau TGAU neu GNVQ, yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, gyda'r flwyddyn academaidd gyfatebol. Felly, er enghraifft, caiff y data ar

[67] Plant sy'n derbyn gofal yn Lloegr (gan gynnwys plant sydd wedi'u mabwysiadu ac sy'n gadael gofal) yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009 http://www.dcsf.gov.uk/rsgateway/DB/SFR/s000878/SFR25-2009Version2.pdf.

gyfer plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yn ystod 2009 ei gymharu gyda data blwyddyn academaidd 2008-2009. Mae'r Graffiau hefyd yn dangos bod Cymru yn perfformio'n well na Lloegr yn gyffredinol o ran cyfran y plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol sydd ag o leiaf un TGAU ac sydd ag o leiaf pump TGAU.

11.24. **Tystiolaeth ansoddol**: Mae cyfweliadau gyda Chydgysylltwyr LACE ac adolygiadau o'u hunan-werthusiadau yn dangos eu bod o'r farn bod Rhagori yn cael effaith gadarnhaol. Roedd Cydgysylltwyr LACE yn gallu nodi plant a oedd yn derbyn gofal gan eu Hawdurdodau Lleol a oedd wedi cyflawni mwy yn eu barn hwy yn rhannol o ganlyniad i'r cymorth a ddarparwyd gan Rhagori, ac yn aml, yn rhannol diolch i ymdrechion a phenderfyniad y bobl ifanc eu hunain – rhywbeth y byddwn yn ei drafod ymhellach isod. Fodd bynnag, yn seiliedig ar eu cyrhaeddiad, ymddengys bod llawer o blant eraill sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdodau Lleol sy'n parhau i gael trafferth.

11.25. Yn ystod y cyfweliadau, nododd Cydgysylltwyr LAC ystod o wahanol ffactorau a oedd yn cyfrannu at gyrhaeddiad isel mewn addysg nifer o blant a oedd yn derbyn gofal yn eu barn hwy. Yn eu trefn, dyma nodi'r ffactorau mwyaf cyffredin a nodwyd gan staff Awdurdodau Lleol:

- Symud lleoliad (nodwyd gan 11 Awdurdod Lleol);
- Plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol ag anghenion emosiynol ac yn dioddef o drawma (nodwyd gan 9 Awdurdod Lleol);
- Mathau eraill o aflonyddu ar fywydau plant a oedd yn derbyn gofal, megis symud ysgol, aflonyddu o gael eu cymryd i ofal yr Awdurdod Lleol ac o gael eu symud y tu allan i'r sir (nodwyd gan 8 Awdurdod Lleol);
- Bylchau mewn addysg o ganlyniad i nifer o resymau gan gynnwys newid ysgol a lefelau presenoldeb isel (nodwyd gan 7 Awdurdod Lleol);
- Y gyfran uchel o blant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol ag anghenion addysgol arbennig neu anghenion dysgu ychwanegol (nodwyd gan 6 Awdurdod Lleol);

- Plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol a aeth yn rhan o'r system ofal yn ystod cyfnodau olaf eu haddysg, h.y. yn ystod Cyfnod Allweddol 3 neu 4 (nodwyd gan 6 Awdurdod Lleol).

11.26. Roedd ffactorau eraill a nodwyd gan staff yr Awdurdodau Lleol yn ystod y cyfweliadau yn cynnwys plant a oedd yn derbyn gofal gan yr Awdurdodau Lleol yn profi trafferthion cymdeithasol, trafferthion ymddygiadol, profiadau gwael gydag addysg yn gynnar a disgwyliadau isel rhai athrawon a gofalwyr (Sims a Holtom, 2008).

11.27. Mewn ymateb, defnyddir cyllid Rhagori i weithio gydag ymyriadau eraill ac i'w cyfoethogi, sydd gyda'i gilydd yn:

- Darparu amrywiol fathau o gymorth yn uniongyrchol i blant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol, megis cymorth academaidd, emosiynol, ac ymddygiadol;
- Darparu cymorth anuniongyrchol, er enghraifft cymorth ar gyfer ysgolion a gofalwyr maeth;
- Ceisio gwella cysondeb ac ansawdd y gofal a'r cymorth er enghraifft drwy wella gweithio mewn partneriaeth rhwng gwahanol asiantaethau (ibid.).

11.28. Bu Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal (LACE) Rhagori yn sôn bod yr ymyriadau hyn yn gwneud gwahaniaeth, gan sôn yn benodol am welliannau i agweddau plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol tuag at yr ysgol a'u sgiliau a'u tueddiadau cymdeithasol ac emosiynol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r casgliad ei bod hi'n gyffredinol haws gwella sgiliau a newid agweddau nag yw hi i wella cyrhaeddiad.

11.29. Fodd bynnag, er bod Cysgysylltwyr LACE yn gadarnhaol am y cymorth a gynigiwyd, roeddent yn sôn yn rheolaidd am ystod o ffactorau a oedd yn llesteirio cyrhaeddiad plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol ac yn helpu i

esbonio pam bod cynifer â chyrhaeddiad isel er gwaethaf y cymorth a gynigiwyd gan Rhagori. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Trawma yn sgil profiadau cyn mynd yn rhan o'r system gofal;
- Cyndynrwydd neu amharodrwydd i ymgysylltu â chymorth;
- Presenoldeb gwael ac mewn rhai achosion, gwrthod mynychu'r ysgol;
- Problemau ymddygiadol ac mewn rhai achosion, gwahardd o'r ysgol;
- Problemau gyda lleoliadau gan gynnwys effaith newid lleoliad;
- Problemau teuluol, gan gynnwys profedigaeth, teulu yn gwahanu a dychwelyd at eu teuluoedd ar ôl bod mewn gofal;
- Problemau gydag iechyd corfforol ac iechyd meddwl;
- Anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys anableddau;
- Mewn nifer bach o achosion, ymddygiad tramgwyddus a gwrthgymdeithasol, yn arwain at gyswllt gyda'r timau troseddau ieuenctid ac mewn nifer bach o achosion, cyfnod mewn uned ddiogel;
- Mewn nifer bach o achosion, beichiogrwydd (ibid.).

11.30. At hynny, bu nifer o Gydgysylltwyr LACE yn nodi rhwystrau eraill gan gynnwys:

- Y problemau ymarferol a gawsant wrth wneud yn siŵr bod plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol a oedd yn cael eu haddysgu y tu allan i'r sir yn cael cefnogaeth ddigonol. Yn benodol, trafodwyd y pellter yr oedd gofyn i weithwyr ei deithio ac felly'r costau cysylltiedig o ran teithio ac amser[68];
- Diffyg cefnogaeth gan ysgolion, gan gynnwys problemau wrth anfon plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol i ysgolion a chael mynediad at gofnodion addysgol;
- Capasiti cyfyngedig rhai gwasanaethau arbenigol (ibid.).

[68] Serch hynny, mae'n ofyniad statudol i weithwyr cymdeithasol ymweld â phlant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol waeth ble byddant wedi'u lleoli.

11.31. Mae'n anhygoel pa mor debyg yw'r ffactorau a nodwyd gan Gydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal Rhagori fel rhai a oedd yn cyfrannu at gyrhaeddiad is mewn addysg plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol (gweler paragraff 11.29) i'r ffactorau y maent yn eu nodi fel rhai sy'n egluro pam nad yw cymorth a ariannwyd gan gyllid Rhagori wedi gwella eu cyrhaeddiad (paragraff 11.25). Ar un lefel, mae hyn yn gwneud synnwyr perffaith: mae'r Cydgysylltwyr yn mynd ati'n gyson i nodi'r un ffactorau sy'n achosi ac sy'n egluro lefelau cyrhaeddiad is mewn addysg. Fodd bynnag, ar lefel arall, mae'n awgrymu gwendid difrifol yn Rhagori. Er bod Cydgysylltwyr LACE Rhagori yn gwybod am y ffactorau sy'n cyfrannu at lefelau cyrhaeddiad is mewn addysg ac yn eu cydnabod, maent yn nodi'r un ffactorau fel rhesymau pam y mae plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yn parhau i dangyflawni, er gwaethaf y cyllid ychwanegol a ddarperir drwy Rhagori. Awgryma hyn nad yw ymyriadau a ariannwyd gan Rhagori wedi gallu mynd i'r afael â'r ffactorau hyn sy'n effeithio ar gyrhaeddiad.

11.32. Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, cynhaliwyd cyfweliadau gyda nifer bach o blant a phobl ifanc a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol a oedd yn ymgysylltu â chymorth a ariannwyd gan Rhagori. Mae'r hyn a ddywedasant yn gyson â'r hyn a ddywedodd y Cydgysylltwyr LACE. Bu nifer yn nodi pwysigrwydd y cymorth a ariannwyd gan Rhagori a gawsant, ac effaith y cymorth hwn ar eu profiadau addysgol. Mae'r cyfweliadau hyn yn ategu'r farn hon (newidiwyd yr holl enwau i ddiogelu cyfrinachedd y rheiny a gafodd eu cyfweld):

**Kate:** *[Heb y prosiect] mi faswn i'n ddiog iawn. Mae'n helpu – mae nhw'n dweud wrthyt ti y galli di ei wneud o – mae pawb yn dweud wrtha i y galla i ei 'neud o, roedd jest angen i rywun fod yna yn dweud hyn wrtha i, yn fy nghefnogi i …[os bydd gen i] wers rydd, fe fydd hi'n eistedd yna yn fy helpu i wneud fy ngorau. Mae hi hefyd yn dod â llyfrau i'n helpu i yn lle mod i'n treulio f'amser yn eistedd yna'n meddwl fedra'i ddim gwneud hyn.*

**Alison**: *Mae Sarah [eu gweithiwr cymorth] wedi bod yn dda iawn, mae'n dod i mewn i helpu gyda fy Saesneg, wedi anfon gwybodaeth ata fi. Yn yr ysgol,*

*mae'n help mawr gan fod gen i ddau ddarn o waith cwrs sy'n rhaid i mi eu gorffen … rydw i'n mwynhau, rydw i'n teimlo fel y galla i siarad efo hi am unrhyw beth …mae hi'n angel, mae hi'n dda iawn iawn. Os dwi ddim yn deall rhywbeth, mae gen i ei rhif hi ac fe alla i ei ffonio i ofyn.*

**Carl**: *Dwi wedi cael lot o weithwyr cymdeithasol yn galw draw, roeddwn i'n meddwl mai jest un arall oedd hi ….ond mae hi'n wahanol i Weithwyr Cymdeithasol … dydi Gweithwyr Cymdeithasol ddim mor dda â hynny os ydw i'n gofyn am rywbeth, mae'n cymryd oes – mae Sarah [ei weithiwr cymorth] yn ei wneud yn syth, fel fy nghais [i'r coleg], Sarah, fe roddodd hi'r cais i mewn yn syth. Gyda Gweithiwr Cymdeithasol, mae petha'n cymryd oes.*

11.33. Mae eu straeon yn dangos y gwerth a rydd y bobl ifanc hyn ar gymorth personol a chymorth dysgu – sef un elfen bwysig o'r ddarpariaeth a ariennir gan Rhagori ond nid yr unig un o bell ffordd. Mae'r canfyddiad hwn i'w ddisgwyl – mae nifer o bobl ifanc agored i niwed yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r amser y gall y mathau hyn o weithwyr eu cynnig ac y gall gweithwyr proffesiynol eraill, megis gweithwyr cymdeithasol, gael trafferth i'w ddarparu oherwydd eu llwyth achosion a natur eu gwaith.

11.34. ***Crynodeb o'r dystiolaeth****:* Mae'r data cyfres amser ar gyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol a'r dystiolaeth gan grwpiau y gellir cymharu â hwy yn awgrymu mai cyfyngedig fu'r effaith ar gyrhaeddiad hyd yma (adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae dwy flynedd o raglen Rhagori ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn weddill). Mae hyn yn gyson â'r dystiolaeth o'r gwerthusiadau o ymyriadau y gellir cymharu â hwy o Loegr. Mae'r dystiolaeth ansoddol gan Gydgysylltwyr LACE a'r plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yn fwy cadarnhaol, ond mae hefyd yn amlygu'r ystod o wahanol ffactorau sy'n llesteirio cyrhaeddiad, gan awgrymu bod effeithiau ar gyrhaeddiad pob plentyn sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yn debygol o fod yn gyfyngedig.

11.35. Mewn cyferbyniad, mae'r dystiolaeth gan Gydgysylltwyr LACE a chan blant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol o ran yr effaith ar brofiadau addysgol plant

sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol ac agweddau ar eu cyrhaeddiad[69], megis sgiliau sylfaenol disgyblion a'u sgiliau a'u tueddiadau cymdeithasol ac emosiynol, yn gryfach o lawer ac yn gyson â'r dystiolaeth a gafwyd o ymyriadau o Loegr y gellid cymharu â hwy.

**Effaith Rhagori ar gyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol sydd mewn addysg bellach, addysg uwch a hyfforddiant**

11.36. Yn sicr, fe fyddai'n gynamserol i ni asesu effaith Rhagori ar gyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol sydd mewn addysg bellach, addysg uwch a hyfforddiant, gan y byddai'r cohort cyntaf o blant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol a elwodd ar Rhagori yn cyrraedd addysg uwch ym mis Medi 2010 ar y cynharaf. At hynny, ni cheir unrhyw setiau data amlwg y gellid eu defnyddio. Er y gallai rhai o gohortau blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn Rhagori (2006-2007 a 2007-2008) fod wedi mynd ymlaen i addysg bellach a wedi gorffen eu cyrsiau yn 2007-2008 a 2008-2009, dim ond tystiolaeth gyfyngedig am dueddiadau a fyddai ar gael. Yn fwy sylfaenol byth, yr unig ddata a gyhoeddwyd yn genedlaethol am ganlyniadau ôl-16 ar gyfer plant a oedd yn derbyn gofal gan awdurdodau Lleol yw OC3, sef data a gasglwyd gan Uned Ddata Cymru, sy'n cynnwys gwybodaeth ar weithgarwch pobl sy'n gadael gofal ar eu pen-blwydd yn 19 oed, yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth. Bydd rhai o gohort blwyddyn 11 cyntaf Rhagori (2006-2007) yn cael eu cynnwys yn nata OC3 2009, gyda'r gweddill i'w cynnwys yn nata 2010.[70]

11.37. Mae Graff 11.8 yn dangos y tueddiadau hirdymor yng nghyfran y plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (ETE) llawn amser neu ran amser. Mae'r llinell goch yn dangos canran y plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol sydd mewn cysylltiad â'r Awdurdod Lleol ac y gwyddys eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.


---

[69] Mae cyflawni yn gysyniad ehangach na chyrhaeddiad ac mae'n cynnwys llwyddiant wrth gyflawni nodau dysgu y cytunwyd arnynt; cynnydd wrth ddysgu a datblygiad ... sgiliau personol, cymdeithasol a dysgu (Estyn, n.d.).

[70] Mae cais am yr wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn fframwaith adrodd 2009-10.

Mae'r llinell las yn dangos canran yr holl blant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol (boed mewn cysylltiad ai peidio) y gwyddys eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae'n dangos bod y tueddiad cyffredinol yn un cadarnhaol, ond bod amrywiadau sylweddol o flwyddyn i flwyddyn.

**Graff 11.9. Tueddiadau yng nghyfrannau plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, 2001-2002 hyd 2008-2009**




*Ffynhonnell: Uned Ddata Cymru*

11.38. Er mai prin yw'r ymchwil sydd ar gael ar brofiadau pobl ifanc sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol sydd mewn addysg bellach (C4EO, 2009), mae tystiolaeth gan grwpiau eraill o bobl ifanc yn awgrymu bod perthynas gadarnhaol rhwng cyrhaeddiad addysgol a symud ymlaen i faes addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Hynny yw, wrth i gyrhaeddiad addysgol gynyddu, mae cyfraddau cynyddol o bobl ifanc yn dueddol o fynd ymlaen i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (Kenway et al, 2005). Mae'r ymchwil prin sy'n bodoli yn awgrymu ei bod hi'n debygol bod hyn yn berthnasol i blant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol. Felly, mae'r cynnydd yng nghyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau

Lleol yn ystod cyfnod grantiau LAC Rhagori yn debygol o gyfrannu at gynnydd yn y nifer sy'n cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Bydd angen rhagor o ddata i bennu a yw'r cynnydd mewn cyrhaeddiad a welwyd yn ystod cyfnod Rhagori yn cael yr effaith hon.

11.39. Mae'r cyswllt rhwng cyrhaeddiad a chyfranogiad mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn seiliedig ar nifer o ffactorau:

- Mae canlyniadau addysgol cadarnhaol yn galluogi mynediad at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth;
- Mae cyrhaeddiad blaenorol yn ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar gyrhaeddiad dilynol, felly mae'r rheiny sy'n gwneud yn dda yn 16 oed yn debygol o lwyddo nes ymlaen mewn bywyd;
- Mae canlyniadau addysgol cadarnhaol wedi'u cysylltu'n agos â ffactorau megis sefydlogrwydd lleoliad a phrofiad cadarnhaol a chefnogol mewn gofal, sy'n cyfrannu at gynnydd mewn cadernid ac sy'n helpu plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol i symud o'r byd addysg i hyfforddiant a chyflogaeth (Stein, 2006).

11.40. *By Degrees* yw'r prif waith ymchwil sy'n bodoli ym maes profiadau pobl ifanc sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol sydd mewn addysg uwch. Astudiaeth hydredol yw hon o 129 o bobl a oedd wedi gadael gofal ac mewn addysg uwch. Ariannwyd y gwaith gan Ymddiriedolaeth Frank Buttle (Jackson et al, 2003, 2005). Mae hyn yn awgrymu bod y rheiny sydd mewn addysg uwch yn dueddol o fod â lefelau cyrhaeddiad cymharol uchel (ar y ffigur cenedlaethol cyfartalog neu'n uwch ar gyfer pob person ifanc ac felly'n uwch o lawer na'r ffigur cyfartalog ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol). Mae'r ymchwil hefyd yn awgrymu bod ganddynt gymhelliant uchel gydag agweddau cadarnhaol tuag at yr ysgol. Er bod nifer yn cael problemau a bod heriau yn eu hwynebu yn y byd addysg uwch, yn gysylltiedig â'r heriau academaidd, cymdeithasol ac emosiynol

a ddaw yn y byd addysg uwch, roedd y rhan fwyaf naill ai wedi gorffen eu cyrsiau yn llwyddiannus neu wrthi'n parhau â'u hastudiaethau ar ddiwedd yr ymchwil.

11.41. Ar y cyfan, mae'r ymchwil sydd ar gael yn awgrymu bod symud i addysg bellach ac uwch yn aml yn arbennig o anodd i bobl sydd wedi gadael gofal ac felly bod y cymorth yn hanfodol. Fodd bynnag, mae llawer yn dibynnu ar gadernid y bobl sy'n gadael gofal, sydd i'w weld er enghraifft drwy gyfrwng eu hunan-gred a'u hunan-gymhelliant. Mae terfyn ar faint y gall cymorth arbenigol hyd yn oed wneud yn iawn am ddiffyg sgiliau a thueddiadau o'r fath (Jackson et al, 2003, 2005; Stein, 2008). Felly, mae effaith Rhagori ar gyrhaeddiad pobl ifanc sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol sydd mewn addysg bellach, addysg uwch a hyfforddiant yn debygol o ddibynnu ar nifer o ffactorau:

- Mae'r effaith ar gyrhaeddiad, fel sydd wedi'i nodi uchod, yn debygol o fod wedi bod yn gymedrol;
- Mae'r effaith ar sgiliau a thueddiadau cymdeithasol ac emosiynol pobl ifanc sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol, megis hunan-gymhelliant a hunan-effeithlonrwydd, fel sydd wedi'i nodi uchod, yn debygol o fod wedi bod yn gadarnhaol;
- Safon y cymorth a'r math o gymorth a ddarparwyd gan dimau gadael gofal, nad yw'n ddibynnol ar gyllid Rhagori (fel sydd wedi'i nodi ym mharagraff 11.33, mae pobl ifanc yn gwerthfawrogi rhai mathau o gymorth mwy nag eraill).

## 12. EFFAITH CYLLID RHAGORI AR GYFER PLANT SY'N DERBYN GOFAL GAN AWDURDODAU LLEOL AR YR AWDURDODAU LLEOL

12.1. Er mwyn asesu effaith cyllid Rhagori ar Awdurdodau Lleol, yn 2007, buom yn adolygu adroddiadau blynyddol Cydgysylltwyr LACE er mwyn gweld yr effaith a nodwyd ganddynt hwy[71]. Yna, yn 2008, aethom ati'n systematig i adolygu pob un o'r 22 o Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc (CYPP) i nodi cyfeiriadau at weithgareddau a ariannwyd gan Rhagori. I gyd-fynd â'r adolygiad desg hwn, cynhaliwyd cyfweliadau gyda Chydgysylltwyr LACE yn 2007 ac yn 2008.

12.2. Rydym wedi grwpio'r effeithiau a nodwyd gan Gydgysylltwyr LACE yn eu hadroddiadau blynyddol o dan chwe elfen Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Cymru (Llywodraeth Cymru, 20098) ac rydym yn crynhoi'r canlyniadau yn nhabl 12.1. Mae'n bwysig nodi, gan na chafodd nifer o'r effeithiau hyn eu mesur yn systematig, mae'n bosibl y bydd y tabl yn darparu gwell syniad o'r gweithgarwch, yn hytrach na'r effaith fel y cyfryw (Holtom, 2008).

[71] Yn eu hadroddiadau, gofynnwyd iddynt nodi pa effaith gafodd eu gwaith (cadarnhaol a negyddol) ar sefydliadau megis ysgolion a'r Awdurdod Lleol.

| Tabl 12.1. Tystiolaeth a nodwyd o gyfraniad cyllid Rhagori i sefydlu chwe elfen Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Llywodraeth Cymru. | | |
|---|---|---|
| **Elfen** | **Asesiad o effaith gwaith a ariannwyd gan Rhagori gyda phlant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol ar ysgolion** | **Asesiad o effaith gwaith a ariannwyd gan Rhagori gyda phlant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol ar yr Awdurdodau Lleol** |
| **Arweinyddiaeth** | Mewn dau Awdurdod Lleol, llwyddodd gwaith a ariannwyd gan Rhagori i godi proffil plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol mewn ysgolion. | Mewn tri Awdurdod Lleol, fe wnaeth cyllid Rhagori annog Awdurdodau Lleol i adlewyrchu ar y ffordd yr oeddent yn gweithio gyda phlant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol a newid eu ffyrdd o weithio. |
| **Gweithio gydag Eraill** | Mewn wyth Awdurdod Lleol, fe wnaeth gwaith a ariannwyd gan Rhagori wella'r berthynas waith rhwng ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol. Mewn un sir, fe wnaeth gwaith a ariannwyd gan Rhagori wella'r berthynas rhwng ysgolion a gofalwyr maeth. | Mewn wyth Awdurdod Lleol, fe wnaeth gwaith a ariannwyd gan Rhagori wella'r berthynas waith rhwng ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol ac mewn saith Awdurdod Lleol, fe wnaeth wella'r berthynas rhwng gwasanaethau cymdeithasol a gofalwyr maeth. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth fod Rhagori wedi cefnogi gweithio mewn partneriaeth ehangach, hynny yw, gweithio mewn partneriaeth y tu hwnt i ysgolion a gwasanaethau |

| | | |
|---|---|---|
| | | cymdeithasol. |
| **Rhwydweithiau Ymarfer Proffesiynol** | Mewn wyth Awdurdod Lleol, fe wnaeth gwaith a ariannwyd gan Rhagori wella dealltwriaeth rhwng ysgolion a gweithwyr cymdeithasol. Mewn un sir, fe gefnogodd Rhagori gynhadledd i dynnu uwch reolwr, athrawon a swyddogion yr Awdurdod Lleol ynghyd er nad ydym yn gwybod beth oedd effaith hyn. | Mewn wyth Awdurdod Lleol, fe wnaeth gwaith a ariannwyd gan Rhagori wella'r ddealltwriaeth rhwng ysgolion a gweithwyr cymdeithasol. Mae Rhagori hefyd wedi darparu cyfleoedd i bob un o'r 22 Cydgysylltydd LACE rannu profiadau ac arfer gorau. |
| **Gwelliant ac Atebolrwydd** | Mewn 10 Awdurdod Lleol, llwyddodd Rhagori i gryfhau prosesau asesu a chynllunio ar gyfer plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, ni nodwyd unrhyw dystiolaeth am unrhyw adolygiadau pellach mewn ysgolion o'u gwaith gyda phlant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol. | Mewn 10 Awdurdod Lleol, llwyddodd Rhagori i gryfhau prosesau asesu a chynllunio ar gyfer plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol. Mae'r gofyniad monitro ar gyfer y grant hwn hefyd wedi gofyn i Gydgysylltwyr LACE gyflwyno mwy o ddata nag y byddai gofyn iddynt wneud fel arall a cheir peth tystiolaeth o sut y mae'r data hwn wedi'i ddefnyddio i gryfhau atebolrwydd. |
| **Ymyrraeth a Chefnogaeth** | Mae ysgolion mewn naw Awdurdod Lleol wedi croesawu'r ymyriad a'r cymorth ychwanegol i blant a gynigiwyd gan Rhagori. Mewn un sir, lle nad yw Rhagori wedi ariannu ymyriad na chymorth yn uniongyrchol ar gyfer plant a oedd yn derbyn gofal | Mewn 21 o'r 22 Awdurdod Lleol, mae Rhagori wedi ariannu ymyriad a chymorth yn uniongyrchol i blant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol. Mae hyn yn cynnwys cymorth academaidd ychwanegol i blant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol |

| | | |
|---|---|---|
| | gan Awdurdodau Lleol, mae wedi ariannu hyn yn anuniongyrchol, drwy gyfrwng gwaith swyddog LAC rhan amser, sydd wedi creu canllawiau ac wedi ymweld ag ysgolion. | y tu allan i'r ysgol (mewn 12 Awdurdod Lleol); gan wella mynediad plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol at gyfrifiaduron, naill ai drwy ddarparu gliniaduron neu drwy gynnig mynediad at gyfrifiaduron (mewn 12 Awdurdod Lleol); cymorth bugeiliol ychwanegol neu waith datblygiad personol gyda phlant a oedd yn derbyn gofal gan yr Awdurdodau Lleol (mewn 10 Awdurdod Lleol); mae darparu hyn wedi ariannu adnoddau ychwanegol, megis pecynnau adolygu (mewn 9 Awdurdod Lleol). |
| **Y Cwricwlwm ac Addysgu** | Ni cheir unrhyw dystiolaeth ar glawr bod Rhagori wedi gwella'r cwricwlwm na'r addysgu gyda phlant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yn yr ysgolion. | Mewn saith Awdurdod Lleol, mae Rhagori wedi helpu i ddarparu cwricwlwm mwy hygyrch a pherthnasol i'r plant hynny sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol sy'n cael trafferth gyda chwricwlwm y brif ffrwd. Mewn tri Awdurdod Lleol, mae Rhagori wedi gwella mynediad at weithgareddau allgwricwlaidd ar gyfer plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol. |

*Ffynhonnell: Holtom, 2008*

12.3. Mae ein hadolygiad systematig o Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc wedi nodi rhai enghreifftiau o ymyriadau i wella cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol na chawsant eu hariannu gan Rhagori ac nad oeddent wedi'u nodi cyn hynny. Fodd bynnag, gan fod y cynlluniau gan amlaf yn canolbwyntio ar ganlyniadau, megis gwella cyrhaeddiad a dyheadau, ond nad oeddent yn cynnwys y manylion gweithredol am sut y byddai'r canlyniadau hynny'n cael eu gwireddu, prin oedd y dystiolaeth o effaith Rhagori ar waith yr Awdurdodau Lleol os o gwbl.[72]

12.4. Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod effaith cyllid Rhagori ar gyfer plant a oedd yn derbyn gofal ar yr Awdurdodau Lleol eu hunain wedi bod yn bwysig, ond ei fod wedi bod â ffocws cul. Yn benodol, mae wedi helpu i gryfhau'r cymorth uniongyrchol ar gyfer plant ac mewn rhai Awdurdodau Lleol, mae hefyd wedi helpu i gryfhau gwaith a wneir mewn partneriaeth. Yn ehangach, mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn monitro rhaglen Rhagori a'r trafod a fu gydag Awdurdodau Lleol dan anogaeth Swyddog Polisi Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal Llywodraeth Cymru, ar y cyd ag astudiaeth ddiweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru i'r addysg a gynigir i blant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol, wedi helpu i godi proffil cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal mewn Awdurdodau Lleol.

[72] Nid beirniadaeth yw hon o'r cynlluniau fel y cyfryw. Mae'r ffocws ar ganlyniadau yn bwysig – mae'n adlewyrchu eu natur a pha mor ddefnyddiol ydynt ar gyfer y gwerthusiad hwn.

# 13. RÔL LLYWODRAETH CYMRU

13.1. Er y caiff Rhagori ei chyflwyno fel un rhaglen, mewn gwirionedd, mae'r ddwy ffrwd gyllidol sy'n perthyn i Rhagori ar gyfer ysgolion a phlant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol wedi gweithredu fel rhaglenni ar wahân. Cafodd y ddwy eu datblygu ar wahân gyda gwahanol gynghorwyr arbennig gan wahanol is-adrannau o'r hyn a arferai fod yn Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau[73]. Cafodd cyllid Rhagori ar gyfer ysgolion ei ddatblygu gan yr hen Is-adran Gwella Ysgolion a Pherfformiad a chyllid Rhagori ar gyfer plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol gan yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr. At hynny, mae pob un wedi gweithio i egwyddorion gwahanol, a oedd yn perthyn i wahanol lythyrau cynnig grant, ac mae ganddynt wahanol strwythurau rheoli. Fel sy'n cael ei nodi yn yr adran ganlynol, mae Arweinydd Prosiect Rhagori a'r Swyddog Polisi Addysg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol wedi cydweithio'n agos ond mae'r ffocws wedi bod ar rannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth yn hytrach nag integreiddio dwy ffrwd. Felly, yn yr adran hon, rydym yn trafod y ddwy ffrwd ar wahân.

**Cynllunio, datblygu a thrafod cyllid Rhagori gydag ysgolion**

13.2. Yn 2006, yn annisgwyl, daeth cyllid canlyniadol (*consequential funding*) i law Llywodraeth y Cynulliad (gweler y testun yn y blwch) gwerth £16m yn 2006-2007 a £28m yn 2007-2008. Digwyddodd hyn wedi cyhoeddiad bod cyllid ychwanegol yn cael ei roi i'r byd addysg yn Lloegr. Bu'n rhaid i Lywodraeth y Cynulliad gytuno'n gyflym a fyddai peth neu'r cyfan o'r cyllid yn cael ei ddyrannu i'r byd addysg yng Nghymru, ac yn ail, sut y dylid ei wario. Cytunodd Cabinet Llywodraeth y Cynulliad y byddai cyfran o'r arian yn cael ei ddyrannu i helpu ysgolion i dorri'r cyswllt rhwng tlodi a chyrhaeddiad isel mewn addysg.

[73] Mae'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau bellach yn Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

**Cyllid Canlyniadol a Fformiwla Barnett**

O dan "Fformiwla Barnett", caiff cyfran o newid i gyllid wedi'i gynllunio ar gyfer adran lywodraethol a ariennir gan San Steffan, megis (yr hen) Adran Addysg a Sgiliau (DfES)[74], ei roi i gylch gwaith y gweinyddiaethau datganoledig, megis Llywodraeth Cymru. Mae union gyfran y cynnydd a ddyrennir i'r gweinyddiaethau datganoledig yn dibynnu ar y ganran gymaroldeb, sef i ba raddau y mae gwariant adran San Steffan gyfwerth â gwariant y weinyddiaeth ddatganoledig (ar hyn o bryd, 100% ar gyfer gwariant ar blant, ysgolion a theuluoedd) a chanran y boblogaeth, sef cyfran poblogaeth y weinyddiaeth ddatganoledig gymharol i boblogaeth Lloegr (yn 2007, 5.84% oedd poblogaeth Cymru fel cyfran o boblogaeth Lloegr). Caiff y rhain eu lluosi, felly caiff y cynnydd mewn cyllid ei luosi gyda'r ganran gymaroldeb a'r ganran boblogaeth. Er enghraifft, os yw'r cyllid yn £100 miliwn, ac mai 100% yw'r ganran gymaroldeb, y cyllid canlyniadol ar gyfer Cymru fydd £100 miliwn x 100% x 5.84% = £5.84miliwn (Webb, 2007).

13.3. Tra'r oedd y Cabinet yn trafod defnyddio cyllid canlyniadol, yn yr (hen) Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, parhau wnaeth trafodaethau am olynydd i'r grant a elwid yn Gronfa Gwella Ysgolion. Roedd y grant hwn, gwerth £3 miliwn y flwyddyn, wedi'i ddyrannu i Awdurdodau Lleol er mwyn iddynt gefnogi ysgolion. Ond mae rhai swyddogion wedi awgrymu nad oedd y grant wedi cael effaith sylweddol, yn rhannol gan nad oedd rhai Awdurdodau Lleol wedi targedu'r arian yn effeithiol.

13.4. Cafodd rhaglen Rhagori ei chyhoeddi'n swyddogol mewn Datganiad gan y Gweinidog ar 5 Ebrill 2006. Mewn gwrthgyferbyniad i'r Gronfa Gwella Ysgolion, byddai Rhagori yn ymwneud â swm sylweddol uwch o arian ac o ystyried pryderon am y modd y bu rhai Awdurdodau Lleol yn gweinyddu'r Grant Gwella Ysgolion, byddai Rhagori yn cyfeirio arian at ysgolion, gan osgoi Awdurdodau

[74] Bellach, mae'r adran wedi'i disodli gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd.

Lleol yn llwyr fel rheol. Hefyd, cyhoeddwyd y byddai'r cyllid yn parhau yn ystod 2007-2008.

13.5. Roedd y brys i ddatblygu Rhagori yn ystod y cyfnod wedi'r cyhoeddiad gan Drysorlys EM ar 22 Mawrth i Ddatganiad Ysgrifenedig y Cabinet gan Jane Davidson ar 5 Ebrill 2006, yn golygu mai cyfyngedig iawn oedd yr ymgynghori a fu gydag CLILC a CCAC ar ddatblygu rhaglen newydd. O ganlyniad, nid oedd CLILC na CCAC yn gallu bwydo eu sylwadau i mewn i'r rhaglen nes i'r cynigion ar gyfer y rhaglen fod wedi'u hen ddatblygu. Un asgwrn cynnen allweddol oedd penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddatganoli'r arian yn uniongyrchol i'r ysgolion, yn hytrach nag i'r Awdurdodau Lleol fel gyda'r Grant Gwella Ysgolion. Fel y soniodd nifer o'r rheiny y buom yn cyfweld â hwy, roedd gan Lywodraeth y Cynulliad bryderon am y modd yr oedd grant y Gronfa Gwella Ysgolion yn cael ei ddefnyddio felly i ddechrau, fe ddylent fod wedi gweithio gydag Awdurdodau Lleol er mwyn gwella'r modd y defnyddiwyd yr arian cyn penderfynu hepgor yr Awdurdodau Lleol.

13.6. Roedd cynigion cychwynnol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Rhagori hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cynnig i bedwar swyddog gwella ysgolion fynd ar secondiad i Lywodraeth y Cynulliad, er mwyn cefnogi'r prosiect. Fel sydd wedi'i nodi yn y disgrifiad swydd, dyma oedd eu "tasgau allweddol":

- Hyrwyddo, datblygu a rhannu arfer gorau wrth fynd i'r afael â'r cyswllt rhwng amddifadedd a lefelau cyrhaeddiad isel o ran addysg disgyblion;
- Bod yn bwynt cyswllt rhanbarthol ar gyfer materion yn ymwneud â'r grant Rhagori;
- Gyda'r ysgolion a'r Awdurdodau Addysg Lleol[75], mynd ati i archwilio gwaelodlinau a dangosyddion perfformiad priodol y gellid eu defnyddio i werthuso mentrau a gefnogwyd gan y grant Rhagori;

[75] Bellach, defnyddir "Awdurdod Lleol" yn lle "Awdurdod Addysg Lleol.

- Dod yn gyfarwydd â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol a mynd ati i’w hyrwyddo;
- Gweithio gydag Awdurdodau Addysg Lleol a gwasanaethau cefnogi a chynghori y consortia yn eu rhanbarth i hwyluso mentrau gweithio ar y cyd yn yr Awdurdod Addysg Lleol ac ar draws eu ffiniau;
- Hyrwyddo cynaliadwyedd ym mentrau Rhagori;
- Ymchwilio, datblygu a hwyluso cyfleoedd ar gyfer gweithio aml-asiantaeth i gefnogi menter Rhagori;
- Cydgysylltu drwy ymgynghori a chydweithio ag Awdurdodau Addysg Lleol a chonsortia, a chyfrannu at ddigwyddiadau datblygu proffesiynol yn ymwneud â menter Rhagori;
- Monitro a gwerthuso mentrau a gefnogir gan grant Rhagori;
- Gwneud yn siŵr bod eu harbenigedd penodol hwy ar gael yn genedlaethol, yn ôl cyfarwyddyd arweinydd y prosiect;
- Nodi a hyrwyddo ffyrdd y gellir lledaenu manteision menter Rhagori yn ehangach er lles dysgwyr ledled Cymru;
- Bob tymor, adrodd i arweinydd y prosiect ar gynnydd menter Rhagori yn eu rhanbarth;
- Llunio adroddiadau, yn ôl y gofyn, ar gyfer grŵp llywio’r prosiect;
- Darparu tystiolaeth i werthuswyr allanol o’r prosiect yn ei gyfanrwydd.

13.7. Roedd y cynnig hwn yn asgwrn cynnen arall. Roedd llawer o’r Awdurdodau Lleol yn teimlo bod ganddynt arbenigedd a oedd wedi’i hen sefydlu yn ogystal â chyfrifoldeb dros ysgolion lleol a oedd yn cael eu hanwybyddu drwy sefydlu’r rôl newydd. Roeddent yn pryderu hefyd am y diffyg cyllid a oedd ar gael iddynt fodloni gofynion Llywodraeth y Cynulliad i weinyddu a gwerthuso’r grant Rhagori. Mewn ymateb i’r pryderon a godwyd gan CLlLC a CCAC ar ran Awdurdodau Lleol, ymatebodd Llywodraeth y Cynulliad drwy ailddyrannu’r cyllid a oedd wedi’i fwriadu’n wreiddiol ar gyfer y Swyddogion Gwella Ysgolion i bedwar consortia rhanbarthol.

13.8. Cafodd pob consortia £50,000 i'w galluogi i ddarparu cymorth i ysgolion ac Awdurdodau Lleol gyda'u gweithgareddau Rhagori yn ystod blwyddyn academaidd 2006-2007"[76] (gyda'r disgwyliad y byddai hyn yn parhau yn 2007-2008) ac roedd gofyn i bob un nodi prif gyswllt a fyddai'n dod yn Gydgysylltydd Rhanbarthol, a fyddai yn:

- Mynychu cyfarfodydd cydgysylltu cenedlaethol (y patrwm i'w gytuno rhwng arweinydd y prosiect Rhagori ac arweinwyr pob rhanbarth);
- Cyfrannu at ddigwyddiadau dosbarthu cenedlaethol, neu drefnu i gydweithwyr eraill wneud hynny lle bo'n briodol;
- Hwyluso a hyrwyddo cysylltiadau rhwng ysgolion yn eu consortia lleol ac ysgolion Rhagori mewn ardaloedd eraill er mwyn rhannu a datblygu arfer gorau ac fel sy'n briodol, trefnu digwyddiadau datblygu proffesiynol;
- Trafod gydag asiantaethau allanol a benodwyd i nodi tystiolaeth i gefnogi'r gwaith cenedlaethol o werthuso rhaglen Rhagori;
- Llunio adroddiadau gwerthuso rheolaidd ar gynnydd gweithgareddau Rhagori yn y rhanbarth;
- Cydgysylltu'r gwaith o fonitro safon mentrau Rhagori mewn ysgolion unigol yn y rhanbarth."[77]

13.9. Roedd y newidiadau i'r strwythur lle byddai tîm prosiect bach Rhagori yn Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag ysgolion ac Awdurdodau Lleol yn golygu y byddai Rhagori yn cael ei gefnogi gan dîm o Gydgysylltwyr Rhanbarthol, yn gweithio i bob consortia o Awdurdodau Lleol yn hytrach na thîm o Swyddogion Gwella Ysgolion yn gweithio iddynt.

13.10. Er mwyn cael mynediad at gyllid Rhagori, roedd gofyn i ysgolion cymwys gytuno ar y defnydd yr oeddent yn bwriadu ei wneud o'r grant gyda'u Hawdurdod Lleol.

[76] Llythyr oddi wrth Paul Morgan, Arweinydd Prosiect Rhagori, 'Funding for Local Authorities to provide consortia-wide support to schools participating in the RAISE programme', dyddiedig 14 Rhagfyr 2006.
[77] 'RAISE Regional Co-ordinators', Llythyr oddi wrth Paul Morgan, Arweinydd Prosiect Rhagori, dyddiedig 27 Tachwedd 2006.

Roedd gofyn i Awdurdodau Lleol wneud yn siŵr bod y defnydd a wnaed o'r grant yn dilyn arfer da ym maes gwella ysgolion gan fod yn gyson â chynlluniau gwella ysgolion unigol ac yn achos ysgolion uwchradd, fod yn rhan o gynlluniau'r bartneriaeth 14-19 leol."[78]

13.11. Ond mewn gwirionedd, ni fu'r broses o gael cymeradwyaeth Awdurdodau Lleol mor effeithiol â'r disgwyl. Awgrymodd nifer o'r rheiny a gafodd eu cyfweld bod y chwerwder a grëwyd gan y cynigion cychwynnol ar gyfer Rhagori, yn bennaf y penderfyniadau i roi arian yn uniongyrchol i ysgolion a chyflogi Swyddogion Gwella Ysgolion (a drafodir uchod), wedi cyfrannu at gyndynrwydd rhai Awdurdodau Lleol i ymgysylltu'n llawn â'r rhaglen yn ystod y cyfnod cynnar hanfodol, pan fyddai'r ysgolion yn datblygu eu cynigion. O ganlyniad, roedd lefel y gefnogaeth a ddarparwyd i ysgolion yn amrywio'n sylweddol o un ardal i'r llall. Roedd rhai Awdurdodau Lleol yn cynnig cefnogaeth dda, ond ymddengys bod eraill wedi cymeradwyo cynigion gwan gan ysgolion heb eu hystyried yn ddigon beirniadol. Hyd yn oed yn yr ardaloedd lle'r oedd yr Awdurdodau Lleol yn ymgysylltu'n llawn, ychydig iawn o amser a oedd ganddynt i weithio gydag ysgolion wrth ddatblygu eu cynigion ar gyfer y flwyddyn gyntaf o gyllid Rhagori.

13.12. Aeth tîm rhaglen Rhagori o fewn Llywodraeth Cymru ati eu hunain i adolygu'r 648 o gynigion a ddaeth i law oddi wrth ysgolion. Cymeradwywyd rhyw 15% ohonynt yn ddiamod, a chymeradwywyd 70% pellach yn ddarostyngedig i ddiwygiadau i'w cytuno ag Awdurdodau Lleol yr ysgolion dan sylw ("derbyniol, ond angen diwygio rhywfaint"). Cafodd y 15% arall eu gwrthod am eu bod yn "anfoddhaol", a gofynnwyd i'r ysgolion hynny ddiwygio ac ailgyflwyno eu cynigion. Fodd bynnag, heb Swyddogion Gwella Ysgolion Rhagori na Chydgysylltwyr Rhanbarthol yn eu swyddi, nid oedd gan dîm bach Llywodraeth y Cynulliad y capasiti i roi'r canllawiau manwl na'r gefnogaeth a oedd eu hangen er mwyn

[78] Llythyr dyddiedig 11 Mai 2006, at Gyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru, *RAISE - Raising Attainment & Individual Standards in Education in Wales*, oddi wrth Elizabeth Taylor, cyn-gyfarwyddwr y Grŵp Plant ac Ysgolion yn yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

cydweithio'n agosach ag ysgolion ac Awdurdodau Lleol i wella'r cynigion. Er y cafwyd rhai cynigion cryf ac arloesol, dewisodd llawer o ysgolion droedio llwybrau cyfarwydd. Er enghraifft, yn ei adolygiad cyntaf o Rhagori, daeth Estyn i'r casgliad bod y rhan fwyaf o ysgolion cynradd wedi defnyddio'r rhestr o weithgareddau cymwys "i gadarnhau bod eu syniadau neu eu rhaglenni sefydledig presennol yn addas" a bod ysgolion uwchradd wedi defnyddio'r rhestr i "gadarnhau prosiectau yr oeddent eisoes wedi'u dewis" (t. 5, t.7. Estyn, 2005; gweler hefyd, Holtom, 2008).

13.13. Bu Awdurdodau Lleol yn cydweithio'n agos â'r ysgolion hynny y barnwyd bod eu cynigion yn anfoddhaol neu'n dderbyniol ond bod angen eu diwygio rhywfaint. Yn ôl Estyn (2007) a'r rheiny a gafodd eu cyfweld yn ystod y gwerthusiad, roedd y cynigion diwygiedig a gyflwynwyd yn gryfach o ganlyniad. Serch hynny, roedd mwyafrif helaeth y cynigion a ddaeth i law yn gymharol gul ac yn dangos diffyg gwreiddioldeb.

13.14. Yn ôl nifer o'r rheiny a gafodd eu cyfweld, roedd y diffyg cyfathrebu rhwng rhai o'r Awdurdodau Lleol a'r ysgolion wrth ddatblygu'r cynigion gwreiddiol yn faen tramgwydd a daflodd gysgod dros raglen Rhagori. Rydym yn cytuno i'r carn â'r farn honno. Roedd diffyg cefnogaeth gan rai Awdurdodau Lleol, sef pwnc yr edrychwn yn fanylach arno yn adran 14, wedi cyfrannu at wendid cynigion rhai ysgolion.

13.15. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Arweinydd y Rhaglen Rhagori yn arbennig wedi gweithio'n galed i wella'r berthynas rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, ysgolion ac Awdurdodau Lleol ar ôl yr hyn a gydnabuwyd yn "ddechrau anodd", bernir bod y sefyllfa wedi "gwella'n sylweddol" (t. 23, Estyn, 2010). Ymhlith ymdrechion Arweinydd y Rhaglen, mae rhaglen ddwys o ymgysylltu ac allgymorth gyda Chydgysylltwyr Rhanbarthol, Awdurdodau Lleol ac ysgolion, a hynny drwy gyfrwng cyfarfodydd rheolaidd a thrafodaethau. Caiff yr Arweinydd ei weld fel rhywun "hygyrch, sy'n agored i sylwadau ac awgrymiadau, ac sy'n barod

i roi cymorth uniongyrchol pan fo angen" (ibid). Mae'r ymgynghoriad ar y broses o ddatblygu strategaeth Rhagori ar gyfer 2009-2010 wedi helpu i atgyfnerthu'r berthynas rhwng Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

13.16. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi trefnu cyfres o gynadleddau cenedlaethol. Ystyrir bod y rhain yn "arbennig o werthfawr er mwyn clywed am ddatblygiadau o ran disgyblion difreintiedig, rhannu arferion da a chreu rhwydweithiau anffurfiol" (ibid). Fodd bynnag, cymerodd amser i sefydlu cyfryngau ac offer eraill i annog a galluogi'r broses o rannu arferion da, er enghraifft gwefan Rhagori[79]. Ychydig iawn o gynnydd a wnaed ar y broses o ddatblygu'r wefan tan i ymgynghorydd gael ei gomisiynu i'w datblygu. Mae hyn oll wedi cyfyngu ar effaith y cyfryngau a'r offer hyn.

13.17. Cafodd y broses o ddatblygu strategaeth Rhagori ar gyfer pedwaredd flwyddyn y cylch ariannu ar gyfer ysgolion (2009-2010), ei harwain gan arweinydd y rhaglen Rhagori. Trafodwyd y broses â rhanddeiliaid eraill gan gynnwys Cydgysylltwyr Rhanbarthol Rhagori a'r gwerthuswyr allanol (gan gynnwys awduron yr adroddiad hwn). Un o ganlyniadau'r broses hon oedd nodi wyth thema allweddol:

- Dulliau aml-asiantaeth o gefnogi cynnydd dysgwyr difreintiedig;
- Y gymuned ehangach yn cymryd rhan amlycach ym mywyd a gwaith yr ysgolion;
- Mwy o ymdrech i sicrhau bod rhieni yn cymryd rhan yn addysg eu plant;
- Mabwysiadu dulliau anogaeth er mwyn ategu effaith y cartref ar addysg disgyblion;
- Dulliau ehangach o ddatblygu ieithoedd, a'r rheiny wedi'u gosod yng nghyd-destun pecyn o sgiliau holistaidd, fel modd o wella dysgu;
- Gofalu bod cwricwlwm ysgolion uwchradd yn fwy perthnasol a galwedigaethol;
- Strategaethau ar gyfer gwella cymhelliant, ymddygiad, presenoldeb a hunan-fri dysgwyr;

---

[79] http://www.Rhagori-wales.org.uk/ a http://www.lac-education-wales.org.uk/

- Gwella’r broses bontio ar gyfer dysgwyr difreintiedig wrth iddynt symud o un cyfnod addysg i’r nesaf.

13.18. Y nod oedd bod yr wyth thema yn ymateb i’r argymhellion a wnaed gan y Grŵp Arbenigol ar Dlodi Plant, erthygl yr Athro David Egan ar gyfer Sefydliad Joseph Rowntree a Phwyllgor Plant a Pobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru, er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar strategaethau mwy holistaidd (gweler y testun yn y blwch isod), a ddisgrifiwyd gan arweinydd prosiect Rhagori fel “addysg sy’n canolbwyntio ar y gymuned”. Bwriad y themâu oedd tynnu sylw at feysydd yr oedd angen i ysgolion eu hystyried wrth ganolbwyntio ar y gymuned, ac anogwyd ysgolion i fynd i’r afael â sawl un o’r themâu.

**Argymhellion dethol ar bwysigrwydd addysg sy’n canolbwyntio ar y gymuned**

**Argymhellion y Grŵp Arbenigol ar Dlodi Plant**

Mae tystiolaeth yn cadarnhau pwysigrwydd y berthynas rhwng y cartref a’r ysgol wrth gefnogi profiad addysgol plant, ond yr hyn sy’n allweddol yw’r amgylchedd dysgu yn y cartref, gan gynnwys profiad a hyder rhieni wrth gefnogi dysgu yn y cartref. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru edrych ar ba gamau pellach y dylid eu cymryd i gefnogi’r berthynas hon, yn enwedig ymhlith y teuluoedd mwyaf difreintiedig. Dylai hyn gynnwys cefnogaeth gryfach i raglenni rhianta, ar gyfer dysgu cymunedol a theuluol mewn lleoliad sy’n addas ar gyfer y cyfranogwyr.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno mwy o hyblygrwydd i’r system ysgolion yng Nghymru er mwyn sicrhau ei bod yn canolbwyntio ar anghenion disgyblion. Dylai hyn ennyn mwy o gydweithredu rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd a sefydliadau addysgol a chymunedol eraill. Dylid creu ffrydiau ariannu i gefnogi hyn.

Mae gan ysgolion ran bwysig i’w chwarae wrth oresgyn y berthynas rhwng tlodi plant a chyrhaeddiad isel mewn addysg, ond ni allant wneud hyn ar eu pen eu hunain. Rhaid mynd i'r afael â’r amryfal agweddau ar les plant difreintiedig. Dim ond drwy gydblethu polisïau y bydd modd sicrhau llwyddiant go iawn wrth oresgyn y cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad isel mewn addysg, a chynnal y llwyddiant hwnnw.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fynd ati i gynyddu’n sylweddol ei buddsoddiad yn y rhaglen Ysgolion Bro, gan gydnabod ei photensial fel arf i fynd i’r afael â thlodi plant. Dylid targedu’r cyllid ychwanegol hwn tuag at ein hardaloedd mwyaf difreintiedig, gyda’r bwriad o roi’r holl ysgolion uwchradd wrth wraidd eu cymunedau, er mwyn cynnig cyfleoedd 24/7 ar gyfer dysgu cymunedol a theuluol, ac er mwyn cynnig mynediad at ystod o wasanaethau integredig. Dylid manteisio i’r eithaf ar y cyfleoedd a ddarperir drwy’r Rhaglenni Cydgyfeirio a Chystadleurwydd yn hyn o beth.

**Argymhellion y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc: Tlodi Plant yng Nghymru: Ai Addysg yw’r Ateb?**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei gwneud yn bosibl i sefydlu ysgolion bro sydd wedi’u hariannu’n fwy priodol, a’u cynllunio’n well, gan ddechrau gydag ardaloedd hynod ddifreintiedig yn economaidd-gymdeithasol.

**Argymhellion yr adroddiad ‘Brwydro yn erbyn tlodi ymhlith plant yng Nghymru: a oes strategaethau addysg effeithiol ar waith’?**

Integreiddio mwy o lawer ar y polisïau addysg cyfredol sy’n effeithio ar dlodi plant ac effeithiau hynny. Dylai hyn fod yn seiliedig ar waith ymchwil a gwerthuso o ran yr effaith ar wahân y gallant fod yn ei chael, yn unigol a chyda’i gilydd. Dylid rhoi mwy o arwyddocâd i lais y dysgwr yn hyn oll.

Gweithgarwch yn y meysydd pwysig a nodwyd gan astudiaethau JRF, yn arbennig datblygu'r rhaglen Ysgolion Bro mewn ardaloedd difreintiedig, fel ffordd o gynnig ystod ehangach o gyfleoedd addysg a chefnogaeth i bobl ifanc sydd mewn tlodi.

*Ffynonellau: CPEG, 2008; Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2008; Egan, 2007*

13.19. Gofynnwyd i'r gwerthusiad ystyried p'un a oeddent, o'u hystyried gyda'i gilydd, yn cyflwyno agenda briodol ar gyfer datblygu (Cyfathrebu personol, Paul Morgan). Er mwyn gwneud hyn, cafodd pob thema ei gwerthuso yn unigol i ddechrau, ac yna cawsant eu hystyried gyda'i gilydd, ac yn olaf, cawsant eu hystyried yng nghyd-destun polisïau a mentrau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn bennaf Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Cymru.

13.20. **Asesu unigol:** Er mwyn asesu pa mor briodol oedd yr wyth thema, dewiswyd tri maen prawf:

- P'un a oedd tystiolaeth o angen *prima facie* i annog, cefnogi a galluogi ysgolion i ddatblygu neu gynnal gwaith yn y maes hwn, gan nad aed i'r afael yn ddigonol ag ef yn ystod tair blynedd gyntaf cylch ariannu Rhagori. Er enghraifft, pe bai gwaith wedi'i ariannu gan Rhagori i fynd i'r afael â mater (neu thema), megis gweithio aml-asiantaeth, wedi'i sefydlu a'i wreiddio yng ngwaith ysgolion yn ystod y tair blynedd gyntaf, a bod disgwyl i'r gwaith hwn barhau ar ôl i gyllid Rhagori ddod i ben, ni fyddai angen cefnogi rhagor o waith yn y maes hwn. Rydym yn trafod etifeddiaeth ddisgwyliedig y gwaith a ariennir gan Rhagori yn adran 10. Yn yr adran hon, yr hyn sydd dan sylw yw'r dystiolaeth am weithgareddau a ariennir gan Rhagori.[80]

[80] Roedd hyn yn seiliedig ar ddadansoddiad o gynigion ysgolion ar gyfer defnyddio cyllid Rhagori yn ystod blwyddyn 1. Nid yw'r mesur yn berffaith, gan nad yw'n nodi newidiadau yn y gyfran o ysgolion sy'n ymgymryd â gwahanol fathau o waith yn ystod oes rhaglen Rhagori. Yn hytrach, mae'n cynnig y data gorau sydd ar gael.

- P’un a oedd tystiolaeth o waith ymchwil a gwerthuso a fyddai’n cefnogi’r thema;
- P’un a oedd tystiolaeth o’r gwerthusiad o dair blynedd gyntaf rhaglen Rhagori a fyddai’n cefnogi’r thema hon.

  Fe ystyriwyd cynnwys pedwerydd maen prawf, sef cysondeb â Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Cymru (SEF) (LlCC, 2008b), ond cafodd y syniad hwn ei wrthod, gan mai’r bwriad oedd bod themâu’r bedwaredd flwyddyn yn gyson â’r SEF.

13.21. Rhoddir crynodeb o ganlyniadau’r dadansoddiad hwn yn nhabl 13.1 isod. Gwelir bod y themâu yn briodol, er bod mwy o dystiolaeth dros yr angen am rai o’r themâu nag eraill.

| **Tabl 13.1. Gwerthuso themâu blwyddyn 4** | | | |
|---|---|---|---|
| **Thema blwyddyn 4** | **A oedd angen *prima facie* i atgyfnerthu'r gwaith yn y maes hwn?** | **A oes tystiolaeth gan waith ymchwil i gefnogi'r thema hon?** | **A oes tystiolaeth gan y gwerthusiad o dair blynedd gyntaf Rhagori i gefnogi'r thema hon?** |
| Dulliau aml-asiantaeth o gefnogi cynnydd dysgwyr difreintiedig. | Oedd: Yn ôl adolygiad o gynigion blwyddyn gyntaf yr ysgolion, bach iawn o ysgolion a oedd yn bwriadu canolbwyntio ar ddulliau aml-asiantaeth o weithio (Holtom, 2008; gweler hefyd dablau 20.1 a 20.2 yn yr Atodiad). Felly roedd digon o gwmpas i fynd ati i ddatblygu gwaith yn y maes hwn. | Oes a nac oes: Yn ôl y gwaith ymchwil, nid oes un ffactor penodol sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol sy'n cyfrannu at lefelau cyrhaeddiad isel mewn addysg. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu hefyd bod strategaethau holistaidd sy'n meddwl trwy systemau yn fwy effeithiol (gweler paragraffau 8.9 i 8.12). Fodd bynnag, ychydig iawn o dystiolaeth glir sydd ar gael ar effaith dulliau o weithio aml-asiantaeth (Holtom a Sims, | Oes: Nodwyd bod dulliau aml-asiantaeth o weithio yn nodwedd gyffredin ymysg rhai o'r ysgolion a wnaeth y defnydd mwyaf effeithiol o gyllid Rhagori (gweler paragraffau 8.6). At hyn, nodwyd methiant ysgolion i ymgysylltu â phartneriaid eraill yn wendid a oedd yn perthyn i lawer o'r gwaith a ariannwyd gan Rhagori (gweler paragraffau 9.17, 17.22). Un o gasgliadau allweddol y gwerthusiad hwn yw bod angen cydweithio ag eraill mewn ffordd gydgysylltiedig |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 2009). | (gweler paragraff 17.6-17.7). |
| Y gymuned ehangach yn cymryd rhan amlycach ym mywyd a gwaith yr ysgolion. | Oedd: Yn ôl adolygiad o gynigion blwyddyn gyntaf yr ysgolion, prin oedd yr ysgolion a oedd wedi hoelio'u sylw ar ymgysylltu â'r gymuned, o wahaniaethu'n benodol rhwng hynny ag ymgysylltu â rhieni. Caiff y broses o ymgysylltu â rhieni ei thrafod isod. Er enghraifft, roedd llai nag 1% o wariant blwyddyn gyntaf rhaglen Rhagori yn ymwneud â gweithgareddau cymunedol (Holtom, 2008; gweler hefyd dablau 20.1 ac 20.2 yn yr Atodiad). Roedd digon o gwmpas, felly, i ddatblygu gwaith yn y maes hwn. | Oes: Mae ffocws ysgolion ar y gymuned wedi'i nodi fel nodwedd gyffredin ymysg ysgolion sydd wedi gwneud cynnydd o ran cau'r bwlch (gweler paragraff 3.12). | Oes: Nodwyd bod ymwneud â'r gymuned yn nodwedd gyffredin ymysg llawer o'r ysgolion a wnaeth y defnydd mwyaf effeithiol o gyllid Rhagori (gweler paragraff 8.6.). Yn rhannol, gallai hyn fod oherwydd bod ysgolion sy'n deall eu cymunedau mewn sefyllfa well i ddeall anghenion eu disgyblion (gweler y testun yn y blwch, tudalen 72). |
| Mwy o ymdrech i gael rhieni i gymryd | Oedd: Yn ôl adolygiad o gynigion blwyddyn gyntaf yr ysgolion, yn wreiddiol roedd tua | Oes: Yn ôl gwaith ymchwil, awgrymir bod yr "amgylchedd dysgu yn y cartref" ymysg y | Oes: Mae cynnwys rhieni yn addysg eu plant yn enghraifft dda o 'feddwl trwy systemau', |

| | | | |
|---|---|---|---|
| rhan yn addysg eu plant. | chwarter yr ysgolion cynradd, 15% o ysgolion uwchradd ac ychydig dan 40% o ysgolion arbennig wedi canolbwyntio ar atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng yr ysgol a'r cartref (Holtom, 2008; gweler hefyd dablau 20.1 ac 20.2 yn yr Atodiad). Roedd digon o gwmpas, felly, i ddatblygu gwaith yn y maes hwn. | dylanwadau pwysicaf ar gyrhaeddiad addysgol plentyn, os nad y dylanwad pwysicaf oll (gweler paragraff 3.7). Ceir tystiolaeth hefyd sy'n dangos bod ymyriadau i gynnwys rhieni yn addysg eu plant yn gallu gwella cyrhaeddiad eu plant (gweler y testun yn y blwch, t. 69). | sy'n helpu i sicrhau, er enghraifft, fod gwaith yn yr ysgol yn cael ei gefnogi gan rieni (gweler paragraff 8.9). Canfu'r gwerthusiad enghreifftiau o arferion da ond nodwyd hefyd bod llawer o ysgolion wedi'i chael hi'n anodd cynnwys rhieni a gofalwyr. Dengys hyn bod angen datblygu'r gwaith yn y maes hwn (gweler paragraff 9.3.). |
| Mabwysiadu dulliau anogaeth er mwyn ategu effaith y cartref ar addysg disgyblion. | Oedd: Yn ôl adolygiad o gynigion blwyddyn gyntaf yr ysgolion, yn wreiddiol, ychydig iawn o ysgolion a gyfeiriodd at grwpiau anogaeth (tua 7% o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig a 13% o ysgolion uwchradd). Serch hyn, nododd mwy ohonynt eu bod yn canolbwyntio ar sgiliau | Oes: Yn ôl gwaith ymchwil, gall sgiliau cymdeithasol ac emosiynol gwael gyfrannu at lefelau cyrhaeddiad is mewn addysg (gweler paragraff 3.10). Ceir tystiolaeth hefyd fod rhai rhaglenni anogaeth yn gallu bod yn effeithiol (gweler y testun yn y blwch, t. 69). | Oes: Nododd ysgolion a oedd yn defnyddio dulliau anogaeth fod hynny wedi cael effaith gadarnhaol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cymdeithasol ac emosiynol, gyda thua chwarter yr ysgolion cynradd a'r ysgolion uwchradd a thua hanner yr ysgolion arbennig yn eu crybwyll fel canlyniad disgwyliedig (Holtom, 2008; gweler hefyd dablau 20.1 ac 20.2 yn yr atodiad). Roedd digon o gwmpas, felly, i ddatblygu gwaith yn y maes hwn. | | |
| Dulliau ehangach o ddatblygu ieithoedd, a'r rheiny wedi'u gosod yng nghyd-destun pecyn o sgiliau holistaidd, fel modd o wella | Efallai: Yn ôl adolygiad o gynigion blwyddyn gyntaf yr ysgolion, roedd dros 90% o ysgolion cynradd, 97% o ysgolion uwchradd ac ychydig dan hanner yr ysgolion arbennig yn bwriadu datblygu gweithgareddau i wella llythrennedd a rhifedd eu disgyblion (Holtom, 2008; | Oes: Mae sgiliau sylfaenol gwael yn gysylltiedig â lefelau cyrhaeddiad is (gweler paragraff 3.6) a cheir tystiolaeth sy'n dangos y gall ymyriadau i wella sgiliau sylfaenol fod yn effeithiol (gweler y testun yn y blwch, t. 69). At hyn, mae tystiolaeth yn dangos bod yr ymyriadau hyn yn fwy effeithiol fyth pan gânt eu | Oes: Canfu'r gwerthusiad fod methiant i integreiddio ymyriadau, megis cefnogaeth ar gyfer llythrennedd, i raglenni mwy holistaidd, yn wendid difrifol a oedd i'w weld yng ngwaith llawer o'r ysgolion (gweler paragraffau 8.6-8.11, 9.17). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| dysgu. | gweler hefyd dablau 20.1 ac 20.2 yn yr Atodiad). Fodd bynnag, ni all y data hwn ddangos pa mor eang fyddai'r gwaith hwn. Byddai angen *prima facie* i atgyfnerthu gwaith yn y maes hwn yn y bedwaredd flwyddyn dim ond pe bai ysgolion wedi cynnal y gweithgareddau hyn mewn ffordd rhy gul, neu pe na bai'r gweithgareddau wedi'u hintegreiddio i raglenni mwy holistaidd.[81] | hintegreiddio i strategaethau mwy holistaidd (gweler paragraff 8.9). | |
| Gofalu bod cwricwlwm ysgolion uwchradd yn fwy perthnasol a | Efallai: Yn ôl adolygiad o gynigion blwyddyn gyntaf yr ysgolion, roedd 80% o ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig yn bwriadu datblygu gweithgareddau i wella'r | Efallai: Nid oedd y cwricwlwm wedi'i nodi fel "dylanwad" allweddol ar gyrhaeddiad yn y llenyddiaeth a adolygwyd ar gyfer yr astudiaeth hon (gweler Duckworth, et al, 2009, wedi'i | Oes: Yn gyffredinol, nododd ysgolion uwchradd bod newid eu cwricwlwm wedi cael effaith gadarnhaol. |

[81] Y gwerthusiad yn ei gyfanrwydd, a dynodd ar ffynonellau eraill o dystiolaeth. Mae'r canfyddiadau hyn wedi'u crynhoi yn y drydedd golofn, ac yn dangos bod llawer o ysgolion wedi mabwysiadu dull cul o weithio.

| | | | |
|---|---|---|---|
| galwedigaethol. | cwricwlwm (Holtom, 2008; gweler hefyd dablau 20.1 ac 20.2 yn yr Atodiad). Roedd rhywfaint o gwmpas, felly, i ehangu gwaith yn y maes hwn. | grynhoi ym mharagraff 3.8). Serch hyn, hyd yn oed os nad yw'r cwricwlwm yn ffactor allweddol mewn perthynas â chyrhaeddiad, mae'n bosibl ei fod yn dal i ddylanwadu ar agweddau pwysig eraill ar addysg yn ei ystyr ehangach.[82] Er enghraifft, mae ymchwil yn awgrymu ei fod yn ffactor sy'n dylanwadu ar ymddieithrio rhag addysg (gweler, er enghraifft, y llenyddiaeth a adolygwyd gan Lloyd-Jones, et al, 2010). | |
| Strategaethau ar gyfer gwella cymhelliant, ymddygiad, presenoldeb a hunan-fri | Oedd: Yn ôl adolygiad o gynigion blwyddyn gyntaf yr ysgolion, yn wreiddiol, roedd tua 17% o ysgolion cynradd, 27% o ysgolion uwchradd a 23% o ysgolion arbennig wedi nodi | Oes a nac oes: Mae ymchwil yn awgrymu bod cymhelliant, ymddygiad a phresenoldeb oll yn gysylltiedig â chyrhaeddiad (gweler paragraff 3.6.). Ceir tystiolaeth hefyd y gall | Oes: Yn gyffredinol, nododd ysgolion bod strategaethau i wella cymhelliant, ymddygaid, presenoldeb a hunan-fri disgyblion wedi cael effaith gadarnhaol. Mewn rhai |

[82] Mae'n bosibl bod y gwrth-ddweud ymddangosiadol hwn yn deillio o'r ffaith bod cyrhaeddiad yn dibynnu mwy ar allu disgybl ac ansawdd yr addysg na diddordeb y disgybl mewn pwnc penodol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| dysgwyr. | cynnydd mewn lles neu hunan-fri[83] fel canlyniad disgwyliedig yn sgil eu gwaith; ac roedd 20% o ysgolion cynradd, 55% o ysgolion uwchradd ac 20% o ysgolion arbennig wedi nodi gwella ymddygiad fel canlyniad disgwyliedig (Holtom, 2008; gweler hefyd dablau 20.1 ac 20.2 yn yr Atodiad). Roedd digon o gwmpas, felly, i ddatblygu gwaith yn y maes hwn. | ymyriadau i wella presenoldeb ac ymddygiad fod yn effeithiol (gweler y testun yn y blwch, t. 69).<br>Fodd bynnag, ceir dadlau ynghylch y dystiolaeth sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ymyriadau wrth gynyddu hunan-fri, sef un agwedd ar y thema hon. Daeth un meta-adolygiad (sef adolygiad o adolygiadau ymchwil eraill) i'r casgliad bod yr achos dros gysylltiad achosol rhwng cyrhaeddiad isel mewn addysg a hunan-fri isel "heb ei | achosion, nododd ysgolion bod gwelliannau mewn ymddygiad a/neu gymhelliant disgyblion hefyd wedi bod o fudd i ddisgyblion nad oeddent yn gymwys ar gyfer Rhagori. |

[83] Ceir dadlau ynghylch y cysyniadau o "Hunan-fri" a "Lles", ond fel arfer ystyrir eu bod yn ddau beth ar wahân, er bod yna gysylltiad rhyngddynt. Er enghraifft, mae "hunan-fri" yn ymwneud â hunan-werth neu'r casgliad o feirniadaethau am gymhwyster, gwerth neu deilyngdod rhywun (Emler, 2001). Mae lles yn cynnwys elfennau goddrychol, megis teimlo'n hapus, a allai ddibynnu'n rhannol ar hunan-fri, ond sydd hefyd yn dibynnu ar ffactorau eraill a'r elfennau gwrthrychol, megis yr amodau, er enghraifft iechyd da, sy'n ei gwneud yn bosibl i bobl deimlo'n hapus (OECD, 2009). Fodd bynnag, gan fod rhai ysgolion yn ymddangos fel pe baent yn defnyddio'r ddau gysyniad yn gyfnewidiol, fe'i grwpiwyd at ei gilydd at ddibenion dadansoddi.

[84] Maent yn nodi "Over many years of research, a consistent pattern is apparent. Self-esteem and educational attainment are related. But they are not strongly related. The strength of the association varies with age; with the educational outcome considered; with the sex, ethnic origin and socio-economic background of the individuals concerned; and with the measures of self-esteem used." At hyn, mae astudiaethau hydredol yn awgrymu bod y cysylltiad yn deillio o'r ffaith bod cyrhaeddiad yn cyfrannu at gynnydd mewn hunan-fri, yn hytrach na bod hunan-fri yn cyfrannu at lefelau uwch o gyrhaeddiad mewn addysg (t. 27, Emler, 2001).

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | brofi"[84] (Emler, 2001). | |
| Gwella'r broses bontio ar gyfer dysgwyr difreintiedig wrth iddynt symud o un cyfnod addysg i'r nesaf. | Oedd: Yn ôl adolygiad o gynigion blwyddyn gyntaf yr ysgolion, yn wreiddiol, roedd tua 4% o ysgolion cynradd, 24% o ysgolion uwchradd ac 17% o ysgolion arbennig wedi nodi bod gwella'r broses bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn un o ddibenion eu gwaith. Dim ond wyth o'r cynigion gan ysgolion a gyfeiriodd yn benodol at atgyfnerthu'r cyfnod pontio rhwng cyfnodau allweddol eraill (Holtom, 2008; gweler hefyd dablau 20.1 ac 20.2 yn yr Atodiad). Roedd digon o gwmpas, felly, i ddatblygu gwaith yn y maes hwn. | Oes: Ymddengys nad oedd y cyfnod pontio *per se* yn ffactor allweddol a oedd yn "dylanwadu" ar gyrhaeddiad yn y llenyddiaeth a adolygwyd ar gyfer yr astudiaeth hon. Fodd bynnag, amlygwyd bod sgiliau sylfaenol a sgiliau emoisynol a chymdeithasol disgyblion yn dylanwadu ar eu gallu i ymdopi â'r heriau a gyflwynir gan y cyfnod pontio (gweler Duckworth, et al, 2009, wedi'i grynhoi ym mharagraff 3.8). | Oes: Nodwyd bod methiant i gynllunio ar gyfer cyfnod pontio disgyblion Rhagori rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd yn wendid difrifol (gweler paragraff 17.23). |

13.22. **Asesu ar y cyd:** Gyda'i gilydd, mae'r wyth thema yn cynnwys y rhan fwyaf o'r agweddau ar 'addysg sy'n canolbwyntio ar y gymuned' a argymhellir gan y Grŵp Arbenigol ar Dlodi Plant, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ac erthygl yr Athro David Egan, y dylai ysgolion geisio'u meithrin[85]. Fodd bynnag, nid ydynt yn cyfeirio at y canlynol:

- Penodi "swyddog cyswllt ag ysgolion ar gyfer gofalwyr ifanc, sy'n gyfrifol am fynd ati i nodi ac ymgysylltu â gofalwyr ifanc a gweithwyr cymorth, a chydgysylltu yn fewnol â staff addysgu" (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2008);
- Camau i fynd i'r afael â chost addysg, megis costau gwisg ysgol a gweithgareddau allgyrsiol (ibid.);
- Cefnogaeth a hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol ar dlodi plant (ibid.);
- Sicrhau darpariaeth ddigonol o "ofal bugeiliol sy'n sensitif i anghenion disgyblion mewn tlodi, neu sy'n wynebu rhwystrau eraill i ddysgu" a chefnogaeth lle bo angen, cymorth (ibid);
- Yr angen i "recriwtio staff o'r ansawdd uchaf" a "chefnogi a herio athrawon i ddatblygu eu gwybodaeth broffesiynol a'u haddysgeg" (CPEG, 2007);
- Rôl a phwysigrwydd "llais y dysgwyr" (Egan, 2007).

13.23. Efallai ei bod yn anochel y bydd pethau yn cael eu hepgor, oherwydd yr amryfal ffactorau sy'n cysylltu anfantais economaidd-gymdeithasol â chyrhaeddiad isel mewn addysg a'r ystod o ymatebion polisi posibl. Felly, byddai cymhariaeth debyg ag, er enghraifft, argymhellion Astudiaethau Cau'r Bwlch (gweler y testun yn y blwch, tudalennau 24-25 i gael manylion) (LICC a CLILC, 2002, 2005), yn dangos yr hyn sy'n gyffredin rhwng themâu Rhagori Blwyddyn 4, megis y ffocws ar lythrennedd, ymddygiad, presenoldeb a phontio. Ond mae hefyd yn dangos y

[85] Ym mhob un o'r tri adroddiad, roedd yr argymhellion hyn yn cael eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru, ond maent yn cynnwys pethau y gallai yr ysgolion eu hunain eu gweithredu. Er enghraifft, byddai ysgol yn gallu mynd i'r afael ag argymhelliad bod "Llywodraeth Cymru yn rhoi canllawiau i ysgolion ar hyfforddi a phenodi aelod o staff fel swyddog cyswllt ag ysgolion ar gyfer gofalwyr ifanc, yn gyfrifol am fynd ati'n rhagweithiol i nodi ac ymgysylltu â gofalwyr ifanc a chydgysylltu'n fewnol â staff addysgu eraill", gan benodi swyddog cyswllt ag ysgolion ar gyfer gofalwyr ifanc, p'un a oedd canllawiau ar gael ai peidio.

gwahaniaethau, megis y pwyslais ar “staff allweddol mewn sefyllfa i hybu gwelliant mewn ysgolion”, “monitro addysgu a dysgu” a “dadansoddi/defnyddio data asesu yn Astudiaethau Cau’r Bwlch” (t. 35. LICC a CLILC, 2002).

13.24. O gofio ei bod yn anochel bod rhai pethau wedi’u hepgor, yn hytrach na chanolbwyntio ar y manylion – p’un a yw argymhelliad unigol, megis penodi swyddogion cyswllt ag ysgolion ar gyfer gofalwyr ifanc yn cael ei gynnwys – pwysicach yw ystyried p’un a yw’r materion y mae’r argymhellion yn mynd i’r afael â hwy, er enghraifft materion y byddai disgwyl i swyddogion cyswllt ag ysgolion eu trafod, yn cael eu cynnwys yn un o’r wyth thema. Fodd bynnag, hyd yn oed o gynnal y math hwn o asesiad ehangach – sef asesiad sy’n cymharu’r wyth thema ag argymhellion y Grŵp Arbenigol ar Dlodi Plant, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ac erthygl yr Athro David Egan – awgrymir nad yw’r themâu yn mynd i’r afael yn ddigonol â rhai materion pwysig. Yn benodol, prin y mae’r themâu yn cyfeirio at wella addysgeg ac arweinyddiaeth mewn ysgolion (gan gynnwys rôl llywodraethwyr ysgol). Nodir bod y ddau beth hyn yn ffactorau pwysig sy’n dlanwadu ar berfformiad disgyblion gan Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Cymru (SEF, 2008c) a chan waith ymchwil arall (Day, et al, 2009; McKinsey, 2007; LICC a CLILC, 2002).

13.25. **Asesiadau cyd-destunol**: Ni ddylid mynd ati i ystyried yr wyth thema mewn gwagle; yn hytrach dylid eu hystyried yng nghyd-destun polisïau a mentrau eraill y bwriedir i’r themâu eu hategu, yn bennaf Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Cymru. Fel y nodir, mae Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Cymru yn trafod set ehangach o faterion na’r wyth thema, er enghraifft, rôl arweinyddiaeth ac addysgeg. O fewn y cyd-destun ehangach hwn, mae wyth thema Rhagori yn fan cychwyn defnyddiol er mwyn helpu ysgolion i nodi meysydd gweithredu posibl, sydd wedi’u cefnogi gan dystiolaeth, fel y nodir yn nhabl 13.1. Dim ond wrth wreiddio’r wyth thema hyn yn eu cyd-destun ehangach y gellir meddwl trwy systemau a datblygu strategaeth holistaidd a fydd yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd dan anfantais economaidd-

gymdeithasol. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd y gwaith o ddatblygu dulliau aml-asiantaeth o ddiwallu anghenion (sef un o themâu pedwaredd flwyddyn Rhagori) yn dibynnu ar newidiadau yn arferion arwain ysgolion a'u partneriaid, ac ar ddatblygu rhwydweithiau newydd o ran arferion proffesiynol (sydd ill dwy yn elfennau allweddol o Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Cymru). Yn yr un modd, mae'n debyg y bydd angen i arweinwyr hyrwyddo dulliau o ddatblygu ieithoedd, a hyrwyddo newidiadau i'r cwricwlwm, a newidiadau o ran addysgeg.

**Cynllunio, cyfathrebu a datblygu cyllid Rhagori i blant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol**

13.26. Yn wahanol i'r cyllid Rhagori a ddarparwyd i ysgolion, cafodd y cyllid Rhagori ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol ei ddarparu'n uniongyrchol i Awdurdodau Lleol, gyda'r nod penodol o wella cyrhaeddiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. Croesawodd yr Awdurdodau Leol y cyllid ychwanegol hwn ac nid oeddent yn teimlo wedi'u hymylu. Serch hyn, roedd y penderfyniad i dargedu'r cyllid tuag at wella cyrhaeddiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 (yn wahanol i gyllid Rhagori ar gyfer ysgolion[86]) yn amhoblogaidd ymysg rhai Awdurdodau Lleol, a oedd yn poeni y byddai hyn yn golygu bod yr ymyriadau'n digwydd yn rhy hwyr i rai o'r plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol. Mae'n debygol bod y penderfyniad hwn yn adlewyrchu dyhead gwleidyddol i wella cyrhaeddiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4, er mwyn effeithio ar y prif Graffiau ('*headline' Graphs*). Cymysg oedd y dystiolaeth dros gefnogi'r ffocws cul hwn i ddweud y lleiaf, ac roedd y penderfyniad dilynol yn 2008 i ymestyn cwmpas y grant yn deillio'n uniongyrchol o hunan-werthusiadau a cham tuag at ddull mwy rhagweithiol (yn hytrach nag ymatebol) o wella cyrhaeddiad pobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghyfnod Allweddol 4. Bu'n fodd i Awdurdodau Lleol ymyrryd yn gynharach, gyda phlant iau, a chroesawyd hyn gan Awdurdodau Lleol.

---

[86] Aethpwyd ati'n fwriadol i annog ysgolion i beidio â chanolbwyntio'n ormodol ar ddiwedd pob cyfnod allweddol.

13.27. Roedd penodi Swyddog Polisi Addysg ar gyfer plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yn 2007 wedi gwella capasiti'r Is-adran Cymorth i Ddysgwyr i ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd i ddwyn ynghyd Gydgysylltwyr Addysg Plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol Rhagori i drafod y datblygiadau. Mae hyn wedi gwella'r ddeialog, ond mae'r gofynion monitro a roddwyd ar Awdurdodau Lleol wedi bod yn asgwrn cynnen parhaus. Yn ategu'r cyfarfodydd hyn, mae trafodaethau dwyochrog gydag Awdurdodau Lleol unigol, sydd wedi galluogi mwy o gefnogaeth uniongyrchol, a herio, lle bo hynny'n briodol. Yn ogystal, mae grŵp rhanddeiliaid Addysg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal wedi helpu i gysylltu â'r sectorau gwirfoddol ac academaidd.

**Alinio cynlluniau Rhagori ag amcanion Llywodraeth Cymru**

13.28. Mae amcan Rhagori o gau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad academaidd disgyblion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig a disgyblion o gefndiroedd mwy breintiedig, wedi'i alinio'n glir ag amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru a amlinellir yn *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith* (LlCC, n.d.). Nodir yn glir bod Rhagori yn cyfrannu at yr amcanion canlynol:

- “Hyrwyddo cynhwysiant mewn addysg a dysgu” (t. 6, LlCC, n.d);
- “Mynd i'r afael â thlodi o ran cyfleoedd addysgol a chodi safonau mewn ysgolion (t.10, ibid)”;
- O ran cyllid Rhagori ar gyfer Plant sy'n derbyn Gofal gan Awdurdodau Lleol, “Gwella gwasanaethau a diogelwch ar gyfer plant a phobl ifanc” (t. 29, ibid.).

At hyn, mae amcan Llywodraeth y Cynulliad i gau'r bwlch wedi dod yn bwysicach ers lansio Rhagori yn 2006. Caiff ei nodi fel nod allweddol yn Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Cymru (LlCC, 2008b) ac mae'n amcan allweddol ar gyfer y strategaeth ddrafft ar dlodi plant sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.[87]

[87] http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/poverty/?lang=en

13.29. Mewn gwrthgyferbyniad, ar lefel strategol a gweithredol, mae Rhagori yn rhaglen o weithgarwch (yn hytrach na set o amcanion), sydd wedi'i alinio llai o lawer â pholisïau a mentrau Llywodraeth Cymru sy'n ceisio cefnogi'r amcanion strategol hyn. Wrth ddatblygu'r rhaglen ar frys, ychydig iawn o ddeialog a fu yn yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau gynt am y llinynnau cyswllt rhwng Rhagori a mentrau allweddol eraill, megis Llwybrau Dysgu 14-19 a'r Cyfnod Sylfaen. Ar yr un pryd, nid oes amheuaeth bod y rheiny a oedd yn rhan o'r broses o ddatblygu Rhagori yn ymwybodol o'r rhaglenni hyn, ac roedd y ddewislen o weithgareddau cymwys ar gyfer ysgolion yn eu hannog i gysylltu â'r meysydd polisi hyn, er nad oedd hynny'n orfodol. Mae rhai ysgolion wedi cysylltu'u gwaith â'r mentrau hyn a bernir bod Rhagori, er enghraifft, wedi helpu i yrru elfennau o Lwybrau Dysgu 14-19, megis yr Anogwyr Dysgu, yn eu blaenau yn gyflymach na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall. Serch hyn, digwyddodd hyn mewn ffordd fratiog ac roedd yn ddibynnol ar fentergarwch ysgolion unigol. Yn ehangach, ni chafodd cysylltiadau eu gwneud ar y dechrau â pholisïau allweddol eraill megis y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol, y Strategaeth Tlodi Plant a'r fenter Cymunedau'n Gyntaf. Mewn gwirionedd, ychydig iawn o feddwl trwy systemau a fu (gweler adran 7) a bu colli cyfle i greu synergeddau rhwng Rhagori a strategaethau eraill, i osgoi dyblygu gwaith yn ddiangen ac i leihau tensiynau posibl rhwng gwahanol strategaethau. Serch hyn, cafodd ymdrechion arweinydd rhaglen Rhagori i fynd i'r afael â'r gwendid hwn eu canmol yn eang.

## 14. RÔL Y CONSORTIA RHANBARTHOL A'R AWDURDODAU LLEOL

14.1. Fel yr amlinellir yn yr adran flaenorol, rhoddwyd y cynlluniau ar gyfer tîm gwella ysgolion Rhagori i'r neilltu er mwyn canolbwyntio ar strategaeth ranbarthol, a roddodd mwy o bwyslais ar y rôl yr oedd disgwyl i Awdurdodau Lleol ei chwarae. Yn yr adran hon, trafodwn rôl Awdurdodau Lleol wrth gefnogi ysgolion a'r broses o feithrin dulliau rhanbarthol o weithio, ac yn benodol, rôl Cydgysylltwyr Rhanbarthol Rhagori.

**Rôl yr Awdurdodau Lleol wrth ddatblygu Rhagori**

14.2. Ar ôl lansio Rhagori, roedd gan yr Awdurdodau Lleol rôl bwysig i'w chwarae wrth gynghori, cefnogi, a lle bo'n briodol, herio ysgolion wrth iddynt lunio'u cynigion ar gyfer defnyddio cyllid Rhagori yn y flwyddyn gyntaf. Er y bu modd i rai Awdurdodau Lleol gynnig cefnogaeth effeithiol, yn yr awyrgylch chwerw a fodolai ar y cychwyn cyntaf, nid oedd pob Awdurdod Lleol yn chwarae rhan lawn yn y dasg hon. Yn ôl rhai, gan fod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu'r grant yn uniongyrchol i ysgolion, nid oedd gan yr Awdurdodau Lleol yr adnoddau na'r capasiti i ddarparu'r gefnogaeth yr oedd ei hangen ar yr ysgolion. Ar ochr arall y geiniog, roedd Llywodraeth Cymru yn dadlau nad oedd Rhagori yn wahanol i grantiau eraill, ac y dylai Awdurdodau Lleol fynd i'r afael ag ef fel rhan o'u dyletswydd cyffredinol i gefnogi a herio ysgolion. Waeth beth fo'r achos, mewn nifer o ardaloedd, ni wireddwyd potensial Awdurdodau Lleol i gyflawni rôl y "ffrind beirniadol", yn cynghori, cyflwyno syniadau newydd, chwarae dadleuwr y diafol, rhoi prawf ar gynigion ysgolion a'u herio, pe byddai angen. Mae hyn yn hanfodol, gan ei fod wedi gwanhau'n ddifrifol y gwaith a ariennir gan Rhagori mewn ysgolion.

14.3. Canfu Estyn fod y gefnogaeth gan Awdurdodau Lleol yn parhau'n anghyson:

> Mae ychydig dros hanner yr ysgolion yn derbyn cefnogaeth a chanllawiau o ansawdd da gan Awdurdodau Lleol. Ceir diffygion yn y gefnogaeth a gynigir

gan Awdurdodau Lleol yng ngweddill yr ysgolion Rhagori, gan gynnwys tua un o bob deg ysgol lle'r oedd y gefnogaeth a'r canllawiau yn annigonol. O'r wyth Awdurdod Lleol yr aethpwyd i ymweld â hwy, dim ond yn Wrecsam a Sir y Fflint y rhoddwyd cefnogaeth a chanllawiau a oedd yn gyson dda. (tt. 17-18, Estyn, 2010)

**Arweinyddiaeth gan Awdurdodau Lleol**

14.4. Ar ôl datrys yr anghydfod cychwynnol ynghylch swyddogion proffesiynol gwella ysgolion Rhagori ac ynghylch y cyllid ar gyfer Awdurdodau Lleol, aeth rhai Awdurdodau Lleol ati yn rhagweithiol, gan arwain a diffinio'n glir y ddau rôl: Cydgysylltwyr Rhanbarthol Rhagori, a chynghorwyr yr Awdurdodau Lleol. Trafodir rôl Cydgysylltwyr Rhanbarthol Rhagori isod. Yn rhanbarthau'r Gogledd a swamwac[88], sefydlwyd rhwydwaith cryf ymysg yr Awdurdodau Lleol, â phob un wedi'i arwain gan gadeirydd dylanwadol. Rhoddwyd cylch gwaith clir a chadarn i'r Cydgysylltwyr Rhanbarthol gan y consortiwm, ac mae cynghorwyr yr Awdurdodau Lleol a'r Cydgysylltwyr Rhanbarthol wedi cydweithio'n agos, gan lywio a dylanwadu ar waith ei gilydd. Yn swamwac a'r Gogledd, roedd arweinyddiaeth gyhyrog uwch-swyddog yn yr Awdurdod Lleol yn hanfodol. I'r gwrthwyneb, er y bu'r Awdurdodau Lleol yn llai rhagweithiol o lawer yn ardal y Deheubarth Ganol, roedd strwythur traws-sirol[89] eisoes ar waith drwy gyfrwng ESIS[90] ac mae'r Cydgysylltydd Rhanbarthol wedi adeiladu ar hyn i helpu i gydgysylltu gwaith yn y rhanbarth, er mwyn hysbysu cynghorwyr yr Awdurdodau Lleol am gynnydd a datblygiadau, ac i ddatblygu Rhagori fel rhaglen. Yn y De-ddwyrain, roedd y Rhwydwaith yn wannach o lawer i ddechrau ac ni chafwyd arweinyddiaeth gref gan Awdurdodau Lleol. Roedd hi'n anodd iawn i'r Cydgysylltwyr Rhanbarthol ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol, ac i ddechrau, roedd y rhan fwyaf o'u gwaith yn ymwneud ag ysgolion yn hytrach na chynghorwyr yr Awdurdodau Addysg Lleol.

---

88 Yr enw a fabwysiadwyd gan y consortiwm sy'n cynnwys y De-orllewin a'r canolbarth.

89 Mae ESIS yn Wasanaeth ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Gwella Ysgolion a'r Gwasanaeth Addysg sy'n gwasanaethu Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

90 Gan nad oedd Bro Morgannwg yn rhan o ESIS, roedd angen meithrin cysylltiadau. Nododd Cynghorwr Awdurdodau Lleol y Fro ar gyfer Rhagori fod hyn yn gweithio'n eithaf da.

14.5. Er y cafodd Rhagori ei gweld i ddechrau fel menter a oedd yn cael ei harwain o'r canol, gydag Awdurdodau Lleol yn ymateb iddi, mewn tri rhanbarth, sef y Gogledd, y Deheubarth Ganol a swamwac, bu ymdrechion sylweddoli i ddatblygu Rhagori fel rhaglen. Fodd bynnag, dim ond yng nghonsortia'r Gogledd a swamwac y mae Rhagori wedi ysgogi'r broses o ddatblygu ymateb strategol i anfantais economaidd-gymdeithasol a aeth y tu hwnt i Rhagori. Er enghraifft, yn Wrecsam, cyfrannodd rhaglen Rhagori at y broses o ddatblygu'r strategaeth tlodi plant a rannwyd ac a drafodwyd ar draws y consortia. Yn swamwac, mae Rhagori wedi llywio gwaith o gwmpas y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

**Cydgysylltwyr Rhanbarthol**

14.6. Er mwyn goruchwylio'r broses o ddatblygu Rhagori yn y rhanbarthau ac adrodd yn ôl i'r consortia, penodwyd Cydgysylltwyr Rhanbarthol. Yng Nghonsortia'r Gogledd a'r Deheubarth Ganol, penodwyd un Cydgysylltydd Rhanbarthol yr un. Yn y De-ddwyrain a swamac, holltwyd y swydd, a phenodwyd dau Gydgysylltydd yn y ddau ranbarth. Roedd yr amser a briodolwyd i rôl y cydgysylltwyr yn amrywio o un i bum niwrnod yr wythnos. Roedd pob un o'r chwe Chydgysylltydd Rhanbarthol yn dod o gefndir mewn addysg. Cyn-Brifathrawon oedd tri ohonynt. Arferai un arall fod yn Arolygydd HMI. Roedd un arall yn gweithio fel cynghorwr i ESIS, sef gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol, cyn mynd yn Gydgysylltydd Rhagori llawn-amser. Roedd y llall yn arfer gweithio fel uwch-swyddog mewn Awdurdod Lleol.

14.7. O ganlyniad i'r oedi wrth sefydlu rôl y Cydgysylltwyr Rhanbarthol, nid oeddent yn rhan o'r broses o lywio cynigion ysgolion, ac maent felly wedi canolbwyntio ar gydgysylltu ymateb i'r rhaglen a helpu i gydgrynhoi'r hyn a oedd yn cael ei ddysgu. Wrth fynd ati i wneud y gwaith hwn, cafodd rhai pethau eu gwneud mewn ffordd gyffredin a rhai pethau mewn ffordd dra gwahanol. Ar y dechrau, roedd rhai Cydgysylltwyr yn ymweld ag ysgolion, er enghraifft, tra bod eraill yn gweithio gyda swyddogion Awdurdodau Lleol, a oedd yn monitro gwaith mewn ysgolion. Yn benodol, er bod Cydgysylltwyr Rhanbarthol yn gweithio i gonsortia'r

Awdurdodau Lleol, fel y disgrifir uchod, roedd lefelau'r cyfarwyddyd a'r gefnogaeth a gawsant gan eu Hawdurdodau Lleol a'u consortia yn amrywio, ac roedd hyn yn cyfrannu at wahaniaethau yn y ffordd y mae pob un wedi gweithio.

14.8. Er mwyn llywio a datblygu gwaith gydag ysgolion a ariennir gan Rhagori, mae gan yr holl Gydgysylltwyr Rhanbarthol brosesau a digwyddiadau sefydledig i rannu arferion da o fewn ac ymysg ysgolion ac Awdurdodau Lleol. Mae eu llwyddiant wedi dibynnu'n rhannol ar ymateb yr Awdurdodau Lleol yn eu hardaloedd – trafodir hyn yn fanylach isod. Lle'r oedd y consortia wedi'u hymsefydlu'n dda, bu modd mabwysiadu rôl strategol neu ddatblygiadol, er enghraifft drwy weithio'n agos â chynghorwyr ysgolion yr Awdurdodau Lleol, gan lywio'u gwaith, a chael eu llywio, yn eu tro, gan eu gwaith hwy. Er enghraifft, nododd un aelod o gonsortiwm rhanbarthol pa mor werthfawr yw cael strwythur sy'n galluogi Awdurdodau Lleol i gyfarfod yn rheolaidd gydag agenda glir. Roedd cyfle felly i edrych ar Rhagori a thu hwnt i Rhagori gan gysylltu ag agenda wella ehangach yr ysgol. Nodwyd bod hyn wedi helpu i sicrhau bod ysgolion yn cael neges a chefnogaeth gyson gan Gydgysylltwyr Rhanbarthol a chynghorwyr ysgolion Awdurdoau Lleol. Nododd consortiwm arall fod Rhagori wedi llywio gwaith y consortia, gyda'r Cydgysylltydd yn gweithio gyda swyddogion Awdurdodau Lleol i sicrhau ansawdd. Nodwyd bod y gwaith yn cael ei gynnwys mewn proses o weithio rhanbarthol, gan fwydo i'r gwaith o ddatblygu SEF. Lle'r oedd y consortiwm yn llai datblygedig, roedd y rôl yn debygol o ganolbwyntio mwy ar gydweithio'n uniongyrchol ag ysgolion, gyda rôl gyfyngedig iawn yn cael ei chwarae gan yr Awdurdodau Lleol. Yn y De-ddwyrain er enghraifft, roedd y ffaith bod dau Gyn-brifathro wedi'u penodi i ymweld ag ysgolion yn awgrymu bod eu disgwyliadau yn wahanol iawn i ddisgwyliadau swamwac, lle'r oedd y rôl yn cael ei gweld mwy yng nghyd-destun datblygiad strategol y consortia.

14.9. Weithiau, roedd y Cydgysylltwyr Rhanbarthol yn nodi rhywfaint o gyndynrwydd ymysg ysgolion i fanteisio ar y gefnogaeth a gynigiwyd iddynt drwy gyfrwng y rhaglen o ymweliadau. Yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion, gwelwyd rhywfaint

o dystiolaeth fod rôl y cydgysylltydd weithiau'n cael ei gweld fel haen arall o fonitro, yn hytrach na chefnogaeth. Dywedodd ysgolion wrth y tîm ymchwil am Rhagori mai "dyma'r rhaglen sy'n cael ei gwerthuso fwyaf o bob rhaglen yr wyf i erioed wedi ymwneud â hi. Rydym wedi cael ymweliadau gan yr Awdurdod Lleol, y Cydgysylltydd, Estyn a'r gwerthuswyr allanol." Cafwyd adborth cymysg am effeithiolrwydd y Cydgysylltwyr Rhanbarthol gan yr ysgolion y buom yn ymweld â hwy. O ystyried y gwahanol rolau a fabwysiadwyd gan y cydgysylltwyr, efallai nad yw'n syndod na chafodd lawer o ysgolion fawr o gyswllt â'r cydgysylltydd. O'r rheiny a fu mewn cyswllt â'r cydgysylltwyr, roedd rhai yn gadarnhaol iawn am y gefnogaeth a gynigir, tra bod eraill yn fwy amheus o werth y gefnogaeth hon. Yn rhannol, ymddengys bod hyn yn adlewyrchu gwaith y Cydgysylltwyr Rhanbarthol, a'r sgiliau, y profiad a'r amser yr oedd modd iddynt eu cyfrannu i'r rôl. Roedd yn ymwneud yn rhannol hefyd ag anghenion yr ysgol. Er enghraifft, roedd rhai ysgolion a oedd hyderus yn eu gallu eu hunain yn teimlo nad oedd angen cefnogaeth ychwanegol arnynt.

14.10. Fodd bynnag, canfu Estyn fod darlun mwy negyddol yn cael ei gyfleu gan yr ysgolion yr aethant i ymweld â hwy:

> Ceir amrywiaeth sylweddol rhwng yr amryw gonsortia o ran trefniadau gwaith y cydgysylltwyr rhanbarthol. Fodd bynnag, hyd yn oed o gadw hyn mewn cof, mae yna ddiffygion pwysig yng ngwaith y cydgysylltwyr rhanbarthol. Dim ond mewn mwy na thraean o'r ysgolion y mae'r cydgysylltwyr rhanbarthol wedi cael effaith gadarnhaol a buddiol. Ceir diffygion yn yr holl ysgolion eraill, gan gynnwys mewn ychydig mwy na thraean ohonynt lle mae'r gefnogaeth a'r canllawiau yn annigonol. Yn yr ysgolion yr aethpwyd i ymweld â hwy ar gyfer yr arolwg yn y ddau ranbarth, mae'r gefnogaeth a'r canllawiau yn ddigonol o leiaf, ac yn gyffredinol dda yn un ohonynt. Yn y ddau ranbarth arall, prin yn ddigonol yw'r gefnogaeth a'r canllawiau a roddir gan y cydgysylltydd rhanbarthol, a

phrin yw'r enghreifftiau o gefnogaeth neu ganllawiau da (t. 18. Estyn, 2010).

14.11. Heriwyd yr asesiad hwn gan y Cydgysylltwyr Rhanbarthol, a oedd o'r farn bod Estyn o bosibl wedi camddeall eu rôl, ac nad oedd yn ofynnol iddynt ymweld â phob ysgol na gweithredu fel cynghorwyr. Roedd y cydgysylltwyr yn ymwneud â chynnal digwyddiadau lleol i ddod ag ysgolion ynghyd, ac ystyriwyd y rhain yn werthfawr ymysg yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy. Roeddent hefyd yn canolbwyntio ar feithrin cysylltiadau rhwng Awdurdodau Lleol er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd yn sgil Rhagori a meithrin gallu ac adnoddau i ddatblygu hyn, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth ysgolion o faterion yn ymwneud ag anfantais gymdeithasol. Er enghraifft, yn y Deheubarth Ganol, aeth y Cydgysylltydd ati i dynnu dau grŵp datblygu ynghyd, y naill a'r llall yn cynnwys chwe ysgol, er mwyn ystyried themâu penodol a llunio cyhoeddiad. Roedd gwaith gyda chynghorwyr yn cynnwys eu briffio ar gwestiynau i'w gofyn i ysgolion, eu galw ynghyd i drafod materion yn ymwneud ag anfantais a mynd gyda hwy ar ymweliadau ag ysgolion. Fodd bynnag, roedd yr hyn a wnaed a'i effaith yn amrywio ar draws consortia ac oddi mewn iddynt. Dywedodd cydgysylltwyr eu bod wedi gallu gweithio'n fwy effeithiol gyda rhai Awdurdodau Lleol nag eraill yn ystod tair blynedd y rhaglen. Yn benodol, roedd rhai Awdurdodau Lleol yn llawer mwy ymatebol nag eraill, ac yn awyddus i arwain gwaith a ariannwyd gan Rhagori yn ogystal â dysgu ohono. Yn ystod trydedd flwyddyn y rhaglen, bu'r Cydgysylltwyr yn ymwneud â datblygu cynigion am gyllid ar gyfer y bedwaredd flwyddyn. Serch hynny, unwaith eto roedd i ba raddau yr oeddent yn cyfranogi yn amrywio rhwng consortia.

14.12. Mae rôl Cydgysylltwyr Rhanbarthol mewn perthynas â chyllid Rhagori ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol wedi bod yn gyfyngedig. Roedd canllawiau Llywodraeth y Cynulliad ar rôl Consortia Rhanbarthol yn cyfeirio'n benodol at gyllid Rhagori ar gyfer ysgolion ond nid cyllid Rhagori ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol. O ganlyniad, canolbwyntiodd Cydgysylltwyr Rhanbarthol bron yn gyfan gwbl i gychwyn ar waith a ariannwyd gan Rhagori mewn ysgolion. Adlewyrchwyd hyn yn eu hymweliadau ac yn

agendâu'r cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol. Gwelwyd newid yn ystod y flwyddyn gyntaf, a thrafowdywd y mater yng nghyfarfodydd y Grŵp Llywio Cenedlaethol a'r Chydgysylltwyr Rhanbarthol[91]. Fodd bynnag, roedd hyn yn dueddol o gynnwys rhannu gwybodaeth yn hytrach nag ymgysylltu mewn polisi o ran plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol. At hynny, roedd dealltwriaeth Cydgysylltwyr Rhanbarthol o waith a ariannwyd gan Rhagori mewn ysgolion yn eu rhanbarth, yn ogystal â'u gallu i'w gefnogi a'i werthuso, yn parhau'n gryfach o lawer na'u gallu i wneud yr un peth ar gyfer gwaith a ariannwyd gan Rhagori ar gyfer plant a oedd yn derbyn gofal.

14.13. Cadarnhaodd ein hymweliadau ag ysgolion farn Estyn i raddau helaeth mai prin oedd yr ymgais a wnaed i gysylltu gwaith a ariannwyd gan Rhagori â gwaith ehangach Awdurdodau Lleol o ran cyfiawnder cymdeithasol a mynd i'r afael â thlodi plant. (t. 18, Estyn, 2010). Roedd nifer o ffactorau'n golygu nad oedd gweithgareddau a ariannwyd gan Rhagori yn cydymffurfio'n llawn â pholisïau lleol, gan gynnwys:

- Strwythur cyllid Rhagori ar gyfer ysgolion, a oedd yn dyrannu arian yn uniongyrchol i ysgolion;
- Methiant cychwynnol rhai consortia a sawl Awdurdod Lleol i ddangos arweinyddiaeth mewn perthynas â Rhagori (fel yr amlinellir uchod);
- Natur y gydberthynas rhwng Awdurdodau Lleol ac ysgolion, y gellir ei nodweddu gan amrywiaeth o deimladau gan gynnwys gwrthwynebiaeth, diystyriaeth neu ddifaterwch, ac nad yw bob amser felly'n cynrychioli gwaith cydweithredol ar ddatblygu polisi;
- Y ffaith na châi polisi addysg yn aml ei integreiddio'n llawn â pholisïau eraill i gefnogi plant a phobl eraill nac mewn Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc;
- Diffyg amser mewn ysgolion i baratoi cynigion ar gyfer y flwyddyn gyntaf ac yn aml ddiffyg mewnbwn gan Awdurdodau Lleol (a drafodir yn adran 14).

[91] Er enghraifft, Hillary Hill, Cydgysylltydd Plant sy'n Derbyn Gofal gan Awdurdodau Lleol ar gyfer Rhagori, a oedd newydd ddod i'r rôl ar secondiad. Rhoddodd gyflwyniad gerbron cyfarfod Grŵp Llywio cenedlaethol Rhagori ar 25 Medi 2007 a gerbron cyfarfod y Cydgysylltwyr Rhanbarthol ar 13 Tachwedd.

14.14. *Cynllunio yn yr ysgol:* Fel y soniodd un cyfwelai o lywodraeth leol, mae'n "bwysig y caiff cyfrifoldeb [am ddatblygu cynigion i fynd i'r afael a'r cyswllt rhwng anfantais a chyrhaeddiad isel mewn addysg] ei ddatganoli i'r lefel fwyaf effeithiol; mae'n debygol nad yr ysgol yw'r lefel honno". Yn hanfodol ddigon, Awdurdodau Lleol sydd yn y sefyllfa orau i uno'n strategol yr asiantaethau sydd eu hangen i fynd i'r afael a'r cysylltiadau rhwng anfantais a chyrhaeddiad isel mewn addysg, gan fod gan bob un ohonynt gynllun a Phartneriaeth Plant a Phobl Ifanc.

14.15. *Gwendidau mewn Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc:* Nodweddid y problemau strwythurol a achoswyd gan gynllunio yn yr ysgol gan wendidau yng nghynlluniau'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc eu hunain, nad oeddent yn aml yn rhoi digon o sylw i addysg ym marn un cyfwelai. Ategwyd y farn hon gan adolygiad systematig o gynlluniau a gynhaliwyd yn 2008 a chan y diffyg ymwybyddiaeth gyson ymysg ysgolion yr ymwelwyd â hwy o gynnwys a pherthnasedd y Cynllun Plant a Phobl Ifanc ar eu cyfer – trafodir hyn ymhellach yn yr adran nesaf.

14.16. I'r gwrthwyneb, dyrannwyd cyllid Rhagori ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yn uniongyrchol i Awdurdodau Lleol ac, felly, dylai fod wedi'i alinio'n well â pholisïau lleol i gefnogi plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol. Serch hynny, gwelwyd bod gweithgareddau a ariannwyd gan Rhagori yn aml yn ychwanegu at wasanaethau presennol ac yn eu hategu, yn hytrach na datblygu rhan annatod o gynlluniau Awdurdodau Lleol i gefnogi cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol. At hynny, nid oeddent wedi'u halinio'n gadarn â chynlluniau Plant a Phobl Ifanc. Dangosodd adolygiad yr Uned Pobl a Gwaith o gynlluniau Plant a Phobl Ifanc er bod y rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys amcanion lefel uchel, prin iawn oedd y manylion gweithredol a gynhwyswyd[92]. At hynny, lle y cyfeirir at gyllid Rhagori, prin iawn yw'r cynlluniau

[92] Mae rhai yn amlinellu'n fras y gwaith sy'n mynd rhagddo i gefnogi plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol, megis gwasanaethau eirioli ac ymrwymiad i gydweithio, ac mae rhai yn trafod yr

sy'n cyfeirio'n benodol at gyllid Rhagori i gefnogi plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol. Bu methiant amlwg mewn Awdurdodau Lleol i gysylltu gwaith a ariannwyd gan Rhagori mewn ysgolion â gwaith a ariannwyd gan Rhagori gyda phlant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol, felly hefyd yn genedlaethol. Er bod Rhagori yn cwmpasu'r ddau faes, fel yr amlinellir yn adran 13.1., mewn gwirionedd mae dwy elfen y rhaglenni wedi gweithredu fel dwy raglen ar wahân, gyda ffocws un ar ysgolion a ffocws y llall ar Awdurdodau Lleol, gyda'r gwaith yn aml wedi'i leoli o fewn gwasanaethau cymdeithasol yn hytrach nag addysg.

**Cyfraniad Rhagori at feithrin gallu ac adnoddau hirdymor er mwyn gwella ysgolion**

14.17. Mae'r diffyg ymgysylltu rhwng Awdurdodau Lleol a Rhagori, fel yr amlinellir uchod, wedi cyfyngu hyd yma ar allu Rhagori i gyfrannu at y broses o feithrin gallu ac adnoddau hirdymor ysgolion i'w gwella. Mae wedi helpu i godi proffil y bwlch mewn cyrhaeddiad mewn addysg ac mae sawl Awdurdod Lleol yn gwerthfawrogi'r arian ychwanegol. Serch hynny, yn arbennig yn wyneb y bygythiad o doriadau yn y gyllideb, maent wedi cwestiynu sut y caiff ei gynnal unwaith y caiff y cyllid ei dynnu'n ôl. Ar nodyn cadarnhaol, yn ystod y drydedd flwyddyn, gwelwyd ymrwymiad cryf i sicrhau bod gwersi Rhagori yn llywio Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Cymru ac mae pedwaredd flwyddyn Rhagori, nas cwmpesir gan y gwerthusiad hwn, yn cynnwys ymrwymiad cryf i hyn.

---

angen i gynnal a datblygu'r ffyrdd y caiff plant sy'n derbyn gofal eu cefnogi, gan gyfeirio gan amlaf at gefnogaeth bersonol ac academaidd ychwanegol neu'r angen i gynnal sefydlogrwydd lleoliad. Serch hynny, ar y cyfan, prin iawn yw'r manylion gweithredol sy'n ategu hyn ac sy'n amlinellu sut y byddant yn cyflawni eu hamcanion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a sut y byddant yn ariannu'r gwaith.

## 15. RÔL YSGOLION

### Cynllunio a datblygu gweithgareddau a ariennir gan Rhagori

15.1. Fel yr amlinellir yn yr adran flaenorol, ni chafodd nifer o ysgolion fawr ddim amser na chefnogaeth i baratoi eu cynigion cychwynnol ar gyfer Rhagori, a dim ond nifer bach ohonynt a fu'n ymgynghori'n eang (Estyn, 2007). Cyfrannodd hyn at wendidau mewn cynigion, nad oedd fawr ddim ffocws i lawer ohonynt. Nodwyd y gwendid hwn, ac wrth i'r rhaglen fynd rhagddi, anogwyd ysgolion i fabwysiadu strategaethau mwy holistaidd[93]. Yn ystod yr ail a'r drydedd flwyddyn, cafodd ysgolion fwy o amser a chefnogaeth a gwelwyd ansawdd y cynigion yn gwella. Serch hynny, roedd nifer o'r cyfweleion o'r farn nad oedd ysgolion yn aml yn llwyr ymwybodol o gynnwys a pherthnasedd Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Ategodd ein hymweliadau ag ysgolion yr asesiad hwn i gryn raddau.

### Monitro a gwerthuso gweithgareddau a ariennir gan Rhagori

15.2. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi casglu data ar ddisgyblion Rhagori. Mewn llawer o achosion, gwnaethpwyd hyn drwy ymgorffori prosesau monitro i mewn i ymyriadau megis Catch Up, yn ogystal â mesurau safonol fel sgoriau darllen SCYA. Fodd bynnag, fel yr amlinellir yn adran 7, awgryma ein hymweliadau ni ac ymweliadau Estyn ag ysgolion (gweler Estyn, 2010) nad yw'r data hwn ar gael ar gyfer disgyblion nad ydynt wedi cael budd o'r ymyriadau hyn, ac nid yw ysgolion wedi gwneud fawr ddim cyswllt rhwng y data hwn a ffynonellau eraill o ddata, megis asesiadau athrawon yng Nghyfnodau Allweddol 1 i 3. Fodd bynnag, mae ysgolion wedi defnyddio amrywiaeth o fathau eraill o ddata gan gynnwys data ar bresenoldeb, gwaharddiadau a nifer y cymwysterau a enillwyd er mwyn asesu effaith ehangach Rhagori ar gyrhaeddiad disgyblion. Mae ysgolion wedi ei chael hi'n anos gwerthuso mathau eraill o ganlyniadau mewn modd systematig, megis cynnydd mewn a sgiliau a thueddiadau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion.

[93] Roedd y pryder hwn hefyd wedi llywio cynigion ar gyfer pedwaredd flwyddyn cyllid Rhagori (gweler paragraffau 13-17 – 13.19).

Maent wedi defnyddio procsi, megis data presenoldeb, tystiolaeth anecdotaidd ac mewn rhai achosion, adnoddau masnachol fel PASS[94].

15.3. Mae ansawdd gwaith monitro a gwerthuso yn amrywio. Nodwyd enghreifftiau o arferion ardderchog wrth i ni ymweld ag ysgolion, gan gynnwys enghreifftiau arloesol mewn nifer bach o ysgolion a oedd, er enghraifft, yn cynnwys disgyblion nid yn unig at ddibenion gwerthuso ond fel cyfranogwyr gweithredol, neu a oedd yn defnyddio gwersi Rhagori i lywio newidiadau mewn addysgu, y cwricwlwm a dysgu ym mhob rhan o'r ysgol. Fodd bynnag, nodwyd hefyd enghreifftiau gwannach, er enghraifft lle'r oedd penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth wan ac yn aml yn gymharol ddisgrifiadol, yn hytrach na dadansoddol.

15.4. Ceir rhywfaint o wrthdaro o ran asesiadau Cydgysylltwyr Rhanbarthol ac Estyn am ansawdd gwaith monitro a gwerthuso. Ar y naill law, awgryma Cydgysylltwyr Rhanbarthol ei fod yn dda ar y cyfan (Davies Jones, 2009; George, 2009; Snowball, 2009)[95]. Ar y llaw arall, canfu Estyn er bod bron pob ysgol yn defnyddio'r fformat a argymhellwyd gan yr Awdurdod Lleol neu'r consortiwm, fod diffygion pwysig mewn gwerthusiadau mewn tua dwy ran o bump o'r ysgolion yr aethpwyd i ymweld â hwy. Y rheswm am hyn oedd, er enghraifft, bod y gwerthusiad yn cynnwys cofnodion anecdotaidd neu ddisgrifiadol o'r gwaith hyd yn oed pan fo gan yr ysgol dystiolaeth feintiol, neu na chafwyd unrhyw gasgliadau na gwelliannau canfyddiadol yn sgil y gweithgarwch gwerthuso (t. 16. Estyn, 2010a). Ymddengys bod yr anghysondeb amlwg o ran barn yn adlewyrchu gwahaniaethau wrth fonitro, sef y gwaith o gasglu data, y mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn ei wneud, a gwerthuso, sef y penderfyniadau a wneir o ran ystyr

---

[94]" PASS yw 'Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol', sef graddfa sgorio electronig sy'n rhoi proffil o hunan-fri dysgwr, ei alluoedd canfyddedig, dyfalbarhad, cymhelliant, moeseg waith gyffredinol, agweddau at ei athrawon, ei ysgol a'i bresenoldeb, parodrwydd i ddysgu ac ymateb i'r cwricwlwm." (t. 16. Estyn, 2010a)

[95] "the majority of schools have good procedures for monitoring and evaluating their RAISE funded work" (Snowball, 2009); "the vast majority of schools have robust, appropriate procedures for evaluating the impact of their programmes" (t.6., George, 2009); a "The close monitoring of RAISE pupils in terms of the progress they show, both academically and socially, has now been established in the vast majority of schools" (t 19. Davies Jones, 2009).

data, sy’n aml yn wannach o lawer, a’r defnydd a wneir ohono, sydd eto’n llawer gwannach.

# 16. GWERTH AM ARIAN RHAGORI

### Cyflwyniad

16.1. Mae asesiad o werth am arian Rhagori yn galw am asesiad o'r canlynol: canlyniadau (neu effaith); gwerth canlyniadau; a chost cynhyrchu'r canlyniadau hynny. Aseswyd canlyniadau Rhagori yn adran 6 a bellach canolbwyntiwn ar werth y canlyniadau hynny a chost eu cynhyrchu.

16.2. Gellir ategu'r math hwn o ddadansoddiad gan ddadansoddiad o gost-effeithiolrwydd, sy'n dadansoddi p'un a ellid bod wedi cyflawni'r canlyniadau mewn modd mwy effeithlon, a dadansoddiad cost/budd, sy'n dadansoddi'r mathau eraill o fanteision (neu ganlyniadau) y gellid bod wedi eu cyflawni gyda'r adnoddau a oedd ar gael. At ddibenion y gwerthusiad hwn, cymharwn gostau a chanlyniadau Rhagori gyda chostau a chanlyniadau pedair menter debyg arall yn Lloegr, sef Rhagoriaeth mewn Dinasoedd (*Excellence in Cities*), Parthau Gweithredu Addysg (*Education Action Zones*), Her y Ddinas (*City Challenge*) a Her Genedlaethol (*National Challenge*).

### Gwerth economaidd canlyniadau Rhagori

16.3. Fel yr amlinellwyd uchod, er bod Rhagori wedi cael effaith fesuradwy ar ffactorau sy'n cyfrannu at gyrhaeddiad, fel caffael a meithrin sgiliau sylfaenol a sgiliau a thueddiadau cymdeithasol ac emosiynol, prin iawn yw'r dystiolaeth o effaith fesuradwy hyn ar gyrhaeddiad. Mae hyn yn creu heriau sylweddol o ran asesu gwerth y rhaglen. Yn benodol, er bod llawer o dystiolaeth sy'n dangos gwerth economaidd cymwysterau (h.y. cyrhaeddiad)[96], mae'n anos mesur gwerth effeithiau eraill mewn modd systematig; yn wahanol i gymwysterau, ni chânt eu mesur na'u cofnodi'n systematig, sy'n golygu bod llai o ddata ar gael i'w

[96] Er enghraifft, mae Gregg a Machin (1999) yn defnyddio data o Astudiaethau Carfan Prydain ym 1958 a 1970, i asesu effaith ar ganlyiadau yn 16, 23 a 33 oed. Canfuwyd bod lefelau cyrhaeddiad uwch mewn addysg yn gysylltiedig â chyflogau uwch fesul awr, a lefelau cyflogaeth uwch. Yn yr un modd, canfu Kenway et al (2005) bod y rheiny rhwng 25 a 50 oed heb unrhyw gymwysterau yn wynebu posibilrwydd o 25 y cant y byddant yn anweithgar yn economaidd, posibilrwydd o 8 y cant y byddant yn ddi-waith a phosibilrwydd o 60 y cant o dderbyn tâl isel (is na £6.50 yr awr).

ddadansoddi, ac yn sgìl hynny, mae llai o lawer o dystiolaeth o'u gwerth economaidd.

16.4. Mae nifer o astudiaethau wedi asesu pwysigrwydd sgiliau cymdeithasol ac emosiynol mewn cysylltiad â phennu canlyniadau. Er enghraifft, dadansoddodd Feinstein a Duckworth (2008) ddata o Astudiaeth Carfan Prydain 1970 gan ganfod bod ymddygiadau problematig penodol ymysg unigolion pump oed, megis encilio, pryder ac ymddygiad ymosodol, sy'n gysylltiedig â sgiliau cymdeithasol ac emosiynol gwannach, yn ffactorau cryf o ran rhagfynegi canlyniadau gwael fel sgoriau is mewn profion darllen a mathemateg safonol ymysg plant 10 oed, ac incwm cyfartalog is ymysg unigolion 30 oed. Ceir hefyd ystod eang o astudiaethau ac adroddiadau sy'n ategu pwysigrwydd sgiliau cymdeithasol ac emosiynol o ran dylanwadu ar ganlyniadau drwy gydol bywyd unigolyn (gweler e.e. Goleman, 1995; Jones, 2005) a gwerth dysgu yn fwy cyffredinol (gweler e.e. Schuller, et al, 2004).

16.5. Mae'r canlyniadau cadarnhaol hyn, megis llwyddiant mewn cyflogaeth, iechyd gwell a llai o achosion o ymddygiad troseddol, yn cynnig gwerth economaidd sylweddol i unigolion a chymdeithas. Gellir meintoli rhai ohonynt. Er enghraifft, yn 2002, cyfrifodd yr Uned Allgáu Cymdeithasol (2002) fod diweithdra'n costio tua £9,000 y flwyddyn yn uniongyrchol i'r wladwriaeth mewn budd-daliadau a threthi a ildiwyd. Mae'r costau'n sylweddol uwch i'r rheiny sy'n ymwneud â gweithgareddau troseddol. Er enghraifft, amcangyfrifa'r Swyddfa Gartref fod pob trosedd unigol sy'n arwain at gollfarn yn costio £13,000 i'r system gyfiawnder, tra bod y costau cyfiawnder nad ydynt yn ymwneud a throseddau yn amrywio o £2,300 ar gyfartaledd am fyrgleriaeth a £4,700 am ddwyn cerbydau i £19,000 mewn achosion o drais yn erbyn yr unigolyn. Mae costau cadw yn cynyddu hyn ymhellach. Er enghraifft mae cadw unigolyn mewn sefydliad troseddwyr ifanc yn costio tua £50,000 y flwyddyn.

16.6. Y broblem o ran y gwerthusiad hwn yw ei bod yn amhosibl asesu effaith debygol Rhagori ar gyflogau, cyflogaeth neu lai o achosion o droseddu.

**Cost economaidd Rhagori**

16.7. O'r gyllideb flynyddol gyffredinol, sef £16.25 miliwn, mae tua £14.5m wedi'i ddyrannu'n uniongyrchol i ysgolion cymwys[97]. Mae £1 miliwn wedi'i ddyrannu'n uniongyrchol i Awdurdodau Lleol fynd ati i gefnogi cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol a'r gweddill, sef tua £0.75m sydd gyfwerth â 5%, wedi'i ddyrannu i weinyddu'r grant, ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau a drefnir yn ganolog, ac ar gyfer gwerthuso a gwaith consortia rhanbarthol. Mae costau anuniongyrchol eraill yn cynnwys cost adolygiadau Estyn a chostau Awdurdodau Lleol wrth gefnogi a gweinyddu'r grant.

16.8. Roedd y cyllid a ddyrannwyd i ysgolion yn amrywio o £11,000 i £30,000 ar gyfer ysgolion cynradd, o £16,000 i £22,000 ar gyfer ysgolion arbennig ac o £47,000 i £220,000 ar gyfer ysgolion uwchradd. Fe'i hystyriwyd yn grant gwerthfawr ac yn ddigon o arian i wneud gwahaniaeth. Serch hynny, dim ond canran fach o incwm yr ysgolion oedd y grant hwn.

16.9. Awgryma asesiadau cyfweleion o lefel y fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â gweinyddu Rhagori'n ganolog nad oedd costau economaidd y gwaith o weinyddu'r rhaglen a'i gwerthuso yn ormodol. Yn wir, fel yr amlinellir uchod, ceir rhywfaint o dystiolaeth sy'n dangos bod gallu cyfyngedig Tîm Rhagori Llywodraeth y Cynulliad wedi lleihau effeithiolrwydd y rhaglen ar adegau allweddol. Serch hynny, fel yr amlinellir ym mhennod 4, roedd pryderon i gychwyn y câi Rhagori ei orwerthuso, a chafwyd cwynion gan rai ysgolion bod 'haenau' o fonitro gan y gwerthuswyr allanol, Estyn, Awdurdodau Lleol a Chydgysylltwyr Rhanbarthol yn feichus. Er gwaetha'r haenau monitro a gwerthuso hyn, nid yw'n bosibl nodi mesurau clir ar gyfer pennu p'un a yw'r rhaglen wedi cynnig gwerth am arian.

[97] Dyrannwyd 14.6 miliwn yn 2006/07 ac 14.4 miliwn yn 2007/08

16.10. Er ei bod yn fuddsoddiad mawr mewn addysg yng Nghymru, mae graddfa'r buddsoddiad mewn rhaglenni cymaradwy yn Lloegr wedi bwrw cysgod dros gyllid Rhagori. Er bod y gwahaniaethau mewn maint yn rhannol adlewyrchu maint y ddwy wlad – mae gan Loegr boblogaeth sydd dros 17 gwaith yn fwy na Chymru – mae lefelau gwariant a buddsoddiad wedi bod yn uwch yn Lloegr nag yng Nghymru. Er enghraifft:

- Y rhaglen **Her Genedlaethol** (*National Challenge*), sydd â'r nod o sicrhau gwelliant academaidd cynaliadwy, ac sy'n targedu pob ysgol a gynhelir ac ysgol uwchradd yn Lloegr lle mae llai na 30% o'r disgyblion yn ennill 5 gradd A*-C TGAU, gan gynnwys Mathemateg a Saesneg (638 o ysgolion yn 2008), gyda chyllideb o £400m[98], wedi'i rhannu dros bedair blynedd (2008-2011);

- Rhaglen **Her y Ddinas** (*City Challenge*), sydd a'r nod o wella cyrhaeddiad addysgol mewn ysgolion yng nghanol dinas Llundain, yr Ardal Ddu a Manceinion Fwyaf [99], ac sy'n darparu cymorth dwys ar gyfer ysgolion sy'n tanberfformio"[100]; strategaeth arweinyddiaeth ar gyfer y ddinas gyfan; pecyn cymorth wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer myfyrwyr difreintiedig"[101]; "dull sy'n canolbwyntio ar ddata i ddatrys materion lleol a dysgu a rennir; cyhoeddiadau Teuluoedd Ysgolion (*Families of Schools*) i alluogi ysgolion i rannu arfer gorau; datrysiadau lleol i faterion lleol a strategaeth i sicrhau dewis ac addysg amrywiol i deuluoedd

[98] Mae hyn yn cynnwys £20m ar gyfer Cynghorwyr Heriau Cenedlaethol; £20m ar gyfer Arweinwyr Addysg Cenedlaethol a chefnogaeth arall i arweinwyr; £100m ar gyfer cefnogi addysgu, dysgu ac astudio; £195m ar gyfer Academïau a £65m ar gyfer Ymddiriedolaethau Plant.

[99] Y nodau yw: Galluogi pob plentyn 5 oed i gael y cyfle i fwynhau dechrau effeithiol i'w addysg; Haneru'r bylchau mewn cyrhaeddiad rhwng plant yn y dinasoedd hyn a'u cyfoedion; Lleihau nifer yr ysgolion cynradd lle mae llai na 65% o'r disgyblion yn cyflawni'r disgwyliad cenedlaethol (Lefel 4 mewn Mathemateg a Saesneg); Lleihau i sero nifer yr ysgolion uwchradd lle mae llai na 30% o'r disgyblion yn ennill 5 gradd A*-C TGAU (o 28 yn 2008); Cynyddu nifer yr ysgolion lle mae dros 90% o'r disgyblion yn rhagori ar y gyfradd gyfartalog genedlaethol; a gwella'r gallu i gael gafael ar adnoddau, gan alluogi ysgolion sy'n tanberfformio i gael gafael ar y moddau sydd ar gael iddynt o fewn eu dinas.

[100] Mae gan ysgolion gynghorydd arbenigol; pecynnau wedi'u teilwra ar gyfer gwelliannau cynaliadwy; a chontractau aml-ysgol â darparwyr pynciau penodol, yn arbennig Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL)

[101] Gan gynnwys hyfforddiant pellach i athrawon, a chynlluniau mentora

ac amgylcheddau dysgu modern sy'n addas ar gyfer y 21ain ganrif"[102], gyda chyllideb o £120m dros dair blynedd ar gyfer 1820 o ysgolion cynradd Llundain, 420 o ysgolion uwchradd a 50 o golegau, gyda'r cyllid wedi'i dargedu'n benodol at y 70 o ysgolion 'allweddol i lwyddiant' a'r pum Awdurdod Lleol sy'n wynebu'r amgylchiadau mwyaf heriol; £28m ar gyfer yr Ardal Ddu a £50m ar gyfer Manceinion Fwyaf;

- **Rhagoriaeth mewn Dinasoedd** (*Excellence in Cities*), sydd â'r nod o sicrhau newid ar draws yr ysgol gyfan, drwy gynnwys rhieni a gweithio gyda hwy yn hytrach na chanolbwyntio ar ddisgyblion unigol. Mae wedi cefnogi ystod eang o weithgareddau gan gynnwys mentoriaid dysgu, unedau cymorth dysgu, canolfannau dysgu yng nghanol y ddinas sy'n darparu cyfarpar/hyfforddiant TGCh, Parthau Gweithredu EiC i gysylltu clystyrau bach â rhieni a busnesau a rhaglenni arbennig i gynnig cyfleoedd i ddisgyblion dawnus a thalentog. Cyflwynwyd y rhaglen uchelgeisiol mewn tri cham, dechreuodd Cam 1 ym mis Medi 1999, gyda 25 o Awdurdodau Lleol a thros 400 o ysgolion uwchradd. Dechreuodd Cam 2 ym mis Medi 2000 gyda 23 o Awdurdodau Lleol arall a thua 300 o ysgolion uwchradd, a dechreuodd Cam 3 ym mis Medi 2001 gyda 10 Awdurdod Lleol arall a thros 150 o ysgolion uwchradd, gyda rhwng £200m a £300m y flwyddyn;

- **Parthau Gweithredu Addysg (Education Action Zones)**, sydd â'r nod o godi safonau mewn ardaloedd difreintiedig trefol a gwledig, drwy wella ansawdd addysgu a dysgu, hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, atgyfnerthu cymorth i deuluoedd a disgyblion a gweithio gyda busnesau a sefydliadau eraill. Mae parth yn cynnwys dwy neu dair ysgol uwchradd ynghyd â'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo, mewn partneriaeth â rhieni, busnesau a'u Hawdurdod Lleol. Mae 73 o Barthau, a chaiff pob un hyd at £750,000 bob blwyddyn gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (am hyd at dair blynedd). Yn ogystal â hynny, mae'n ofynnol i bob Parth godi £250,000 gan y sector preifat (Watkins, 2010).

[102] H.y. Ailadeiladu ysgolion, defnyddio Academïau ac Ymddiriedolaethau.

16.11. Er na fu adolygiad cenedlaethol systematig o Her y Ddinas hyd yma, noda astudiaeth OfSTED (2006), sef '*Improvements in London Schools 2000-06*', welliannau dramatig mewn ysgolion yn Llundain, gan gynnwys cynnydd o ran lleihau'r bwlch rhwng disgyblion difreintiedig a mwy breintiedig yn gynt nag ysgolion mewn ardaloedd eraill, gan gysylltu hyn â rhaglen Her Llundain (er nad yw'n priodoli'r gwelliannau'n uniongyrchol i'r rhaglen yn unig).

16.12. Ni fu unrhyw adolygiadau o raglenni Manceinion Fwyaf na'r Ardal Ddu hyd yma. Anogwyd gwerthusiadau rhanbarthol, ond nid ydynt yn derfynol eto. Er enghraifft, o ran cyrhaeddiad academaidd, mae'r canlyniadau'n amhendant. Yn Blackpool, ni welwyd unrhyw effaith ar gyrhaeddiad yn y pum ysgol sy'n rhan o'r Her Genedlaethol yn 2008, ond yn 2009 nodwyd gwelliant o 4.7% yng nghyfran y disgyblion a enillodd o leiaf bum gradd TGAU A*-C, gan gynnwys Mathemateg a Saesneg, ar draws y fwrdeistref.

16.13. Canfu adolygiad o Barthau Gweithredu Addysg gan OfSTED (2003) fod mentrau mewn ysgolion uwchradd wedi cael mwy o effaith ar gynhwysiant ac ymddygiad nag ar gyrhaeddiad. I'r gwrthwyneb, mewn ysgolion cynradd, roedd rhywfaint o dystiolaeth o effaith gadarnhaol ar sgoriau Saesneg a Mathemateg. Canfuwyd bod cynlluniau Rhanbarthau yn rhy wasgaredig ac uchelgeisiol. Roedd eu gwerthusiad o raglen Rhagoriaeth mewn Dinasoedd yn fwy cadarnhaol.

**Casgliadau**

16.14. Nid yw'n bosibl meintoli gwerth am arian Rhagori. Mae hyn yn rhannol am na fu unrhyw amod o ran nifer y plant y dylid eu cefnogi, pa mor aml ac am ba hyd. Mae hyn yn ei gwneud yn eithriadol o anodd i gyfrifo'r gost fesul plentyn sy'n derbyn gofal hyd yn oed. Y rheswm am hyn yn rhannol yw nad yw gwerth ariannol y canlyniadau mesuradwy a nodwyd gan ysgolion, Estyn a Chydgysylltwyr Rhanbarthol, fel cynnydd mewn sgiliau sylfaenol disgyblion a sgiliau a thueddiadau cymdeithasol ac emosiynol, yn fesuradwy. Prin yw'r canlyniadau y gellir eu mesur

(h.y. cyrhaeddiad ar ddiwedd pob Cyfnod Allweddol) ac ni fyddai asesu'r gwerth economaidd drwy ddefnyddio'r rhain yn unig, (oherwydd y gellir eu mesur) yn rhoi adlewyrchiad teg o effaith yr arian.

16.15. Awgryma asesiad ansoddol o werth am arian Rhagori, er bod y rhaglen yn cynnig ffordd gymharol effeithlon o ddyrannu cyllid, na chafodd y cyllid hwn gymaint o effaith (na budd/gwerth) ag y gallai fod wedi'i chael, a hynny oherwydd y gwendidau a nodir yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys gwendidau o ran targedu ymyriadau a ariennir gan Rhagori a'u hintegreiddio ag ymyriadau eraill i gefnogi disgyblion.

16.16. Yn ôl cymhariaeth â rhai rhaglenni yn Lloegr, megis Her y Ddinas, er bod yr effaith net yn fwy o lawer mwy, mae'r cyllid cyffredinol yn uwch o lawer hefyd, ac felly mae'n cynnig cymorth dwysach o lawer i ysgolion unigol. Fodd bynnag, ni fu'r effaith yn gyson, ac mae effaith rhaglenni eraill, fel Parthau Gweithredu Addysg ar gyrhaeddiad wedi bod yn siomedig. Mae hyn yn awgrymu er bod cynyddu lefel y cyllid yn ffordd o gynyddu'r effaith, nid yw hyn yn digwydd o reidrwydd. Serch hynny, gall cynyddu lefel y cyllid gynyddu'r cwmpas ar gyfer meddwl trwy systemau, lle caiff ymyriadau yn yr ysgol eu hintegreiddio a'u cefnogi gan ymyriadau y tu allan i'r ysgol. Yn ei dro, awgryma hyn fod potensial i droi'r drol, lle caiff pob cynnydd ymylol mewn cyllid effaith anghymesur o fawr ar gyrhaeddiad, am fod yr effaith gyfanredol yn dod yn fwy na'r rhannau unigol.

## 17. CASGLIADAU

**Trosolwg**

17.1. Nod Rhagori oedd targedu disgyblion dan anfantais a gwella'u cyrhaeddiad mewn addysg. Er bod disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn aml yn cael eu targedu yn ddiofyn, a bod ffocws anghymesur ar y rheiny â'r cyrhaeddiad isaf, yr effaith net oedd cynyddu'r gefnogaeth ar gyfer y disgyblion hyn. Fodd bynnag, hyd yma, dim ond yng Nghyfnod Allweddol 2 y gwelwyd effaith fesuradwy ar y prif ddangosyddion, a hyd yn oed yn y Cyfnod Allweddol hwnnw, nid yw'r dystiolaeth yn derfynol. Serch hyn, ceir tystiolaeth dda ynghylch y cyllid a ddarperir gan Rhagori ar gyfer ysgolion yn ogystal ag ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol, sef bod y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar sgiliau sylfaenol a sgiliau a thueddiadau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion ym mhob un o'r pedwar Cyfnod Allweddol. Yn ogystal, ceir tystiolaeth fod Rhagori wedi codi proffil effeithiau anfantais economaidd-gymdeithasol ar gyrhaeddiad mewn addysg, ac wedi gwella dealltwriaeth ysgolion o'r materion sy'n gysylltiedig â hyn, a'u gallu i fynd i'r afael â hwy yn y dyfodol.

17.2. Roedd Rhagori wedi rhoi'r rhyddid i ysgolion feddwl am eu strategaethau eu hunain o ran sut y byddent, o fewn cyfyngiadau'r cyllid a oedd ar gael, yn gwella cyrhaeddiad ymysg disgyblion difreintiedig. Nid yw'n syndod bod yr ysgolion mwyaf effeithiol wedi defnyddio'r cyllid yn y ffordd fwyaf effeithiol. Mae'r tîm ymchwil wedi gweld tystiolaeth bod ymyriadau strategol, arloesol o ansawdd uchel yn digwydd mewn ysgolion sydd ag arweinyddiaeth gadarn, sy'n adnabod eu disgyblion a'u teuluoedd yn dda. Maent hefyd yn deall beth y gallant hwy fel ysgolion ei wneud a sut y gallant gydweithio ag eraill i fynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a chyrhaeddiad isel mewn addysg. Rydym hefyd wedi gweld sut y mae ysgolion llai effeithiol, sy'n gweld eu rôl yn rhywbeth mwy cul, ac sy'n dadansoddi angen mewn ffordd lai holistaidd, wedi defnyddio'r cyllid mewn ffordd lai effeithiol. Golyga hyn fod yr effaith a gafwyd yn

amrywio o un ysgol i'r llall, ac yn gyffredinol, nid oedd buddsoddiad Rhagori wedi esgor ar y gwerth am arian mwyaf posibl.

17.3. O ystyried natur llawer o'r gwaith a ariennir gan Rhagori mewn ysgolion, a oedd yn aml â ffocws cul ac wedi'i gyfyngu i ysgolion, gellir dadlau nad yw'n syndod gweld yr effaith gyffredinol a gafodd Rhagori. Mae'r dystiolaeth yn glir: mae rhai ysgolion yn gwasanaethu cymunedau difreintiedig lle mae cyrhaeddiad y disgyblion yn well o lawer nag y byddai disgwyl iddo fod o ystyried eu cefndir economaidd-gymdeithasol – hynny yw, mae'r ysgolion yn ychwanegu gwerth sylweddol (LICC a CLILC, 2004, 2002). Mae'n hanfodol cofio nad yw'r ysgolion hyn yn effeithiol dim ond am eu bod yn ariannu ymyriadau ychwanegol yn canolbwyntio ar rifedd a llythrennedd – er bod hyn yn aml yn rhan o'u strategaethau – ond am fod y mathau hyn o ymyriadau cydadferol yn rhan annatod o strategaeth ehangach sy'n cynnwys yr ysgol gyfan. Nodwyd pwysigrwydd y strategaethau mwy holistaidd hyn yn ystod tair blynedd gyntaf rhaglen Rhagori, ac anogwyd ysgolion i fabwysiadu strategaethau mwy holistaidd. Adlewyrchwyd hyn yn themâu'r bedwaredd flwyddyn a drafodir ym mharagraffau 13.17 – 13.19.

17.4. Gall cyllid ychwanegol helpu ysgolion i fod yn fwy effeithiol, ac fel y disgrifiwn, ceir enghreifftiau lle mae Rhagori wedi helpu ysgolion i 'ddiffodd tanau' a'u helpu i ddod yn fwy effeithiol, ond nid yw hyn yn ddigon ynddi'i hun. Mae Rhagori wedi dangos bod yr hyn y mae ysgol yn ei wneud yn bwysicach na'r hyn y mae'n ei wario. At hyn, er bod corff o dystiolaeth a chonsensws cymharol eang o ran yr hyn y gall ysgolion ei wneud i gau'r bylchau addysgol a phrofiadol rhwng disgyblion mwy a llai difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol, nid yw cyllid ychwanegol o reidrwydd yn ddigon i rymuso ysgolion i ddefnyddio'r wybodaeth hon. Mae rhaglen megis Rhagori, sy'n rhoi'r arian yn uniongyrchol i ysgolion gyda chefnogaeth fratiog, yn ddibynnol iawn yn y cychwyn cyntaf o leiaf ar gapasiti'r ysgol i ddefnyddio'r arian hwnnw mewn ffordd effeithiol. Mewn llawer o ffyrdd,

mae'r ysgolion hynny sydd eisoes yn effeithiol yn y sefyllfa orau i wneud y defnydd gorau o'r arian hwnnw.

17.5. Mae tystiolaeth dda a chonsensws eang ar yr hyn sy'n creu ysgol effeithiol – sef ysgol sy'n 'ychwanegu gwerth' ac sy'n helpu disgyblion i wyrdroi'r drefn – fel y crynhoir er enghraifft yn "themâu" ac "elfennau" Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Cymru, ac a gaiff ei adlewyrchu yn argymhellion y Grŵp Arbenigol ar Dlodi Plant ac Astudiaethau Cau'r Bwlch. Mae llai o gonsensws, fodd bynnag, o ran sut y bydd ysgol yn defnyddio'r wybodaeth hon ac yn dod yn fwy effeithiol – a dyma'r her. At hyn, ceir tystiolaeth fod ysgolion mewn cymunedau difreintiedig yn wynebu amryw fyd o heriau a all ei gwneud yn anos iddynt ddod yn fwy effeithiol. Dyma un o'r heriau canolog sy'n wynebu Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Cymru (LlCC, 2008b) ac wrth reswm felly ysgolion, Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru.

17.6. Rhan o'r ateb yn unig yw ysgolion effeithiol. Er bod ysgolion yn gwneud gwahaniaeth i ganlyniadau disgyblion, er enghraifft mae ysgolion uwchradd yn gyfrifol am tua 15% o'r gwahaniaeth mewn cyrhaeddiad disgyblion mewn addysg – a mwy o bosibl lle bo cyd-destun a nodweddion unigol y disgyblion yn arbennig o wan – mae'n anorfod bod terfyn ar y gwahaniaeth y gall ysgol ei wneud ar ei ben eu hun i gyrhaeddiad disgyblion (Cassen a Kingdon, 2007; Duckworth, et al, 2009). Mae cyfres o adolygiadau mawr o dlodi plant, gan gynnwys adolygiadau a noddwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree (Egan, 2007; Hirsch, 2007), y Grŵp Arbenigol ar Dlodi Plant (2008); y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2008) ac Astudiaethau Cau'r Bwlch (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002; LlCC a CLlLC, 2006) oll wedi dod i'r casgliad na all ysgolion wneud hyn ar eu pen eu hunain.

17.7. Mae cydweithio ag eraill yn nodwedd amlwg ymysg ysgolion effeithiol, ond heb bartneriaid effeithiol, mae terfyn ar yr hyn y gall ysgolion ei gyflawni. Nododd rhai ysgolion Rhagori bod gwendidau yn effeithiolrwydd eu partneriaid neu eu

parodrwydd i gydweithio â hwy yn rhwystro'u gwaith. Mae ymchwil yn awgrymu bod gwasanaethau cymorth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn bell o fod yn berffaith, ac felly mae angen gwella effeithiolrwydd a chwmpas ystod o'r gwasanaethau cymorth eraill hyn hefyd. Rhaid sicrhau hefyd fod y gefnogaeth hon wedi'i halinio a'i hintegreiddio â'r gefnogaeth a gynigir gan ysgolion. Hynny yw, mae angen 'meddwl trwy systemau'.

17.8. Mae casgliadau tebyg yn berthnasol o ran y cyllid a ddarperir gan Rhagori ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol. Mae'r Awdurdodau Lleol mwyaf effeithiol yn llwyddo i gael canlyniadau da, nid yn unig am eu bod yn darparu cefnogaeth ychwanegol yn ystod blynyddoedd 10 ac 11 – er bod hyn yn aml yn rhan allweddol o'u strategaethau – ond am fod y mathau hyn o ymyriadau cydadferol yn rhan annatod o strategaeth ehangach o lawer sy'n trafod yr holl agweddau ar ofal ac addysg plentyn. Mae datblygu dull o weithio sy'n cwmpasu'r systemau hyn yn fwy cymhleth o lawer, yn cymryd mwy o amser ac yn ddrutach (er y gellid dadlau y byddai'n arwain at arbedion yn y tymor hir) na darparu cefnogaeth gydadferol ychwanegol – a dyma'r her.

**Cryfderau Rhagori**

17.9. Mae'r gwerthusiad yn tynnu sylw at nifer o gryfderau allweddol Rhagori ac at ystod o'r ffactorau sydd wedi'i chefnogi. Rhestrir y ffactorau hyn, a'u trafod yn fanylach isod:

- Darparu arian yn uniongyrchol i ysgolion;
- Mynd i'r afael â'r 'ergyd ddwbl';
- Peidio â lledaenu adnoddau'n rhy denau;
- Buddion ehangach i ddisgyblion nad yw Rhagori yn eu targedu'n uniongyrchol;
- Yr ysgogiad a ddarperir gan Rhagori i waith consortia mewn rhai ardaloedd.

17.10. ***Darparu arian yn uniongyrchol i ysgolion***: Mae strwythur datganoledig Rhagori yn golygu bod ansawdd y gwaith wedi dibynnu i raddau helaeth iawn ar

ysgolion, wedi'u cefnogi, a lle bo'n briodol, eu herio, gan Awdurdodau Lleol a Chydgysylltwyr Rhanbarthol. Roedd gan y strwythur hwn nifer o gryfderau. Bu croeso i'r strwythur ym mhob un o'r ysgolion yr aethom i ymweld â hwy, a'r hyblygrwydd yr oedd y strwythur yn ei gynnig iddynt. Dywedwyd bod hyn wedi helpu i feithrin brwdfrydedd ac ymrwymiad ymysg staff yr ysgolion, ac mewn rhai ysgolion, bu'n fodd iddynt ddatblygu dulliau arloesol o dargedu a chodi lefelau cyrhaeddiad ymysg disgyblion difreintiedig.

17.11. O ymweld ag ysgolion, cafwyd tystiolaeth fod ansawdd y gwaith yn gwella gydag amser wrth i'r ysgolion ddatblygu'r prosiectau a ariannwyd gan Rhagori. Mae adroddiad Estyn (2010) ac adroddiadau'r Cydgysylltwyr Rhanbarthol (Davies Jones, 2009; George, 2009; Snowball, 2009) yn cefnogi'r casgliad hwn yn fras. Yn rhannol, mae hyn o ganlyniad i'r ffaith bod yr ysgolion, yr Awdurdodau Lleol a'r Cydgysylltwyr Rhanbarthol wedi cael amser i fyfyrio ar eu dulliau gweithredu ac wedi'u datblygu, gan olygu eu bod wedi meithrin gallu i fanteisio'n well ar y cyfleoedd a gynigir gan strwythur datganoledig rhaglen Rhagori.

17.12. Yn ogystal, roedd hi'n amlwg bod Rhagori wedi meithrin ymdeimlad o egni, diddordeb, brwdfrydedd, ac yn wir, angerdd, ymysg arweinwyr yr ysgolion, yr athrawon a'r staff cymorth a fu'n ymwneud â'r gweithgareddau a ariannwyd gan Rhagori. Roedd hyn, yn ei dro, wedi eu cymell i wella ansawdd a swm y gwaith a ariennir gan Rhagori mewn ysgolion, ac wedi cyfrannu at eu dyhead i geisio cynnal y gwaith pan fyddai cyllid Rhagori yn dod i ben. Priodolwyd hyn yn rhannol i'r ymreolaeth a'r rhyddid a roddwyd i ysgolion drwy gyfrwng y strwythur datganoledig. Bu'r ysgolion yn cymharu rhaglen Rhagori, lle cawsant ryddid i greu rhaglenni gwaith ac amserlenni a oedd yn cyd-fynd â'u hymyriadau penodol, â rhaglenni eraill a ddatblygwyd yn allanol. Yn achos y rhaglenni allanol, bu'n rhaid iddynt greu amser yn eu hamserlenni ar eu cyfer, ac yn aml roedd y rhaglenni hyn yn gweithredu yn gyfochrog â'u rhaglenni craidd, yn hytrach na fel rhan ohonynt.

17.13. ***Cyllid ychwanegol:*** Canfu'r gwerthusiad achos cryf dros ddarparu cyllid ychwanegol i gefnogi disgyblion o gefndiroedd difreintiedig ac mae Rhagori wedi helpu i fynd i'r afael â'r angen hwn. Cefnogir y casgliad hwn gan waith ymchwil arall a gynhaliwyd yng Nghymru. Er enghraifft, amlygodd astudiaethau *Cau'r Bwlch* werth cyllid sicr, hirdymor, wedi'i dargedu (t. 33, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002) a chanfu Asesiad Cyflym o Dystiolaeth o waith ymchwil yn y maes fod cysylltiad cadarnhaol bach rhwng 'gwariant fesul disgybl a chyrhaeddiad'[103] (t.7. Matrix Evidence, 2009). At hyn, er bod y fformiwla gyfredol ar gyfer ariannu ysgolion yn cynnwys pwysoliad ar gyfer anfantais, bernir nad yw hyn yn ddigonol i ddiwallu'r angen (Bramley ac Watkins, 2008).

17.14. Drwy dargedu cyllid at ysgolion y mae mwy nag 20% o'u disgyblion yn gymwys i gael PYaDd, mae'r adnoddau prin yn cael eu cyfeirio at y rheiny sydd mewn perygl o gael eu rhoi dan anfantais gan eu cefndir teuluol a'r ysgol y maent yn ei mynychu. Fel yr amlinellwn uchod, gall cyfran uchel o ddisgyblion sy'n gymwys i gael PyaDd greu heriau a chostau ychwanegol i'r ysgol, gan ei gwneud yn anos i'r ysgol ddiwallu'r anghenion dysgu ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anfantais (Lupton, 2005). Yn ôl yr ysgolion Rhagori yr aethom i ymweld â hwy, nid yw'r costau ychwanegol hyn yn cael eu talu gan y pwysoliad cyfredol o ran cyllid amddifadedd i ddisgyblion. Mae'n debyg bod Rhagori wedi helpu i dalu'r costau ychwanegol hyn.

17.15. Yn ymarferol, mae Rhagori wedi helpu i fynd i'r afael â'r "ergyd ddwbl" sy'n wynebu disgyblion o gefndiroedd difreintiedig sy'n mynychu ysgolion gyda chyfran fawr o ddisgyblion difreintiedig eraill: nid yn unig y mae tueddiad bod mwy o achosion o anghenion dysgu ychwanegol na disgyblion o gefndiroedd mwy breintiedig, ond mae'r ysgolion y maent yn eu mynychu yn debygol o'i chael yn fwy anodd diwallu'r anghenion hynny nag ysgolion sydd â chyfrannau llai o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig (OECD, 2003; gweler hefyd Lupton, 2005).

---

[103] Mae'r cysylltiad yn fach oherwydd yr ystod o ffactorau sy'n dylanwadu ar gyrhaeddiad, megis y rheiny a drafodir yn adran 3 yr adroddiad hwn (Matrix Evidence, 2009).

Felly, er bod y gofyniad bod o leiaf 20% o ddisgyblion yr ysgol yn gymwys i gael PYaDd yn allgau nifer mawr o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig mewn ysgolion eraill, mae'n sicrhau bod yr adnoddau prin yn cael eu targedu at y rheiny sy'n debygol o fod dan yr anfantais fwyaf oherwydd eu cefndiroedd. I'r gwrthwyneb, pe bai'r holl ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd yn cael eu targedu, er enghraifft drwy bremiwm disgyblion[104], byddai mwy o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn elwa, ond byddai'r adnoddau yn cael eu lledaenu'n deneuach ac yn cael eu targedu mewn ffordd lai effeithiol at y rheiny sydd â'r angen mwyaf.

17.16. ***Buddion ehangach:*** Mewn llawer o ysgolion, roedd disgyblion nad oeddent o gefndiroedd difreintiedig wedi elwa hefyd.  Er enghraifft, drwy dynnu disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol o ddosbarthiadau, roedd modd i athrawon ddiwallu anghenion y disgyblion a oedd ar ôl yn well. Yn ehangach, roedd yr ysgolion hynny a aeth ati i weithio mewn ffordd a oedd yn cynnwys yr ysgol gyfan wedi sicrhau bod disgyblion o gefndiroedd difreintiedig a disgyblion o gefndiroedd mwy breintiedig fel ei gilydd yn elwa. Dyma un o gryfderau Rhagori. I'r gwrthwyneb, cafwyd achosion lle cafodd disgyblion o gefndiroedd mwy breintiedig eu cefnogi'n uniongyrchol – dyma un o wendidau difrifol Rhagori. Yn bennaf, digwyddodd hyn mewn ysgolion lle y targedwyd anfantais addysgiadol yn hytrach nag anfantais economaidd-gymdeithasol. Byddai hyn wedi cynnwys nifer bach o ddisgyblion o gefndiroedd breintiedig a oedd â chyrhaeddiad isel mewn addysg.

17.17. ***Yr ysgogiad a gynigodd Rhagori i atgyfnerthu gwaith y consortia***: Fel yr amlinellir ym mhennod 13, mewn dwy ardal, sef ardaloedd consortia'r Gogledd a swamwac, roedd Rhagori yn gatalydd pwysig a fu'n gymorth i atgyfnerthu partneriaethau rhwng Awdurdodau Lleol. Drwy hynny, cafwyd ysgogiad i ddatblygu ymateb strategol i anfantais economaidd-gymdeithasol. Yn y Gogledd, roedd dau gonsortiwm ar waith: yn y Gogledd-orllewin, sef Ynys Môn, Conwy a

[104] Byddai hyn yn golygu bod ysgolion yn derbyn cyllid ychwanegol ar gyfer pob disgybl unigol a oedd, er enghraifft, yn gymwys am Brydau Ysgol am Ddim (gweler e.e. Marshall, 2007).

Gwynedd, a oedd yn rhannu gwasanaethau cymorth drwy gyfrwng Cynnal, ac yn y Gogledd-ddwyrain, sef Sir y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych. Drwy sefydlu Grŵp Llywio Rhagori Gogledd Cymru, tynnwyd y ddau gonsortiwm ynghyd, gan helpu i bontio'r hollt rhwng y dwyrain a'r gorllewin. Yng nghonsortiwm swamwac, er bod y gwaith rhanbarthol yn fwy datblygedig eisoes na'r rhanbarthau eraill, yn sgil Grant Creu'r Cysylltiadau yn 2006, ac er nad oedd hollt rhwng yr awdurdodau, bu Rhagori yn ysgogiad ychwanegol pwysig i atgyfnerthu'r consortiwm. Atgyfnerthwyd hyn ymhellach gan rôl y consortiwm wrth ddatblygu cynlluniau peilot y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

**Gwendid Rhagori**

17.18. Mae'r gwerthusiad hefyd yn amlygu nifer o wendidau a phroblemau sydd wedi amharu ar effeithiolrwydd Rhagori. Rhestrir y rhain a'u trafod yn fanylach isod:

- Strwythur datganoledig;
- Datblygu'r rhaglen ar frys a methu â glynu wrth feddwl trwy systemau na diwygio ar dair lefel;
- Methu ag integreiddio gwaith a ariannwyd gan Rhagori â pholisïau ac arferion lleol a chenedlaethol a methu ag ymgysylltu â phartneriaid allanol;
- Gwendid wrth integreiddio ymyriadau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd;
- Cyllid am amser cyfyngedig;
- Effaith gyfyngedig ar ddisgyblion nad ydynt yn rhan o'r rhaglen Rhagori.

17.19. ***Y Strwythur Datganoledig:*** er bod y strwythur datganoledig yn un o gryfderau rhaglen Rhagori mewn nifer o ffyrdd, fe gyfrannodd hefyd at rai o'r gwendidau drwy ei ddibyniaeth ar effeithiolrwydd a dewisiadau ysgolion unigol. Yn arbennig, roedd yr hyblygrwydd hwn wedi galluogi rhai ysgolion i ddewis peidio â thargedu pob disgybl difreintiedig, megis y rheiny a oedd â chyrhaeddiad canolig neu uchel. Yn hytrach, aethant ati yn aml i ddilyn llwybrau cyfarwydd, megis gwella llythrennedd a rhifedd drwy weithio gyda grwpiau bach a gwaith un-i-un, yn hytrach na gwaith a oedd yn cynnwys asiantaethau y tu allan i'r ysgol. Roedd

ystod ac ansawdd y dulliau a ddewiswyd ganddynt i fonitro a gwerthuso'r gwaith wedi'i gwneud yn anodd pennu effaith Rhagori ar lefel ysgolion unigol neu fel rhaglen yn ei chyfanrwydd. Mae hyn wedi cyfyngu ar yr wybodaeth sydd wedi deillio o rhaglen Rhagori. Er enghraifft, nid yw'n bosibl cymharu pa mor effeithiol a chost-effeithiol oedd y gwahanol fathau o ymyriadau, na defnyddio'r wybodaeth honno i lywio darpariaeth yn y dyfodol. Mae hefyd wedi cyfrannu at deimlad ymysg rhai na fu Rhagori yn llwyddiannus; sef casgliad a allai leihau'r gefnogaeth ar gyfer mentrau fel Rhagori yn y dyfodol, a chasgliad nad yw'n cael ei gefnogi'n llawn gan y gwerthusiad hwn.

17.20. ***Datblygu'r rhaglen ar frys:*** Oherwydd y brys i sefydlu rhaglen Rhagori, ni fu modd glynu wrth y ddwy egwyddor sy'n sylfaen i ymagwedd gyfredol Llywodraeth y Cynulliad at ddiwygio'r system addysg, sef meddwl trwy systemau a diwygio ar dair lefel[105]. Yn benodol, fel yr amlinellir uchod, nid oedd rhaglen Rhagori wedi'i halinio'n dda â pholisïau a strategaethau cenedlaethol a lleol eraill. Roedd y penderfyniad i greu tîm o swyddogion gwella ysgolion Rhagori heb ymgynghori'n ddigonol ag Awdurdodau Lleol wedi creu canfyddiad bod Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio eithrio'r Awdurdodau Lleol – sef haen ganol y model diwygio ar dair lefel – er mwyn ymgysylltu'n uniongyrchol ag ysgolion. Arweiniodd hyn at awyrgylch chwerw rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r Awdurdodau Lleol, a bu hyn yn plagio cyfnod cychwynnol rhaglen Rhagori. Bu iddo amharu'n andwyol ar allu'r rheiny a oedd fod i gefnogi, a lle bo'n briodol, herio ysgolion wrth iddynt ddatblygu eu cynigion ar gyfer y flwyddyn gyntaf.

17.21. Mae'r problemau a gafodd Rhagori yn y cychwyn cyntaf yn amlygu pwysigrwydd ymgynghori ar raglenni datganoledig megis Rhagori, a pharatoi ar eu cyfer. Heb

[105] Caiff ymagwedd gyfredol Llywodraeth Cymru at ddiwygio addysg, a amlinellir yn Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Cymru, ei hategu gan egwyddorion "meddwl trwy systemau" a "diwygio ar dair lefel". Er bod Rhagori yn rhagflaenu cyflwyniad y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Cymru, roedd cyflwyno'r egwyddorion yn esblygiad, yn hytrach na chwyldro, yn yr ymagwedd tuag at ddiwygio addysg: yn draddodiadol, roedd Llywodraeth y Cynulliad wedi gweithio gyda'r ddwy "lefel" arall, sef Awdurdodau Lleol ac ysgolion, wrth ddatblygu polisïau a rhaglenni megis Rhagori, ac wedi ceisio 'cydgysylltu' polisïau. Mae'n briodol felly ystyried i ba raddau y mae Rhagori wedi cymhwyso egwyddorion y "diwygio ar dair lefel" a "meddwl trwy systemau".

broses ymgynghori ddigonol, roedd disgwyliadau partneriaid allweddol o'r hyn yr oedd y rhaglen yn ceisio'i gyflawni a'u dealltwriaeth o sut y gellir cyflawni hyn orau yn wahanol i ddisgwyliadau a dealltwriaeth rheolwyr y prosiect. Heb waith paratoi digonol i sicrhau bod y strwythurau a'r gefnogaeth angenrheidiol wedi'i threfnu, roedd yn anochel nad oedd rhai o'r partneriaid allweddol, megis yr ysgolion, mewn rhaglen mor eang â hon, yn teimlo eu bod yn barod ac yn gallu manteisio ar y rhyddid a'r hyblygrwydd y mae'r strwythur datganoledig yn ei gynnig. Yn olaf, roedd diffyg deialog ar draws Llywodraeth Cymru yn golygu y bu yna golli cyfle i integreiddio rhaglen Rhagori'n llawn â rhaglenni a pholisïau pwysig eraill.

17.22. ***Effaith gyfyngedig ar weithio mewn partneriaeth***: Fel yr amlinellir yn adran 3, mae tystiolaeth y gwaith ymchwil yn glir, sef na all ysgolion gau'r bwlch ar eu pen eu hunain. Fodd bynnag, mae llawer o'r gwaith a ariennir gan Rhagori wedi bod yn seiliedig ar ysgolion, a chyfyngedig fu'r effaith ar waith gyda phartneriaid eraill. Er bod tua chwarter o ysgolion Rhagori wedi bwriadu gwella'r cysylltiad rhwng yr ysgol â'r cartref, mae nifer ohonynt wedi sôn am ba mor heriol fu'r dasg hon. Prin iawn oedd yr ysgolion a oedd yn bwriadu defnyddio cyllid Rhagori i greu cysylltiadau cryfach â phartneriaid eraill yn y gymuned (dim ond 1% o gynigion blwyddyn gyntaf yr ysgolion a oedd yn nodi hyn fel bwriad) ac er bod mwyfwy ohonynt wedi ceisio gwneud hynny yn ystod oes y rhaglen, mae llawer wedi'i chael yn dasg anodd.

17.23. ***Gwendid wrth integreiddio ymyriadau mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd***: Roedd ein hymweliadau ag ysgolion a'r adolygiadau a gynhaliwyd gan ddau o'r pedwar Cydgysylltydd Rhanbarthol (Davies Jones, 2009; George, 2009) fel ei gilydd wedi tynnu sylw at wendidau wrth gynllunio i ddisgyblion Rhagori bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, er enghraifft, sut y byddai cefnogaeth barhaus yn cael ei sicrhau. Nododd un ohonynt, "Hyd yn oed mewn ardaloedd lle mae llawr o ysgolion cynradd Rhagori yn bwydo i mewn i un ysgol uwchradd Rhagori, ni cheir y gwaith cynllunio manwl a fyddai'n cynnig cyfnod pontio llyfn i ddisgyblion Rhagori." (t. 17, Davies Jones, 2009). Mewn

gwrthgyferbyniad â hyn, mae un arall o'r Cydgysylltwyr yn sôn am welliannau, gan nodi bod "y gwaith ar draws ysgolion, yn enwedig drwy glystyrau o ysgolion, wedi gwella" (t. 15, Snowball, 2009).

17.24. ***Cyllid am amser cyfyngedig***: Bu Ysgolion a Chydgysylltwyr Rhanbarthol yn nodi'n gyson fod natur tymor byr cylch ariannu Rhagori ar gyfer ysgolion yn her sylweddol[106]. Roedd CLILC a CCAC hefyd wedi tynnu sylw at natur tymor byr y cyllid yn eu cyflwyniad i Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid ar Grantiau Addysg Penodol, gan nodi Rhagori fel enghraifft berffaith o'r problemau a achosir gan ariannu grant tymor byr (CLILC a CCAC, 2009).

17.25. Mae hwn yn asgwrn cynnen. Fel yr amlinellwn yn ein papur thematig ar gynaliadwyedd (Holtom, 2009), mae rhywfaint o werth mewn egwyddor i ddefnyddio cyllido am amser cyfyngedig i fuddsoddi mewn newid cynaliadwy, a nododd nifer o ysgolion yn glir eu bod yn ystyried bod cyllid o'r fath yn hanfodol ar gyfer datblygu. Mae ein hadroddiad yn amlinellu, er enghraifft, sut y gellid defnyddio cyllid Rhagori fel buddsoddiad i ddatblygu'r chwe elfen unigol sy'n creu ysgolion effeithiol. Fel arfer, er mwyn cynnal y newidiadau, byddai angen buddsoddiad ychwanegol mewn blynyddoedd dilynol. Ond mewn llawer o achosion, byddai lefel y buddsoddiad y byddai ei hangen yn is o lawer na'r buddsoddiad cychwynnol. At hyn, fel yr amlinellir yn adran 9, mae Rhagori yn debygol o adael etifeddiaeth gadarnhaol arwyddocaol. Serch hyn, canfu'r gwerthusiad yn gyson fod heriau a chostau ychwanegol yn wynebu ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig, ac er nad yw cyllid ychwanegol ynddi'i hun yn angenrheidiol, mae Rhagori wedi dangos y gall wneud gwahaniaeth gwirioneddol, o'i ddefnyddio'n ddoeth.

17.26. ***Yr effaith gyfyngedig ar ddisgyblion difreintiedig nad oeddent wedi elwa'n uniongyrchol o gyllid Rhagori:*** Roedd yn targedu adnoddau tuag at y

---

[106] Yn wreiddiol, cytunwyd yn flynyddol ar y cyllid i gefnogi plant a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol. Ond yn 2008-09, ymrwymodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar y pryd i dair blynedd ychwanegol o gyllid ar gyfer elfen LACE y cynllun Rhagori. Roedd hyn yn golygu bod gan Awdurdodau Lleol fwy o gyfle i gynllunio.

disgyblion hynny a oedd yn wynebu'r broblem ddeublyg o gefndir difreintiedig a mynychu ysgol a oedd yn wynebu costau a heriau ychwanegol gan ei bod yn gwasanaethu ardal ddifreintiedig yn benderfyniad synhwyrol. Fodd bynnag, prin oedd yr effaith a gafwyd ar ysgolion nad oeddent yn gymwys ar gyfer cyllid Rhagori ond sydd â disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol. Gallai'r ysgolion hyn fod wedi elwa ar brofiad Rhagori a dysgu ohoni. Canlyniad hyn oedd bod tua thraean o'r disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ond nad ydynt yn mynychu ysgolion Rhagori heb elwa o gwbl (cf. Estyn, 2010).

17.27. At hyn, er bod Rhagori wedi cefnogi nifer mawr o ddisgyblion dan anfantais mewn ysgolion Rhagori, mae methiant nifer o ysgolion i dargedu disgyblion o gefndiroedd difreintiedig a oedd yn llwyddo'n weddol neu'n dda yn wendid arall wrth roi Rhagori ar waith mewn ysgolion. Mewn gwirionedd, mae llawer o ysgolion wedi dewis hyrwyddo canlyniadau cyfartal ar draul cyfle cyfartal drwy dargedu tangyflawniad yn hytrach nac anfantais economaidd-gymdeithasol.

## 18. LLYFRYDDIAETH

Roedd yr holl gyfeiriadau gwe yn gywir ar 10 Medi 2010, oni nodir yn wahanol.


Arad (2007) *A Rapid Evidence Assessment of interventions that attempt to overcome the link between deprivation and educational attainment*. Papur heb ei gyhoeddi ar gyfer LlCC

Berridge, D., Dance, C., Beecham, J., a Field, S. (2008) *Educating Difficult Adolescents: An Evaluation of "Quality Projects"*. Ar gael ar-lein drwy http://www.dcsf.gov.uk/research/data/uploadfiles/DCSF-RBX-07-08.pdf (10 Medi 2009)

Berridge, D., Henry, L., Jackson, S., a Turney, T. (2009) *Looked After Children Evaluation of the Virtual School Head Pilot.* Bryste: DCSF. Ar gael ar-lein drwy http://www.dcsf.gov.uk/research/data/uploadfiles/DCSF-RR144.pdf (10 Medi 2009)

Bramley, G., ac Watkins, D. (2007) *Alternative Resource Allocation Models For Local Services In Wales***.** Papur heb ei gyhoeddi ar gyfer LlCC. Ar gael ar-lein drwy http://wales.gov.uk/dsjlg/publications/localgov/alternativeallocationmodels/alternativeresourceallocation?lang=en (12 Chwefror 2008)

Brooks, G. (2002) *What works for Children with Literacy Difficulties? The Effectiveness of Intervention Schemes*, Llundain: Yr Adran Addysg a Sgiliau. Ar gael ar-lein drwy http://www.dfes.gov.uk/research/data/uploadfiles/RR380.pdf (12 Chwefror 2008)

Cassen, R., a Kingdon, G, (2007). *Tackling Low Educational Attainment* Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree. Ar gael ar-lein drwy http://www.jrf.org.uk/publications/tackling-low-educational-achievement (22 Tachwedd 2007)

Centre for Excellence and Outcomes in Children and Young People's Services (C4EO) (2009). *Improving educational outcomes for looked-after children and young people.* Ar gael ar-lein drwy http://www.c4eo.org.uk/themes/vulnerablechildren/educationaloutcomes/

The Child Poverty Expert Group (2008). *Child Poverty: Education 4-14 years*. Ar gael ar-lein drwy http://wales.gov.uk/dsjlg/publications/childrenyoung/education/recommendations.pdf?lang=en;

Cook, T. a Gorard, S. (2007) 'What Counts And What Should Count As Evidence?' tt. 33-47 yn Burns, T. a T. Schuller (Gol). *Knowledge Management – Evidence In Education: Linking Research And Policy.* Centre For Education Research And Innovation: Paris. Ar gael ar-lein drwy Http://213.253.134.43/Oecd/Pdfs/Browseit/9607081E.PDF (18 Gorffennaf 2007)

Davies Jones, G. (2009) *Menter Rhagori: Adroddiad Blynyddol Rhanbarth Gogledd Cymru 2008-2009.* Papur heb ei gyhoeddi

Day, C., Sammons, P., Hopkins, D. Haris, A., Leithwood, K. Gu, Q. , Brown, E., Ahtaridou, E. a Kington, A. (2009). *The impact of school leadership on pupil outcomes* Llundain, DCSF. Ar gael ar-lein drwy http://publications.education.gov.uk/eOrderingDownload/DCSF-RR108.pdf

Desforges, C., gydag Abouchaar, A. (2003). *The Impact Of Parental Involvement, Parental Support And Family Education On Pupil Achievement And Adjustment: A Literature Review.* Adroddiad Ymchwil 433. Llundain, Adran Addysg a Sgiliau. Ar gael ar-lein drwy http://www.dfes.gov.uk/research/data/uploadfiles/RR433.pdf (1 Hydref 2007)

Adran Addysg a Sgiliau (2006) Statistical First release: Children looked after in England (Including adoptions and care leavers) 2005-6. Ar gael ar-lein drwy http://www.dcsf.gov.uk/rsgateway/DB/SFR/s000691/SFR44-2006.pdf (27 Hydref 2009)

DCSF (2009a) *Measuring progress at pupil, school and national levels*, Llundain, DCSF. Ar gael ar-lein drwy www.publications.dcsf.gov.uk/eOrderingDownload/DCSF-RIP-09-02.pdf (20 Awst).

DCSF (2009b) Statistical First release, GCSE and Equivalent Examination Results in England 2007/8 (Revised). Ar gael ar-lein drwy http://www.dcsf.gov.uk/rsgateway/DB/SFR/s000826/SFR02_2009_Final_Amended160109.pdf (27 Hydref 2009)

Duckworth, K., Akerman, R., Gutman, L., a Vorhaus, J. (2009) *Influences and leverages on low levels of attainment: a review of literature and policy initiatives.*
Ar gael ar-lein drwy
http://www.learningbenefits.net/Publications/ResReps/ResRep31.pdf (27 Hydref 2009)

Egan, D. (2007). *Combating child poverty in Wales: are effective education strategies in Place?* Efrog: JRF. Ar gael ar-lein drwy http://www.jrf.org.uk/knowledge/findings/socialpolicy/pdf/2162.pdf (1 Rhagfyr 2008)

Emler, N. (2001). *Self-esteem: The costs and causes of low self-worth.* Efrog: JRF, Ar gael ar-lein drwy http://www.jrf.org.uk/publications/self-esteem-costs-and-causes-low-self-worth

Estyn (2010) *Mynd i'r afael â thlodi plant ac anfantais mewn ysgolion.* Caerdydd: Estyn. Ar gael ar-lein drwy http://www.estyn.gov.uk/thematicreports/Tackling_child_poverty_and_disadvantage_in_schools_January_2010.pdf (12 Chwefror 2010)

Estyn (2009) *Effaith Rhagori 2008-2009. Arfarniad o effaith cyllid Rhagori ar godi lefelau perfformiad disgyblion sydd dan anfantais. Adroddiad ar drydedd flwyddyn y rhaglen.* Caerdydd: Estyn. Ar gael ar-lein drwy http://www.estyn.org.uk/thematicreports/cy_Impact_of_Rhagori_2008-2009.pdf (5 Medi 2009)

Estyn (2007). *Effaith Cyllid Rhagori: adroddiad interim*. Caerdydd: Estyn. Ar gael ar-lein drwy http://www.estyn.gov.uk/publications/The_impact_of_RAISE_funding_an_interim_report_July_2007.pdf (1 Rhagfyr 2008)

Estyn (2004) *Fframwaith Arolygu Cyffredin Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.* Ar gael ar-lein drwy http://www.estyn.gov.uk/publications/CommonInspectionFramework.pdf (27 Hydref 2009)

Feinstien, L. a Duckworth K. (2008). *Development in the early years: its importance for school performance and adult outcomes.* Ar gael ar-lein drwy http://www.learningbenefits.net/Publications/ResReps/ResRep20.pdf

Feinstein, L., Duckworth, K., a Sabates, R. (2004) *A Model of intergenerational Transmission of Educational Success.* Wider Benefits of Learning Report No.10. Center of Research on the Wider Benefits of Learning.
Ar gael ar-lein drwy
http://www.learningbenefits.net/Publications/ResReps/ResRep10.pdf (15 Medi 2007)

Feinstein, L., Hearn, B. a Renton, Z. gydag Abrahams, A. a MacLeod, M. (2007). *Reducing Inequalities: realising the talents of all*. Llundain: NCB

Fletcher-Campbell, F., Archer, T. and Tomlinson, K. (2003) *The role of the school in supporting the education of children in public care*. Llundain: Adran Addysg a Sgiliau. http://www.dcsf.gov.uk/research/data/uploadfiles/RR498.pdf (15 Medi 2007)

Fullan, M. (2001) *Leading in a culture of change*. San Francisco: Jossey Bass.

George, B. (2009) *RAISE Programme: Central South Wales Region annual Report 2008-9.* Papur heb ei gyhoeddi

Goleman, D. (1995). *Emotional intelligence*. Efrog Newydd: Bantam

GSRU (2007) *The Magenta book: Guidance Notes on Policy Evaluation*. Ar gael ar-lein drwy
http://www.gsr.gov.uk/downloads/magenta_book/Intro_Magenta.pdf (10 Mehefin 2009)

Harris, A., Allan, T. a Goodall, J. (2008). *Capturing Transformation: How schools secure and sustain improvement.* Specialist Schools and Academies Trust, http://www.almaharris.co.uk/files/capturing_transformation.pdf

Harris, A. , Allan, T. a Goodall, J. (2009). *Helping Families Support Children's Success at School*. Llundain: Save the Children Fund.

Heydon, C. (2005) *More than a piece of paper? Personal Education Plans and Looked After Children.* Ar gael ar-lein drwy
http://eprints.libr.port.ac.uk/archive/00000034/01/PEPsArticle.pdf
(15 Medi 2007)

Holtom, D. gyda Sims, J. (2009). *Mind the Gap: Tackling Severe Child Poverty in Wales. The Impact and effectiveness of Partnership Working*. Papur heb ei gyhoeddi

Hopkins, D. (2007) *Every School a Great School: Realizing the potential of system leadership.* Gwasg y Brifysgol Agored: Maidenhead.

Jackson, S., Ajayi, S. a Quigley, M. (2005) *By Degrees: Going to University from Care*. Llundain: Ymddiriedolaeth Frank Buttle. Ar gael ar-lein drwy http://www.buttletrust.org/docs/BD-Full_Report.pdf (15 Medi 2007)

Jackson, S., Ajayi, S., a Quigley, M. (2003) *By Degrees: The First Year, from Care to University*. Llundain: Ymddiriedolaeth Frank Buttle.

Jones, G. (2005). *The Thinking And Behaviour Of Young Adults, Literature Review For The Social Exclusion Unit*, Llundain: ODPM. Ar gael ar-lein drwy Http://Www.Socialexclusionunit.Gov.Uk/Downloaddoc.Asp?Id=794 (15 Ebrill 2007)

Joshi, H. a Hansen, K. (gol). (2007). *Millennium Cohort Study Second Survey: A User's Guide to Initial Findings*. Llundain: CLS. Ar gael ar-lein drwy http://www.cls.ioe.ac.uk/studies.asp?section=0001000200010012
(14 Rhagfyr 2007)

Kent, T., Brodie. I., Berridge, Dobel-Ober, D., a Sinclair., R. (2006) *Taking care of education: the role of the designated teacher*. Ar gael ar-lein drwy
http://www.derby.gov.uk/NR/rdonlyres/33745598-7376-4B41-84AC-D1E16FB9F21A/0/RoleoftheDesignatedTeacherArticle2006.pdSf (15 Medi 2007)

Kenway, P., Parsons, N. Carr, J. a Palmer, G. (2005). *Monitro tlodi ac eithrio cymdeithasol yng Nghymru 2005*. Efrog: JRF, hefyd ar gael ar-lein drwy http://www.jrf.org.uk/publications/monitoring-poverty-and-social-exclusion-wales-2005

Kotvojs, F., a Shrimpton, B. (2007) *Contribution analysis A new approach to evaluation in international development*. Ar gael ar-lein drwy http://www.aes.asn.au/publications/Vol7No1/Contribution_Analysis.pdf (16 Tachwedd 2007)

Lloyd-Jones, S., Holtom, D., Bowen, R., Griffin, T., a Sims, J (2010) *Astudiaeth ymchwil ansoddol i ymchwilio i'r rhesymau pam mae pobl ifanc yn ymddieithrio oddi wrth ddysgu: Adroddiad Terfynol.* LlCC: Caerdydd, *Ar gael ar-lein drwy* http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/researchandevaluation/research/youngpeoplesdisengagement/?skip=1&lang=cy

Lupton, R. (2004). *Schools in disadvantaged areas: recognising and raising quality*. CASE Paper 76. Ar gael ar-lein drwy http://sticerd.lse.ac.uk/dps/case/cp/CASEpaper76.pdf (15 Ebrill 2007)

Lupton, R. (2005). 'Social Justice And School Improvement: Improving The Quality Of Schools In The Poorest Neighbourhoods', *British Educational Research Journal*, Cyfrol 31 Rhif 5, tt. 589-604

Matrix Evidence (2009). *Outcomes-based Allocation of Educational Resources Rapid Evidence Assessment*. Adroddiad heb ei gyhoeddi ar gyfer LlCC

McKinsey & Company (2007). *How the world's best performing school systems come out on top.* Ar gael ar-lein drwy http://www.mckinsey.com/App_Media/Reports/SSO/Worlds_School_Systems_Final.pdf

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001) Y Wlad sy'n Dysgu*. Dogfen Ymbaratoi. Rhaglen Gynhwysfawr Addysg a Dysgu Gydol Oes hyd at 2010 yng Nghymru*. Caerdydd; LlCC, Ar gael ar-lein drwy http://www.careerswales.com/prof/upload/pdf/20041027_learningcountry-w_20090729100904.pdf (1 Hydref 2007)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2004) *Y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Adolygiad Polisi o Anghenion Addysgol Arbennig: Rhan 1: Nodi'n Gynnar ac Ymyrryd*, Tachwedd 2004, Ar gael ar-lein drwy http://www.assemblywales.org/N0000000000000000000000000026476.pdf

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2006) *Y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Adolygiad Polisi o Anghenion Addysgol Arbennig: Rhan 2: Y Fframwaith Asesu Statudol (Datganiadau), Mai 2006,* Ar gael ar-lein drwy http://www.assemblywales.org/N0000000000000000000000000044329.pdf

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2007) *Y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Adolygiad Polisi o Anghenion Addysgol Arbennig: Rhan 3: Pontio*, Mawrth 2007, Ar gael ar-lein drwy http://www.assemblywales.org/a418a2221ff4ec27fb94740522d38822.pdf

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2008) *Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc: Tlodi Plant yng Nghymru: Ai Addysg yw'r Ateb? Tachwedd 2008*, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, hefyd ar gael ar-lein drwy http://www.assemblywales.org/cyp_3__child_poverty_report_eng__2_.pdf

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (2009). *Doing Better for Children*. Paris: OECD http://www.oecd.org/document/12/0,3343,en_2649_34819_43545036_1_1_1_37419,00.html

Swyddfa Safonau mewn Addysg (OfSTED) (2010). *The special educational needs and disability review*, Llundain: Ofsted. Ar gael ar-lein drwy http://www.ofsted.gov.uk/Ofsted-home/Publications-and-research/Browse-all-by/Documents-by-type/Thematic-reports/The-special-educational-needs-and-disability-review

Ofsted (2007). *Parents, carers and schools,* Llundain: Ofsted. Ar gael ar-lein drwy http://www.ofsted.gov.uk/assets/Internet_Content/Shared_Content/Files/2007/july/Par_car_sch.pdf (4 Hydref 2008)

Ofsted (2006) *Improvements in London schools 2000-06.* Llundain: Ofsted. Ar gael ar-lein drwy https://www.ofstedgov.co.uk/Ofsted-home/Publications-and-research/Browse-all-by/Documents-by-type/Thematic-reports/Improvements-in-London-schools-2000-06 (8 Gorffennaf 2008)

Ofsted (2003) *Excellence in Cities and Education Action Zones; Management and Impact.* Llundain: Ofsted, Ar gael ar-lein drwy http://www.ofsted.gov.uk/Ofsted-home/Publications-and-research/Browse-all-by/Government-and-community/Governance/Excellence-in-Cities-and-Education-Action-Zones-management-and-impact (4 Rhagfyr 2007)

Schuller, T., Preston, J., Hammond, C., Brassett-Grundy, A. a Bynner, J. (2004). *The benefits of learning: the impact of education on health, family life and social capital*. Routledge Falmer.

Sims, J., Bowen, R., a Holtom, D. (2008) *Rapid Evidence Assessment of Behaviour and Attendance in Schools*. Papur heb ei gyhoeddi ar gyfer LlCC. Ar gael ar-lein drwy http://wales.gov.uk/dcells/publications/publications/reports/evidencenationalbehaviourreview/rapidevidenceassessment.pdf?lang=en8

Snowball, N. (2009) *SEWC RAISE Annual Report 2008 / 2009.* Papur heb ei gyhoeddi

Uned Allgáu Cymdeithasol (2006). *Transitions: Young adults with complex needs*. Llundain: SEU. Ar gael ar-lein drwy http://archive.cabinetoffice.gov.uk/seu/page2237.html?id=563 (22 Mai 2007)

Uned Allgáu Cymdeithasol (2003) *A Better Education for Children in Care.* Llundain: SEU. Ar gael ar-lein drwy http://publications.teachernet.gov.uk/eOrderingDownload/SEU-Report.pdf.pdf (18 Medi 2009)

Uned Allgáu Cymdeithasol (2002) *Reducing Reoffending By Ex Prisoners*. Llundain: SEU. Ar gael ar-lein drwy http://www.cabinetoffice.gov.uk/media/cabinetoffice/social_exclusion_task_force/assets/publications_1997_to_2006/reducing_summary.pdf (26 Ebrill 2008)

Stein, M. (2008). *Resilience and young people leaving care*. Sefydliad Joseph Rowntree. Ar gael ar-lein drwy http://www.scottishthroughcare.org.uk/docs/research/Resilience_and_Young_People_Leaving_Care.pdf (18 Tachwedd 2008)

The Cambridge Primary Review (2009) *Introducing The Cambridge Primary Review*, http://www.primaryreview.org.uk/Downloads/Finalreport/CPR-booklet_low-res.pdf (15 Hydref 2009)

LICC (2006a). *Rhagori (Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion yng Nghymru)*. Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 5 Ebrill 2006, gan Jane Davidson, Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Papur heb ei gyhoeddi.

LICC (2006b) *Canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif: 47/2006,* Ar gael ar-lein drwy http://wales.gov.uk/dcells/publications/publications/circularsindex/2006/inclusionandpupilsupport/inclusionpupilsupport-w.pdf?lang=cy (3 Medi 2007)

LICC (2006c). *Y Wlad sy'n Dysgu; Gweledigaeth ar Waith*. Caerdydd; LICC, Ar gael ar-lein drwy http://wales.gov.uk/dcells/publications/publications/guidanceandinformation/learningcountry/learningcountryvis-w.pdf?lang=cy

LICC (2008a). *Cyflawniad Academaidd a'r Hawl i Brydau Ysgol am Ddim, 2007.* Bwletin Ystadegol 13/2008. Ar gael ar-lein drwy http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/schooleffectivenessframework/?lang=cy
(8 Gorffennaf 2008)

LICC (2008b). *Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion: Creu cymunedau dysgu effeithiol gyda'n gilydd.* Caerdydd: LICC. Ar gael ar-lein drwy

http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/091020frameworkcy.pdf (5 Rhagfyr 2008)

LlCC (2010). *Cyflawniad Academaidd a'r Hawl i Brydau Ysgol am Ddim, 2009,* Ar gael ar-lein drwy http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2008/080326achievefsm/;jsessionid=yvpQNQVJVJY10fqbC8mpTg82rLC0BfnTDtKNGRgQwT7KQ4SJlXph!1452112521?lang=cy&status=closed

CLlLC a CCAC (2009) *Y Pwyllgor Cyllid: FIN(3) 03-09 (t3) Ymchwiliad i Grantiau Addysg wedi'u Neilltuo: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC).* Ar gael ar-lein drwy http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-fin-home/bus-committees-third-fin-agendas.htm?act=dis&id=100261&ds=11/2008 (8 Mawrth 2010)

LlCC a CLlLC (2005) *Prosiect Cau'r Bwlch ym Mherfformiad Ysgolion: Cam II Ysgolion Cynradd* Caerdydd: LlCC, Ar gael ar-lein drwy http://wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/4038211/Guidance_and_Information/narrowing-the-gap05-w.pdf?lang=cy (23 Tachwedd 2009)

LlCC a CLlLC (2002). *Cau'r Bwlch ym Mherfformiad Ysgolion*. Caerdydd: LlCC, Ar gael ar-lein drwy http://wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/4038211/Guidance_and_Information/narrowing-the-gap05-w.pdf?lang=cy (4 Mai 2008)

Watkins, J. (2010). *Review of Selected English Education Initiatives*. Papur heb ei gyhoeddi ar gyfer yr Uned Pobl a Gwaith.

Wikeley, F., Bullock, K., Muschamp, Y. a Ridge, T. (2007) *Educational Relationships Outside School: Why Access Is Important.* Efrog: JRF. Ar gael ar-lein drwy http://www.jrf.org.uk/bookshop/eBooks/2027-education-poverty-activities.pdf (4 Rhagfyr 2007).

## ATODIAD 1. CYFWELEION

- Alan Boxford, Consortiwm De-ddwyrain Cymru
- Tracey Breheny, LICC
- Graham Davies, LICC
- Keith Davies, LICC
- Yr Athro David Egan, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd
- Brian George, Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion / Consortiwm Canol De Cymru
- Hillary Hill, LICC
- David Hopkins, CCAC
- Gareth Davies Jones, Consortiwm y Gogledd
- David Lloyd-Thomas, LICC
- Beverly Morgan, LICC
- Paul Morgan, LICC
- Sean O'Neil, Plant yng Nghymru
- Barry Norris, Estyn
- Marcus Hill, LICC
- Dr Chris Llewellyn, CLILC
- Yr Athro Gareth Rees, Prifysgol Caerdydd
- Eleri Thomas, Achub y Plant
- Chris Tweedale, LICC
- Emma Williams, LICC
- Elizabeth Williams, LICC

## ATODIAD 2.
## DADANSODDIAD O GYNIGION BLWYDDYN GYNTAF YSGOLION RHAGORI

**Cyflwyniad**

18.1. Gofynnwyd i ysgolion a oedd yn gymwys am gyllid Rhagori baratoi profforma yn disgrifio sut y byddent yn defnyddio'r grant, ac yna sicrhau cytundeb eu Hawdurdod Lleol. Yn gynnar yn 2007, aethom ati i adolygu 626 o'r 648 o gynigion a ddaeth i law gan ysgolion[107] (y profformas) gan gofnodi gwybodaeth am ganlyniadau disgwyliedig y gwaith hwn (e.e. gwella llythrennedd a rhifedd, gwella sgiliau cymdeithasol ac emosiynol plant a phobl ifanc) a'r modd o fynd ati i sicrhau'r canlyniadau hyn (e.e. drwy gyflogi Cynorthwyydd Cymorth Dysgu, sefydlu grŵp anogaeth). Cafodd yr wybodaeth hon ei defnyddio fel sail i ddatblygu cronfa ddata a gynigai drosolwg o'r gwaith mewn ysgolion a ariennir gan Rhagori. Mae crynodeb o ganlyniadau'r dadansoddiad hwn i'w gweld yn nhablau 20.1 a 20.2.

[107] Roedd nifer fach o gynigion yr ysgolion yn absennol o'r ffeil adeg yr adolygiad neu mae'n bosibl eu bod wedi'u hepgor ar gamgymeriad.

**Tabl 20.1. Crynodeb o'r canlyniadau canolig a ddymunir (gwaith a ariennir gan Rhagori mewn ysgolion)**

| **Nifer yr ysgolion / Canlyniadau** | **Pob ysgol *** | **Cynradd** | **Uwch-radd** | **Eglwys** | **Arbennig** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **622** | **471** | **67** | **54** | **30** |
| Cyrhaeddiad | 567 | 437 | 62 | 51 | 17 |
| Llythrennedd a Rhifedd | 497 | 388 | 48 | 47 | 14 |
| Sgiliau Personol / Cymdeithasol | 165 | 124 | 18 | 9 | 14 |
| Hunan-fri a/neu les | 115 | 79 | 18 | 11 | 7 |
| Gwell ymddygiad | 146 | 95 | 37 | 8 | 6 |
| Sgiliau iaith a lleferydd | 114 | 97 | 3 | 11 | 3 |
| Newid agweddau (e.e. codi dyheadau a/neu gymhelliant) | 96 | 66 | 21 | 5 | 4 |
| Sgiliau astudio, sgiliau meddwl, sgiliau dysgu annibynnol | 91 | 73 | 12 | 4 | 2 |
| Gwella presenoldeb | 89 | 38 | 45 | 1 | 5 |
| Hyder / Hunan effeithiolrwydd | 31 | 24 | 3 | 3 | 1 |

* Roedd rhifau adnabod pedair ysgol yn ein cronfa ddata naill ai'n anghyflawn neu'n anghywir ac nid oedd modd i ni bennu pa fath o ysgolion oeddent (cynradd / uwchradd / arbennig / eglwys).

**Tabl 20.2. Crynodeb o'r gwaith mwyaf cyffredin a ariennir gan Rhagori mewn ysgolion**

| Nifer yr ysgolion / Gweithgarwch a ariennir gan Rhagori | Pob ysgol * | Cynradd | Uwch -radd | Eglwys | Arbennig |
|---|---|---|---|---|---|
| | **622** | **471** | **67** | **54** | **30** |
| Cefnogaeth academaidd ychwanegol (e.e. cyflogi LSA) | 474 | 376 | 47 | 37 | 14 |
| Datblygu Staff (e.e. hyfforddi) | 337 | 264 | 33 | 27 | 10 |
| *Ymweld ag ysgolion eraill i rannu arferion da* | *6* | *3* | *1* | *2* | *0* |
| Gwella a datblygu'r cwricwlwm | 283 | 183 | 53 | 24 | 23 |
| *Cysylltu â'r Cyfnod Sylfaen* | *162* | *140* | *1* | *18* | *3* |
| *Gwella'r cwricwlwm 7-13, datblygu cysylltiadau ar draws y cwricwlwm* | *65* | *38* | *14* | *5* | *8* |
| *Datblygu'r cwricwlwm 14-19* | *44* | *0* | *33* | *1* | *10* |
| *Datblygu cysylltiadau ag ysgolion / colegau eraill er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm (dim 14-19)* | *12* | *5* | *5* | *0* | *2* |
| Datblygu Cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r cartref | 163 | 116 | 25 | 16 | 6 |
| *Gwaith mwy dwys gyda rhieni sy'n mynd y tu hwnt i gyfathrebu (e.e. llythrennedd oedolion).* | *67* | *51* | *10* | *5* | *3* |
| Prynu adnoddau megis llyfrau, CDs a meddalwedd | 207 | 149 | 28 | 22 | 8 |
| Gwaith grŵp bach | 165 | 134 | 15 | 10 | 6 |
| Datblygu'r ysgol gyfan, megis newidiadau i aferion gweithio a chynlluniau gwaith ar draws yr ysgol. | 88 | 62 | 10 | 12 | 4 |
| Cefnogaeth fugeiliol i ddisgyblion | 72 | 27 | 37 | 3 | 5 |
| Darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (SEN) | 78 | 52 | 10 | 10 | 6 |
| Buddsoddi yn yr amgychedd addysgu ffisegol (e.e. prynu caledwedd TGCh, dodrefn) | 75 | 47 | 18 | 7 | 3 |
| Gweithgareddau allgyrsiol megis clybiau ar ôl ysgol | 53 | 29 | 18 | 1 | 5 |
| *Clybiau brecwast* | 9 | 4 | 3 | 1 | 1 |
| Gwaith un i un gyda disgyblion | 51 | 38 | 4 | 4 | 5 |
| Datblygu cynlluniau dysgu unigol | 45 | 35 | 4 | 5 | 1 |
| Pontio rhwng ysgolion | 42 | 18 | 16 | 3 | 5 |
| Anogaeth (nod: cefnogaeth bersonol) | 42 | 31 | 9 | 0 | 2 |
| Gwaith wedi'i dargedu gyda bechgyn | 36 | 24 | 9 | 3 | 0 |
| Cefnogaeth academaidd arbenigol (e.e. gan seicolegydd addysg) | 27 | 15 | 7 | 2 | 3 |
| Darparu ar gyfer gwahanol arddulliau dysgu (e.e. gweledol, clywedol a chinesthetigol) | 25 | 19 | 3 | 3 | 0 |
| Gwaith awyr agored, dysgu arbrofol | 25 | 17 | 0 | 5 | 3 |
| Partneriaethau gydag ysgolion eraill | 20 | 12 | 5 | 0 | 3 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu dull sy'n canolbwyntio ar y dysgwr | 16 | 11 | 2 | 2 | 1 |
| Cyflogi mentoriaid neu Hyfforddwyr Dysgu * | 15 | 0 | 15 | 0 | 0 |
| Dysgu wedi'i bersonoli | 15 | 8 | 4 | 1 | 2 |
| Gwaith yn ymwneud â gwaith cartref | 14 | 9 | 4 | 1 | 0 |
| Cefnogi'r broses o bontio rhwng cyfnodau allweddol | 8 | 5 | 2 | 0 | 1 |
| Amser cylch | 7 | 6 | 1 | 0 | 0 |
| Gwella'r cysylltiadau â'r gymuned | 7 | 4 | 1 | 0 | 2 |
| Swyddogion presenoldeb | 6 | 1 | 5 | 0 | 0 |
| Swyddogion cefnogi ymddygiad | 6 | 2 | 4 | 0 | 0 |
| Cefnogaeth gan gymheiriaid | 5 | 3 | 2 | 0 | 0 |
| Gwaith wedi'i dargedu gyda disgyblion sy'n perthyn i leiafrifoedd ethnig | 4 | 3 | 1 | 0 | 0 |
| Cyrsiau preswyl | 4 | 1 | 2 | 0 | 1 |

Nodiadau: Mae'r graffiau a ddangosir mewn teip italig yn is-set o'r cyfanswm. Er enghraifft, mae 252 o ysgolion yn ymwneud â gwaith i ddatblygu'r cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys 163 o ysgolion sy'n edrych ar ddatblygu cysylltiadau â'r Cyfnod Sylfaen, 66 yn gwella'r cwricwlwm 7-13 a 45 yn datblygu'r cwricwlwm 14-19.

* Roedd rhifau adnabod pedair ysgol yn ein cronfa ddata naill ai'n anghyflawn neu'n anghywir ac nid oedd modd i ni bennu pa fath o ysgolion oeddent (cynradd / uwchradd / arbennig / eglwys).

## ATODIAD 3. BRASLUN O DREFN CYFWELIAD AR GYFER YMWELIADAU i YSGOLION (2008)

**CYFLWYNIAD**

Fel rhan o werthusiad allanol Rhagori i Lywodraeth Cynulliad Cymru, rydym yn ymweld â 48 ysgol eleni. Bwriad yr ymweliadau yw i wella dealltwriaeth y tîm ymchwil o'r prif faterion a themâu; i adolygu ac, os yn briodol, i wneud awgrymiadau sut gall yr ysgolion werthuso eu gwaith ac i ystyried sut y gallant ddefnyddio yr hyn a ddysgwyd ganddynt yn y dyfodol.

Mae gennym ddiddordeb mewn asesu os yw rhai ffyrdd o gefnogi plant a phobl ifanc difreintiedig yn fwy effeithiol nac eraill. Nid ein bwriad yw barnu os yw rhai ysgolion wedi defnyddio eu harian Rhagori yn fwy effeithiol nac eraill. Gyda'r eithriad o'r rhestr o'r ysgolion yr ymwelsom â hwy, ni fyddwn yn enwi unigolyn ac ysgolion wrth eu henw yn ein hadroddiadau.

Os yn berthnasol, ydych chi'n fodlon i ni ddefnyddio canfyddiadau'r gwerthusiad hwn ar gyfer dwy astudiaeth arall rydym yn eu gwneud ar hyn o bryd i Lywodraeth Cynulliad Cymru: gwerthusiad o Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ac astudiaeth i effeithiau a lles y gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru?

Oes gennych chi unrhyw gwestiynau?

### 1. CYD-DESTUN

1.1. Allwch chi, os gwelwch chi'n dda, ddweud ryw ychydig wrtha i am eich ysgol a'r gymuned/ cymunedau mae'n ei gwasanaethu *(ee pa gyfran o'r plant sy'n gymwys am ginio ysgol am ddim? Pa ddangosyddion eraill o anfantais sydd 'na?)*

1.2. Ydi gwasanaethu cymuned ddifreintiedig yn creu sialensiau i'r ysgol? Beth ydyn nhw? *(ee mae peth gwaith ymchwil yn awgrymu fod ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau difreintiedig yn ei chael hi'n anodd am, er enghraifft, fod yn rhaid iddynt roi mwy o amser i ofal bugeiliol, dydi rhieni ddim yn gallu fforddio gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol yr un fath etc – ydi hyn yn berthnasol?)*

1.3. Ydi gwasanaethu cymuned ddifreintiedig yn golygu costau ychwanegol i'r ysgol? Beth? *Ydych chi wedi dysgu/arwain mewn ysgolion eraill? Sut maen nhw'n cymharu â'r ysgol hon?*

**2. GWEITHGAREDDAU A GYLLIDWYD GAN Rhagori**

2.1. Allwch chi, os gwelwch yn dda, ddweud ychydig mwy wrtha i am y ffordd rydych chi'n defnyddio cyllid Rhagori?

2.2. Sut gwnaethoch chi adnabod y plant / pobl ifanc mae'r prosiect yn ei dargedu?

2.3. Sut a pham y gwnaethoch chi adnabod y gweithgareddau hyn? Ydi hyn yn barhad o waith sy'n bodoli'n barod? (a sut cafodd hwnnw ei gyllido?) Neu ydych chi wedi defnyddio cyllid Rhagori i gychwyn gwaith newydd? Os yn bodoli – ydych chi wedi gwneud unrhyw newidiadau i dargedu plant sydd dan anfantais economaidd yn well? *Oedd gennych chi ddigon o wybodaeth i baratoi eich cynlluniau? Oedd gennych chi ddigon o amser i baratoi eich cynlluniau? Beth ydi'ch damcaniaeth am newid ['theory of change'] – sut ydych chi'n disgwyl i'r gweithgaredd hwn wneud gwahaniaeth?*

2.4. Allech chi fod wedi gwneud hyn heb gyllid Rhagori?

2.5. Ydych chi wedi newid y ffordd rydych chi'n defnyddio cyllid Rhagori? Pam?

2.6. Beth arall mae'r ysgol yn ei wneud i fynd i'r afael â'r cyswllt rhwng anfantais a chyrhaeddiad addysgol isel? *Ydi arian Rhagori yn ategu gweithgareddau mewn meysydd eraill (ee Llwybrau Dysgu 14-19 mewn ysgolion uwchradd, y Cyfnod Sylfaen yn yr ysgolion cynradd?)*

## 3. MONITRO A GWERTHUSO

3.1. Pa wahaniaeth mae Rhagori wedi'i wneud i (a) plant a phobl ifanc (gan gynnwys safon eu haddysg)? (b) yr ysgol (c) y gymuned; (d) yr AALl?

3.2. Ai dyma oeddech chi'n ei ddisgwyl? Oedd yna unrhyw fanteision annisgwyl?

3.3. Ydi lefel y cyllid yn ddigon i chi allu gwneud gwahaniaeth go iawn? *Beth fyddech chi'n ei wneud petai gennych chi fwy o arian? Beth fyddech chi'n ei wneud petai gennych chi lai o arian?*

3.4. Sut ydych chi'n gwybod pa wahaniaeth mae Rhagori wedi'i wneud (hy Sut ydych chi'n monitro a gwerthuso effeithiau Rhagori?) *Pam ydych chi'n gwerthuso Rhagori?*

3.5. Ydi'ch systemau ar gyfer monitro a gwerthuso yn gweithio'n dda? *Faint o amser ac arian mae'n ei gymryd i werthuso Rhagori? Ydi o werth y drafferth?*

3.6. Sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio? Ydi hyn yn cael ei rannu? Pa mor ddefnyddiol ydi hyn?

## 4. RHWYDWEITHIAU A PHARTNERIAETHAU

4.1. Ydych chi'n gweithio gydag ysgolion eraill yn eich clwstwr? Sut? *Ydych chi'n cynllunio ar gyfer trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd?*

4.2. Sut a beth ydych chi wedi'i ddysgu oddi wrth ysgolion eraill, gwaith ymchwil arall etc? *(ee cynadleddau, ymweliadau cynghorydd yr AALl, darllen adroddiadau etc).*

4.3. Pa mor effeithiol mae eich cynghorydd AALl wedi bod? *Wnaethon nhw siarad am Rhagori? Pa fath o gymorth wnaethon nhw ei gynnig? Pa mor aml ydych chi'n eu gweld nhw?*

4.4. Faint o gyswllt ydych chi wedi'i gael â Chydlynydd Rhanbarthol Rhagori? Pa mor effeithiol mae nhw wedi bod? *Pa fath o gymorth wnaethon nhw ei gynnig? Pa mor aml ydych chi'n eu gweld nhw?*

4.5. Ydych chi'n gwybod sut mae eich prosiect Rhagori yn berthnasol i waith sy'n cael ei gyllido gan Rhagori gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal? *Ydych chi wedi cael trafodaethau gyda'ch athro/athrawes dynodedig i Blant sy'n Derbyn Gofal?*

4.6. Ydych chi'n gwybod sut mae prosiect Rhagori yn berthnasol i Gynllun Plant a Phobl Ifanc ar gyfer eich ardal? *Beth am gynlluniau/strategaethau eraill (ee cynlluniau gwella'r ysgol, Cymunedau yn Gyntaf)*

**5. Y RHAGLEN Rhagori**

5.1. Oedd angen y rhaglen? Pam? Gafodd hi ei thargedu at yr ysgolion cywir? *Ydych chi'n credu fod targedu cyllid ychwanegol at ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau difreintiedig yn gallu eu gwarthnodi nhw?*

5.2. Beth ydi cryfderau allweddol y rhaglen Rhagori?

5.3. Beth ydi gwendidau allweddol y rhaglen Rhagori?

5.4. Pa mor gyflin oedd Rhagori â rhaglenni a pholisïau eraill Llywodraeth cynulliad Cymru?

5.5. Ydych chi'n credu fod Rhagori yn cynrychioli gwerth da am arian?

5.6. Allai'r arian fod wedi'i ddefnyddio'n fwy effeithiol? Sut?

**6. Y DYFODOL**

6.1. Beth ydych chi'n ddisgwyl fydd yn digwydd pan fydd arian Rhagori yn dechrau gostwng (yn 2009/10)? *Pa wahaniaethau fydd ar ôl, os o gwbl?*

6.2. Beth ydych chi'n gredu y byddwch chi wedi'i ddysgu gan Rhagori? *Sut byddwch chi'n defnyddio'r wybodaeth hon?*

6.3. Pe baech chi'n gwneud hyn eto, beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol?

## 7. UNRHYW BETH ARALL

7.1. Oes yna unrhyw beth arall nad ydym ni wedi sôn amdano yr hoffech chi dynnu sylw ato?

**DIOLCH YN FAWR**